21 Darfydded y pechad- | uriaid : o'r | tir, || na
fydded yr | annuw- | iolion | mwy. ||

22 Fy enaid, bendithia | di yr | Arglwydd. ||
3

Mol- | weh yr | Är- | glwydd. ||

32

SALM CXI.

MOLWCH yr Arglwydd. Clodforaf yr Arglwydd
â'm | höll | galon, || yng nghymanfa y rhai
| uniawn, : ac yn y | gynull- | eidfa. ||

2 Mawr yw gweith- | redoedd yr | Arglwydd, ||
wedi eu | ceisio : gan | bawb a'u | hoffant. ||

3 Gogoniant a harddwch yw ei | wäith | Ef ; ||
a'i gyf- | iawnder : sy'n par- | häu | byth. ||

4 Gwnaeth gofio ei | ryfedd- | odau ; || graslawn
a thru- | garog | yw yr | Arglwydd. ||

5 Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i | hofnant | Ef ; ||
Efe a gofia ei gyf- | amod yn | drä- | gywydd. ||

6 Mynegodd i'w bobl gad- | ernid : ei weith-
| redoedd, || i roddi | iddynt : eti- | feddiaeth : y
cen- | hedloedd. ||

7 Gwirionedd a barn yw gweithredoedd ei
| ddwyllaw | Ef ; || ei holl orch- | mynion | ydynt
| sicr ; ||

8 Wedi eu sicrhau byth ac yn | drä- | gywydd, ||
a'u | gwneuthur : mewn gwir- | ionedd : ac un-
| iawnder. ||

9 Anfonodd ym- | wared i'w | bobl ; || gorch-
mynnodd ei gyfamod yn dragwyddol ; sancteiddiol
ac ofn- | adwy : yw ei | enw | Ef. ||

10 Dechreuad doethineb yw | ofn yr | Arglwydd ; ||
deall da sydd gan y rhai a wnânt ei orchmynion
Ef ; y mae ei foliant | Ef : yn par- | häu | byth. ||

33

SALM CXIII.

MOLWCH yr Arglwydd. Gweision yr Arglwydd,
molwch, ie, | molwch : enw yr | Arglwydd. ||
Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd o hyn | allan
: ac yn | drä- | gywydd. ||

2 O godiad haul hyd ei fachludiad, moliannus
yw | enw yr | Arglwydd. || Uchel yw yr Arglwydd
goruwch yr holl genhedloedd ; a'i o- | goniant
: sydd gor- | uwch y | nefoedd. ||

3 Pwy sydd fel yr Arglwydd ein Duw ni, yr
Hwn sydd yn pres- | wyllo yn | uchel, || yr Hwn a
ymddarostwng i edrych y pethau yn y | nefoedd,
: ac | yn y | ddaear ? ||

4 Efe sydd yn codi y | tlawd o'r | llwch, || ac yn
dyr- | chafu : yr ang- | henus : o'r | domen, ||

5 I'w osod gyda | phendef- | igion, || ie, | gyda
: phendef- | igion ei | bobl. ||

6 Yr hwn a wna i'r amhlantadwy gadw tÿ, a
bod yn | llawen : fam | plant. || Can- | molwch yr
| Är- | glwydd. ||

LAMED.

YN dragywydd, O Arglwydd, y mae dy air wedi
ei sier- | hau : yn y | nefoedd. || Dy wirionedd
sydd hyd gen- | hedlaeth | a chen- | hedlaeth ; ||

2 Seiliaist y ddaear, a | hi a | saif. || Wrth dy
farnedigaethau y safant heddiw ; canys dy | weision
: yw | pöb | peth. ||

3 Oni bai fod dy ddeddf yn hy- | frydwch i
| mi, || darfuasai yna am- | danaf | yn fy | nghystudd. ||

4 Byth nid anghofiaf dy orchmynion ; canys
â | hwynt : y'm byw- | heaist. || Eiddot Ti ydwyf,
cadw fi ; o- | herwydd : dy orch- | mynion a | geisiais.

5 Y rhai annuwiol a ddisgwyliasant am- | danaf
: i'm di- | fetha ; || ond dy dystiolaethau | Di : a ys-
| tyriaf | fi. ||

6 Yr ydwyf yn gweled diwedd ar | bob per-
| ffeithrwydd ; || ond dy orchmyn | Di sydd | drä
| eang. ||

MEM.

1 Mor gu gennyf dy | gyfraith | Di ! || hi | yw
: fy my- | fyrdod | beunydd. ||

2 Â'th orchmynion yr ydwyf yn fy ngwneuthur
yn | ddoethach : na'm gel- | ynion ; || canys | byth
y : maent | gyda | mi. ||

3 Deellais fwy na'm | holl ath- | rawon ; || oherwydd
dy dystiol- | aethau | yw fy my- | fyrdod. ||

4 Deellais yn | well : na'r hen- | uriaid, || am fy
mod yn | cadw : dy orch- | mynion | Di. ||

5 Atelais fy nhroed oddi wrth bob llwybr drwg,
fel y cadwn dy | äir | Di. || Ni chiliais oddi wrth dy
farnedigaethau ; o- | herwydd | Ti a'm | dysgaist. ||

6 Mor felys yw dy eiriau i'm genau ! melysach
na | mêl i'm | safn. || Trwy dy orchmynion Di y
pwyllais ; am hynny cas- | eais | bob gau | lwybr. ||

35

SALM CXXI.

DYRCHAFAF fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r
lle y | daw fy | nghymorth. || Fy nghymorth a
ddaw oddi wrth yr Arglwydd, yr | Hwn a : wnaeth
| nefoedd a | daear. ||

2 Ni ad Efe i'th droed lithro ; ac ni | huna dy
| Geidwad. || Wele, ni huna ac ni | chwsg | Ceidwad
| Israel. ||

3 Yr Arglwydd yw dy Geidwad ; yr Arglwydd
yw dy | gysgod : ar dy dde- | heulaw. || Ni'th dery
yr haul y | dydd ; na'r | lleuad y | nos. ||

4 Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg ; Efe
a | geidw dy | enaid. || Yr Arglwydd a geidw dy
fynediad a'th ddyfodiad, o'r pryd | hwn : hyd yn
| drä- | gywydd. ||

36

SALM CXXII.

LLAWENYCHAIS pan ddywedent wrthyf, | Awn
i : dŷ yr | Arglwydd. || Ein traed a safant o
fewn dy | byrth di, | O Je- | riwsalem. ||

2 Jeriwsalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei
chydgy- | ylltu : ynddi ei | hun. || Yno yr esgyn y
| llwythau, | llwythau yr | Arglwydd, ||

3 Yn dyst- | iolaeth : i | Israel, || i fol- | iannu
| enw yr | Arglwydd. ||

4 Canys yno y gosodwyd gorsedd- | feinciau
| barn, || gorsedd- | feinciau | tŷ | Dafydd. ||

5 Dymunwch heddwch Jeriwsalem ; llwydded y
| rhai a'th | hoffant. || Heddwch fyddo o fewn dy
ragfur, a | ffyniant | yn dy | blasau. ||

6 Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf
yn awr, | Heddwch : fyddo i | ti. || Er mwyn tŷ
yr Arglwydd ein Duw, y | ceisiaf i | ti dda- | ioni. ||

37

SALM CXXX.

O'R dyfnder y llefais arnat, O Arglwydd. Ar-
glwydd, | clyw fy | llefain; || ystyried dy
| glustiau : wrth | lef : fy ngwedd- | iau. ||

2 Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd,
| pwy a | saif ? || Ond y mae gyda Thi fadd- | euant,
| fel y'th | ofner. ||

3 Disgwyliaf am yr Arglwydd, | disgwyl fy | enaid, ||
ac yn ei | air Ef | y go- | beithiaf. ||

4 Fy enaid sydd yn disgwyl am yr Arglwydd,
yn fwy nag y mae y | gwylwyr : am y | bore ; ||
yn fwy nag y mae y | gwylwyr | am y | bore. ||

5 Disgwylid | Israel : am yr | Arglwydd ; ||
oherwydd y mae trugaredd gyda'r Arglwydd, ac
| aml ym- | wared : gydag | Ef. ||

6 Ac Efe a | wared | Israel || oddi | wrth eu | holl
: anwir- | eddau. ||

38

SALM CXXXIX.

ARGLWYDD, chwiliaist, ac adna- | buost
| fi. || Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm
cyfodiad ; de- | elli : fy | meddwl : o | bell. ||

2 Amgylchyni fy | llwybr : a'm gor- | weddfa ; ||
a hysbys | wyt : yn fy | höll | ffyrdd. ||

3 Canys nid oes | air : ar fy | nhafod, || ond wele,
Arglwydd, | Ti a'i | gwyddost | oll. ||

4 Amgylchynaist fi yn | ôl : ac ym- | laen, ||
a gos- | odaist dy | läw | arnaf. ||

5 Dyma wybodaeth ry | ryfedd i | mi ; || uchel
yw, ni | fedraf | oddi | wrthi. ||

6 I ba le yr af oddi | wrth dy | Ysbryd ? ||
ac i ba | le y | ffoaf : o'th | wydd ? ||

7 Os dringaf i'r nefoedd, | yno yr : wyt | Ti ; ||
os cyweiriaf fy ngwely yn | uffern, | wele : Di | yno. ||

8 Pe cymerwn ad- | enydd y | wawr, || a phe
| trigwn : yn eith- | afoedd y | môr ; ||

9 Yno hefyd y'm ty- | wysai : dy | law. || ac y'm
| daliai | dy dde- | heulaw. ||

10 Pe dywedwn, Diau y ty- | wyllwch : a'm
| cuddiai ; || yna y byddai y | nos : yn o- | leuni
: o'm | hamgyleh. ||

11 Ni thywylla y tywyllwch rhagot Ti ; ond y
nos a o- | leua : fel | dydd ; || un ffunud yw ty-
| wyllwch : a go- | leuni i | Ti. ||

12 Canys Ti a fedd- | iennaist : fy ar- | ennau ; ||
toaist | fi yng | nghroth fy | mam. ||

13 Clodforaf Di ; canys ofnadwy a | rhyfedd
: y'm | gwnaed ; || rhyfedd yw dy weithredoedd : a'm
| henaid a | wŷyr : hynny yn | dda. ||

14 Am hynny, mor werthfawr yw dy feddyliau
| gennyf, : O | Dduw ! || mor | fawr : yw eu | swm
| hwynt ! ||

15 Pe cyfrifwn hwynt, | amlach : ydynt na'r
| tywod ; || pan ddefrowyf, gyda | Thi yr | ydwyf
yn | wastad. ||

16 Chwilia fi, O Dduw, a | gwybydd fy | nghalon ; ||
prawf fi, a | gwybydd | fy medd- | yliau ; ||

17 A gwêl a oes ffordd an- | nuwiol | gennyf, ||
a | thywys fi : yn y | ffordd dra- | gwyddol. ||

39

SALM CXLV.

DYRCHAFAF Di, fy | Nuw, O | Frenin ; || a
bendithiaf dy | enw | byth ac : yn dra-
| gywydd. ||

3

2 Beu- | nydd : y'th fen- | dithiaf ; || a'th enw
a folaf | byth : ac yn | drä- | gywydd. ||

3 Mawr yw yr Arglwydd, a chanmol- | adwy
| iawn ; || a'i | fawredd : sydd | anchwil- | iadwy. ||

4 Graslawn a thru- | garog : yw yr | Arglwydd ; ||
hwyrfrydig i ddig, a | mäwr | ei dru- | garedd. ||

5 Daionus yw yr | Arglwydd i | bawb ; || a'i dru-
| garedd sydd : ar ei | holl weith- | redoedd. ||

6 Dy holl weithredoedd a'th glod- | forant
: O | Arglwydd, || a'th | säint | a'th fen- | dithiant. ||

7 Dy frenhiniaeth Di sydd fren- | hiniaeth : dra-
| gwyddol ; || a'th lywodraeth a | bery yn | öes
| oesoedd. ||

8 Yr Arglwydd sydd yn cynnal y rhai | oll a
| syrthiant, || ac sydd yn codi | pawb a | ddaros-
| tyngwyd. ||

9 Llygad pob peth a ddis- | gwyliant | wrthyt ; ||
ac yr ydwyf yn rhoddi eu | bwyd : iddynt | yn ei
| bryd ; ||

10 Gan ag- | oryd dy | law, || a diwallu pob peth
| byw : â'th e- | wyllys | da. ||

11 Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei | höll | ffyrdd, ||
a | sanctaidd : yn ei | holl weith- | redoedd. ||

12 Agos yw yr Arglwydd at y rhai oll a | alwant
| arno, || at y rhai oll a | alwant : arno | mewn gwir-
| ionedd. ||

13 Efe a wna ewyllys y | rhai a'i | hofnant ; ||
gwrendy hefyd eu | llefain, : ac a'u | hachub | hwynt. ||

14 Yr Arglwydd sydd yn cadw pawb a'i | carant
| Ef ; || ond yr holl rai an- | nuwiol : a ddi- | fetha
E- | fe. ||

15 Traetha fy ngenau | foliant yr | Arglwydd ; ||
a bendithied pob cnawd ei enw sanctaidd Ef | byth
: ac yn | drä- | gywydd. ||

40

SALM CXLVII.

MOLWCH yr Arglwydd ; canys da yw canu
i'n | Düw | ni ; || oherwydd | hyfryd yw,
: ie, | gweddus yw | mawl. ||

2 Yr Arglwydd sydd yn adeil-|adu Je-| riwsalem ; ||
Efe a | gasgl : wasgared- | igion | Israel. ||

3 Efe sydd yn iacháu y rhai briw -|edig o | galon, ||
ac yn | rhwymo | eu dol- | uriau. ||

4 Y mae Efe yn rhifo rhif- | edi y | sêr ; ||
3

gei- | lw hwynt | oll : wrth eu | henwau. ||

5 Mawr yw ein Harglwydd, a | mawr ei | nerth ; ||
an- | eirif | yw ei | ddeall. ||

6 Yr Arglwydd sydd yn dyr- | chafu : y rhai
| llariaidd, || gan | ostwng y : rhai an- | nuwiol
: hyd | lawr. ||

7 Cydgenwch i'r Arglwydd mewn | diolch- | gar-
3

wch ; || cen- | wch i'n | Duw â'r | delyn ; ||

8 Yr Hwn sydd yn toi y | nefoedd : â chy-| mylau, ||
yn paratoi glaw i'r ddaear, gan beri i'r gwellt
| dyfu | ar y myn- | yddoedd.

9 Efe sydd yn rhoddi i'r an- | ifail : ei | borthiant, ||
ac i | gywion y | gigfran, : pan | lefant. ||

10 Nid oes hyfrydwch ganddo yn | nêrth | march ; ||
ac nid ymhoffa E- | fe : yn es- | geiriau | gŵr. ||

11 Yr Arglwydd sydd hoff ganddo y rhai a'i
| hofnant | Ef ; || sef y rhai a ddisgwyliant | wrth
ei dru- | garedd | Ef. ||

12 Jeriwsalem, mola di yr Arglwydd ; Seion,
mol- | ianna dy | Dduw. || Oherwydd Efe a gadarn-
haodd farrau dy byrth ; Efe a fen- | dithiodd dy
| blant o'th | fewn. ||

13 Yr Hwn sydd yn gwneuthur dy | fro : yn hedd-
| ychol, || ac a'th ddi- | walla : di â | braster | gwenith. ||

14 Yr Hwn sydd yn anfon ei or- | chymyn : ar y
| ddaear ; || a'i | air a | red yn : dra | buan. ||

15 Yr Hwn sydd yn rhoddi | eira fel | gwlân ; ||
ac a | daena | rew fel | lludw. ||

16 Yr Hwn sydd yn bwrw ei|îâ : fel tam- | eidiau ; ||
pwy a | erys : gan ei | oerni | ef ? ||

17 Efe a enfyn ei air, ac a'u | täwdd | hwynt ; ||
â'i wynt y | chwÿth E- : fe, a'r | dyfroedd a | lifant. ||

18 Y mae Efe yn mynegi ei | eiriau i | Jacob, ||
ei ddeddfau a'i | farnedig- | aethau i | Israel. ||

19 Ni wnaeth Efe felly ag | ün | genedl ; || ac nid
adnabuant ei farnedig- | aethau : Ef. | Molwch yr
| Arglwydd. ||

41 ESAIA XXV, XXVI.

AC ARGLWYDD y lluoedd a wna i'r holl bobloedd
yn y mynydd hwn wledd o basgedigion,
| gwledd o | loywwin ; || o basgedigion breision, a
| gloyw- | win pur- | edig. ||

2 Ac Efe a ddifa yn y mynydd hwn y gorchudd
sydd yn gor- | chuddio yr : holl | bobloedd, || a'r
llen, yr hon a | daenwyd : ar yr | holl gen- | hedloedd. ||

3 Efe a lwnc angau mewn | buddug- | oliaeth ; ||
a'r Arglwydd Dduw a sych ymaith | ddaagrau : oddi
| ar bob | wÿneb ; ||

4 Ac Efe a dyn ymaith warthrudd ei bobl oddi
| ar yr : holl | ddaear ; || canys yr | Arglwydd | a'i
llef- | arodd. ||

5 A'r dydd hwnnw y dywedir, Wele, dyma ein
| Düw | ni ; || gobeithiasom | ynddo, : ac E- | fe
a'n | ceidw. ||

3

6 Dy- | ma yr | Arglwydd ; || gobeithiasom ynddo,
gorfoleddwn a llawenychwn yn ei | iechyd- | wriaeth
| Ef. ||

7 Dinas | gadarn : sydd i | ni ; || Duw a esyd
iechyd-wriaeth yn | gaerau | ac yn | rhagfur. ||

8 Agorwch y pyrth, fel y dêl y genedl | gyfiawn i
| mewn, || yr | hon a | geidw wir- | ionedd. ||

9 Ti a gedwi mewn tangnefedd heddychol yr
hwn sydd â'i fedd- | ylfryd : arnat | T; || am ei
| fod yn ym- | ddiried | ynot. ||

10 Ymddiriedwch yn yr | Arglwydd | byth ; ||
oherwydd yn yr Arglwydd Dduw y | mae cad-
| ernid : tra- | gwyddol.

42

ESAIA XL. RHAN I.

CYSURWCH, cysurwch fy | mhobl, medd eich
| Duw. || Dywedwch wrth | född | calon Je-
| riwsalem, ||

2 Llefwch wrthi hi, gyflawni ei milwriaeth, ddi-
| leu : ei han- | wiredd ; || oherwydd derbyniodd o
law yr Arglwydd yn ddau- | ddyblyg : am ei | holl
bech- | odau. ||

3 Llef un yn | llefain : yn yr an- | ialwch, || Para-
towch ffordd yr Arglwydd, unionwch lwybr i'n
| Düw | ni : yn y di- | faethwch. ||

4 Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a | bryn
: a os- | tyngir ; || y gŵyr a wneir yn uniawn, a'r
an- | wastad | yn was- | tadedd. ||

5 A gogoniant yr Arglwydd a ddatguddir, a phob
cnawd yng- | hyd a'i | gwêl ; || canys genau yr
| Arglwydd : a lef- | arodd | hyn. ||

6 Y llef a ddywedodd, Gwaedda. Yntau a ddy-
wedodd, | Beth a | waeddaf ? || Pob cnawd sydd
wellt, a'i holl odid- | owgrwydd : fel blod- | euyrn y
| maes. ||

7 Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn ; canys
Ysbryd yr Arglwydd a | chwythodd | arno ; || gwellt
yn | ddiau | yw y | bobl. ||

8 Gwywa y gwelltyn, | syrth : y blod- | euynd ; ||
ond gair ein | Duw : ni a | säif | byth. ||

9 Dring rhagot, yr efengyles Seion, i | fynydd
| uchel ; || dyrchafa dy lef trwy nerth, O | efeng-
| yles Je- | riwsalem. ||

10 Dyrch- | afa, : nac | ofna ; || dywed wrth
ddinasoedd Jiwda, | Wele : eich | Düw | chwi. ||

11 Wele, yr Arglwydd Dduw a ddaw fel cadarn,
a'i fraich a lywod- | raetha | drosto ; || wele ei wobr
| gydag : Ef, a'i | waith o'i | flaen. ||

12 Fel bugail y portha E- | fe ei | braidd ; ||
â'i fraich y casgl ei wÿn, ac a'u dwg yn ei fynwes,
ac a gol- | edda | y mam- | ogiaid. ||

43

ESAIA XL. RHAN 'II.

PWY a fesurodd y | dyfroedd : yn ei | ddwrn, ||
ac a fes- | urodd y | nefoedd : â'i | rychwant, ||

2 Ac a gymhwysodd bridd y ddaear mewn mesur,
ac a bwysodd y myn- | yddoedd : mewn | pwysau, ||
a'r | bryniau | mewn clor- | iannau ? ||

3 Pwy a gyfarwyddodd | Ysbryd yr | Arglwydd, ||
ac yn wÿr o'i gyngor a'i | cyfar- | wyddodd | Ef ? ||

4 Â phwy yr ymgynghorodd Efe, ie, | pwy a'i
: cyfar- | wyddodd, || ac a'i | dysgodd yn | llwybr
| barn, ||

5 Ac a | ddysgodd : iddo wy- | bodaeth, || ac a
ddan- | gosodd : iddo | ffordd : deall- | twriaeth ? ||

6 Wele, y cenhedloedd a gyfrifwyd fel defnyn
o gelwrn, ac fel mân | lwch : y clor- | iannau ; ||
wele, fel brycheuyn y cymer E-|fe : yr yn-|ysoedd i
| fyny. ||

7 I bwy gan hynny y'm | cyffel- | ybwch, ||
ac y'm cys- | tedlir ? | medd y | Sanct. ||

8 Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch
pwy a greodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt
| allan : mewn rhif- | edi ; || Efe a'u geilw hwynt oll
wrth eu henwau ; gan amllder ei rym Ef, a'i gadarn
| allu, : ni | phalla | un. ||

9 Paham y dywedi, Jacob, ac y llef- | eri, | Israel, ||
Cuddiwyd fy ffordd oddi wrth yr Arglwydd, a'm
| barn : a aeth | heibio i'm | Duw ? ||

10 Oni wyddost, oni chlywaist, na ddiffygia
ac na fina Duw tragwyddoldeb, yr Arglwydd,
Creawdwr | cyrrau y | ddaear ? || ni ellir chwilio
| allan ei | synnwyr | Ef. ||

11 Yr Hwn a rydd | nerth : i'r di- | ffygiol, ||
ac a aml- | hä | gryfder : i'r di- | rym, ||

12 Canys yr ieuencid a ddi- | ffygia : ac a | fina, ||
a'r gwŷr | ieuaine : gan | syrthio : a | syrthiant. ||

13 Eithr y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a
adnew- | yddant eu | nerth ; || e- | hedant | fel er-
| yrod ; ||

3

14 Rhedant, ac | ni | flinant ; || rhod- | iant, ac | ni
ddi- | ffygiant. ||

44

ESAIA LIII.

PWY a | gredodd : i'n hym- | adrodd ? || ac i
bwy y dat- | guddiwyd | braich yr | Arglwydd ? ||

2 Canys Efe a dyf o'i flaen Ef fel blaguryn, ac
fel gwreiddyn o dir sych ; nid oes na phryd na
| thegwch | iddo ; || pan edrychom arno, ni bydd
| pryd : fel y dym- | unem | Ef. ||

3 Dirmygedig yw, a diys- | tyraf o'r | gwŷr ; ||
Gŵr go- | fidus, : a chyn- | efin â | dolur ; ||

4 Ac yr oeddym megis yn cuddio ein hŵyn-
| ebau : oddi | wrtho ; || dirmygedig oedd, ac ni
| wnaethom | gyfrif o- | hono. ||

5 Diau Efe a gymerth ein gwendid ni, ac a
| ddug : ein dol- | uriau ; || eto ni a'i cyfrifasom Ef
wedi ei faeddu, ei | daro gan | Dduw, : a'i gys-
| tuddio. ||

6 Ond Efe a archollwyd am ein camweddau ni,
Efe a ddrylliwyd am ein hanwir- | eddau | ni ; ||
cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno Ef ; a
thrw y ei | gleisiau : Ef yr iach- | awyd | ni. ||

7 Nyni oll a grwydrasom fel defaid ; troesom
bawb i'w | ffordd ei | hun ; || a'r Arglwydd a roddes
arno Ef ein han- | wiredd | ni i | gyd. ||

8 Efe a orthrymwyd, ac Efe a gystuddiwyd, ac
nid a- | gorai ei | enau ; || fel oen yr arweinid Ef
i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifiai,
felly nid a- | gorai | Yntau : ei | enau. ||

9 O garchar ac o farn y cymerwyd Ef ; a phwy
a draetha ei | öes | Ef ? || canys Efe a dorrwyd o
dir y rhai byw ; rhoddwyd pla arno | Ef am | gam-
wedd fy | mhobl. ||

10 Ac Efe a wnaeth ei fedd gyda'r rhai anwir,
a chyda'r cy- | foethog : yn ei far- | wolaeth ; || am
na wnaethai gam, ac | nad oedd | twyll : yn ei
| enau. ||

11 Eithr yr Arglwydd a fynnai ei ddryllio Ef ;
E- | fe a'i | clwyfodd ; || pan osodo Efe ei enaid yn
aberth dros bechod, Efe a wêl ei had, Efe a estyn
ei ddyddiau ; ac ewyllys yr Arglwydd a | lwydda
: yn ei | läw | Ef. ||

12 O lafur ei enaid y gwêl, ac | y di- | wellir ; ||
fy Ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei
wybodaeth ; canys Efe a ddwg eu | hanwir- | eddau
| hwynt. ||

13 Am hynny y rhannaf iddo ran gyda llawer,
ac Efe a ranna yr | ysbail : gyda'r | cedyrn ; || am
iddo dywallt ei | enaid | i far- | wolaeth ; ||

14 Ac Efe a gyfrifwyd | gyda'r tros- | eddwyr ; ||
ac Efe a ddug bechodau llaweroedd, ac a eir- | iolodd
| dros : y tros- | eddwyr. ||

45

ESAIA LV.

O | DEUWCH i'r | dyfroedd, || bob un y mae
syched arno, ie, yr | hwn : nid oes | arian
| gando ; ||

2 Deuwch, | prynwch, : a bwyt- | ewch ; || ie,
deuwch, prynwch win a llaeth, heb | arian, | a
heb | werth. ||

3 Ceisiwch yr Arglwydd, tra galler ei | gael
| Ef ; || gelwch | arno, : tra | fyddo yn | agos. ||

4 Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwŷr | anwir :
ei fedd- | yliau ; || a dychweled at yr Arglwydd, ac
Efe a gymer drugaredd arno ; ac at ein Duw ni,
oherwydd E- | fe a | arbed yn | helaeth. ||

5 Canys nid fy meddyliau I yw eich medd- | yliau
| chwi, || ac nid eich ffyrdd chwi yw fy | ffyrdd | I,
: medd yr | Arglwydd. ||

6 Canys fel y mae y nefoedd yn | uwch na'r
| ddaear, || felly uwch yw fy ffyrdd I na'ch ffyrdd
chwi, a'm meddyliau | I : na'ch medd- | yliau | chwi. ||

7 Canys fel y disgyn y glaw a'r eira o'r nefoedd,
ac ni | ddychwel | yno, || eithr dyfrha y ddaear, ac
a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r
| heuwr, : a | bara : i'r bwyt- | awr ; ||

8 Felly y bydd fy ngair, yr hwn a ddaw o'm
genau ; ni | ddychwel : ataf yn | wag ; || eithr efe
a wna yr hyn a fynnywyf, ac a lwydda yn y peth yr
an- | fonais | ef o'i | blegid. ||

9 Canys mewn llawenydd yr ewch allan, ac
mewn | hedd : y'ch ar- | weinir ; || y mynyddoedd
a'r bryniau a floeddiant ganu o'ch blaen, a holl
goed y | maes a | gurant | ddwylaw. ||

10 Yn lle drain y cyfyd ffynidwydd, yn lle mieri
y | cyfyd | myrtwydd ; || a hyn fydd i'r Arglwydd
yn enw, ac yn arwydd tragwyddol, yr | hwn ni
| thorrir | ymaith. ||

46

GALARNAD III.

TRUGAREDDAU yr Arglwydd yw na ddarfu
am- | danom | ni ; || oherwydd ni phalla ei
| dostur- | iaethau | Ef. ||

2 Bob bore y | deuant o | newydd ; || mawr
| yw | dy ffydd- | londeb. ||

3 Yr Arglwydd yw fy rhan i, | medd fy | enaid ; ||
am | hynny : y go- | beithiaf | ynddo. ||

4 Daionus yw yr Arglwydd i'r rhai a ddis-
| gwylant | wrtho, || ac i'r | enaid | ä'i | ceisio. ||

5 Da yw gobeithio a disgwyl yn ddistaw am
iechyd- | wriaeth yr | Arglwydd. || Da yw i w'r | ddwyn
yr | iau yn : ei ieu- | entid. ||

6 Efe a eistedd ei hunan, ac a dau â sôn ; am
iddo ei | dwyn hi | arno. || Efe a ddyry ei enau yn
y llwch, i | edrych | a oes | obaith. ||

7 Efe a ddyry ei gern i'r | hwn a'i | trawo ; ||
efe a | lenwir | â gwar- | adwydd. ||

8 Oblegid nid yn dragywydd y | gwrthyd yr
| Arglwydd. || Ond er iddo gystuddio, eto Efe a
dosturia yn ôl | amllder ei | drugar- | eddau. ||

9 Canys nid o'i fodd y blina Efe, nac y cys- | tudia,
: blant | dynion. || I fathru holl garchar- | orion y
| ddaear : dan ei | draed, ||

10 I w'yro barn gŵr o flaen | w'yneb : y Gor-
| uchaf. || Nid yw yr Arglwydd yn gweled yn dda
wneuthur | cam â | gŵr : yn ei | fater. ||

11 Pwy a ddywaid y bydd dim, heb i'r | Arglwydd
: ei orch- | ymyn ? || oni ddaw o enau y Gor- | uchaf
| ddrwg a | da ? ||

12 Paham y grwgnach dyn byw, gŵr am gos-
bedigaeth ei bechod ? Ceisiwn a chwiliwn ein ffyrdd,
a dy- | chwelwn : at yr | Arglwydd. || Dyrchafwn
ein calonnau a'n | dwylaw : at | Dduw : yn y
| nefoedd. ||

47

HABACUC III.

C **LYWAIS**, O Arglwydd, dy | air, ac | ofnais ; ||
O Arglwydd, bywha dy | waith yng | nghanol
: y blyn- | yddoedd, ||

2 Pâr wybod yng | nghanol : y blyn- | yddoedd ; ||
yn dy | lid | cofia dru- | garedd. ||

3 Duw a | ddaeth o | Teman, || a'r | Sanctaidd o
| fynydd | Paran. ||

4 Ei ogoniant a | dodd y | nefoedd, || a'r | ddaear
: a | lanwyd : o'i | fawl. ||

5 A'i lewyrch oedd | fel go- | leuni ; || yr oedd
cyrn iddo yn | dyfod | allan : o'i | law ; ||

6 Ac yno yr oedd | cuddiad ei | gryfder. || Aeth
yr haint o'i flaen Ef, ac aeth marwor tanllyd | allan
: wrth ei | draed | Ef. ||

7 Safodd, a mes- | urodd y | ddaear ; || edrychodd,
a gwas- | garodd | y cen- | hedloedd ; ||

8 Y mynyddoedd tragwyddol hefyd a ddrylliwyd,
3
a'r bryniau | oesol : a grym- | asant ; || llwy- | brau tra-
| gwyddol : sydd | iddo. ||

9 Y mynyddoedd a'th welsant, | ac a gryn-
| asant ; || y llif- | eiriant | dwfr : a aeth | heibio ; ||

10 Y dyfnder a | wnäeth | dwrf ; || cyfododd
| hefyd ei | ddwylaw yn | uchel. ||

11 Yr haul a'r lleuad a | safodd : yn eu pres-
| wylfa ; || wrth oleuad dy saethau yr aethant, ac
wrth | lewyrch : dy | waywffon | ddisglair. ||

12 Aethost allan er iechydwrriaeth i'th bobl, er iechydwrriaeth yng- | hyd : â'th en- | einiog ; || torraist y pen allan o dŷ yr anwir, gan ddi-|noethi y | sylfaen : hyd y | gwddf. ||

13 Er i'r ffigysbren na flodeuo, ac na byddo | ffrwyth : ar y | gwinwydd ; || gwaith yr oléwydd a balla, a'r | meysydd : ni | roddant | fwyd ; ||

14 Torrir ymaith y praidd o'r gorlan, ac ni bydd | eidion : yn eu | beudai ; || eto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd ; byddaf hyfryd yn | Nuw fy | iechyd- | wrriaeth. ||

48 ECCLESIASTICUS XLIV. 1—15.

CANMOLWN yn | awr y : gwŷr | enwog, || a'n | tadau : a'n cen- | hedlodd | ni. ||

2 Llauer o ogoniant a wnaeth yr Arglwydd trwyddynt hwy, â'i | fawredd er- | ioed. || Y rhai a lywodraethasant ar eu teyrnasoesedd, ac oeddynt wŷr enwog o allu, yn cynghori yn synhwyrol, ac yn | traethu | proffwydol- | iaethau ; ||

3 Blaenorwyr y bobl trwy eu cyngor, a thrwy ddeall | addysg y | bobl ; || doethion ac ymadroddus | oeddynt | yn eu hath- | rawiaeth ; ||

4 Hwyl a geisiasant allan fe- | lystra | cerdd, || ac a draeth- | asant gan- | iadau : sgrifen- | edig ; ||

5 Gwŷr cyfoethogion, | cedyrn o | nerth, || a heddychlon yn eu | cartref | oeddynt | hwy. ||

6 Y rhai hyn oll yn eu cenedlaethau a | gawsant o- | goniant, || a gor- | foledd | yn eu | dyddiau. ||

7 Bu rai ohonynt hwy gyfryw ag a adawsant | enw : ar eu | hôl || fel y myn- | egid : eu | clöd | hwynt ; ||

8 Bu hefyd rai heb fod | coffa : am- | danynt, || y rhai y darfu amdanynt fel pe na buasant, ac a aethant fel pe nas ganesid hwynt, a'u | plant : ar eu | hôl | hwynt. ||

9 Eithr gwŷr tru- | garog : oedd y rhai | hyn, ||
cyf- | iawnder y | rhai : nis ang- | hofiwyd. ||

10 Gyda'u hiliogaeth hwynt yr erys eti- | feddiaeth
| dda ; || y mae eu hiliogaeth hwynt | yn y cyf-
| amod | hefyd ; ||

11 Y mae eu hiliogaeth hwynt | yn y cyf-|amod ; ||
a'u | plânt | ar eu | hól. ||

12 Byth y | pery : eu hil- | iogaeth ; || a'u go-
| goniant | ni ddi- | leir. ||

13 Eu cyrff a | gladdwyd : mewn | heddwch ; ||
ac y mae eu | henw yn | bŷw | byth. ||

14 Y bobl a fynegant eu doeth- | ineb | hwy, ||
a'r gynulleidfa a | draetha : eu | clod | hwynt. ||

49 MATHEW V. 3—11.

GWYN eu byd y | tlodion : yn yr | ysbryd ; ||
cansys | eiddynt yw | teyrnas | nefoedd. ||

2 Gwyn eu byd y | rhai : sydd yn ga- | laru ; ||
cansys | hŵy | a ddi- | ddenir. ||

3 Gwyn eu | byd : y rhai | addfwyn ; || cansys
| hwy a : eti- | feddant y | ddaear. ||

4 Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a
| syched : am gyf- | iawnder ; || cansys | hwy | a ddi-
| wellir. ||

5 Gwyn eu | byd y rhai : trugar- | ogion ; ||
cansys | hwy a | gânt dru- | garedd. ||

6 Gwyn eu byd y rhai | pur o | galon ; || cansys
| hwy a | welant | Dduw. ||

7 Gwyn eu | byd y : tangnef- | eddwyr ; || cansys
hwy a | elwir yn | blant i | Dduw. ||

8 Gwyn eu byd y rhai a erlidir o | achos cyf-
| iawnder ; || cansys | eiddynt yw | teyrnas | nefoedd. ||

9 Gwyn eich byd pan y'ch gwaradwyddant, ac
y'ch erlidiant, ac y dywedant bob drygair yn eich
erbyn er fy | mŵyn | I, || a | hŵy | yn gel- | wyddog. ||

10 Byddwch lawen a hyfryd; canys mawr yw eich | gwobr : yn y | nefoedd ; || oblegid felly yr erlidiasant hwy y proffwydi a | fu o'ch | bläen | chwi. ||

50 RHUFEINIAID VIII. 31—39.

BETH gan hynny a ddywedwn ni wrth y | pethau | hyn ? || Os yw Duw trosom, | pwy : a all | fod i'n | herbyn ? ||

2 Yr Hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd Ef | trosom ni | oll ; || pa wedd gydag Ef hefyd na ddyry E- | fe i | ni bob | peth ? ||

3 Pwy a rydd ddim yn erbyn etholed- | igion | Duw ? || Duw yw yr | Hwn : sydd yn | cyfiawn- | hau ; ||

4 Pwy yw yr hwn sydd yn damnio ? Crist yw yr Hwn a fu farw, ie, yn hytrach, yr Hwn a gy- | fodwyd | hefyd ; || yr Hwn hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr Hwn hefyd sydd yn | erfyn | trosom | ni. ||

5 Pwy a'n gwahana ni oddi wrth | gariad | Crist ? || ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu | noethni, : neu en- | bydrwydd, neu | gleddyf ? ||

6 Megis y mae yn ysgrifenedig, Er dy fwyn Di yr ydys yn ein lladd ni ar | hyd y | dydd ; || cyfrifwyd | ni fel | defaid i'r | lladdfa. ||

7 Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn | fwy : na chon- | cwerwyr, || trwy yr | Hwn a'n | carodd | ni. ||

8 Canys y mae yn ddiogel gennyf, na all nac | angau, nac | einioes, || nac angylion, na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau pre- | sennol, : na | phethau i | ddyfod, ||

9 Nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddi wrth | gariad | Duw, || yr hwn sydd | yng Nghrist | Iesu ein | Harglwydd. ||

51 1 CORINTHIAID XIII.

PE llefarwn â thafodau dynion ac angylion a
| heb fod : gennyf | gariad, || yr wyf fel efydd yn
| seinio : neu | symbal yn | tincian. ||

2 A phe byddai gennyf broffwydoliaeth, a
gwybod ohonof y dirgelion oll, a | phob gwy-
| bodaeth ; || a phe bai gennyf yr holl ffydd, fel y
gallwn symudo mynyddoedd, a heb gennyf | gariad,
| nid wyf fi | ddim. ||

3 A phe porthwn y tlodion â'm holl dda, a
phe rhoddwn fy nghorff i'm llosgi, a heb | gariad
| gennyf, || nid yw | ddim lles- | âd i | mi. ||

4 Y mae cariad yn hir-ymaros, yn gymwynasgar ;
cariad nid | yw yn : cenfi- | gennu ; || nid yw cariad
yn ym- | ffrostio : nid | yw : yn ym- | chwyddo. ||

5 Nid yw yn | gwneuthur : yn an- | weddaidd, ||
nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chy- | thruddir
: ni | feddwl | ddrwg ; ||

6 Nid yw lawen am | anghyf- | iawnder, || ond
cydlawen- | hau y | mae : â'r gwir- | ionedd ; ||

7 Y mae yn dioddef pob dim, yn | credu : pob
| dim, || yn gobeithio pob dim, yn ym- | aros : â
| phöb | dim. ||

8 Cariad | byth : ni chwymp | ymaith ; || eithr
pa un bynnag ai proffwydoliaethau, hwy a ballant ;
ai tafodau, hwy a beidiant ; ai gwy- | bodaeth,
| hi : a ddi- | flanna. ||

9 Canys o | ran y | gwyddom, || ac o | ran yr | ydym
: yn pro- | ffwydo. ||

10 Eithr pan ddelo yr | hyn sydd | berffaith, ||
yna yr | hyn : sydd o | ran : a ddi- | leir. ||

11 Pan oeddwn fachgen, fel bachgen y llefarwn,
fel bachgen y deallwn, fel | bachgen : y medd-
| yliwn ; || ond pan euthum yn wŵr, mi a rois | heibio
| bethau bach- | gennaidd. ||

12 Canys gweled yr ydym yr awron trwy ddrych, mewn dameg ; ond | yna, : w̄yneb yn | w̄yneb ; || yn awr yr adwaen o ran ; ond yna yr adna- | byddaf | megis : y'm had- | weinir. ||

13 Yr awr hon y mae yn aros | ffydd, : gobaith, | cariad, || y tri hyn ; a'r | mwyaf : o'r rhai | hyn yw | cariad. ||

52 1 CORINTHIAID XV. 20—26, 51—58.

EITHER yn awr Crist a gyfodwyd oddi | wrth y | meirw, || ac a wnaed yn | flaenffrwyth y | rhai : a hun- | asant. ||

2 Canys gan fod mar- | wolaeth : trwy | ddyn, || trwy ddyn hefyd y | mae : atgy- | fodiad y | meirw. ||

3 Oblegid megis yn Adda y mae | pawb yn | meirw, || felly hefyd yng | Nghrist : y byw- | hēir | pawb. ||

4 Eithr pob un yn ei | drefn ei | hun, || y blaenffrwyth yw Crist ; wedi hynny y rhai ydynt eiddo Crist, | yn ei ddy- | fodiad | Ef. ||

5 Yna y | bydd y | diwedd, || wedi y rhoddo Efe y | deyrnas : i | Dduw a'r | Tad ; ||

6 Wedi iddo ddi- | leu : pob pendef- | igaeth, || a | phob aw- | durdod a | nerth. ||

7 Canys | rhaid : iddo deyrn- | asu, || hyd oni osodo ei holl el- | ynion | dan ei | draed. ||

8 Y gelyn di- | weddaf : a ddi- | nistrir || yw yr | angau. | Ä- | men. ||

9 Wele, yr wyf yn dy- | wedyd i : chwi ddir- | gelwch ; || Ni | hunwn | nī | oll, ||

10 Eithr ni a new- | idir : oll mewn | moment, || ar drawiad | llygad, : wrth yr | utgorn di- | weddaf ; ||

11 Canys yr | utgorn : a | gân, || a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, a | ninnau | a new- | idir. ||

12 Oherwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo
| anllygred- | igaeth, || ac i'r | marwol : hwn | wisgo
: anfar- | woldeb. ||

13 A phan ddarffo i'r llygradwy hwn wisgo
| anllygred- | igaeth, || ac i'r | marwol : hwn | wisgo
anfar- | woldeb. ||

14 Yna y bydd yr ym- | adrodd : a sgrif-|ennwyd, ||
Angau a | lyncwyd : mewn | buddug- | oliaeth. ||

15 O angau, pa | le : mae dy | golyn ? || O uffern,
pa | le : mae dy | fuddug- | oliaeth ? ||

16 Colyn | angau yw | pechod, || a grym | pechod
| yw y | gyfraith. ||

17 Ond i Dduw y | byddo y | diolch, || yr Hwn
sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein | Har-
glwydd | Iesu | Grist. ||

18 Am hynny, fy mrodyr annwyl, byddwch
sier, a diymod, a helaethion yng ngwaith yr | Ar-
glwydd : yn was- | tadol ; || a chwi yn gwybod nad
yw eich llafur chwi yn | ofer | yn yr | Arglwydd. ||

53 DATGUDDIAD I. 5—8, 18 ; XIV. 13 ; VII. 14—17.

I IDDO Ef yr Hwn a'n | carodd | ni, || ac a'n golchodd
ni oddi wrth ein pech- | odau : yn ei | waed ei
| Hun, ||

2 Ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn off-
eiriaid i Dduw a'i | Däd | Ef ; || iddo Ef y byddo y
gogoniant a'r | gallu yn | oës | oesoedd. ||

3 Wele, y mae Efe yn | dyfod : gyda'r cym-|ylau ; ||
a phob | llygad : a'i | gwel | Ef, ||

4 Ie, y rhai a'i gwan- | asant | Ef ; || a holl lwythau
y ddaear a alarant o'i | blegid : Ef. | Felly, : A-
| men. ||

5 Mi yw Alpha ac Oméga, y dechrau a'r diwedd,
| medd yr | Arglwydd, || yr Hwn sydd, a'r Hwn
oedd, a'r Hwn sydd i | ddyfod, : yr | Hollall- | uog. ||

6 A'r Hwn wyf fyw, ac a fûm farw ; ac wele, byw
ydwyf yn oes | oesoedd : A- | men ; || ac y mae gennyf
agor- | iadau | uffern : a mar- | wolaeth. ||

7 Gwyn eu byd y meirw, y rhai sydd yn | marw
: yn yr | Arglwydd, || o hyn | allan, | medd yr |
Ysbryd, ||

8 Fel y gorffwysont oddi | wrth eu | llafur ; ||
a'u gweith- | redoedd : sydd yn eu | canlyn | hwynt. ||

9 Y rhai hyn yw y rhai a ddaethant allan o'r
| cystudd | mawr, || ac a olchasant eu gynau, ac a'u
can- | asant : hwy yng | ngwaed yr | Oen. ||

10 Oherwydd hynny y maent gerbron gor-
| seddfainc | Duw, || ac yn ei wasanaethu Ef
| ddydd a | nos : yn ei | deml ; ||

11 A'r Hwn sydd yn | eistedd : ar yr or- | sedd-
fainc || a | drig : yn eu | plith | hwynt. ||

12 Ni fydd arnynt na newyn mwyach, na | syched
| mwyach ; || ac ni ddisgyn arnynt na'r | häul,
| na dim | gwres. ||

13 Oblegid yr Oen, yr Hwn sydd yng nghanol
yr orseddfainc, a'u bu- | geilia | hwynt, || ac
a'u harwain hwynt at ffyn- | honnau | bywiol o
| ddyfroedd ; ||

14 A Duw a sych | ymaith : bob | deigr || oddi
| wrth eu | llygaid | hwynt. ||

EMYNAU.

MAWL AC ADDOLIAD.

Y MAE'R emynau a ganlyn yn gymwys i'w canu mewn Cyfarfodydd
Diolch am y Cynhaeaf :—2, 11, 18, 29, 32, 33, 36, 39, 41, 42,
44, 59.

1

Mawl i'r Drindod.

11. 12. 12. 10.

1 S ANCTAIDD, sanctaidd, sanctaidd, Dduw Holl-
alluog !

Gyda gwawr y bore dyrchafwn fawl i Ti ;
Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, cadarn a thru-
garog !

Trindod fendigaid yw ein Harglwydd ni !

2 Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd !—nef waredigion

Fwriant eu coronau yn wylaidd wrth dy droed ;
Plygu mae seraffiaid, mewn addoliad fyddlon,

O flaen eu Crêwr sydd yr un erioed.

3 Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd ! cwmwl a'th
gylchyna,

Gweled dy ogoniant ni all anianol un ;
Unig Sanctaidd ydwyt, dwyfol bur Jehofa,
Perffaith mewn gallu, cariad, wyt dy Hun.

4 Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, Dduw Holl-
alluog !

Datgan nef a daear eu mawl i'th enw Di :
Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, cadarn a thru-
garog !

Trindod fendigaid yw ein Harglwydd ni !

HEBER, C. E.R.

2

SALM LXVII.

M. B. C.

- 1 **T**RUGAREDD Duw i'n plith,
A rhoed ei fendith drosom,
Tywynned byth ei wŷneb-pryd,
A'i nawdd a'i iechyd arnom.
- 2 Duw, moled pobloedd Di,
Rhoent fawl a bri trwy'r hollfyd ;
A'r holl genhedloedd is y nen
A fyddant lawen hyfyd.
- 3 Cans Ti a ferni'n iawn
Y bobl trwy lawn wybodaeth,
Ac a roi'r holl genhedloedd ar
Y ddaear mewn llywodraeth.
- 4 Duw, moled pobloedd Di,
Rhoent fawl a bri trwy'r hollfyd,
Yna rhy'r tir ei ffrwyth i'n plith,
A Duw ei fendith hefyd.
- 5 A Duw, sef Duw ein Tad,
A roddo'i rad a thyciant,
A holl derfynau'r ddaear gron
A phawb ar hon a'i hofnant.

E.P.

3

“*Megis yn y Nef, felly ar y Ddaear.*”

M. C.

- 1 **M**OLIANNED uchelderau'r nef
Yr Arglwydd am ei waith,
A cherdded sŵn ei foliant Ef
Trwy'r holl ddyfnderau maith.
- 2 Canmoled disglair sêr di-ri'
Ddoethineb meddwl Duw ;
Ac yn ein dagrau dwedwn ni
Mai doeth a chyfiawn yw.

- 3 Am ei sancteiddrwydd moler Ef
 Gan gôr seraffiaid fyrdd ;
 Atebwn ninnau ag un llef
 Mai sanctaidd yw ei ffyrdd.
- 4 Trwy'r nefoedd wen o oes i oes
 Canmoler cariad Duw ;
 A chanwn ninnau wrth y groes
 Mai Duw y cariad yw.
- 5 Molianned uchelderau'r nef
 Yr Arglwydd am ei waith,
 A cherdded sŵn ei foliant Ef
 Trwy'r holl ddyfnderau maith.

H.E.L.

4

Mawl i'r Prynwr.

M. C.

- 1 O ! AM dafodau fil ar gân
 I'm Prynwr, i roi 'maes
 Fawl a gogoniant f'Arglwydd glân,
 Gorchestion mawr ei ras.
- 2 Fy ngrasol Arglwydd, yr awr hon
 I'th ganmol cymorth fi,
 A rhoi ar led drwy'r byd o'r bron,
 Anrhydedd d'enw Di.
- 3 Iesu ! yr enw a ddifa'n braw ;
 Ffy'n gofid rhag ei wedd ;
 Yn bersain at bechadur daw,
 Mae'n fywyd, iechyd, hedd.
- 4 Fyddariaid, clywch ; rhowch iddo'n awr,
 Chwi fudion, glod yn lli ;
 Chwi ddeillion, dyma'ch Meddyg mawr ;
 A'r cloffion, llemwch chwi.

- 5 Ar Iesu rhoed eich beiau mawr :
 Oen Duw fu farw'i Hun ;
 Ei enaid a roes Ef i lawr
 Dros enaid pob rhyw ddyn.

C. WESLEY, c. D.T.E.

5

Moli'r Tad.

M. C.

- 1 **M**OLIANNAF enw'r Tad o'r nef
 Am waredigaeth ddrud,
 A thosturiaethau fwy na mwy,
 Trwy haeddiant Prynwr byd.
- 2 Nac ofna, f'enaïd, am a ddaw,
 Wrth deithio tua'r nef ;
 Ni ddigwydd niwed nac un cam
 I'r hwn sydd ynddo Ef.
- 3 Er cystal trugareddau'r Iôn,
 Fy Iesu mawr yw'r dawn
 Sy'n cynnwys popeth ynddo'i Hun—
 Fy iechedwriaeth lawn.

J.G.M.H.

6

Moliant i'r Oen.

M. C.

- 1 **C**YDUNWN â'r angylion fry,
 Ein tannau yn gytûn ;
 Deng mil o filoedd yw eu cân,
 Er hyn nid yw ond un.
- 2 Os ydyw'r Oen fu farw yn sail
 Eu holl ganiadau hwy,
 Mae'n haeddu, am farw drosom ni,
 Ein mawl fil miloedd mwy.
- 3 Ac Ef yn unig biau'r mawl,
 Drwy ddwyfol hawl ddi-lyth,
 A chlod uwchlaw a allwn ni
 Ei rodidi iddo byth.

- 4 Cyduned pob creadur byw,
 Uwchlaw ac is y nen,
 I roi ynghyd, cans teilwng yw,
 Y goron ar ei ben.
- 5 Doed y greadigaeth eang oll,
 Ag un soniarus lef,
 I ogoneddu'r addfwyn Oen,
 A thraethu'i foliant Ef. I. WATTS, c. E.E.

7

Coronwch Ef yn Ben.

M. C.

- 1 **D**YRCHAFER enw Iesu cu
 Gan seintiau is y nen ;
 A holl aneirif luoedd nef,
 Coronwch Ef yn Ben.
- 2 Angylion glân, sy'n gwylio'n gylch
 Oddeutu'i orsedd wen,
 Gosgorddion ei lywodraeth gref,
 Coronwch Ef yn Ben.
- 3 Hardd lu'r merthyri, sydd uwchlaw
 Erlyniaeth, braw, na sen,
 Â llafar glod ac uchel lef,
 Coronwch Ef yn Ben.
- 4 Yr holl broffwydi'n awr sy'n gweld
 Y Meichiau mawr heb len,
 A'i apostolion yn gyd-lef,
 Coronwch Ef yn Ben.
- 5 Pob perchen anadl, ym mhob man,
 Dan gwmpas haul y nen,
 Ar fôr a thir, mewn gwlad a thref,
 Coronwch Ef yn Ben.
- 6 Yn uchaf oll bo enw'r Hwn
 Fu farw ar y pren ;
 Drwy'r ddaear faith, ac yn y nef,
 Coronwch Ef yn Ben. PERRONET, c. E.E.

8

SALM IX. 1, 2, 9, 10.

M. S.

- 1 **C**LODFORAF fi fy Arglwydd Iôn,
O'm calon ac yn hollawl ;
Ei ryfeddodau rhof ar led,
Ac mae'n ddylêd eu canmawl.
- 2 Mi fyddaf lawen yn dy glod,
Ac ynod gorfoleddaf ;
I'th enw, O ! Dduw, y canaf glod,
Wyt hynod, y Goruchaf.
- 3 Gwna'r Arglwydd hefyd hyn wrth raid,
Trueiniaid fe'u hamddiffyn ;
Noddfa a fydd i'r rhain mewn pryd,
Pan fo caledfyd arnyn'.
- 4 A phawb a'th edwyn, rhônt eu cred,
A'u holl ymddiried arnat ;
Cans ni adewaist, Arglwydd, neb
A droes ei wÿneb atat.

E.P.

9

SALM XXVIII. 2, 6, 7.

M. S.

- 1 **O** ! ARGLWYDD, erglyw fy llais i,
A derbyn weddi bruddaidd,
Pan godwyf fy nwy law o bell,
Duw, tua'th gafell sanctaidd.
- 2 Bendigaid fyddo'r Arglwydd nef,
Fe glybu lef fy ngweddi ;
Yr Arglwydd yw fy nerth a'm rhan,
A'm tarian, a'm daioni.
- 3 Mi ymddiriedais iddo am borth,
A chefais gymorth ganddo ;
Minnau, o'm calon, drwy fawr chwant,
A ganaf foliant iddo.

E.P.

10

SALM LXIII. 3, 4, 5, 7.

M. S.

1 **D**Y faith drugaredd, O ! Dduw byw,
Llawer gwell yw na'r bywyd ;
Ac â'm gwefusau rhof it fawl,
A cherdd ogonawl hyfryd.

2 Felly tra fwyf fi fyw y gwnaf,
Ac felly y'th folaf eto,
Ac yn dy enw Di, sydd gu,
Y caf ddyrchafu 'nwylo.

3 Digonir f'enaid fel â mêt,
A chyflawn fraster hefyd,
A'm genau a gân dy foliant tau,
Â phur wefusau hyfryd.

4 Ac am dy fod yn gymorth ym,
Drwy fawr rym dy drugaredd,
Fy holl orfoledd a gais fod
Dan gysgod dy adanedd.

E.P.

11

SALM LXVIII. 19, 28, 32.

M. S.

1 **B**ENDIGAID fyth fo'r Arglwydd mau,
Am ddoniau ei ddaioni,
A'i iechydwrïaeth inni'n llwyth
O bêr ffrwyth ei haelioni.

2 Dy Dduw a drefnodd iti nerth,
A'i law sydd brydferth geidwad :
Duw, eto cadarnha yn faith
Arnóm ni waith dy gariad.

3 Chwi, holl deyrnasoedd daear lawr,
I Dduw mawr cenwech foliant ;
Cydgenwech iddo glod yn rhwydd,
Sef Arglwydd y gogoniant.

E.P.

12

SALM LXXI. 1, 2, 3, 9, 14.

M. S.

- 1 **M**I ymddiriedais ynot, Nêr,
Na'm gwaradwydder bythoedd ;
Duw, o'th gyfiawnder gwared fi,
A chlyw fy nghri hyd nefoedd.
- 2 Duw, bydd yn graig o nerth i mi,
I gyrchu ati'n wastad ;
A phâr fy nghadw i yn well,
Ti yw fy nghastell caead.
- 3 Nac esgeulusa fi na'm braint
Yn amser henaint truan ;
Er pallu'r nerth, na wrthod fi,
Duw, edrych Di ar f'oedran.
- 4 Fy ngobaith innau a saif byth,
Yn ddilyth a safadwy ;
Ymddiried ynot, Dduw, a wnaf,
Ac a'th foliannaf fwyfwy.

E.P.

13

SALM CIII. 1—4, 11—13.

M. S.

- 1 **F**Y enaid, mawl Sanct Duw yr Iôn,
A chwbl o'm heigion ynof ;
Fy enaid, n'ad fawl f'Arglwydd nef,
Na'i ddoniau Ef yn angof.
- 2 Yr Hwn sy'n maddau dy holl ddrwg,
Yr Hwn a'th dddwg o'th lesgedd ;
Yr Hwn a weryd d'oes yn llon,
Drwy goron o'i drugaredd.
- 3 Cyhyd ag yw'r ffurfafen fawr
Oddi ar y llawr o uchder,
Cymaint i'r rhai a'i hofnant Ef,
Fydd nawdd Duw nef bob amser.

- 4 Os pell yw'r dwyrain olau hin
 Oddi wrth orllewin fachlud,
 Cyn belled ein holl bechod llym
 Oddi wrthym Ef a'i symud.
- 5 Ac fel y bydd nawdd, serch, a chwant
 Tad da i'w blant naturiol,
 Felly cawn serch ein Tad o'r nef,
 Os ofnwn Ef yn dduwiol.

E.P.

14

SALM CVII. 1, 2, 22.

M. S.

- 1 **M**OLWCH yr Arglwydd, cans da yw,
 Moliennwch Dduw ein Llywydd ;
 Oblegid ei drugaredd fry
 A bery yn dragywydd.
- 2 Y gwardigion canent fawl,
 I Dduw gerdd nodawl gyson :
 Y sawl achubwyd, caned hyn,
 O law y gelyn creulon.
- 3 Aberthant hefyd aberth mawl
 I'w ogoneddawl fawredd ;
 Mynegi a wnânt ei waith a'i wyrth
 Yn ei byrth mewn gorfoledd.

E.P.

15

SALM CXI. 1, 4, 5.

M. S.

- 1 **C**LODFORAF fi fy Arglwydd Iôn,
 O 'wyllys calon hollol,
 Mewn cynulleidfa ger eu bron,
 Mewn tyrfa gyfion rasol.
- 2 Yr Arglwydd a wnaeth ei goffáu
 Am ryfeddodau nerthol ;
 Cans Arglwydd noddfawr yw i ni,
 Llawn o dosturi grasol.

- 3 Ef i bob rhai a'i hofnant Ef,
 Rhydd gyfran gref at fywyd ;
 Ac yn dragywydd y myn fod
 Cof o'i gyfamod hefyd.

E.P.

16

Clodforedd i Dduw.

M. S.

- 1 **C**LODFORWCH bawb ein Harglwydd Dduw,
 Doed dynol-ryw i'w ganmol ;
 Ei hedd, fel afon fawr ddi-drai,
 A gaiff ddyfrhau ei bobol.
- 2 Ei air a'i amod cadw wna ;
 Byth y parha'i ffyddlondeb,
 Nes dwyn ei braidd o'u poen a'u pla,
 I hyfryd dragwyddoldeb.
- 3 Ef ni newidia, er gweld bai
 O fewn i'w rai anwyla' ;
 Byth cofia waed Tywysog nen,
 A'i boen ar ben Calfaria.
- 4 Pan ballo ffavor pawb a'u hedd,
 Duw, o'i drugaredd odiaeth,
 Yn Dad, yn Frawd, yn Ffrind a fydd
 Ar gyfyng ddydd marwolaeth.

W.

17

Digon yn Nuw.

M. S.

- 1 **C**LODFORAF enw Brenin nef,
 Mae ynddo Ef bob digon—
 Digon o nerth i'm henaid gwan,
 Pan fyddwyf dan drallodion.
- 2 Mae digon o drugaredd hael
 I'r truan gwael ei gyflwr ;
 Digon i lenwi iawnder Duw,
 A chadw'n fyw droseddwr ;

- 3 Digon o rinwedd yn parhau
 I'm llwyr iacháu'n dragywydd ;
 A digon o raslonrwydd maith
 I'm gwneud yn berffaith ddedwydd.
- 4 Am hyn yn Nuw hyderu wnafl,
 Gorffwysaf ar ei eiriau ;
 Am bethau sydd, am bethau ddaw,
 Tu yma a thraw i angau.

AN.

18

SALM C.

M. H.

- 1 I'R Arglwydd cenwech lafar glod,
 A gwnewch ufudd-dod llawen fryd ;
 Dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,
 Trigolion daear fawr i gyd.
- 2 Gwybyddwch bawb mai'r Iôr sy Dduw,
 A'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod ;
 Nid ni ein hun ; ei bobl fym ni,
 A defaid rhi' ei borfa a'i nod.
- 3 O ! ewch i'w byrth â diolch brau,
 Yn ei gynteddau molwch Ef ;
 Bendithiwch enw Duw is rhod,
 Rhowch iddo glod trwy lafar lef.
- 4 Cans da yw'r Arglwydd, Awdur heddi,
 Da ei drugaredd a di-lyth ;
 A'i lân wirionedd in a roes,
 O oes i oes a bery byth.

E.P.

19

Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

M. H.

- 1 HENFFYCH i enw Iesu gwiw,
 Syrthied o'i flaen angylion Duw ;
 Rhowch iddo'r parch, holl dyrfa'r nef :
 Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

- 2 Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,
Plygwch yn isel wrth ei draed ;
Fe'ch tynnodd â thrugaredd gref :
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.
- 3 Boed i bob llwyth a phob rhyw iaith
Trwy holl derfynau'r ddaear faith,
Gydganu'n llafar iawn eu llef :
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef. c. W.G.
- 4 Er bod eu beiau'n amal iawn,
Mae ganddo iechydwriaeth lawn ;
Eu cannu'n wyn wna Brenin nef :
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef. c. T.I.L.

PERRONET.

20

Addolwn Dduw.

M. H.

- 1 **A** DDOLWN Dduw ein Harglwydd mawr
Mewn parch a chariad yma'n awr ;
Y Tri yn Un a'r Un yn Dri
Yw'r Arglwydd a addolwn ni.
- 2 Mae ganddo i'n gwasanaeth hawl,
A gweddus inni ganu mawl ;
Down ger ei fron â llafar gân,
Rhown iddo glod o galon lân.
- 3 Ei orsedd sydd yn nef y nef,
Sanctaidd a chyfiawn ydyw Ef ;
I ddig y mae'n hwyrfydig iawn—
Fe rydd o'i ras drugaredd lawn.
- 4 Y mae'i weithredoedd Ef bob un
Yn ei glodfori yn gytûn ;
Ei fawr gadernid traethant hwy ;
A'i enw a folwn ninnau mwy.

- 5 Mawr yw a chanmoladwy iawn,
 Cyduno i'w ddyrchafu wnawn ;
 Bendithiwn byth ei enw Ef,
 A chaiff y mawl holl ddyddiau'r nef.

W.H.E.

21

Galwad i Glodfori Duw.

M. H.

- 1 **W**RTH orsedd y Jehofa mawr
 Plyged trigolion byd i lawr ;
 Gwybydded pawb mai Ef sy Dduw,
 Yr Hwn sy'n lladd a gwneud yn fyw.
- 2 Â'i ddwyfol nerth, fe'n gwnaeth ei Hun
 O bridd y ddaear ar ei lun ;
 Er in, fel defaid, grwydro'n ffôl,
 I'w gorlan, Ef a'n dug yn ôl.
- 3 I'th byrth â diolch-gân ni awn,
 Cyfodi'n llef i'r nef a wnawn ;
 Doed pobloedd o bob iaith sy'n bod
 I lenwi'r pyrth â llafar glod.
- 4 D'arglwyddiaeth Di sy dros y byd,
 Tragwyddol yw dy gariad drud ;
 Saif dy wirionedd heb osgoi,
 Pan beidio'r haul a'r lloer â throi.

I. WATTS, C. J.HU.

22

"Da y gwnaeth Ef bob peth."

M. H.

- 1 **Y**N awr, mewn gorfoleddus gân,
 Dyrchafaf glod i'm Harglwydd glân ;
 Ynghyda'i saint cydseinio wna' :
 Fy Iesu a wnaeth bob peth yn dda.
- 2 Trwy demtasiynau maith di-ri'
 Bu'n gymorth cryf i'm henaid i ;
 Tra fyddwyf byw ei foli wna' :
 Fy Iesu a wnaeth bob peth yn dda.

- 3 Er gwgu arnaf uffern fawr,
Ynghyda drygau maith y llawr,
Digon i mi fydd gras fy Nuw :
Pob peth yn dda wnaeth Iesu gwiw.
- 4 A phan gyrhaeddaf uwch y nen
I blith cantorion nefoedd wen,
Uwch na seraffiaid seinio wna' :
Fy Iesu a wnaeth bob peth yn dda. *Cas. R.P.H.*

23

Gweddi a Mawl.

M. H.

- 1 **A**NTURIAF, Arglwydd, yr awr hon,
Yn llwch a lludw ger dy fron ;
O flaen dy fainc a'th orsedd Di
Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi.
- 2 Tŵr yn y nos Ti imi sydd,
Fy nghraig a'm cysgod yn y dydd
I'm cynnal : am dy ofal Di
Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi.
- 3 Tylawd a noeth, gresynus wyf,
Gwan ac anghenus dan fy nghlwyf ;
Mae ffynnon bywyd gyda Thi :
Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi.
- 4 Mae yna dorf luosog lân,
Yn bur eu cerdd, yn bêr eu cân ;
Eu mawl yn unig sydd i Ti :
Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi. *R.D.*

24

Mawl i'r Drindod.

M. H.

- 1 **I**DAD y trugareddau i gyd
Rhown foliant, holl drigolion byd ;
Llu'r nef moliennwch, bawb ar gân,
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. *KEN., C. H.H.*

25

Canmol Cariad Crist.

2. 88. 888.

1 CLOD, clod
 I'r Oen a laddwyd cyn fy mod
 Y parch a'r mawl i'w enw boed,
 Am iddo 'rioed, o'i gariad rhad,
 Roi'i serch ar wael syrthiedig ddyn ;
 Mawr iawn yw rhin ei werthfawr waed.

2 Daw dydd
 I'r carcharorion fynd yn rhydd,
 O'r holl gadwynau tynion sydd ;
 Mor felys fydd eu caniad hwy !
 Am ddioddefaint addfwyn Oen
 Bydd hyfryd sôn, heb ddiwedd mwy.

3 Daw, daw
 Yr hyfryd fore, mae gerllaw,
 Bydd pawb â'i delyn yn ei law,
 Heb ofn na braw, yng nghwmni'r Oen,
 Yn canu i dragwyddoldeb maith,
 Ar ben y daith, heb friw na phoen.

G. 1

26

Teilwng yw'r Oen.

664. 6664.

1 CYDUNED nef a llawr
 I foli'n Harglwydd mawr
 Mewn hyfryd hoen ;
 Clodforwn, tra fo chwÿth,
 Ei ras a'i hedd di-lyth,
 Ac uchel ganwn byth—
 " Teilwng yw'r Oen ! "

2 Tra dyrchaif saint eu cân
 O gylch yr orsedd lân,
 Uwch braw a phoen,
 O ! boed i ninnau'n awr,
 Drigolion daear lawr,

Ddyrchafu'r enw mawr :
 " Teilwng yw'r Oen ! "

- 3 Molianned pawb ynghyd
 Am waith ei gariad drud,
 Heb dewi â sôn ;
 Anrhydedd, parch a bri
 Fo i'n Gwardedwr ni,
 Dros oesoedd maith di-ri' :
 " Teilwng yw'r Oen ! " JAMES ALLEN, *ef.* I.C.

27

Duw Abram, Molwch Ef.

66. 84. D.

- 1 **D**UW Abram, molwch Ef,
 Yr hollalluog Dduw,
 Yr Hen Ddihenydd, Brenin nef,
 Duw, cariad yw.
 I'r Iôr, anfeidrol Fod
 Boed mawl y nef a'r llawr ;
 Ymgrymu wnafl, a rhof y clod
 I'r Enw mawr.
- 2 Duw Abram, molwch Ef ;
 Ei holl-ddigonol ddawn
 A'm cynnal ar fy nhaith i'r nef
 Yn ddiogel iawn ;
 I eiddil fel myfi
 Fe'i geilw'i Hun yn Dduw ;
 Trwy waed ei Fab ar Galfari
 Fe'm ceidw'n fyw.
- 3 Er bod y cnawd yn wan,
 Er gwaethaf grym y byd,
 Trwy ras mi ddof i hyfryd fan
 Fy nghartref clyd ;
 Mi nofia'r dyfnder llaith
 Â'm trem ar Iesu cu ;
 Af trwy'r anialwch erchyll maith
 I'r Ganaan fry.

- 4 Holl dyrfa'r nef a gân
 Mewn diolch yn gytûn,
 I'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân—
 Eu mawl sydd un :
 O ! henffych, Iôr di-lyth ;
 Clodforaf gyda hwy
 Dduw Abram a'm Duw innau byth
 Heb dewi mwy. T. OLIVERS, c. R.WS. *diw.*

28

Diolch am Gyfryngwr.

76. 76. D.

- 1 **P**A le, pa fodd dechreuaf '
 Foliannu'r Iesu mawr ?
 Olrheiniô'i ras ni fedraf ;
 Mae'n llenwi nef a llawr :
 Anfeidrol ydyw'r Ceidwad,
 A'i holl drysorau'n llawn ;
 Diderfyn yw ei gariad,
 Difesur yw ei ddawn.
- 2 Trugaredd a gwirionedd
 Yng Nghrist sy'n awr yn un,
 Cyfiawnder a thangnefedd
 Ynghyd am gadw dyn :
 Am Grist a'i ddioddefiadau—
 Rhinwedddau marwol glwy'—
 Y seinir pêr ganiadau
 I dragwyddoldeb mwy.
- 3 O ! diolch am Gyfryngwr—
 Gwardwr cryf i'r gwan ;
 O ! am gael ei adnabod—
 Fy Mhriod i a'm Rhan ;
 Fy ngwisgo â'i gyfiawnder
 Yn hardd gerbron y Tad ;
 A derbyn o'i gyflawnder
 Wrth deithio'r anial wlad.

29

Moliant i'r Arglwydd.

76. 76. D.

- 1 **M**OLIANNWN Di, O ! Arglwydd,
 Wrth feddwl am dy waith
 Yn llunio bydoedd mawrion
 Y grëadigaeth faith ;
 Wrth feddwl am dy allu
 Yn cynnal yn eu lle
 Drigfannau'r ddaear isod
 A phreswylfeydd y ne'.
- 2 Moliannwn Di, O ! Arglwydd,
 Wrth feddwl am dy ffyrdd
 Yn llywodraethu'n gyson
 Dros genedlaethau fyrdd ;
 Wrth feddwl am ddoethineb
 Dy holl arfaethau cudd,
 A'u nod i ddwyn cyfiawnder
 O hyd i olau dydd.
- 3 Moliannwn Di, O ! Arglwydd,
 Wrth feddwl am dy ras
 Yn trefnu ffordd i'n gwared
 O rwymau pechod cas ;
 Wrth feddwl am y gwynfyd
 Sydd yna ger dy fron
 I bawb o'r gwaredigion
 'N ôl gado'r ddaear hon.

D.R.

30

Mawl i'r Arglwydd.

76. 76. D.

- 1 **O** ! CENWCH fawl i'r Arglwydd,
 Y ddaear fawr i gyd,
 Ac am ei iechedwriaeth
 Moliennwch Ef o hyd ;
 Mynegwch ei ogoniant—
 Tra dyrchafedig yw ;
 Mae'n ben goruwch y duwiau,
 Mae'n Arglwydd dynol-ryw.

- 2 Rhowch iddo aberth moliant,
 Ymgrymwch ger ei fron,
 Yn brydferth mewn sancteiddrwydd
 Moliennwch Ef yn llon ;
 Ac ofned pob creadur
 Yr Hwn sy'n dal y byd ;
 Ymlawenhaed y nefoedd
 A'r ddaear ynddo 'nghyd.

RT.J.

31

Mawl am Iechydwrriaeth.

76. 76. D.

- 1 **F**Y Nuw, fy Nhad, fy Iesu,
 Boed clod i'th enw byth ;
 Boed dynion yn dy foli
 Fel rhif y bore wlith ;
 O ! na bai gwellt y ddaear
 Oll yn delynau aur,
 I ganu i'r Hwn a anwyd
 Ym Methlem gynt o Fair.
- 2 O ! Iesu, pwy all beidio
 Â'th ganmol ddydd a nos ?
 A phwy all beidio â chofio
 Dy farwol ddwyfol loes ?
 A phwy all beidio â chanu
 Am iechydwrriaeth rad,
 Ag sydd yn teimlo gronyn
 O rinwedd pur dy waed ?
- 3 O ! Arglwydd, rho i mi dafod
 Na thawo ddydd na nos,
 Ond dweud wrth bob creadur
 Am rinwedd gwaed y groes ;
 Na ddelo gair o'm genau,
 Yn ddirgel nac ar goedd,
 Ond am fod Iesu annwyl
 Yn wastad wrth fy modd.

W.—TH.

32

Yr Anthem Gyffredinol.

77. 77.

- 1 **N**EF a daear, tir a môr
 Sydd yn datgan mawl ein Iôr :
 Fynni dithau, f'enaïd, fod
 Yn y canol heb roi clod ?
- 2 Gwena'r haul o'r cwmwl du,
 Er mwyn dangos Duw i ni ;
 Dywaid sêr a lleuad dlos
 Am ei fawredd yn y nos.
- 3 Gwellt y maes a dail y coed
 Sy'n ei ganmol Ef erioed ;
 Popeth hardd o dan y nef,
 Dyna waith ei fysedd Ef.
- 4 Cwyd aderyn bach o'i nyth,
 Am fod Duw yn dirion byth ;
 Gwrendy'r corwynt ar ei lef,
 Cerdda'r mellt ei lwybrau Ef.
- 5 Dywaid afon yn ei hiaith
 Mai Efe sy'n trefnu'r daith ;
 Ac ni chyfyd ton o'r môr
 Heb roi mawl i enw'r Iôr.
- 6 Rhyfedd wyt, O ! Dduw, bob awr
 Yn egluro d'allu mawr :
 Wrth dy draed, O ! dysg i mi
 Beth wyf fi, a phwy wyt Ti.

J. NEANDER, C. H.E.L.

33

Aberth Mawl.

77. 77. 77.

- 1 **A**M brydferthwch daear lawr,
 Am brydferthwch rhod y nen,
 Am y cariad rhad bob awr
 Sydd o'n cylch ac uwch ein pen,
 O ! Dduw graslon, dygwn ni
 Aberth mawl i'th enw Di.

- 2 Am brydferthwch oriau'r dydd,
 Am brydferthwch oriau'r nos,
 Bryn a dyffryn, blodau, gwŷdd,
 Haul a lloer, pob seren dlos,
 O ! Dduw graslon, dygwn ni
 Aberth mawl i'th enw Di.
- 3 Am hyfrydwch cariad cu
 Brawd a chwaer, a mam a thad,
 Ffrindiau yma, ffrindiau fry,
 Am bob meddwl mwyn a gad,
 O ! Dduw graslon, dygwn ni
 Aberth mawl i'th enw Di.
- 4 Am bob rhodd i ddynol-ryw
 Gennyt o'th drugaredd gref,
 Am rasmusau dyn a Duw,
 Blodau'r byd a blagur nef,
 O ! Dduw graslon, dygwn ni
 Aberth mawl i'th enw Di.

F. S. PIERPOINT, C. J.M.-J.

34

Mawl i'r Iesu.

77. 77. 77.

- 1 'D OES gyffelyb iddo Ef
 Ar y ddaear, yn y nef ;
 Trech ei allu, trech ei ras
 Na dyfnderau calon gas ;
 A'i ffyddlondeb sydd yn fwy
 Nag angheuol ddwyfol glwy'.
- 2 Caned cenedlaethau'r byd
 Am ei enw mawr ynghyd ;
 Aed i gyrrau pella'r ne',
 Aed i'r dwyrain, aed i'r de :
 Bloeddied moroedd gyda thir
 Ddyfnder iechydwriaeth bur.

- 3 Na foed undyn is y rhod
 Heb ddatseinio i maes ei glod ;
 Na foed neb is awyr las
 Heb gael praw o'i nefol ras ;
 Doed y ddaear fawr yn gron,
 Yfent ddŵr y ffynnon hon.

W.

35

Mawl i'r Ceidwad.

77. 87. D.

- 1 **H**OSANNA, Haleliwia
 I'r Oen fu ar Galfaria ;
 Gorffennwyd iechydwrriaeth dyn,
 Efe ei Hun yw'r noddfa :
 Tragwyddol ddiolch iddo
 Am faddau a thosturio ;
 Anfeidrol fraint i lwch y llawr
 Fod croeso'n awr ddod ato.
- 2 Mae'n achub hyd yr eitha'
 Y pechaduriaid mwya' ;
 Fe drefnwyd ffordd i gadw dyn
 Gan Dri yn Un Jehofa ;
 Anturiwn ninnau arno,
 Mae'r Iesu'n achub eto,
 A chroeso i bechaduriaid mawr
 Bob munud awr ddod ato.
- 3 Mae'r ddyled wedi'i thalu,
 Ac uffern wedi'i maeddu,
 Gobeithiol garcharorion sy
 Yn dod yn llu i fyny :
 Mae'r pyrth yn llawn agored,
 Doed Israel o'r caethiwed ;
 Pob llesg a gwan, fyth ger ei fron,
 Ei wedd yn llon cânt weled.

M.R.

36

SALM CV. 1—8.

77. 87. D.

- 1 **E**IN Harglwydd ni clodforwch,
 Ac ar ei enw gelwch ;
 Ei wyrthiau Ef â llawen floedd
 Ymysg y bobloedd traethwch ;
 O ! dewch a chenwch iddo,
 A gorfoleddwch ynddo ;
 Ymlawenyched pob rhyw ddyn
 O galon sy'n ei geisio.
- 2 Am Dduw a'i nerth gofynnwch,
 A gwedd ei wŷneb ceisiwch,
 Y rhyfeddodau i ni a wnaeth,
 A'i farnedigaeth cofiwch ;
 Trwy'r ddaear aeth yn ddiau,
 Sôn am ei uniawn farnau,
 A cheidw o'i gyfamod go'
 I fil o genedlaethau.

H.J.S.

37

Ti, Dduw, a Folant.

84. 84. 8884.

- 1 **E**NGYL nef o gylch yr orsedd
 A'th folant Di.
 Rhônt y parch, y clod a'r mawredd
 Byth, byth i Ti.
 Twysogaethau, awdurdodau,
 Fil o filoedd, myrdd myrddiynau,
 Seiniant fawl trwy'r uchelderau
 Byth, byth i Ti.
- 2 Patriarchiaid o un galon
 A'th folant Di ;
 Sanctaidd gôr yr Apostolion
 A'th folant Di ;
 Clodus nifer y proffwydi
 Ac ardderchog lu'r merthyri,
 Ar delynau gwlad goleuni,
 A'th folant Di.

- 3 Mawl a'th erys Di yn Seion
 O oes i oes,
 Yng nghynlleidfa'r gwaredigion,
 O oes i oes :
 Mawl i Ti, Dduw Dad tragywydd,
 I'r Un Mab, y Sanct Waredydd,
 I'r Glân Ysbryd, y Diddanydd,
 O oes i oes.

W.R. ar.

38

Molwch Enw'r Iôn.

87. 87. 47.

- 1 **M**OLWCH Arglwydd nef y nefoedd,
 Ho! genhedloedd daear las,
 Holl dylv^l thau'r byd a'r bobloedd
 Cenwch glod ei ryfedd ras :
 Haleliwia,
 Molwch, molwch enw'r Iôn.

- 2 Mawr yw serch ei gariad atom,
 Mawr ei ryfedd ras di-lyth,
 Ei gyfamod a'i wirionedd
 Sydd heb ball yn para byth :
 Haleliwia,
 Molwch, molwch enw'r Iôn.

M.W.

39

Hyder a Gorfoledd yn Nuw.

87. 87. 77.

- 1 **Y**NOT, Arglwydd, gorfoleddwn,
 Yn dy gariad llawenhawn,
 Cariad erys fyth heb ballu,
 A'i ffynhonnau fyth yn llawn ;
 Frenin nef a daear lawr,
 Molwn byth dy enw mawr.

- 2 Er i Ti reoli bydoedd,
 Ym mhob storom lem a ddaw
 Cedwi'r weddw dan dy gysgod
 A'r amddifad yn dy law :

Frenin nef a daear lawr,
Molwn byth dy enw mawr.

- 3 Os yw'r bryniau yn dy glorian,
Os dy ddeddf sydd ar y môr,
Ti wrandewi'n nydd y daran
Lef pechadur wrth dy ddôr :
Frenin nef a daear lawr,
Molwn byth dy enw mawr.

J.J.W.

40

Sanctaidd Iôr.

87. 87. D.

- 1 **G**LÂN geriwbiaid a seraffiaid,
Fyrdd o gylch yr orsedd fry,
Mewn olynol seiniau dibaid,
Canant fawl eu Harglwydd eu :
“ Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant,
Llawn yw'r ddaear, dir a môr ;
Rhodder iti fythol foliant,
Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Iôr ! ”
- 2 Fyth y nef a chwydda'r moliant ;
Uwch yr etyb daear fyth—
“ Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd ! ” meddant,
“ Dduw y lluoedd, Nêr di-lyth !
Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant,
Llawn yw'r ddaear, dir a môr ;
Rhodder iti fythol foliant,
Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Iôr ! ”
- 3 Gyda'r seraff gôr i fyny,
Gyda'r Eglwys lân i lawr,
Uno wnawn fel hyn i ganu
Anthem clod ein Harglwydd mawr :
“ Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant,
Llawn yw'r ddaear, dir a môr ;
Rhodder iti fythol foliant,
Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Iôr ! ”

MANT, C. O.G.O.

41

Mawl i Dduw.

886. 886.

- 1 **O** ! ARGLWYDD Iôr, boed clod i Ti
 Am gofio eto'n daear ni
 Â'th fendith hael ei dawn ;
 Diodaist hi ag afon Duw,
 Fe'i gwisgaist â phrydferthwch byw,
 Gan lwyr aeddfedu'r grawn.
- 2 Tydi yw Tad y gwllith a'r glaw,
 A'r haul sy'n gwasgar ar bob llaw
 Hyfrydwch dros y wlad ;
 Sisiala'r awel d'enw Di,
 A'i seinio a wna'r corwynt cry',
 A phwy ni'th fawl, O ! Dad ?
- 3 Fe gân pob tymor, Arglwydd Iôr,
 Dy glod yn glir ar dir a môr,
 Ac una'r ddaear faith.
 A ninnau mwy ymddiried wnawn
 Yng ngrym dy gariad, Dad pob dawn,
 Nes cyrraedd pen y daith.

J.T.J.

42

Popeth a wnaeth ein Duw a'n Rhi.

88. 88. gyda'r Haleliwia.

- 1 **P**OPETH a wnaeth ein Duw a'n Rhi,
 Cyfoded lef i'n canlyn ni,
 I'r Arglwydd Haleliwia.
 Ti, danbaid haul, oleuni gwiw,
 Di, arian loer o dirion liw,
 I'r Arglwydd, i'r Arglwydd, Haleliwia,
 Haleliwia, Haleliwia.
- 2 Ti, fuan wynt a'th rymus lef,
 Gymylau sydd yn nofio'r nef,
 I'r Arglwydd, Haleliwia.

- Di, fore hael, clodfora Iôr,
 A sêr y nos yn gyson gôr,
 I'r Arglwydd, i'r Arglwydd, &c.
- 3 Ti, ddŵr rhedegog pur ei ryw,
 Rho dithau glod i'r Duw a'th glyw,
 I'r Arglwydd, Haleliwia ;
 Di, dân meistrolgar sydd ynghyd
 Yn gloywi a gwresogi byd,
 I'r Arglwydd, i'r Arglwydd, &c.
- 4 Fwyn ddaear-fam o ddydd i ddydd
 I ni'n sy'n rhoi bendithion rhydd,
 I'r Arglwydd, Haleliwia ;
 Dy ffrwyth, dy flodau o bob rhyw,
 Datganant hwy ogoniant Duw,
 I'r Arglwydd, i'r Arglwydd, &c.
- 5 A doed pob dyn o fron ddi-frad
 I ddwyn ei ran gan faddau'n rhad,
 I'r Arglwydd, Haleliwia ;
 A wypo boen a galar dwys,
 Molianned Dduw, rhoed arno'i bwys,
 I'r Arglwydd, i'r Arglwydd, &c.
- 6 A thi, dyneraf angau'i hun
 Sy'n gwyllo i ddwyn ein holaf ffun,
 I'r Arglwydd, Haleliwia ;
 Di ddygi adref blentyn Iôr,
 Yr Arglwydd Grist aeth drwy dy ddôr,
 I'r Arglwydd, i'r Arglwydd, &c.
- 7 Popeth a wnaed gan Luniwr byd
 I'w foli doed ag isel fryd,
 I'r Arglwydd, Haleliwia ;
 Boed mawl i'r Tad, a'r Mab ei Hun,
 A mawl i'r Ysbryd, Dri yn Un,
 I'r Arglwydd, i'r Arglwydd, &c.

43

SALM CXIII. 1—9.

888. 888.

- 1 **C**HWI weision Duw, molwch yr Iôn,
 Molwch ei enw â llafar dôn,
 Bendigaid fyddo'i enw Ef ;
 O godiad haul hyd fachlud dydd
 Mawr enw'r Iôn moliannus fydd,
 Yn y byd hwn ac yn y nef.
- 2 Dyrchafodd Duw uwch yr holl fyd,
 A'i foliant aeth uwch nef i gyd :
 Pwy sydd gyffelyb i'n Duw ni ?
 Yr hwn a breswyl yn y nef,
 I'r ddaear hon ymostwng Ef ;
 Gwêl Ef ein cam, clyw Ef ein cri.
- 3 Yr Hwn sy'n codi'r tlawd o'r llwch,
 A'r rheidus o'i drueni trwch,
 I'w gosod uwch penaethiaid byd ;
 I'r unig a'r amddifad rhy
 Lawenydd, llwyddiant, tylwyth tŷ ;
 Am hyn moliennwch Dduw i gyd.

E.P. ar.

44

Emyn Diolch.

98. 98. D.

- 1 **F**Y enaid, bendithia yr Arglwydd,
 A chofia'i holl ddoniau o hyd,
 Maddeuodd dy holl anwireddau,
 Iachaodd dy lesgedd i gyd ;
 Gwaredodd dy fywyd o ddistryw,
 Â gras y coronodd dy ben,
 Diwallodd dy fwrdd â daioni :
 Atseinier ei fawl hyd y nen.
- 2 Trugarog a graslawn yw'r Arglwydd,
 Hwyrfrydig i lid i roi lle ;
 Nid byth y mae'n cadw digofaint,
 Nid byth yr ymryson Efe :

Fel tad wrth ei blant y tosturia,
 Mae'n cofio mai llwch ydynt hwy ;
 O ! f'enaïd, bendithia yr Arglwydd,
 Bendithia yr Arglwydd byth mwy.

W.N.W.

45

Diolch am yr Efengyl.

10. 7. 6.

1 **D**IOLCH i Ti, yr Hollalluog Dduw,
 Am yr Efengyl sanctaidd.
 Haleliwia, Amen.

2 Pan oeddym ni mewn carchar tywyll du,
 Rhoist in oleuni nefol.
 Haleliwia, Amen.

3 O ! aed, O ! aed yr hyfryd wawr ar led !
 Goleued ddaear lydan !
 Haleliwia, Amen.

C. D.C.

46

Haleliwia.

10. 10. 10. 4.

1 **A**M rif y saint y sydd o'u gwaeau'n rhydd,
 I Ti a roes gerbron y byd eu ffydd,
 Dy enw, Iesu, bendigedig fydd,
 Haleliwia, Haleliwia.

2 Ti oedd eu Craig, eu Cyfnerth hwy a'u Mur,
 Ti, Iôr, fu Lywydd yn eu cad a'u cur,
 Ti yn y ddunos oedd eu golau pur,
 Haleliwia, Haleliwia.

3 O ! boed i'th filwyr ffyddlon pur a drud
 Ddal fel y saint, fu gynt mor ddewr eu bryd,
 Nes cael fel hwythau goron aur i gyd,
 Haleliwia, Haleliwia.

- 4 Fendigaid gymun ! undeb dwyfol ddrud !
Ni yn ein gwendid, hwythau'n wyn eu byd ;
Ac eto ynot Ti mae pawb ynghyd,
Haleliwia, Haleliwia.
- 5 A phan fo'r gad yn drom a'r brwydro'n hir,
Daw ar y clyw gân buddugoliaeth glir,
Bydd hyder eto'n fyw, a nerth yn wir,
Haleliwia, Haleliwia.
- 6 Mae'r euraid hwyr yn gloywi'n deg ei lun ;
Daw, daw i'r ffyddlon filwr dawel hun,
Mwyn ydyw hedd Paradwys Dduw ei Hun,
Haleliwia, Haleliwia.
- 7 Ond wele tyr ymlaen ddisgleiriaf dydd,
Saint gorfoleddus yn eu rhwysg yn rhydd,
Ac Iôr Gogoniant heibio'n mynd y bydd ;
Haleliwia, Haleliwia.
- 8 O fôr a thir er pob rhyw hir wahân,
Drwy byrth o berl daw rhif y tywod mân,
A'u cân i'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.
Haleliwia, Haleliwia.

WALSHAM HOW, c. T.G.J.

47

Haleliwia i'r Oen.

11. 11. 12. 11. 12. 12.

- 1 **L** LAIS hyfryd rhad ras sy'n gweiddi, Dihangfa,
Yng nghlwyfau Mab Duw, bechadur, mae
noddfa ;
I olchi aflendid a phechod yn hollol,
Fe redodd ei waed yn ffrydiau iachusol :
Haleliwia i'r Oen bwrcasodd ein pardwn,
'N ôl croesi Iorddonen drachefn ni a'i molwn.
- 2 Ar angau ac uffern cadd lawn fuddugoliaeth,
Ysbeiliodd holl allu'r tywyllwch ar unwaith ;

Holl filwyr y groes cânt ynddo dangnefedd ;
 Fe'u harwain hwy'n sicir i berffaith orfoledd :
 Haleliwia i'r Oen bwrcasodd ein pardwn,
 'N ôl croesi Iorddonen drachefn ni a'i molwn.

- 3 'N ôl tirio yn iach i'r tawel anheddau,
 Ni a seiniwn ei glod ar euraid delynu ;
 Trwy'r nefol ardaloedd ni a'i molwn byth bythol,
 Wrth rodio ar lennydd yr afon dragwyddol :
 Haleliwia i'r Oen bwrcasodd ein pardwn,
 'N ôl croesi Iorddonen drachefn ni a'i molwn.

BURDSALL, C. D.C.

DUW.

48

Anfarwol Fywyd lle bo Duw.

M. B. D.

- 1 **M**AE tywyll anial nos,
 Peryglon o bob rhyw,
 Holl ofnau'r bedd, pob meddwl gwan,
 Yn ffoi o'r fan bo 'Nuw :
 Ond tegwch dwyfol clir,
 A chariad pur a hedd,
 Gaiff fod yn wleddoedd pur di-drai
 I'r rhai sy'n gweld ei wedd.
- 2 Lle byddych Di, fy Nuw,
 Anfarwol fywyd sy,
 Yn tarddu, megis dŵr o'r graig,
 I'r lan i'r nefoedd fry :
 Rhyw wawr ddisgleirwen sydd
 Yn twnnu ohono Ef,
 Yn arwain, trwy bob ffos a nant,
 Holl ffyddlon blant y nef.

- 3 Ffarwél, chwi haul a loer,
 Ffarwél, chwi sêr y ne' ;
 Mae presenoldeb pur fy Nuw
 Yn well yn llanw'r lle :
 Rhyw faith dragwyddol ddydd,
 Goleuni sydd yn fwy,
 Yw'r hwn a ddaw oddi wrth ei wedd,
 Na'u holl ddisgleirdeb hwy.

W.

49

Cariad Duw.

M. C.

- 1 **T**YDI, fy Arglwydd, yw fy rhan,
 A doed y drygau ddél ;
 Ac er bygythion uffern fawr,
 Dy gariad sydd dan sêl.
- 2 Oddi wrthyt rhed, fel afon faith,
 Fy nghysur yn ddi-drai ;
 O hwyr i fore, fyth yn gylch,
 Dy gariad sy'n parhau.
- 3 Uwch pob rhyw gariad is y nef
 Yw cariad pur fy Nuw ;
 Anfeidrol foroedd dyfnion maith,
 Heb fesur arno yw.
- 4 Dechreuodd draw cyn creu y byd,
 Fe bery byth ymlaen,
 Heb un cyfnewid, a heb drai,
 Pan elo'r byd yn dân.
- 5 O ! dewch a gwelwch—chwiliwch ef,
 Anfeidrol gariad mawr,
 Ag sydd yn maddau miloedd myrdd
 O feiau yn yr awr.
- 6 Mae'n para'n ffyddlon byth heb drai,
 Ffordd bynnag try y byd,
 A phe cymysgai tir a môr
 Yr un yw 'Nuw o hyd.

W.

50

Dirgelion Rhagluniaeth.

M. C.

1 **T**RWY ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr
 Yn dwyn ei waith i ben ;
 Ei lwybrau Ef sydd yn y môr,
 Marchoga wynt y nen.

2 Ynghudd mewn dwfn fwngloddiau pur
 Doethineb wir ddi-wall,
 Trysori mae fwriadau clir—
 Cyflawnir hwy'n ddi-ball.

3 Y saint un niwed byth ni chânt,
 Cymylau dua'r nen
 Sy'n llawn trugaredd,—glawio wnânt
 Fendithion ar eu pen.

4 Na farna Dduw â'th reswm noeth,
 Cred ei addewid rad ;
 Tu cefn i len rhagluniaeth ddoeth
 Mae'n cuddio wÿneb Tad.

5 Bwriadau dyfnion arfaeth gras
 Ar fyr aeddfeda'n llawn :
 Gall fod y blodau'n chwerw eu blas,
 Ond melys fydd y grawn.

6 Ond gÿyro mae dychymyg dyn,
 Heb gymorth dwyfol ffydd ;
 Gadawn i Dduw ei 'sbonio'i Hun—
 Efe dry'r nos yn ddydd.

COWPER, C. L. E.

51

Duw yn Noddfa a Nerth.

M. C.

1 **M**EWN cyfyngderau bydd yn Dduw,
 Nid wyf ond gwyw a gwan ;
 Nid oes ond gallu mawr y nen
 A ddeil fy mhen i'r lan.

2 Ni fedda' i mewn nac o'r tu maes
 Ond nerthol ras y Nef
 Yn erbyn pob tymhestloedd llym,
 A'r storom gadarn gref.

3 Cysurwch fi, afonydd pur,
 Rhedegog ddyfroedd byw,
 Sy'n tarddu o dan riniog cu
 Sancteiddiaf dŷ fy Nuw.

w.

52

Duw yn Nodded.

M. C.

1 **O**! DDUW, ein nerth mewn oesoedd gynt,
 Ein gobaith wyt o hyd ;
 Ein lloches rhag ystormus wynt,
 A'n bythol gartref clyd.

2 Dan gysgod dy orseddfainc Di
 Cawn drigo'n dawel byth ;
 Digonol yw dy fraich i ni ;
 Fe'n ceidw yn ddi-lyth.

3 Cyn trefnu'r bryniau uwch y lli,
 Cyn llunio llwch y byd,
 O dragwyddoldeb Duw wyt Ti,
 Parhei yr un o hyd.

4 Yn d'olwg Di daw oesoedd maith
 Fel hwyrdydd byr i ben ;
 Fel gwyliadwriaeth nos mae'u taith,
 Cyn codi haul y nen.

5 Mae prysur lwythau'n daear ni,
 A'u llafur oll ynghyd,
 Yn myned heibio gyda'r lli
 I fôr tragwyddol fyd.

- 6 Dwg amser, fel llifeiriant cry',
 Ei blant i gyd i lawr ;
 Ehedant ymaith fel y ffy
 Y breuddwyd gyda'r wawr.
- 7 O ! Dduw, ein nerth mewn oesoedd fu,
 Ein gobaith am a ddaw,
 Bydd inni yma'n noddfa gu,
 A chartref bythol draw.

I. WATTS, C. W.O.E.

53

SALM VIII. 1, 3, 4, 5, 6, 9.

M. S.

- 1 O ! ARGLWYDD, ein Iôr ni a'n nerth,
 Mor brydferth wyt trwy'r hollfyd !
 Dy enw a'th barch a roist uwchben
 Daear ac ŵybren hefyd.
- 2 Wrth edrych ar y nefoedd faith,
 A gweled gwaith dy fysedd,
 Y lloer, y sêr, a threfn y rhod,
 A'u gosod mor gyfannedd,
- 3 Pa beth yw dyn it i'w goffáu,
 O ddoniau ac anwyfrait ?
 A pheth yw mab dyn yr un wedd,
 Lle rhoi ymgeledd cymaint ?
- 4 Ti wnaethost ddyn o faint a phris
 Ychydig is angylion :
 Mewn mawr ogoniant, parch a nerth,
 Rhoist arno brydferth goron.
- 5 Ar waith dy ddwylaw is y nef
 Y gwnaethost ef yn bennaeth :
 Gan osod popeth dan ei draed,
 Iddo y gwnaed llywodraeth.

- 6 O ! Arglwydd, ein Iôr ni a'n nerth,
 Mor brydferth wyt trwy'r hollfyd !
 Dy enw a'th barch a roist uwchben
 Daear ac wÿbren hefyd.

E.P.

54

SALM LXII. 7, 8, 11, 12.

M. S.

- 1 **Y**N Nuw yn unig mae i gyd
 Fy iechyd a'm gogoniant :
 Fy nghraig yw, a'm cadernid maith,
 A'm gobaith yn ddilysiant.
- 2 Gobeithiwch ynddo, ger ei fron
 Tywelltwch galon berffaith ;
 Ac ymddiriedwch tra foch byw,
 A dwedwch, Duw yw'n gobaith.
- 3 Duw a lefarodd hyn un waith,
 Mi glywais ddwywaith hynny,
 Sef, mai Duw biau'r nerth i gyd,
 Gostyngiad byd, neu ffynnu.
- 4 O ! Arglwydd, hefyd Ti a fedd
 Drugaredd a daioni ;
 I bawb dan gwmpas wÿbren faith
 Yn ôl ei waith y teli.

E.P.

55

Duw yn Cynnal a Diddanu.

M. S.

- 1 **T**RWY droeau'r byd, a'i wên a'i wg,
 Bid da, bid drwg y tybier,
 Llaw Dduw sy'n troi'r cwmpasgylch glân
 Yn wiwlan, er na weler.
- 2 Fe weryd wirion yn y frawd
 Rhag enllib tafawd atgas ;
 Fe rydd orffwysfa i alltud blin
 Mewn anghynefin ddinas.

- 3 Ei gysur Ef sydd yn bywhau
 Y pennau gogwyddedig ;
 Fe sych â'i law y llif sy'n gwau
 Hyd ruddiau'r weddw unig.
- 4 Pa raid ychwaneg ? Gwnelwyf hyn :
 Gosteged gwŷn a balchder ;
 Ac arnat, Dduw, fy Ngheidwad glwys,
 Bid fy holl bwys a'm hyder. COLLET, c. G.O.

56

SALM CXXI.

M. S.

- 1 **D**ISGWYLIAF o'r mynyddoedd draw
 Lle daw im help 'wyllysgar ;
 Yr Arglwydd, rhydd im gymorth gref,
 Hwn a wnaeth nef a daear.
- 2 Dy droed i lithro, Ef nis gad,
 A'th Geidwad fydd heb huno ;
 Wele dy Geidwad, Israel lân,
 Heb hun na hepian arno.
- 3 Ar dy law ddehau mae dy Dduw,
 Yr Arglwydd yw dy Geidwad ;
 Dy lygru ni chaiff haul y dydd,
 A'r nos nid rhydd i'r lleuad.
- 4 Yr Iôn a'th geidw rhag pob drwg,
 A rhag pob cilwg anfad ;
 Cei fynd a dyfod byth yn rhwydd,
 Yr Arglwydd fydd dy Geidwad. E.P.

57

Nid Dim ond Duw.

M. H.

- 1 **Y** MAN y bo fy Arglwydd mawr
 Yn rhoi ei nefol heddi i lawr,
 Mae holl hapusrwydd maith y byd,
 A'r nef ei hunan yno i gyd.

- 2 Nid oes na haul na sêr na lloer,
Na daear fawr a'i holl ystôr,
Na brawd, na chyfaill, da na dyn,
A'm boddia hebddo Ef ei Hun.
- 3 'D yw'r gair " maddeuant " imi ddim,
Nid oes mewn gweddi ronyn grym,
A llais heb sylwedd ynt i gyd,
Heb imi weld ei wÿneb-pryd.

w.

58

Duw yng ngoleuni'r Groes.

M. H.

- 1 **D**UW ! er mor eang yw dy waith,
Yn llanw'r holl greadigaeth faith,
'D oes dim trwy waith dy ddwyllaw oll
At gadw dyn fu gynt ar goll.
- 2 Dyma lle mae d'anfeidrol ras
I'r eitha'n cael ei daenu i maes ;
A holl lythrennau d'enw a gawn
Yn cael eu dangos yma'n llawn.
- 3 Ar Galfari, rhwng daer a nef,
Llewyrchodd ei ogoniant Ef ;
Un haul ymguddiodd y prynhawn,
A'r llall a wnaed yn eglur iawn.
- 4 Pa ddawn sydd yn y Duwdod mawr
Nad yw'n ysgrifen yma i lawr ?
Beth allsai ddangos pwy wyt Ti
Yn well nag angau Calfari ?

w.

59

Ffyrdd Rhagluniaeth.

64. 64. 66. 64.

- 1 **R**HAGLUNIAETH fawr y nef,
Mor rhyfedd yw
Esboniad helaeth hon
O arfaeth Duw :

Mae'n gwylio llwch y llawr,
 Mae'n trefnu lluoedd nef,
 Cyflawna'r cwbl oll
 O'i gyngor Ef.

2 Llywodraeth faith y byd
 Sydd yn ei llaw ;
 Mae'n tynnu yma i lawr,
 Yn codi draw :
 Trwy bob helyntoedd blin,
 Terfysgoedd o bob rhyw,
 Dyrchafu'n gyson mae
 Deyrnas ein Duw.

3 Ei thwllwch dudew sydd
 Yn olau gwir ;
 Ei dryswch mwyaf, mae
 Yn drefen glir :
 Hi ddaw â'i throeon maith
 Yn fuan oll i ben,
 Bydd synnu wrth gofio'r rhain
 Tu draw i'r llen.

D.C.

60

Cariad Duw yn para byth.

66. 66. 88.

- 1 **P**AM 'r ofna f'enaid gwan
 Wrth weld aneirif lu
 Yn amau bod im ran
 A hawl yn Iesu cu ?
 Gwn mai di-lyth wirionedd yw
 Fod cariad Duw yn para byth.
- 2 P'odd gall y Bugail mawr
 Anghofio'i annwyl wŷyn,
 Pan ddaeth o'r nef i lawr
 I farw er eu mwyn ?
 Gwn mai di-lyth wirionedd yw
 Fod cariad Duw yn para byth.

3 A ddiffydd cariad rhad ?
 Ai ofer geiriau Duw ?
 A gollir rhinwedd gwaed
 Ac angau Iesu gwiw ?
 Gwn mai di-lyth wirionedd yw
 Fod cariad Duw yn para byth.

4 Er Satan, byd, a chnawd,
 A'm holl elynion cas,
 Fe ddygir f'enaid tlawd
 O'i holl gadwynau i maes :
 Gwn mai di-lyth wirionedd yw
 Fod cariad Duw yn para byth.

W.

61

"Nesáu at Dduw sy dda i mi."

66. 66. 88.

1 MAE Duw yn llond pob lle,
 Presennol ym mhob man ;
 Y nesaf yw Efe
 O bawb at enaid gwan ;
 Wrth law o hyd i wrando cri :
 "Nesáu at Dduw sy dda i mi."

2 Yr Arglwydd sydd yr un,
 Er maint derfysga'r byd ;
 Er anwadalwch dyn,
 Yr un yw Ef o hyd ;
 Y graig ni syfl ym merw'r lli :
 "Nesáu at Dduw sy dda i mi."

3 Yr Hollgyfoethog Dduw,
 Ei olud ni leiha ;
 Diwalla bob peth byw
 O hyd â'i 'wyllys da ;
 Un dafn o'i fôr sy'n fôr i ni :
 "Nesáu at Dduw sy dda i mi."

D.JS.

62

"Nesáu at Dduw sy dda i mi."

66. 66. 88.

- 1 **M**EWN trallod, at bwy'r af,
 Ar ddiwrnod tywyll du ?
 Mewn dyfnder, beth a wnafl,
 A'r tonnau o'm dau tu ?
 O ! fyd, yn awr beth elli di ?
 "Nesáu at Dduw sy dda i mi."

- 2 Anwadal hynod yw
 Gwrthrychau gorau'r byd ;
 Ei gysur o bob rhyw,
 Siomedig yw i gyd ;
 Rhag twyll ei wên, a swyn ei fri,
 "Nesáu at Dduw sy dda i mi."

D.JS.

63

Nawdd y Dwyfol Waed.

66. 66. 88.

- 1 **F**Y enaid, at dy Dduw,
 Fel gwrthrych mawr dy gred,
 Trwy gystudd o bob rhyw,
 A phob temtasiwn, rhed ;
 Caf ganddo Ef gysuron gwir,
 Fwy nag ar foroedd nac ar dir.

- 2 O ! na allwn roddi 'mhwys
 Ar dy ardderchog law,
 A gado i gystudd ddod
 Oddi yma ac oddi draw ;
 A byw dan nawdd y dwyfol waed
 Yng ngolwg hyfryd dŷ fy Nhad.

- 3 Mi fyddaf lawen iawn,
 A'm gofid dan fy nhraed,
 O fore hyd brynhawn,
 Dan adain gwir fwynhad ;
 Nid oes dim arall is y nef
 A ddaw â'm henaidd tua thref.

W.

64

Arglwydd, Cofia fi.

66. 66. 88.

- 1 **I** FYNY at fy Nuw,
 Fy enaid, cod dy lef,
 Uwchlaw yr euraid lu,
 I eithaf nef y nef :
 Gostwng dy glust o'r bryniau fry,
 O ! Arglwydd grasol, cofia fi.
- 2 'R wyf yma'n wael fy ngwedd,
 Yn euog ac yn wan,
 Gelynion creulon sydd
 O'm hamgylch ym mhob man :
 Bydd imi'n blaid yn erbyn llu,
 O ! Arglwydd grasol, cofia fi.
- 3 Yn wŷneb uffern ddu,
 Ac angau mawr ei rym,
 Rho imi nerth wrth raid,
 Bydd Di yn nodded im :
 Yn nyfroedd cryf Iorddonen ddu,
 O ! Arglwydd grasol, cofia fi.

D.C.

65

Cyfoeth yn Nuw.

66. 66. 88.

- 1 **O** ! UCHDER heb ei faint,
 O ! ddyfnder heb ddim rhi',
 O ! led a hyd heb fath,
 Yw'n hiechydwrriaeth ni :
 Pwy wŷyr, pwy ddwed—seraffiaid, saint,
 O'r ddaer i'r nef, beth yw fy mraint ?
- 2 Mae'r ddaear a'i holl swyn
 Oll yn diflannu'n awr ;
 A'i themtasiynau cry'
 Sy'n cŵympo'n llu i'r llawr ;
 Holl flodau'r byd sydd heb eu lliw ;
 'D oes dim yn hyfryd ond fy Nuw.

- 3 Mae haul a sêr y rhod
 Yn darfod oll o'm blaen ;
 Mae twllwch dudew'n dod
 Ar bopeth hyfryd glân :
 Fy Nuw ei Hun sy'n hardd, sy'n fawr,
 Ac oll yn oll mewn nef a llawr.

w.

66

Ffoi at Dduw.

66. 84. D.

- 1 **T**I, Arglwydd, yw fy rhan,
 A'm trysor mawr di-drai,
 A noddfa gadarn f'enaïd gwan
 Ym mhob rhyw wae :
 Ac atat 'r wyf yn ffoi,
 Dy fynwes yw fy nyth,
 Pan fo gelynion yn crynhoi,
 Rifedi'r gwllith.
- 2 Tydi, fy Nuw ei Hun,
 Anfeidrol berffaith Fod,
 Sy'n trefnu daear, da, a dyn
 I'th ddwyfol glod ;
 Cyfrwydda f'enaïd gwan
 Trwy'r anial yn y blaen,
 Ac arwain fi 'mhob dyrys fan
 Â'th golofn dân.
- 3 Dy Ysbryd sanctaidd cun
 Dywysodd fyrdd o saint,
 Rho imi brofi ei felys rin,
 Anfeidrol fraint ;
 Fel dyfroedd gloyw clir,
 I lonni'r llesg a'r gwan,
 Diddanweh yn yr anial dir
 I'm dal i'r lan.

w.

67

Ffordd Duw'n guddiedig.

76. 76. D.

1 **F**FORDD Duw sydd yn y dyfroedd,
 A'i lwybrau oll yn gudd ;
 Er hynny, dônt yn amlwg
 Pan ddêl yr hynod ddydd :
 Holl droeon maith rhagluniaeth—
 Bydd clir belydrau Duw
 Yn dangos eu cymhwyster
 I bob creadur byw.

2 Gan hynny, ymdawelwn
 Mewn gostyngeddwrwydd gwiw,
 A gwir fwyneidd-dra duwiol
 Mewn 'stormydd o bob rhyw :
 Pob awel lem anhyfryd—
 Yn ôl yr arfaeth gynt,
 Ar honno yn marchogaeth
 Mae Arglwydd mawr y gwynt.

D.CS. ar.

68

Cariad Duw.

76. 76. D.

1 **O** ! FOROEDD o ddoethineb
 Oedd yn y Duwdod mawr,
 Pan fu'n cyfrannu ei gariad
 I dlodion gwael y llawr ;
 A gwneuthur ei drugaredd,
 A'i faith dosturi 'nghyd
 I redeg megis afon
 Lifeiriol dros y byd.

2 Rhyw ddyfnder maith o gariad,
 Lled, annherfynol hyd,
 A redodd megis dilyw
 Diddiwedd dros y byd ;
 Yn ateb dyfnder eithaf
 Trueni dynol-ryw ;
 Cans dyfnder eilw ar ddyfnder
 Yn arfaeth hen fy Nuw.

- 3 O ! gariad heb ei gymar !
 A dyna'r testun sy
 Yn llanw holl ganiadau
 Angylaidd sanctaidd lu ;
 Anfeidrol ras ! amdano,
 Pe na foliannai dyn,
 Clodforai'r bydoedd mudion
 Yn ddiau bob yr un.

W.—G.D.C.

69

Doethineb a Daioni Duw.

76. 76. D.

- 1 **F**Y Nuw, uwch law fy neall
 Yw gwaith dy ddwylo i gyd ;
 Rhyfeddod annherfynol
 Sydd ynddynt oll ynghyd ;
 Wrth weled dy ddoethineb,
 Dy allu mawr, a'th fri,
 Mi greda' am iechydwrriaeth
 Yn hollol ynot Ti.
- 2 O ! f'enaïd, gwêl fath noddfa
 Ddiysgog gadarn yw,
 Ym mhob rhyw gyfyngderau,
 Tragwyddol ras fy Nuw :
 Ac yma boed fy nhrigfan,
 Boed fy nhawelaf nyth,
 Yn nyfnder cyfyngderau,
 Sef dan dy adain byth.
- 3 Fe all i'r lan fy nghodi
 O ddyfnder llweh y byd,
 Gwneud i bob drwg a gwrddwyf
 Droï er daioni i gyd ;
 Rhoï olew o lawenydd
 Yn wastad ar fy mhen,
 A'm dwyn trwy foroedd dyfnion
 I ganol nefoedd wen.

W.—G.D.C.

70

Duw yn hoffi Trugarhau.

76. 76. D.

- 1 **P**A dduw ymhlith y duwiau
 Sydd debyg i'n Duw ni ?
 Mae'n hoffi maddau'n beiau,
 Mae'n hoffi gwrandau'n cri ;
 Nid byth y deil eiddigedd,
 Gwell ganddo drugarhau ;
 Er maint ein hannheilyngdod,
 Mae'i gariad E'n parhau.

D.S.

71

Duw Rhagluniaeth.

76. 76. D.

- 1 **O** ! ARGLWYDD Dduw rhagluniaeth,
 Ac iechydwrriaeth dyn,
 Tydi sy'n llywodraethu
 Y byd a'r nef dy Hun ;
 Yn wŷneb pob caledi
 Y sydd neu eto ddaw,
 Dod gadarn gymorth imi
 I lechu yn dy law.

AN.

- 2 Er cryfed ydyw'r gwyntoedd
 A chedyrn donnau'r môr,
 Doethineb ydyw'r Llywydd,
 A'i enw'n gadarn Iôr ;
 Er gwaethaf dilyw pechod
 A llygredd o bob rhyw,
 Dihangol byth heb soddi,
 Am fod yr arch yn Dduw.

A.G.

72

Noddfa a Nerth.

77. 77. D.

- 1 **H**OLLALLUOG ! nodda ni,
 Cymorth hawdd ei gael wyt Ti ;
 Er i'n beiau dy bellhau,
 Agos wyt i drugarhau ;

Cadw ni o fewn dy law,
Ac nid ofnwn ddim a ddaw :
Nid oes nodded fel yr Iôr,
Gorfoledded tir a môr !

2 Hollalluog ! nodda ni,
Trech na gwaethaf dyn wyt Ti ;
Oni fuost inni'n blaid
Ym mhob oes ac ym mhob rhaid ?
Cofia'r tywys arnom fu,
Cofia'r enw arnom sy :
Nid oes nodded fel yr Iôr,
Gorfoledded tir a môr !

3 Hollalluog ! nodda ni,
Nerth ein bywyd ydwyt Ti ;
Cadw gymod yn ein tir,
Cadw gariad at y gwir ;
Cadarn fo dy law o'n tu,
Cryfach na banerog lu :
Nid oes nodded fel yr Iôr,
Gorfoledded tir a môr !

E.W.

73

Gofal Duw.

8. 33. 6.

- 1 **E**NAID gwan, paham yr ofni ?
Cariad yw
Meddwl Duw ;
Cofia'i holl ddaioni.
- 2 Pam yr ofni'r cwmwl weithian ?
Mae Efe
Yn ei le
Yn rheoli'r cyfan.
- 3 Os yw'n gwisgo y blodeuyn,
Wywa'n llwyr
Gyda'r hwyr,
Oni chofia'i blentyn ?

- 4 Duw a wŷyr dy holl bryderon,
 Agos yw
 Dynol-ryw
 Beunydd at ei galon.
- 5 Er dy fwyn ei Fab a roddodd ;
 Cofia'r groes
 Ddyddiau d'oes—
 " Canys felly carodd."
- 6 Bellach rho dy ofnau heibio ;
 Cariad yw
 Meddwl Duw ;
 Llawenycha ynddo.

H.E.L.

74

Mawredd Duw.

86. 86. 88. 86.

- 1 **M**AE'N llond y nefoedd, llond y byd,
 Llond uffern hefyd yw ;
 Llond tragwyddoldeb maith ei hun,
 Diderfyn ydyw Duw ;
 Mae'n llond y gwagle yn ddi-goll,
 Mae oll yn oll, a'i allu'n un,
 Anfeidrol annherfynol Fod
 A'i hanfod ynddo'i Hun.
- 2 Clyw, f'enaid tlawd, mae gennyt Dad
 Sy'n gweld dy fwriad gwan,
 A Brawd yn eiriol yn y nef
 Cyn codi o'th lef i'r lan :
 Cred nad diystyr gan dy Dad
 Yw gwrando gwaedd dymuniad gwiw,
 Pe byddai d'enau yn rhy fud
 I'w dwedyd gerbron Duw.

E.J.

75

Duw yn Dad.

86. 86. 88. 86.

- 1 **O**RUCHEL Lywydd nef a llawr,
 Rhown iti fyth fawrhad ;

Ti sydd anfeidrol nerthol Nêr,
 Ac annwyl dyner Dad :
 Tad tragwyddoldeb, Tad pob dawn,
 Yn rasol gawn trwy'n hoes i gyd ;
 Mae calon Tad tu ôl i'r fraich
 Sy'n cynnal baich y byd.

J.H.S.

76

Ymofyn am Dduw.

87. 87. 47.

- 1 **D**UW anfeidrol yw dy enw,
 Llanw'r nefoedd, llanw'r byd ;
 F'enaidd innau sy'n dy olrhain
 Trwy'r greadigaeth faith i gyd :
 Ffaelu â'th ffeindio
 I'r cyflawnder sy arna'i chwant.
- 2 Dwed a ellir nesu atat,
 Dwed a ellir dy fwynhau,
 Heb un gorchudd ar dy wŷnebb,
 Nac un gwg i'm llwfwrhau :
 Dyma'r nefoedd
 A ddeisyfwn tu yma i'r bedd.
- 3 Ffaelu'r wyf fi â'th orddiwes,
 Ffaelu â'th gyrraedd Di yn lân,
 Er fy mod yn gweld dy gamre
 Perffaith, hyfryd, draw o'm blaen :
 Doed yr amser
 Na bo awr heb dy fwynhau.
- 4 Yn y man 'r wyt Ti'n cartrefu
 Y cyweiriaf fi fy nyth ;
 Gwedd dy wŷnebb fydd fy nefoedd
 Yma ac oddi yma byth :
 Nid oes bleser
 A gyflawna byth dy le.

W.

77

Syched am Dduw.

87. 87. 47.

- 1 **F**Y nymuniad, paid â gorffwys
 Ar un tegan is y nef ;
 Eto 'rioed ni welodd llygad
 Wrthrych tebyg iddo Ef :
 Cerdda rhagot,
 'R wyt ti bron a'i wir fwynhau.
- 2 Ffárwel, ffárwel oll a welaf,
 Oll sydd ar y ddaer yn byw ;
 Gedwch imi, ond munudyn,
 Gael yn rhywle gwrdd â'm Duw :
 Dyna leinw
 'Nymuniadau oll yn un.
- 3 D'air a wnaeth y moroedd helaeth,
 D'air a wnaeth y ddaear fawr,
 D'air a greodd lu'r ffurfafen
 Sydd yn hongian uwch y llawr :
 'Mysg a greaist,
 'D oes gyffelyb it dy Hun.
- 4 Tyrd, yr Hwn wyt yn hawddgarach
 Na'th greaduriaid maith eu rhi' ;
 Pryd y doi, y gwnei dy drigfan
 Bob munudyn gyda mi ?
 Tyrd yn fuan,
 Arglwydd, at y sawl a'th gâr.

w.

78

Duw a Digon.

87. 87. 47.

- 1 **N**ID oes eisiau un creadur
 Yn bresennol lle bo Duw ;
 Mae E'n fwyd, y mae E'n ddiod,
 Nerth fy natur egwan yw :
 Pob hapusrwydd
 Sydd yn aros ynddo'i Hun.

- 2 Gyrrwch fi i eithaf twllwch,
Hwnt i derfyn oll sy'n bod,
I ryw wagle dudew anial,
Na fu creadur ynddo 'rioed ;
Hapus hapus
Fyddaf yno gyda Thi.
- 3 Nid oes unman imi'n gartref,
Nid oes drigfan o un rhyw
Alla'i galw yn hyfrydwch
Imi'n awr ond mynwes Duw ;
Yn ei fynwes
Mae fy naear i a'm nef.

w.

79

Gofal a Chariad Duw.

87. 87. 47.

- 1 **E**R dy fod yn uchder nefoedd,
Uwch cyrhaeddiad meddwl dyn,
Eto dy greaduriaid lleiaf
Sy'n dy olwg bob yr un ;
Nid oes meddwl
Ond sy'n olau oll o'th flaen.
- 2 Ti yw 'Nhad, a Thi yw 'Mhriod,
Ti yw f'Arglwydd, Ti yw 'Nuw,
F'unig Dŵr, a'm hunig Noddfa,
Wyt i farw neu i fyw :
Cymer f'enaid
Dan dy adain tua'r nef.
- 3 Tro 'ngelynyion yn eu gwrthol,
A phalmanta'r ffordd i'r wlad,
Tra fwy'n yfed addewidion
Pur yr iechydwriaeth rad ;
Fel y gallwyf
O'm holl gystudd ymgryfhau.
- 4 Minnau ymddigrifaf ynot,
A chanmolaf fyth dy ras,

Tra fo'r anadl bur yn para,
 Ynteu wedi'r êl i maes :
 Tragwyddoldeb
 Ni chaiff ddiwedd ar fy nghân.

W.

80

Gwaith Duw yn yr Enaid.

87. 87. 47.

1 'R WY'N dy garu, Ti a'i gwyddost,
 'R wy'n dy garu, f'Arglwydd mawr ;
 'R wy'n dy garu yn anwylach
 Na'r gwrthrychau ar y llawr :
 Darllen yma
 Ar fy ysbryd waith dy law.

2 Fflam o dân o ganol nefoedd
 Yw, ddisgynnodd yma i'r byd,
 Tân a lysg fy natur gyndyn,
 Tân a leinw f'eang fryd :
 Hwn ni ddiffydd
 Tra parhao Duw mewn bod.

3 P'le'r enynnodd fy nymuniad ?
 P'le cadd fy serchiadau dân ?
 P'le daeth hiraeth im am bethau
 Fûm yn eu casáu o'r blaen ?
 Iesu, Iesu,
 Cwbwl ydyw gwaith dy law.

4 Dymuniadau pell eu hamcan
 Ynof wy'n eu teimlo 'nglŷn,
 Dacw'r ffynnon y tarddasant—
 Anfeidroldeb mawr ei hun :
 Dyma 'ngobaith
 Bellach byth y cânt barhau.

W.

81

“ Dy Lwybrau yn y Dyfroedd Dyfnion.”

87. 87. 47.

1 D UW anfeidrol yw dy enw,
 Llanw'r nefoedd, llanw'r llawr ;

Mae dy lwybrau'n anweledig
 Yn nyfnderoedd moroedd mawr ;
 Dy feddyliau—
 Is nag uffern, uwch na'r nef.

- 2 Minnau'n ddyfal sy'n ymofyn
 Ar yr aswy, ar y dde,
 Ceisio ffeindio dwfwn gyngor
 A dibenion Brenin ne' :
 Hyn a ffeindiais—
 Mai daioni yw oll i mi.
- 3 Da yw'r groes, a da yw gwasgfa,
 Da yw profedigaeth llym ;
 Oll a'm tyn i o'r creadur,
 O'm haeddiannau ac o'm grym ;
 Minnau'r truan
 Ffof dan adain Brenin nef.

w.

82

Noddfa yn Nuw.

87. 87. 47.

- 1 **D**ARFU noddfa mewn creadur,
 Rhaid cael noddfa'n nes i'r nef ;
 Nid oes gadarn le im orffwys
 Fythol ond ei fynwes Ef ;
 Dyma'r unig
 Fan caiff f'enaid wir iachâd.
- 2 Dan dy adain cedwir f'enaid,
 Dan dy adain byddaf byw,
 Dan dy adain y gwaredir
 Fi o'r beiau gwaetha'u rhyw ;
 'R wyt yn gysgod
 Rhag euogrwydd yn ei rym.

w.

83

Ein Cadarn Dŵr.

87. 87. 55. 567.

- 1 **E**IN nerth a'n cadarn dŵr yw Duw,
 Ein tarian a'n harfogaeth ;

O ing a thrallod o bob rhyw
 Rhydd gyflawn waredigaeth.
 Gelyn dyn a Duw,
 Llawn cynddaredd yw ;
 Gallu a dichell gref
 Yw ei arfogaeth ef ;
 Digymar yw'r anturiaeth.

2 Ni ellir dim o allu dyn :
 Mewn siomiant blin mae'n diffodd ;
 Ond trosom ni mae'r addas Un,
 A Duw ei Hun a'i trefnodd.
 Pwy ? medd calon drist :
 Neb ond Iesu Grist,
 Arglwydd lluoedd nef ;
 Ac nid oes Duw ond Ef ;
 Y maes erioed ni chollodd.

LUTHER, C. L.E.

84

Trugaredd Duw.

87. 87. D.

1 **D**EUED dyddiau o bob cymysg
 Ar fy nherfynedig oes ;
 Tywynned haul oleudeg llwyddiant,
 Neu ynteu gwasged garw groes,—
 Clod fy Nuw gaiff lanw 'ngenau
 Trwy bob timestl, trwy bob hin ;
 A phob enw gaiff ei lynu
 Yn ei enw Ef ei Hun.

2 Ynddo'n unig 'r wy'n ymddiried,
 Hollalluog yw fy Nuw ;
 A ffeiddio'r wyf bob noddfa
 Arall—annigonol yw ;
 Yn ei iechydwriaeth rasol
 Yn unig 'r wyf yn llawenhau ;
 Dyma'r fan y tardd cysuron
 Sy'n dragwyddol yn parhau.

- 3 Mae ei glustiau yn agored
 I bob rhyw ddrylliedig lef,
 Ac mae'r drom ochenaid glwyfus
 Yn cyrhaeddyd ato Ef ;
 Pan fo twllwch ac anobaith
 Yn amgylchu'r llwybrau cudd,
 Fe ddaw 'mlaen, fe dry y cyfnos
 Yn gan goleuach hanner dydd.
- 4 Boed fy nhafod fyth, gan hynny,
 Yn seinio'i anghymharol glod,
 Rhyfeddodau maith y cariad
 Pennaf welodd dyn erioed ;
 Caiff angylion a seraffiaid
 Blethu eu cân â mi yn un,
 Gyda llu heb un rhifedi,
 Am ogoniant Mab y Dyn.

w.

85

Ymostwng i Benarglwyddiaeth Duw.

87. 87. D.

- 1 TYRED, Arglwydd, tyrd yn fuan,
 Dim ni'm boddia dan y ne',
 Dim ond Ti a ddeil fy ysbryd
 Gwan lluddedig yn ei le ;
 Neb ond Ti a gyfyd f'enaid
 Llesg o'r pydew du i'r lan ;
 Os Tydi sy'n gwneud im ochain,
 Ti'm gwnei'n llawen yn y man.
- 2 Hwyl fy enaid sy wrth d'ewyllys,
 Fel y mynnych mae yn bod
 Oll o mewn, ac oll oddi allan,
 Ddigwydd imi is y rhod :
 'N awr Ti'm codi i'r lan i'r nefoedd,
 Eilwaith Ti'm gostyngi i lawr ;
 Mae dy gerydd, mae dy gariad
 Im yr un rhyfeddod mawr.

- 3 Tyrd, rho gerydd im, neu gariad,
 'R un a fynnych Di dy Hun ;
 Ond trwy'r cwbwyl cadw f'ysbryd
 Yn sefydlog wrth dy glun :
 Dros y bryniau gwna i mi gerdded
 Tuag adre'n ddinacâd,
 Heb yn unlle imi edrych
 Ond ar degwch tŷ fy Nhad.

w.

86

Bwriad grasol Duw.

87. 87. D.

- 1 **D**RAW mi welaf ryfeddodau
 Dyfnion bethau Tri yn Un,
 Cyn bod Eden ardd na chodwm—
 Grasol fwriad Duw at ddyn :
 Ethol meichiau cyn bod dyled,
 Trefnu meddyg cyn bod clwy',
 Caru gelyn heb un haeddiant ;
 Caiff y clod tragwyddol mwy.

Cas. M.D. 1.

- 2 O ! dragwyddol iechydwriaeth,
 Yn yr arfaeth gafodd le,
 I gyfodi plant marwolaeth
 I etifeddiaeth bur y ne' :
 Cariad bore, mor ddiddechrau
 Ag yw hanfod Tri yn Un,
 Yn coffeidio meibion Adda
 Yn yr Alpha mawr ei Hun.

w.o.

87

Adnabod Duw.

87. 87. D.

- 1 **O** ! AM dreiddio i'r adnabyddiaeth
 O'r unig wir a bywiol Dduw,
 I'r fath raddau a fo'n lladdfa
 I ddychmygion o bob rhyw ;
 Credu'r gair sy'n dweud amdano,
 Am ei natur sanctaidd wiw
 Sy'n farwolaeth i bechadur
 Heb gael Iawn o drefniad Duw.

- 2 Mae'r Duw anfeidrol mewn gogoniant,
 Er mai Duw y cariad yw,
 Wrth ei gofio, imi'n ddychryn,
 Imi'n ddolur, imi'n friw :
 Ond ym mhabell y cyfarfod,
 Mae Ef yno'n llawn o hedd,
 Yn Dduw cymodlawn wedi eistedd,
 Heb ddim ond heddwch yn ei wedd.
- 3 Cael Duw yn Dad, a Thad yn Noddfa,
 Noddfa'n Graig, a'r Graig yn Dŵr,
 Mwy ni allaf ei ddymuno
 Gyda mi mewn tân a dŵr ;
 Ohono Ef mae fy nigonedd ;
 Ac ynddo trwy fyddinoedd af ;
 Hebddo, eiddil, gwan a dinerth,
 Colli'r dydd yn wir a wnafl.

A.G.

88

O ! Gariad na'm Gollyngi.

8888. 6.

- 1 **O** ! GARIAD na'm gollyngi i,
 Gorffwysfa f'enaïd ynot sydd :
 Yr einioes roddaist, cymer hi,
 A llawnach, glanach fyth ei lli
 Yn d'eigion dwfn a fydd.
- 2 O ! Lewyrch yn fy nghanlyn sydd,
 Fy nghanwyll wan a rof i Ti ;
 A golau bentyg hon a fydd
 Yn twnnu'n loywach, decach dydd,
 Yn dy glaer heulwen Di.
- 3 O ! Wynfyd pur a'm cais trwy fraw,
 Ni allaf rhagot gau fy mron ;
 'R wy'n gweld yr enfys trwy y glaw,
 Yn ôl d'addewid gwn y daw
 Diddagrau fore llon.

- 4 O ! Groes a gŵyd fy mhen, yn awr
 Ni feiddiaf ddeisyf d'ochel Di ;
 Mi fwriaf falchder f'oes i'r llawr,
 A thardd o'i lwch, â gwridog wawr,
 Fy mythol fywyd i.

G. MATHESON, c. D.T.E.

89

Duw yn Maddau.

88. 88. 88.

- 1 **D**UW mawr y rhyfeddodau maith !
 Rhyfeddol yw pob rhan o'th waith ;
 Ond dwyfol ras, mwy rhyfedd yw
 Na'th holl weithredoedd o bob rhyw.
 Pa dduw sy'n maddau fel Tydi
 Yn rhad ein holl bechodau ni ?
- 2 O ! maddau'r holl gamweddau mawr,
 Ac arbed euog lwch y llawr ;
 Tydi yn unig fedd yr hawl,
 Ac ni chaiff arall ran o'r mawl.
 Pa dduw sy'n maddau fel Tydi
 Yn rhad ein holl bechodau ni ?
- 3 O ! boed i'th ras anfeidrol gwiw,
 A gwyrth dy gariad mawr, O ! Dduw,
 Orlenwi'r ddaear faith â'th glod,
 Hyd nefoedd, tra fo'r byd yn bod.
 Pa dduw sy'n maddau fel Tydi
 Yn rhad ein holl bechodau ni ?

DR. S. DAVIES, c. J.R.J. (1805).

90

SALM XLVI. 1—5.

888. 888.

- 1 **D**UW yw fy nerth a'm noddfa lawn ;
 Mewn cyfyngderau creulon iawn,
 Pan alwom arno, mae gerllaw ;
 Ped âi'r mynyddoedd mwya' i'r môr,
 Pe chwalai'r ddaear fawr a'i stôr,
 Nid ofnai f'enaid i ddim braw.

- 2 A phe ddi'r moroedd dros y byd
 Yn genllif garw coch i gyd,
 Nes soddi'r bryniau fel o'r blaen ;
 Mae afon bur i lawenhau
 Â'i frydiau ddinas Duw'n ddi-drai,
 Preswylfa'i saint, a'i babell lân.
- 3 A Duw sydd yno yn eu plith,
 Ni 'sgogir un ohonynt byth ;
 Fe'u cymorth hwy yn fore iawn :
 Y bore byddo mwy na mwy
 O bob gwasgfaeon arnynt hwy,
 Ceir gweld addewid Duw yn llawn.

W.

91

Cadernid Cyfamod Duw.

10. 10. 10. 10.

- 1 CYFAMOD hedd, cyfamod cadarn Duw,
 Ni syfl o'i le, nid ie a nage yw :
 Cyfamod gwir, ni chyfnewidir chwaith ;
 Er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.
- 2 Cyfamod rhad, o drefniad Un yn Dri,
 Hen air y llw a droes yn elw i ni :
 Mae'n ddigon cry' i'n codi i fyny'n fyw ;
 Ei rym o hyd yw holl-gadernyd Duw.
- 3 Cyfamod cry'—pwy ato ddyry ddim ?
 Nid byd na bedd all dorri'i ryfedd rym :
 Diysgog yw hen arfaeth Duw o hyd ;
 Nid siglo mae, fel gweinion bethau'r byd.
- 4 Er llithro i'r llaid, a llygru defaid Duw,
 Cyfamod sy i'w codi i fyny'n fyw,
 A golchi i gyd eu holl aflendid hwy,
 A'u dwyn o'r bedd heb ddim amhuredd mwy.

E.J.

92

Arfaeth Duw.

10. 10. 10. 10.

- 1 CYN llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen,
Cyn gosod haul, na lloer, na sêr uwchben,
Fe drefnwyd ffordd yng nghyngor Tri yn Un
I achub gwael golledig euog ddyn.
- 2 Trysorwyd gras, ryw annherfynol stôr,
Yn Iesu Grist cyn rhoddi deddf i'r môr ;
A rhedeg wnaeth bendithion arfaeth ddrud,
Fel afon gref lifeiriol dros y byd.
- 3 Mae'r utgorn mawr yn seinio'n awr i ni
Olyngdod llawn trwy'r Iawn ar Galfari :
Mawl ym mhob iaith trwy'r ddaear faith a fydd,
Am angau'r groes, a'r gwaed a'n rhoes yn rhydd.

P.J.

93

Ti Dduw Unig Ddoeth.

11. 11. 11. 11.

- 1 TI, Dduw unig ddoeth, y goleuni a'th gêl,
Tragywydd wyt Ti, nid oes lygad a'th wêl.
Dy rym a'th ogoniant byth bythoedd yn bod,
Bendigaid, goruchel, i'th enw rhown glod.
- 2 Heb orffwys, heb frysio, mor dawel â'r dydd,
Heb brinder, heb orfod, a fynni a fydd ;
Cadarnach dy farn na'r mynyddoedd mawr iawn ;
A daw o'th gymylau bob cariad a dawn.
- 3 Tydi a rydd fywyd i fychan a mawr,
Tydi ym mhob bywyd yw'r bywyd bob awr ;
Blagurwn, heneiddiwn, fel dail ar y coed,
Heneiddiwn, diflannwn, a Thi fel erioed.
- 4 Ti, Dad y Gogoniant a'r golau uwchben,
Fe'th fawl yr angylion, a'u golau tan len ;
Dod gymorth, pob moliant a roddwn i Ti,
Ysblander y golau a'th gudd rhagom ni.

W. CHALMERS SMITH, c. T.G.J.

YR ARGLWYDD IESU GRIST.

94

Cariad ac Iawn Crist.

M. B.

- 1 **C**YDUNED Seion lân
Mewn cân bereiddia'i blas
O fawl am drugareddau'r Iôn,
Ei roddion Ef a'i ras.
- 2 P'le gwelir cariad fel
Ei ryfedd gariad Ef ?
P'le bu cyffelyb iddo 'rioed ?
Rhyfeddod nef y nef !
- 3 Fe'n carodd cyn ein bod,
A'i briod Fab a roes,
Yn ôl amodau hen y llw,
I farw ar y groes.
- 4 Gwnaeth Iesu berffaith Iawn
Brynhawn ar Galfari :
Yn ei gyfiawnder pur di-lyth
Mae noddfa byth i ni.
- 5 Anfeidrol ydyw gwerth
A rhin ei aberth mawr,
I achub rhyw aneirif lu
O deulu gwael y llawr.
- 6 Y rhai, yn berffaith lân,
A beraidd gân i gyd,
I'r bendigedig unig Oen
Yn iach o boen y byd.

JS.H.

95

Haeddiant y Groes.

M. B.

- 1 **T**I, Iesu, Frenin nef,
F' Anwylyd i a'm Duw !
Yn eithaf pell o dŷ fy Nhad,
Mewn anial wlad, 'r wy'n byw.

- 2 Mewn ofnau'r wyf, a braw,
Bob llaw gelynion sydd ;
O ! addfwyn Iesu, saf o'm rhan,
A thyn y gwan yn rhydd.
- 3 Mae rhinwedd yn dy waed
I faddau beiau mwy
Nag y gall angel chwaith na dyn,
Byth rifo monynt hwy.
- 4 Mae ffynnon ar y bryn
A ylch yn wyn a glân
Bechodau o'r ffeiddia' 'rïoed
Rifedi'r tywod mân.
- 5 'D oes diwedd fyth na thrai
Ar gariad angau loes ;
Uwch pris o'r gwerthfawrocaf gaed
Yw haeddiant gwaed y groes. W.

96

Nodded Gras y Nef.

M. B.

- 1 **Y**N nodded gras y nef
Wynebwn ar y byd ;
Nid ofnwn ei drallodion ef,
Na'i demtasiynau i gyd.
- 2 Er maint ei lafur blin
A'i aml ofidiau maith,
Fe leddfa Duw yr arw hin,
Fe ysgafnha y gwaith.
- 3 Yn haeddiant gwaed y Groes
Wynebwn orsedd Duw ;
Er amled yw pechodau oes
Cawn yn ei gysgod fyw.

- 4 Yng nghwmni Iesu Grist
Wynebwn angau prudd ;
Try Ef y nos-gysgodau trist
Yn hyfryd fore-ddydd.
- 5 Wynebwn ar y bedd
Ond cael yr Iesu'n rhan,
Mewn gobaith deffro ar ei wedd,
A chodi'n iach i'r lan.

E.R.O.

97

Trefn y Cadw.

M. B.

- 1 **T**OSTURI dwyfol fawr
At lwch y llawr fu'n bod,
Pan gymerth Duw achubiaeth dyn,
A'i glymu'n un â'i glod.
- 2 Pan ddaeth y Mab o'i fodd
I farw yn ein lle,
Agorodd ffordd i'n dwyn at Dduw ;
Ein Ceidwad yw Efe.
- 3 Mae Iesu'n fawr ei fri,
A'i glod yn llenwi'r nef ;
A holl hyfrydwch pur y plant
Yw ei ogoniant Ef.

E.P.R.

98

Y cwbl trwy'r Gwaed.

M. B. D.

- 1 **D**Y glwyfau yw fy rhan,
Fy nhirion Iesu da ;
Y rhain yw nerth fy enaid gwan,
Y rhain a'm llwyr iachâ :
Er saled yw fy nrych,
Er tloted wyf yn awr,
Fy llenwi gaf â llawnder Duw,
A'm gweled fel y wawr.

- 2 Mi brofais Dduw yn dda,
 Fy nhirion raslon Dad,
 Yn maddau im fy meiau mawr
 Yn rhwydd o'i gariad rhad :
 Fe'm seliodd i mewn hedd—
 On'd rhyfedd yw ei ras ?
 Fe'm bwydodd i â'r manna pur
 Mewn gwledd o hyfryd flas.

W.

99

Y Gwaed yn puro'r Gydwylbod.

M. B. D.

- 1 **M**I gana' am waed yr Oen,
 Er maint yw 'mhoen a'm pla ;
 'D oes genny'n wneub calon ddu
 Ond Iesu'r Meddyg da ;
 Fy mlino ges gan hon,
 A'i throeon chwerwon chwith ;
 Fy unig sail i am y wlad
 Yw'r cariad bery byth.

G. 1.

100

Adnabod Crist.

M. B. D.

- 1 **W**EL dyma'r Ceidwad mawr
 A ddaeth i lawr o'r nef
 I achub gwaelaidd lwch y llawr ;
 Gogoniant iddo Ef !
 Bu farw yn ein lle
 Ni, bechaduriaid gwael ;
 Mae pob cyflawnder ynddo Fe
 Sydd arnom eisiau'i gael.
- 2 Ei 'nabod Ef yn iawn
 Yw'r bywyd llawn o hedd,
 A gweld ei iechydwrriaeth lawn
 Sydd yn dragwyddol wledd :
 Cael teimlo gwaed y groes
 Yn dofi'r loes a'r cur,
 A wnaeth i filoedd o bob oes
 Gydsseinio'r anthem bur.

J.T.

101

Pob peth yng Nghrist.

M. C.

- 1 **T**I, Iesu, ydwyf, oll dy Hun
 Fy meddiant ar y llawr ;
 A Thi dy Hunan fydd fy oll
 O fewn i'r nefoedd fawr.
- 2 Mae 'nymuniadau maith eu hyd
 Yn pwyntio oll yn un,
 Dros bob gwrthrychau is y sêr,
 Ac atat Ti dy Hun.
- 3 O ! ffynnon trugareddau maith,
 Diderfyn yw dy ras,
 I roi trysorau penna'r nef
 I'r tlotaf un i maes.
- 4 Fy unig gysur dan bob gwae
 Dy fod Di imi'n Dduw ;
 Ac yn dy gysgod mi af trwy
 Gystuddiau o bob rhyw.
- 5 Anghyfnewidiol gair y nef,
 Ond cyfnewidiol fi ;
 Am hyn mi safaf, doed a ddêl,
 Mae'r afael sicraf fry.

W.

102

Ffordd at yr Orsedd.

M. C.

- 1 **M**AE'R orsedd fawr yn awr yn rhydd,
 Gwrandewir llais y gwan ;
 Wel, cyfod bellach, f'enaid prudd,
 Anadla tua'r lan.
- 2 Wel, anfon eirchion amal rif,
 I mewn i byrth y nef ;
 Gwrandewir pob amddifad gri
 Yn union ganddo Ef.

- 3 Myfi anturia'n awr ymlaen,
 Heb alwad is y ne',
 Ond bod perffeithrwydd mawr y groes
 Yn ateb yn fy lle.
- 4 Calfaria fryn yw'r unig sail
 Adeilaf arno mwy ;
 A gwraidd fy nghysur fyth gaiff fod
 Mewn dwyfol farwol glwy'.

w.

103

Y Groes a'r Eiriolaeth.

M. C.

- 1 **M**I dafla' 'maich oddi ar fy ngwar
 Wrth deimlo dwyfol loes ;
 Euogrwydd fel mynyddoedd byd
 Dry'n ganu wrth dy groes.
- 2 Os edrych wnaif i'r dwyrain draw,
 Os edrych wnaif i'r de,
 Ymhlith a fu, neu ynteu ddaw,
 'D oes debyg iddo Fe.
- 3 Fe roes ei ddwylo pur ar led,
 Fe wisgodd goron ddrain,
 Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn
 Fel hyfryd liain main.
- 4 Esgyn a wnaeth i entrych nef
 I eiriol dros y gwan ;
 Fe sugna f'enaid innau'n lân
 I'w fynwes yn y man.
- 5 Ac yna caf fod gydag Ef
 Pan êl y byd ar dân,
 Ac edrych yn ei hyfryd wedd,
 Gan' harddach nag o'r blaen.

w.

104

Rhinwedd Dwyfol Glwyf.

M. C.

- 1 **N**I all angylion pur y nef,
 A'u doniau amal hwy,
 Fyth osod allan werthfawr bris
 Anfeidrol ddwyfol glwy'.
- 2 Dioddefodd angau, dygyn boen,
 A gofir tra fo'r nef ;
 Fy nerth, fy nghyfoeth i a'm braint,
 A'm noddfa lawn yw Ef.
- 3 Fe'm denodd i, yn ddirgel iawn
 A distaw, ar ei ôl ;
 Ac mewn afonydd dyfnion llawn,
 Cymerodd fi'n ei gôl.
- 4 Na foed fy mywyd bellach mwy
 Yn eiddo i mi fy hun ;
 Ond treulier fy munudau i gyd
 Yn glod i'm Harglwydd cun.

W.

105

Iesu'r Trysor Pennaf.

M. C.

- 1 **N**I feddaf ar y ddaear fawr,
 Ni feddaf yn y ne',
 Neb ag a bery'n annwyl im,
 Yn unig ond Efe.
- 2 Mae ynddo'i Hunan drysor mwy
 Nag sy'n yr India lawn ;
 Fe brynodd imi fwy na'r byd
 Ar groesbren un prynhawn.
- 3 Fe brynodd imi euraid wisg,
 Trwy ddioddef marwol glwy' ;
 A'i angau Ef a guddia 'ngwarth
 I dragwyddoldeb mwy.

- 4 O ! na allwn rodio er ei glod,
 Ac iddo bellach fyw,
 A phob anadliad fynd i maes
 I ganmol gras fy Nuw.

W.

106

Ffyddlondeb Crist.

M. C.

- 1 NI fethodd gweddi daer erioed
 Â chyrraedd hyd y nef ;
 Ac mewn cyfyngder, f'enaid, rhed
 Yn union ato Ef.
- 2 Ac nid oes gyfaill mewn un man,
 Cyffelyb iddo'n bod,
 Pe baem yn chwilio'r ddaear faith,
 A holl derfynau'r rhod.
- 3 Ym mhob rhyw ddoniau mae E'n fawr ;
 Anfeidrol yw ei rym,
 Ac nid oes pwysau ar ei ras,
 Na'i haeddiant dwyfol ddim.
- 4 Mae ei ffyddlondeb fel y môr,
 Heb fesur, a heb drai ;
 A'i drugareddau hyfryd sy'n
 Dragywydd yn parhau.

W.

107

Ffyddlondeb Crist.

M. C.

- 1 ANTURIAF at ei orsedd fwyn
 Dan eithaf tywyll nos ;
 Ac mi orffwysaf, doed a ddêl,
 Ar haeddiant gwaed ei groes.
- 2 Mae ynddo drugareddau fil,
 A chariad heb ddim trai,
 A rhyw ffyddlondeb fel y môr
 At ei gystuddiol rai.

3 Mi rof ffarwél i bob rhyw chwant—
 Pob pleser is y nen ;
 Ac yr wy'n cymryd Iesu o'm bodd
 Yn Briod ac yn Ben.

4 Ni welaf wrthrych mewn un man,
 O'r ddaear las i'r ne',
 A dâl ei garu tra fwyf byw,
 Yn unig ond Efe.

w.

108

Ymddifyrru yn yr Iesu.

M. C.

1 IESU, difyrrwch f'enaid drud
 Yw edrych ar dy wedd ;
 Ac mae llythrennau d'enw pur
 Yn fywyd ac yn hedd.

2 A than dy adain dawel bur
 Yr wy'n dymuno byw,
 Heb ymbleseru fyth mewn dim
 Ond cariad at fy Nuw.

3 Melysach nag yw'r diliau mêl
 Yw munud o'th fwynhau ;
 Ac nid oes gennyf bleser sydd
 Ond hynny yn parhau.

4 O ! cau fy llygaid rhag im weld
 Pleserau gwag y byd,
 Ac imi wÿro byth oddi ar
 Dy lwybrau gwerthfawr drud.

5 'D oes gennyf ond dy allu mawr
 I'm nerthu i fynd ymlaen ;
 Dy iechydwriaeth yw fy ngrym
 A'm concwest i, a'm cân.

w.

109

Cariad a Gras yng Nghrist.

M. C.

- 1 **F**Y meiau trymion, luoedd maith,
A waeddodd tua'r nen ;
A dyna pam 'r oedd raid i'm Duw
Ddioddef ar y pren.
- 2 Hwyl a'th fradychodd, annwyl Oen,
Hwyl oedd y goron ddrain,
Hwyl oedd y fflangell greulon gref,
Hwyl oedd yr hoelion main.
- 3 Fy meiau oedd y wayw-ffon
Drywanai'i ystlys bur,
Fel y daeth ffrwd o dan ei fron
O waed a dyfroedd clir.
- 4 O ! gariad anorchfygol maith,
Heb gymar iddo'n bod ;
Cariad i angel ac i sant,
O anghymharol nod.
- 5 O ! maddau 'mai, a chliria'n llwyr
F'euogrwydd oll i gyd ;
N'ad im dristáu dy fawredd mwy
Tra fyddwyf yn y byd.

W.

110

Ffrwyth yr Ymgawdoliad.

M. C.

- 1 **Y**MHLITH holl ryfeddodau'r nef,
Hwn yw y mwyaf un—
Gweld yr anfeidrol ddwyfol Fod
Yn gwisgo natur dyn.
- 2 Ni chaiff fod eisiau fyth, tra fo
Un seren yn y nef,
Ar neb o'r rhai a roddo'u pwys
Ar ei gyfiawnder Ef.

- 3 Doed y trueiniaid yma 'nghyd,
Finteioedd heb ddim rhi' ;
Cânt eu diwallu oll yn llawn
O ras y nefoedd fry.
- 4 Fe ylech ein beiau i ffwrdd â'i waed,
Fe'n canna oll yn wyn ;
Fe'n dwg o'r anial maith i maes,
I ganu ar Seion fryn.

w.

111

Cariad a Gras yng Nghrist.

M. C.

- 1 **W**EL dyma gyfoeth gwerthfawr llawn,
Uwch holl drysorau'r llawr,
A roed i'w gadw oll ynghyd
Yn haeddiant Iesu mawr.
- 2 Ei gariad lifodd ar y bryn,
Fel moroedd mawr di-drai ;
Ac fe bwrcasodd yno hedd
Tragwyddol i barhau.
- 3 Pan syrthio'r sêr fel ffigys ir,
Fe bery gras fy Nuw :
A'i faith ffyddlondeb tra fo nef,
Anghyfnewidiol yw.

w.

112

Awdurdod Crist.

M. C.

- 1 **'D** A' i 'mofyn haeddiant byth, na nerth,
Na ffafor neb, na'i hedd,
Ond Hwnnw'n unig gŵyd fy llwch
Yn fyw i'r lan o'r bedd.
- 2 Mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,
Ar orsedd fawr y nef ;
Ac y mae'r cyfan sydd mewn bod
Dan ei awdurdod Ef.

3 Fe gryn y ddaer ac uffern fawr
 Wrth amnaid Twysog nen ;
 O ! 'r fath ogoniant sydd i'r Hwn
 Fu'n dioddef ar y pren.

4 O ! Iesu, cymer fi i gyd,
 Fel mynnych gad im fod,
 Ond im gael treulio pob yr awr
 Yn hollol er dy glod.

W.

113

Nerth a Hyfrydwch yng Nghrist.

M. C.

1 **M**I af ymlaen yn nerth y nef
 Tua'r paradwysaidd dir ;
 Ac ni orffwysaf nes cael gweld
 Fy etifeddiaeth bur.

2 Mae llais yn galw i maes o'r byd
 A'i bleser o bob rhyw ;
 Minnau wrandawa'r hyfryd sŵn—
 Llais fy Anwylyd yw.

3 'D wy'n gweld ar aswy nac ar dde,
 'Mhlith holl wrthrychau'r byd,
 Ddim dâl ymddiried yn ei nerth,
 Na rhoddi arno 'mryd.

4 Iesu yw tegwch mawr y byd,
 A thegwch penna'r nef ;
 Ac y mae'r cwbl sydd o werth
 Yn trigo ynddo Ef.

5 A boed fy mhleser bellach byth
 O dan ei adain wiw ;
 Na foed difyrrwch gennyf mwy
 Mewn dim ond yn fy Nuw.

W.

114

Enw Crist.

M. C.

- 1 **M**OR beraidd i'r credadun gwan
 Yw hyfryd enw Crist :
 Mae'n llaesu'i boen, yn gwella'i glwy',
 Yn lladd ei ofnau trist.
- 2 I'r ysbryd clwyfus rhydd iachâd,
 Hedd i'r drallodus fron ;
 Mae'n fanna i'r newynog ddyn,
 I'r blin, gorffwysfa lon.
- 3 Hoff enw ! fy ymguddfa mwy,
 Fy nghraig a'm tarian yw ;
 Trysorfa ddiball yw o ras
 I mi y gwaela'n fyw.
- 4 Iesu, fy Mhroffwyd i a'm Pen,
 F' Offeiriad mawr a'm Brawd,
 Fy mywyd i, fy ffordd, fy nod,
 Derbyn fy moliant tlawd. NEWTON, C. D.CS.

115

Golwg ar Groes Crist.

M. C.

- 1 **'D**OES neb ond Ef, fy Iesu hardd,
 A ddichon lanw 'mryd ;
 Fy holl gysuron byth a dardd
 O'i ddirfawr angau drud.
- 2 'D oes dim yn gwir ddefyrru f'oes
 Helbulus yn y byd
 Ond golwg mynych ar y groes,
 Lle talwyd Iawn mewn pryd.
- 3 Mi welaf le mewn marwol glwy'
 I'r euog guddio'i ben ;
 Ac yma llechaf nes mynd trwy
 Bob aflwydd is y nen.

- 4 Yr Iawn a dalwyd ar y groes
 Yw sylfaen f'enaïd gwan ;
 Wrth bwyso arno ddydd a nos
 'R wy'n disgwyl dod i'r lan.

W.J.

116

Cadarn i Iacháu.

M. C.

- 1 OS ydwyf wael fy llun a'm lliw,
 Os nad yw 'mriw'n gwellhau,
 Af at y Meddyg mawr ei fri,
 Sy'n gadarn i iacháu.

- 2 O'm pen i'm traed 'r wy'n glwyfus oll,
 Pob archoll yn dyfnhau :
 Neb ond y Meddyg da i mi,
 Sy'n gadarn i iacháu.

- 3 Os wyf heb rym i ddim sy dda,
 Dan bwys fy mhla'n llesgáu,
 Rhydd Iesu gryfder i'r di-rym ;
 Mae'n gadarn i'm iacháu.

- 4 O ddydd i ddydd caf nerth i ddal ;
 Mae'i ras yn amalhau :
 Am hyn, nid anobeithiaf ddim,
 Mae'n gadarn i'm iacháu.

E.T.

117

Crist Pen yr Eglwys.

M. C.

- 1 PAN sycho'r moroedd dyfnion maith,
 A syrthio sêr y nen,
 Oen Duw, a laddwyd ar y bryn,
 Ar Seion fydd yn Ben.

- 2 Ei enw a bery tra fo haul,
 Yn glodfawr byth y bydd ;
 Ac ni bydd diwedd ar ei glod
 I dragwyddoldeb ddydd.

- 3 Bendithion rif y tywod mân,
A gwllith y ddaear lawr,
Sy 'nghadw i'r ffyddloniaid fry
Byth yn eu Harglwydd mawr.
- 4 Aed enwau'r byd i gyd yn ddim,
Dyrchafer Brenin nef ;
Mae pob cyflawnder inni byth
Ynghadw ynddo Ef.

M.R.

118

Cysur yn Enw'r Iesu.

M. C.

- 1 IESU yw'r enw mawr di-goll,
Drwy'r ddaear oll a'r nef ;
Angylion, dynion, drwg a da,
A blyga iddo Ef ;
- 2 Yr enw a lonna'r enaid gwan
A gŵyd i'r lan ei lef ;
A hwn yw'r enw mawr a dry
Ei uffern ddu yn nef.
- 3 O ! na ddôi holl drigolion byd
Ynghyd at Iesu gwiw :
Y breichiau a'm cofleidiodd i
Gofleidiai ddynol-ryw.
- 4 Mynegi ei gyfiawnder drud
Fo 'ngwaith mewn byd o boen,
A thraethu rhin ei gariad cu,
Cyhoeddi " Wele'r Oen ! "
- 5 A dedwydd fyddaf yn y glyn,
Os caf amdano sôn ;
Mi waedda'n ŵyneb angau du—
" O ! wele, wele'r Oen ! "

C. WESLEY, c. AN. *diw.*

119

Neb ond Iesu.

M. C.

- 1 **F**FOED negeseuau gwag y dydd,
Trafferthion o bob rhyw ;
Ac na pharhaed o dan y nef
Ond cariad pur fy Nuw.
- 2 Meddiannodd Ef â'i ddwyfol ras
Fy holl serchiadau'n un ;
Na chaed o fewn i'm hysbryd fod
Neb ond fy Iesu'i Hun.
- 3 Mae'r Iesu'n fwy na'r nef ei hun,
Yn fwy na'r ddaear las ;
Ac Iesu'n unig fydd fy oll
Fyth, fyth o hyn i maes.
- 4 Cyflawnder nerth, cyflawnder gras,
Cyflawnder nef y nef,
Uwch deall seraffim a saint,
Sy'n trigo ynddo Ef.

W.

120

Byw i Garu Iesu.

M. S.

- 1 **E**R maint yw chwerw boen y byd
Mi rof fy mryd ar Iesu ;
Ac er pob cystudd trwm a loes
Mi dreulia' f'oes i'w garu.
- 2 Ni welais gyfaill dan y sêr
Mor dyner ag yw Iesu ;
'R wy'n penderfynu treulio f'oes
I ddwyn ei groes dan ganu.
- 3 Ni theimlais ddim gofidiau dwys
Wrth roi fy mhwys ar Iesu ;
Am hyn dymuna f'enaïd fod
Yn barod i'w wasnaethu.

- 4 Ym mhob rhyw gyfyngderau blin
Caf laeth a gwin gan Iesu ;
Mae'n ennill serch fy enaid gwan
O bob rhyw fan i'w garu.

E.J.O.

121

Gorffennwyd.

M. S.

- 1 **P**AN hoeliwyd Iesu ar y pren,
Yr haul uwchben dywyllwyd ;
Ond wele ! yn y twllwch mawr
Daeth gwawr o'r gair " Gorffennwyd ! "
- 2 Pryd y croeshoeliwyd Iesu cu,
Pyrth uffern ddu a lonnwyd ;
Ond trodd y pyrth i siomiant trist
Pan lefodd Crist " Gorffennwyd ! "
- 3 Pryd y dechreuodd Crist dristáu,
Telynau'r nef ostegwyd ;
Ond dyblodd cân y drydedd nef
Pan lefodd Ef " Gorffennwyd ! "
- 4 Holl lafur Crist trwy boenus daith
A'i galed waith ddibennwyd,
Pan roes, â'i olaf anadl gref,
Yr uchel lef " Gorffennwyd ! "
- 5 Mae Duw yn maddau a glanhau
Yn angau'r Oen a laddwyd ;
A dyma waith efengyl gref—
Atseinio'r llef " Gorffennwyd ! "

D.J.S.

122

Digonolrwydd Aberth Crist.

M. S.

- 1 **N**A foed i'm henaid euog trist
Ond haeddiant Crist yn gyfran ;
Ei aberth Ef, llawn ddigon yw
I feddwl Duw ei Hunan.

- 2 Os daw cydwybod lawn o dân,
Cyfiawnder glân, a'r gyfraith,
I'm gofyn mwy, fy ateb llawn
Yw'r Iawn a dalwyd unwaith.
- 3 Pwy draetha'n llawn ddyfnderoedd gwerth
Yr aberth a'i fendithion ?
I ddyn caed heddwch nef yn ôl,
A Duw'n dragwyddol fodlon.
- 4 Rhyfeddir byth y geni'n dlawd,
Y byw dan wawd a chroesau,
Y dioddef cosb heb unrhyw fai,
A'r ufuddhau heb rwymau.
- 5 Yr uchel gân fydd " Iddo Ef ! "
Trwy nef y nef yn seinio :
Yr ing, yr Iawn, a'r gwaedlyd chwÿs,
A felys gofir yno.

R.O.

123

Enw Grisol Iesu.

M. S.

- 1 **M**AE enw Crist i bawb o'r saint
Fel ennaint tywalltedig,
Ac yn adfywiol iawn ei rin
I'r enaid blin lluddedig.
- 2 Pan fyddo f'enaid yn y llwch,
A thwllwch fel y fagddu,
Mae dawn a nerth i'm dwyn yn ôl
Yn enw grisol Iesu.
- 3 Gobeithiwch ynndo, bawb o'r saint,
Er cymaint yw eich gofid,
Gan wybod bod eich Priod gwiw
Yn ffyddlon i'w addewid.

J.S.H.

Crist yn bob peth.

124

M. S.

- 1 **S**ANCTEIDDRWYDD im yw'r Oen di-nam,
 'Nghyfiawnder, a'm doethineb,
 Fy mhrynedigaeth o bob pla,
 Fy Nuw i dragwyddoldeb.
- 2 Ces weld mai Ef yw 'Mrenin da,
 Fy Mhroffwyd a'm Hoffeiriad,
 Fy Nerth a'm Trysor mawr a'm Tŵr,
 F' Eiriolwr fry a'm Ceidwad.
- 3 Ar ochor f'enaïd tlawd y bydd
 Ar fore dydd marwolaeth ;
 Yn ŵyneb angau mi wnaif ble,
 Gan weiddi "Iechydwrïaeth."
- 4 O fewn i'r wlad tu draw i'r bedd
 Caf weled gwedd ei ŵyneb :
 Ac yn ei fynwes llechu caf
 Hyd eithaf tragwyddoldeb.

W.

125

Archoffeiriad Trugarog.

M. S.

- 1 **C**OFFAWN yn llawen gyda pharch
 Am ras ein Harchoffeiriad ;
 Un yw o galon dyner iawn,
 A mynwes lawn o gariad.
- 2 Ni ddiffydd lin fo'n mygu byth,
 Yn fflam fe'i chwŷth yn hytrach ;
 Y gorsen ysig byth nis tyr ;
 Y gwan, fe'i gyr yn gryfach.
- 3 Am hynny, yn ei nerth a'i nawdd
 Rhown ninnau'n hawdd ein hyder ;
 Cawn waredigaeth ganddo Fo
 Mewn amser o gyfyngder.

I. WATTS, c. D.J.

126

Brawd yn Brynwr.

M. S.

- 1 **D**UW ymddangosodd yn y cnawd,
 Fe gafwyd Brawd yn Brynwr ;
 Ni chollir neb, er gwaeled fo,
 A gredo i'r Gwardedwr.
- 2 Yr aberth mawr fu ar y groes,
 A'r Iawn a roes yr Iesu,
 Yw f'unig obaith ym mhob man
 Daw f'enaid gwan i fyny.

J.H.

127

Newyddion Braf.

M. H.

- 1 **N**EWYDDION braf a ddaeth i'n bro,
 Hwy haeddent gael eu dwyn ar go'—
 Mae'r Iesu wedi cario'r dydd,
 Caiff carcharorion fynd yn rhydd.
- 2 Mae Iesu Grist o'n hochor ni,
 Fe gollodd Ef ei waed yn lli ;
 Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach
 I'r ochor draw 'mhen gronyn bach.
- 3 Wel, f'enaid, weithian cod dy ben,
 Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen ;
 Mae'n holl elynion ni yn awr
 Mewn cadwyn gan y Brenin mawr.

J.D.

128

Angau'r Groes.

M. H.

- 1 **Y** MAE hapusrwydd pawb o'r byd
 Yn gorffwys yn dy angau drud ;
 Hyfrytaf waith angylion fry
 Yw canu am fynydd Calfari.

- 2 O holl weithredoedd nef yn un,
Y bennaf oll oedd prynu dyn ;
Rhyfeddod mwyaf o bob oes
Yw Iesu'n marw ar y groes.
- 3 Darfydded canmol neb rhyw un,
Darfydded sôn am haeddiant dyn ;
Darfydded ymfrost o bob rhyw—
'D oes ymfrost ond yng ngwaed fy Nuw. w.

129

Rhinwedd y Groes.

M. H.

- 1 O ! IESU mawr, y Meddyg gwell,
Gobaith yr holl ynysoedd pell,
Dysg imi seinio i maes dy glod,
Mai digyfnwid wyt erioed.
- 2 O ! hoelia 'meddwl, ddydd a nos,
Ŵrwydredig, wrth dy nefol groes ;
A phlanna f'ysbryd yn y tir
Sy'n llyfo o lawenydd pur :
- 3 Fel bo fy nwydau drwg yn lân
Yn cael eu difa â'r nefol dân ;
A chariad yn melysu'r groes,
Trwy olwg ar dy farwol loes.
- 4 Ti fuost farw, rhyfedd yw !
Er mwyn cael o'th elynion fyw ;
Derbyn i'th gôl, a rho ryddhad
I'r sawl a brynaist Ti â'th waed.
- 5 Fe gaiff dy enw annwyl glod
Pan ddarffo i'r ddaer a'r nefoedd fod,
Am achub un mor wael ei lun
Na allsai'i achub ond dy Hun. w.

130

Yr Iesu yn ei roddi ei Hun.

M. H.

- 1 **O**'R holl fendithion gadd y byd,
Wel dyma'r fwyaf un i gyd ;
I'm Iesu ei Hun
Dros aflan ddyn roi'i fywyd pur.
- 2 Wel, f'enaid, bellach dos ymlaen,
Nac ofna ddŵr, nac ofna dân ;
Aeth dan y groes,
Ac angau loes, ei Hun o'm blaen.
- 3 Boed iddo mwy ganiadau clod,
Tra fyddo daer a nef mewn bod ;
Ac na foed sôn
Ond am yr Oen a'i farwol glwyf.
- 4 O ! dweded pawb am rin y gwaed,
Maddeuant llawn, maddeuant rhad ;
Dim achwyn mwy,
Ond canu am glwy' Calfaria fryn. W.

131

Cariad at Grist.

M. H.

- 1 **W**ORTH droi fy ngolwg yma i lawr
I gyrrau'r holl greadigaeth fawr,
Gwrthrych ni wêl fy enaid gwan
Ond Iesu i bwysu arno'n rhan.
- 2 Dewisais Ef, ac Ef o hyd
Ddewisaf mwy tra fwy'n y byd ;
Can' gwynfyd ddaeth i'm henaid tlawd—
Cael Brenin nefoedd imi'n Frawd.
- 3 Fy nghysur oll oddi wrtho dardd ;
Mae'n Dad, mae'n Frawd, mae'n Briod hardd ;
F'Arweinydd llariaidd tua thref,
F'Eiriolwr cyfiawn yn y nef.

- 4 Ef garaf bellach tra fwyf byw,
Uwch crëaduriaid o bob rhyw ;
Er gwaethaf daer ac uffern drist,
F'Anwylyd i fydd Iesu Grist.

W.

132

Hyder yn yr Eiriolwr.

M. H.

- 1 **P** ECHADUR wyf, da gŵyr fy Nuw,
Llawn o archollion o bob rhyw,
Yn byw mewn eisiau o waed y groes
Bob munud awr o'r dydd a'r nos.
- 2 Yng nghanol cyfyngderau lu,
A myrddiwn o ofidiau du,
Gad imi rod-di pwys fy mhen
I orffwys ar dy fynwes wen.
- 3 O ! cofia fi gerbron y Tad,
A dangos iddo werth dy waed ;
O ! dadlau'n awr yng nghanol ne'
It roi dy fywyd yn fy lle.
- 4 Gad imi dreulio 'nyddiau i gyd
I edrych ar dy ŵyneb-pryd ;
Difyrru f'oes o awr i awr
I garu fy Eiriolwr mawr.

W.

133

Y Ffordd Newydd.

M. H.

- 1 **F** FORDD newydd wnaed gan Iesu Grist
I basio heibio i uffern drist,
Wedi ei phalmantu ganddo Ef,
O ganol byd i ganol nef.
- 2 Agorodd Ef yn lled y pen
Holl euraid byrth y nefoedd wen ;
Mae rhyddid i'w gariadau Ef
I mewn i holl drigfannau'r nef.

- 3 Os tonnau gawn, a stormydd chwith,
Mae Duw o'n tu, ni foddwn byth ;
Credwn yn gryf, down maes o law
Yn iach i'r lan yr ochor draw. W.

134

Dewis Iesu.

M. H.

- 1 'R WY'N dewis Iesu a'i farwol glwy'
Yn Frawd a Phriod imi mwy ;
Ef yn Arweinydd, Ef yn Ben,
I'm dwyn o'r byd i'r nefoedd wen.
- 2 Wel dyma un, O ! dwedwch p'le
Y gwelir arall fel Efe,
A bery'n ffyddlon im o hyd,
Ym mhob rhyw drallod yn y byd ?
- 3 Pwy wrendy riddfan f'enaid gwan ?
Pwy'm cwyd o'm holl ofidiau i'r lan ?
Pwy garia 'maich fel Brenin ne' ?
Pwy gydymdeimla fel Efe ?
- 4 Wel, ynddo ymfrostiaf innau mwy ;
Fy holl elynion, dwedwch, Pwy
O'ch cewri cedyrn, mawr eu rhi',
All glwyfo mwy f'Anwylyd i ? W.

135

Haeddiant Drud.

M. H.

- 1 'D OES arnaf eisiau yn y byd
Ond golwg ar dy haeddiant drud,
A chael rhyw braw o'i nefol rin,
I 'mado'n lân â mi fy hun.
- 2 Er bod dy haeddiant gwerthfawr drud
Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd,
Yn rhyw anfeidrol berffaith Iawn,
'R wy'n methu gorffwys arno'n llawn.

- 3 O flaen y drugareddfa fawr
Yn trengi wrth dy draed i lawr,
Gwêl y pechadur duaf gaed
Yn griddfan am rinweddau'r gwaed. w.

136

Cysgod y Graig.

M. H.

- 1 RHYW wŕ—rhyfeddol wŕ yw Ef—
Sydd imi'n lloches gadarn gref ;
Fel uchel graig fy nghysgod fydd
Rhag marwol wres y poethlyd ddydd.
- 2 Yr hynod Graig, ein Iesu cu,
Sy'n llawer uwch na'r nefoedd fry ;
O dano Ef y llecha'i'n glyd,
Ym mhob rhyw stormydd yn y byd.
- 3 Trawyd y Graig ; mae ffrydiau hon
Yn oeri'r llosgfa dan fy mron ;
Trawyd y Graig ; a'i dyfroedd pur
Yw 'nghysur yn yr anial dir.
- 4 Yn holltau'r Graig fy nhrigfa fydd,
Drwy ryfedd faith dragwyddol ddydd ;
Caf yma hyfryd wedd fy Nuw,
Disgleiriad ei berffeithrwydd gwiw. D.C.

137

Melys Cofio Iesu.

M. H.

- 1 PÊR fydd dy gofio, Iesu da,
A'r galon drist a lawenha ;
Na'r mêl a'r mwynder o bob rhyw
Bod gyda Thi melysach yw.
- 2 Ni chenir cân bereiddiach ryw,
Nid mwynach dim a glywo clyw ;
Melysach bryd ni wybydd dyn
Nag Iesu Unmab Duw ei Hun.

- 3 Ti obaith edifeiriol rai,
Ti wrth gyfeiliorn drugarhai ;
A'th geisio, da wyt iddynt hwy,
I'r rhai a'th gaffo, gymaint mwy !
- 4 Ni ddywaid tafod yn y byd,
Nac iaith ysgrifen ynddo i gyd,
O'th ddilyn Di pa beth yw'r fraint :
A brofodd hyn a wŷr ei faint.
- 5 Goleuni, pwyll, llawenydd bryd,
A ffynnon wyt i'r gwir i gyd ;
Mwy wyt na phob boddhad dy Hun,
A mwy na holl ddymuniad dyn.
- 6 Dymunaf fil o weithiau Di :
Pa bryd y deui ataf fi ?
Pa bryd y doi i'm llawenhau,
A'th roi dy Hun i'm llwyr foddhau ?

ST. BERNARD, C. T.G.J.

138

Atgyfodiad Crist.

M. H.

- 1 **H**WN yw yr hyfryd fore ddydd
Y daeth ein Iesu mawr yn rhydd ;
Cydlawenhaed pob enaid trist
Y dedwydd ddydd y cododd Crist.
- 2 Bodlonwyd holl ofynion llawn
Y gyfraith yn ei berffaith Iawn ;
Caed cymod dros bechadur trist :
Cyflawnwyd popeth—cododd Crist.
- 3 Goleuni ddaeth ar byrth y bedd :
Dynoliaeth bur, â newydd wedd,
A ddaw i'r lan o'r carchar trist
I fywyd dedwydd—cododd Crist.

- 4 Gwrandewch, y nefoedd ! ddaear, clyw !
 Dy feirwon eto a fydd byw ;
 Preswylwyr llwch marwolaeth drist,
 Deffrowch a chenwch—cododd Crist.

E.R.O.

139 “ Efe a ddichon yn gubl iacháu.”

M. H.

- 1 **D**Y enw Di, mor hynod yw,
 Hyfrydwch pur eneidiau byw ;
 I wael bechadur dan ei bwn
 Mae cymorth yn yr enw hwn.
- 2 I bechaduriaid croeso gaed,
 Pan ddoent yn gleifion at dy draed ;
 Trwy rasol eiriau, doniau Duw,
 Âi'r claf yn iach, a'r marw'n fyw.
- 3 Ac onid ydwyt eto'r un—
 Yn llawn o nefol ddawn i ddyn ?
 Ym mhob rhyw oes, dan loesau'r llawr,
 Mae rhinwedd yn dy enw mawr.
- 4 Dy addewidion sydd yr un,
 Wyt heddiw'n Feddyg euog ddyn ;
 Mae gennyt allu, Iesu mawr,
 Ac 'wyllys i'n iacháu yn awr.
- 5 O ! gwêl ni'n nesu at dy ddôr,
 I gael iachâd, anfeidrol Iôr ;
 Iachâ ni'n hollol o bob clwy',
 Fel na bo arnom archoll mwy.

C. WESLEY, C. AN.

140 *Iechyduriaeth trwy'r Aberth.*

2. 88. 888.

- 1 **Y**N rhad
 'R wy'n disgwyl rywbyrd gael iachâd,
 Er mwyn yr aberth mawr a gaed ;
 Dyrchafu'r gwaed a fydd fy ngwaith
 I oesoedd dirifedi'r gwllith,
 Os dof fi byth i ben fy nhaith.

Cas. DE.

141

Canmol Iesu.

55. 65. D.

- 1 **Y**R Iesu'n ddi-lai
 A'm gwared o'm gwae ;
 Achubodd fy mywyd,
 Maddeuodd fy mai ;
 Fe'm golchodd yn rhad,
 Do'n wir, yn ei waed,
 Gan selio fy mhardwn
 Rhoes imi ryddhad.
- 2 Fy enaid i sydd
 Yn awr, nos a dydd,
 Am gannol fy Iesu
 A'm rhoddes yn rhydd :
 Ffarwél fo i'r byd,
 A'i bleser ynghyd ;
 Ar drysor y nefoedd
 Fe redodd fy mryd.
- 3 'R wy'n gweled bob dydd
 Mai gwerthfawr yw ffydd ;
 Pan elwy' i borth angau
 Fy angor i fydd :
 Mwy gwerthfawr im yw
 Na chyfoeth Periw ;
 Mwy diogel i'm cynnal
 Ddydd dial ein Duw.

MORG.D.

142

Crist a'i Aberth.

557. 779.

- 1 **A** WELSOCH chwi Ef ?
 A welsoch chwi Ef ?
 Iesu, fy Mhrynwr a'm Duw !
 Dros droseddwy'r fel myfi,
 Rhoes ei Hun ar Galfari,—
 Trwy gyfiawnder fy Meichiau caf fyw.

- 2 Hoeliwyd yr Aberth,
 Hoeliwyd yr Aberth,
 Iesu addfwynaf oedd fud !
 'R Hwn sy'n taenu'r nef fel llen,
 A ogwyddodd yno'i ben,
 I wneud cymod dros bechod y byd. C. D.CS.

143

Ceidwad Digonol.

558. D.

- 1 **P**OB seraff, pob sant,
 Hynafgwyr a phlant,
 Gogoniant a ddodant i Dduw,
 Fel tyrfa gytûn,
 Yn beraidd bob un,
 Am Geidwad cryf iddyn' yn fyw.
- 2 Efe yw fy hedd,
 Fy aberth a'm gwledd,
 A'm sail am drugaredd i gyd ;
 Fy nghysgod a'm cân,
 Mewn dŵr ac mewn tân,
 Gwnaed uffern ei hamcan o hyd.
- 3 Yn babell y bydd
 Rhag poethder y dydd,
 A chedyrn lifogydd y fall ;
 Mewn cysgod mor dda,
 Holl uffern a'i phla,
 Er chwennych fy nifa, ni all. E.J.

144

Genedigaeth Crist.

65. 65. D.

- 1 " **W**ELE Fi yn dyfod,"—
 Llefai'r Meichiau gwiw ;
 Atsain creigiau Salem,
 Dyfod y mae Duw ;

Gedy anfeidrol fawredd
 Nef y nef yn awr ;
 Ar awelon cariad
 Brysia i barthau'r llawr.

- 2 Pa ryw fwyn beroriaeth
 Draidd yn awr drwy'r nen ?
 Pa ryw waredigaeth
 Heddiw ddaeth i ben ?
 Miloedd o angylion
 Yno'n seinio sydd,
 "Ganwyd y Meseia,
 Heddiw daeth y dydd."

- 3 Dyma'r Hollalluog
 Heddiw inni'n Frawd ;
 Dyma holl drysorau
 Duwdod yn y cnawd ;
 Moroedd rhad drugaredd
 Lanwodd dros y llawr,
 Perlau gwlad gogoniant
 Heddiw ddaeth i lawr.

J.R.O.

145 *Gwaed y Groes yr unig Feddyginiaeth.*

664. 6664.

- 1 IACHAWDWR dynol-ryw,
 Tydi yn unig yw
 Fy Mugail da :
 Mae angau'r groes yn llawn
 O bob rhinweddol ddawn,
 A ffrwythau melys iawn,
 A'm llwyr iachâ.
- 2 'D oes dim a laesa 'mhoen
 Ond gwaed yr addfwyn Oen,
 Pur waed fy Nuw ;

Mae Ef yn fwy na'r byd,
A'r trysor sy ynddo i gyd ;
A thecach yw ei bryd
Na dynol-ryw.

- 3 Mae torf aneirif fawr
Yn ddisglair fel y wawr,
'N awr yn y nef—
Trwy ganol gwawd a llid,
A gwrthnebiadau'r byd,
Ac angau glas ynghyd,
A'i carodd Ef.

w.

146

Rhinweddau'r Groes.

664. 6664.

- 1 **O** ! TYRED, Arglwydd mawr,
Dihidla o'r nef i lawr
Gawodydd pur ;
Fel byddo'r egin grawn,
Foreddydd a phrynhawn,
Yn tarddu'n beraidd iawn
O'r anial dir.

- 2 Mae peraroglau gras
Yn taenu o gylch i maes
Awelon hedd ;
Estroniaid sydd yn dod
O'r pellter eitha 'rioed,
I gŵympo wrth dy droed,
A gweld dy wedd.

- 3 Mae tegwch d'ŵyneb-pryd
Yn maeddu oll i gyd
Sy ar ddaear las ;
Mae pob rhyw nefol ddawn
Oll yno'n gryno lawn,
Yn tarddu'n hyfryd iawn
O'th glwyfau i maes.

w.

147

Rhinweddau'r Groes.

664. 6664.

- 1 **A**RHOSAF ddydd a nos,
 Byth bellach dan dy groes,
 I'th lon fwynhau ;
 Mi wn mai'r taliad hyn,
 Wnaed ar Galfaria fryn,
 A'm canna oll yn wyn
 Oddi wrth fy mai.
- 2 Yn nyfnder dŵr a thân,
 Calfaria fydd fy nghân,
 Calfaria mwy :
 Y bryn ordeiniodd Duw
 Yn nhragwyddoldeb yw,
 I godi'r marw'n fyw
 Trwy farwol glwy'.
- 3 Af bellach tua'r wlad
 Bwrcaswyd im â gwaed ;
 'R wyf yn nesáu :
 Caf yno oll i'm rhan
 Sydd eisiau ar f'enaid gwan,
 A hynny yn y man,
 I'w bur fwynhau.

w.

148

" Iddo Ef."

664. 6664.

- 1 **'D**OES destun gwiw i'm cân
 Ond cariad f'Arglwydd glân,
 A'i farwol glwy' ;
 Griddfannau Calfari
 Ac angau Iesu cu
 Yw 'nghân a'm bywyd i—
 Hosanna mwy !
- 2 Caniadau'r nefol gôr
 Sydd oll i'm Harglwydd Iôr
 A'i ddwyfol glwy' :

Y brwydrau wedi troi,
 Gelynyion wedi ffoi,
 Sy'n gwneud i'r dyrfa roi
 Hosanna mwy !

- 3 Pan ddelo'r plant ynghyd,
 O bedwar cwr y byd,
 I'w mangre hwy ;
 Gobeithiaf yn ddi-lyth
 Gael telyn yn eu plith,
 I ganu, heb gwyno byth,
 Hosanna mwy !

J.B.

149

Y Gâr Newydd.

664. 6664.

- 1 **A**R aur delynau'r nef
 Bydd seinio uchel lef,
 Heb ball, na phoen ;
 Yr anthem felys faith
 Fydd am achubol daith
 A phur rinweddol waith
 Y nefol Oen.
- 2 Pan ddelo'r saint ynghyd,
 Uwch poen a maglau'r byd,
 Yn groyw eu cân,
 Caniadau am ei loes
 A rhinwedd llawn ei groes
 Fydd hyd dragwyddol oes
 Yn Salem lân.
- 3 I'r nefol byrth ni ddaw
 Nac ofn, na phoen, na braw,
 Na phechod cas ;
 Pwy na hiraethai'n wir
 Am rodio'r sanctaidd dir,
 Ac yfed dyfroedd clir
 Ei ryfedd ras ?

T.J.

- 1 **F**Y Iesu yw fy Nuw,
 Fy Mrawd a'm Prynwr yw,
 Ffyddlonaf gwir ;
 Arwain fy enaid wnaeth
 O'r gwledydd tywyll caeth,
 I wlad o fêl a llaeth,
 Paradwys bur.
- 2 Efe a aeth o'm blaen,
 Trwy ddyfnder dŵr a thân,
 I'r hyfryd wlad ;
 Mae'n eiriol yno'n awr
 O flaen yr orsedd fawr,
 Yn maddau bach a mawr
 O'm beiau'n rhad.
- 3 Mae lluoedd maith y nef
 Yn plygu iddo Ef,
 Anfeidrol Dduw ;
 Canu telynuau clir
 Mewn gwyl dragwyddol bur,
 Am waredigaeth wir
 I ddynol-ryw.

W.

- 1 **T**EG wawriodd arnom ddydd
 A welwyd gynt trwy ffydd
 Gan rai sy'n awr
 O'u cystudd mawr yn rhydd ;
 Ac os oedd dyled arnynt hwy
 Foliannu'r Oen a'i farwol glwy',
 Mae'n dyled ni, genhedloedd,
 Fil miloedd foli mwy.
- 2 Trwy Grist a'i werthfawr waed
 Y daeth maddeuant rhad :

E.P.R.

I ddynol-ryw
 Iachawdwr gwiw a gad ;
 Ei fywyd pur a'i angau loes
 A'i ddioddefaint ar y groes
 A ddygo fy serchiadau
 Tra pery dyddiau f'oes.

- 3 Yn nyfnder pob rhyw loes,
 A gorthrymderau f'oes,
 Fy noddfa a'm nerth
 Yw aberth mawr y groes :
 Rhinweddol haeddiant marwol glwy'
 Yw 'nghysur yn y byd tra fwy',
 A'm hunig ddigonoldeb
 I dragwyddoldeb mwy.

S.M.

152

Iesu dyrchafedig.

665. 665. 786.

- 1 I IESU dyrchafedig,
 Geidwad bendigedig,
 Mawl a'th erys Di ;
 Arglwydd llawn tosturi,
 Edrych ar ein gweddi,
 Iesu, cymorth ni ;
 Trugarha, O ! Arglwydd da,
 Rho faddeuant, rho dangnefedd,
 Dwg ni i'th orfoledd.
- 2 Ymaith, ffôl amheuon,
 Heriaf bob treialon,
 Iesu yw fy rhan ;
 Canaf ym mhob tywydd,
 Os caf wenau f'Arglwydd,
 Gobaith f'enaïd gwan ;
 O ! fy Nuw, fy ngweddi clyw,
 Os cyrhaeddaf nef y nefoedd,
 Molaf Di'n oes oesoedd.

W.A.

153

Neb yn gyffelyb i Grist.

66. 66. 88.

- 1 **C**YFFELYB un i'm Duw
 Ni welodd daer na nef ;
 'D oes un creadur byw
 Gymherir iddo Ef ;
 Cyflawnder mawr o ras di-drai
 Sydd ynddo fythol yn parhau.
- 2 Yn nyfnder twllwch nos
 Mi bwysaf ar ei ras ;
 O'r twllwch tewa' 'rïoed
 Fe ddwg oleuni i maes :
 Os gwg, os llid, mi af i'w gôl,
 Mae'r wawr yn cerdded ar ei ôl.
- 3 Ymffrostiaf ynddo Ef
 Ped ymderfysgai'r byd,
 Pe dilyw ddôl'r ail waith
 I guddio'r ddaer i gyd ;
 Rhyw noddfa lawn a lloches sy
 Uwch tymestl yn f'Anwlyd cu.

w.

154

Enw'r Iesu.

66. 66. 88.

- 1 **O** ! ENW annwyl iawn,
 Anwylaf un yn bod ;
 Ni chlywodd engyl nef
 Gyffelyb iddo 'rïoed :
 Rhof arno 'mhwys, doed dydd, doed nos,
 Fe'm deil i'r lan dan bob rhyw groes.
- 2 Cryf yw ei ddehau law,
 Anfeidrol yw ei rym,
 Ac nid oes byth a saif
 O flaen ei wŷnebb ddim :
 Rhois iddo f'hun, f'amddiffyn wna
 Rhag dyfais uffern faith a'i phla.

w.

155

Gogoniant y Groes.

66. 66. 88.

- 1 MAE enw Calfari,
Fu gynt yn wradwydd mawr,
Yng ngolwg f'enaïd i
Yn fwy na'r nef yn awr :
O ! ddedwydd fryn, sancteiddiaf le,
Dderbyniodd ddwyfol waed y ne' !
- 2 'R wy'n caru'r hyfryd awr,
Mi gara'r hyfryd le,
Mi garaf bren y groes
Fu ar ei ysgwydd E :
Wel dyma 'Nuw a dyma 'Mhen,
Ac oll a feddaf, ar y pren !
- 3 Ffarwél, deganau byd,
Mae'ch tegwch hyfryd iawn
Oll yn diflannu 'nghyd
Ar Galfari brynhawn :
Mae da a dyn, er maint eu grym,
Yng ngŵydd y groes yn mynd yn ddim. w.

156

Dibenion Gwaed y Groes.

66. 66. 88.

- 1 NI chollwyd gwaed y groes
Erioed am ddim i'r llawr,
Na dioddef angau loes
Heb ryw ddibenion mawr ;
A dyma oedd ei amcan Ef—
Fy nwyn o'r byd i deyrnas nef.
- 2 N'ad imi garu mwy
Y pechod drwg ei ryw—
Y pechod roddodd glwy'
I'm Prynwr, O ! fy Nuw.
N'ad imi garu dim ond Ti
O'r ddaer i eitha'r nefoedd fry. w.

157

Grym Cariad Crist.

66. 66. 88.

- 1 **E**NYNNAIST ynof dân—
 Perffeithiaf dân y nef,
 Ni all y moroedd mawr
 Ddiffoddi mono ef ;
 Dy lais, dy wedd, a gweld dy waed,
 Sy'n troi 'ngelynyon dan fy nhraed.
- 2 Mae caru 'Mhrynwr mawr,
 Mae edrych ar ei wedd,
 Y pleser mwya'n awr
 Sy i'w gael tu yma i'r bedd :
 O ! gariad rhad, O ! gariad drud,
 Sydd fil o weithiau'n fwy na'r byd.
- 3 Wel dyma'r gwrthrych cun,
 A dyma'r awr a'r lle :
 Cysegraf fi fy hun
 Yn gyfan iddo Fe ;
 Ffarwél, ffarwél, bob eilun mwy,
 Mae cariad Iesu'n drech na hwy.

w.

158

Digon yng Nghrist.

66. 66. 88.

- 1 **F**Y Iesu yw fy Nuw,
 Fy noddfa gadarn gref ;
 Ni fedd fy enaid gwan
 Ddim arall dan y nef ;
 Mae Ef ei Hun a'i angau drud
 Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd.
- 2 Fy nymuniadau i gyd
 Sy'n cael atebiad llawn,
 A'm holl serchiadau 'nghyd
 Hyfrydwch nefol iawn,
 Pan fyddwy'n gweld, wrth olau'r wawr,
 Mai eiddof fi fy Arglwydd mawr.

w.

159

Enw'r Addfwyn Oen.

66. 66. 88.

- 1 **O** ! NEFOL addfwyn Oen
 Sy'n llawer gwell na'r byd,
 A lluoedd maith y nef
 Yn rhedeg arno'u bryd ;
 Dy ddawn a'th ras a'th gariad drud
 Sy'n llanw'r nef, yn llanw'r byd.
- 2 Noddfa pechadur trist,
 Dan bob drylliedig friw
 A phwys euogrwydd llym,
 Yn unig yw fy Nuw ;
 'D oes enw i'w gael o dan y nef
 Yn unig ond ei enw Ef.
- 3 Ymgrymed pawb i lawr
 I enw'r addfwyn Oen ;
 Yr enw mwyaf mawr
 Erioed a glywyd sôn :
 Y clod, y mawl, y parch a'r bri
 Fo byth i enw'n Harglwydd ni.

w.

160

Ymgrawdoliad Crist.

66. 66. 88.

- 1 **DAETH** Llywydd nef a llawr
 I wisgo dynol gnawd ;
 Wel, henffych, Arglwydd mawr,
 A henffych, dirion Frawd ;
 Henffych i'n Duw a'n Ceidwad hael
 A welwyd yn y preseb gwael.
- 2 Pa dafod neu ba ddawn,
 A fedd angylaidd lu,
 A ddywaid byth yn llawn
 Am ras ein Ceidwad cu ?
 Ei waed a roes, o'i gariad gwiw,
 I gannu'r lleiddiaid dua'u lliw.

- 3 Mae cariad yn ei wedd
 At wael golledig fyd ;
 Cyfiawnder llym a hedd
 Yn ymgusanu 'nghyd ;
 Trugaredd a gwirionedd pur
 Yn ymddisgleirio yn ei gur.

T.J.

161

Atgyfodiad Crist.

66. 66. 88.

- 1 **C**YFODODD Brenin hedd,
 Iachawdwr dynol-ryw,
 Mewn gogoneddus wedd,
 O'r marwol fedd yn fyw :
 Ein bywiol Ben esgynnodd fry,
 Goruwch pob llu, tu draw i'r llen.
- 2 Daw'r saint o lwch y bedd
 Ar wedd eu Priod cu,
 I lawn dragwyddol wledd,
 Mewn gwir orfoledd fry ;
 Dyrchafant draw o'r dyfnder cudd,
 Cânt ddod yn rhydd, mae'r dydd gerllaw.
- 3 Pan losgo'r ddaear lawr,
 A'i mawredd o bob rhyw,
 Fe genir am yr awr
 Daeth Ef o'i fedd yn fyw :
 Bydd cof am hon gan ddisglair lu
 Aneirif fry, byth ger ei fron.

R.W.

162

Atgyfodiad Crist.

66. 66. 88.

- 1 **'N** ÔL marw Brenin hedd,
 A'i eiddo i gyd yn brudd,
 A'i roi mewn newydd fedd,
 Cyfodai'r trydydd dydd ;

Boed hyn mewn cof gan Israel Duw :
Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.

- 2 Y Meichiau aeth yn rhydd
'N ôl rhoddi taliad llawn,
A Duw'n cyhoeddi sydd
" Mi gefais ynddo Iawn " :
Gwnaeth ffordd yn rhydd i fynd at Dduw :
Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.
- 3 Galarwyr Seion, sydd
Â'ch taith trwy ddŵr a thân,
Paham y byddwch brudd ?
Eich galar, troer yn gân :
O ! cenwch, etholedig ryw—
Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.

J.T.

163

Iesu'n wyn a gwridog.

74. 74. D.

- 1 G WYN a gwridog, hawddgar iawn,
Yw f'Anwylyd ;
Doniau'r nef sydd ynddo'n llawn,
Peraidd, hyfryd :
Daear faith, nac uchder nef,
Byth ni ffeindia
Arall tebyg iddo Ef—
Haleliwia.
- 2 Ynddo'i Hunan y mae'n llawn
Bob trysorau :
Dwyfol berffaith werthfawr Iawn
Am fy meiau ;
Gwir ddoethineb, hedd a gras
Gwerthfawroca' ;
Nerth i hollol gario'r maes—
Haleliwia.

- 3 Dyma sylfaen gadarn gref,
 Trwy fy mywyd ;
 Credu, ac edrych arno Ef,
 Yw fy ngwynfyd :
 Ynddo bellach, trwy bob pla,
 Y gobeithia' ;
 Ac mewn rhyfel canu wna',
 Haleliwia. W.

164

Iawn ac Eiriolaeth Crist.

74. 74. D.

- 1 IESU yw difyrrwch f'oes,
 Yn fy mlinfyd ;
 Ac ymfrostiaf yn ei groes
 Dros fy mywyd ;
 Dan ei gysgod, nos a dydd,
 Gwnaf fy nhrigfa ;
 Fy nhŵr cadarn hefyd fydd :
 Haleliwia.
- 2 Iesu a'i gyfiawnder Ef
 Yw fy mywyd ;
 Fe'm cymhwysa i deyrnas nef
 Trwy ei Ysbryd ;
 Golchir fi o'm pen i'm traed
 Fel yr eira,
 Trwy rinweddau dwyfol waed :
 Haleliwia.
- 3 Mae fy Mhrynwr heddiw'n fyw,
 Ac yn eiriol ;
 Sail eiriolaeth dros of yw
 Iawn digonol ;
 Ei waith ynof yn y man
 A berffeithia ;
 Gorfoleddaf yn fy rhan :
 Haleliwia. P.J.

165

Y Meddyg Da.

74. 74. D.

1 **C**OFIA'R byd, O ! Feddyg da,
 A'i flinderau ;
 Tyrd yn glau, a llwyr iachâ
 Ei ddoluriau :
 Cod y bobloedd ar eu traed
 I'th wasnaethu ;
 Ti a'u prynaist trwy dy waed,
 Dirion Iesu !

2 Y mae'r balm o ryfedd rin
 Yn Gilëad ;
 Ac mae yno beraidd win
 Dwyfol gariad ;
 Yno mae'r Physygywr mawr,
 Deuwch ato,
 A chydgenwch, deulu'r llawr—
 Diolch iddo !

J.T.J.

166

Haeddiant mawr yr Aberth.

76. 76. D.

1 **M**I ganaf tra fo anadl
 O fewn i'r ffroenau hyn,
 Am gariad yn dioddef
 Ar ben Calfaria fryn ;
 Am goron ddrain blethedig,
 Am hoelion garwa'u rhyw—
 I gannu f'enaid euog
 Fel eira gwynna'i liw.

2 Fe rwygwyd muriau cedyrn,
 Fe dorrwyd dorau pres,
 Oedd rhyngom ni a'r bywyd—
 Mae'r bywyd heddiw'n nes ;
 Palmantwyd yr holl lwybrau,
 Mae'r pyrth o led y pen,
 O ddyfnder dinas distryw
 I eitha'r nefoedd wen.

- 3 Fe bery trugareddau'r
 Cyfamod gwerthfawr drud,
 Pan ddarffo'r grëadigaeth
 Ddiderfyn oll i gyd ;
 Ni bydd ond dechrau gweled
 Daioni mawr y ne'
 Pan gollo haul a lleuad
 A'r holl blanedau'u lle.

W.

167

Yr Arfaeth a'r Prynedigaeth.

76. 76. D.

- 1 **F**YTH, fyth, rhyfedda'i'r cariad
 Yn nhragwyddoldeb pell,
 A drefnodd yn yr arfaeth
 Im etifeddiaeth well
 Na'r ddaear a'i thrysorau,
 A'i brau bleserau 'nghyd :
 Fy nghyfoeth mawr ni dderfydd
 Yw Iesu, Prynwr byd.
- 2 Ar noswaith oer fe chwýsai
 Y gwaed yn ddafnau i lawr,
 Ac Ef mewn ymdrech meddwl
 Yn talu'n dyled fawr ;
 Fe yfai'r cwpan chwerw
 Wrth farw ar y pren ;
 Palmantodd ffordd i'r bywyd
 O'r ddaear hyd y nen.
- 3 Tragwyddol glod i'r cyfiawn
 Fu farw dros fy mai ;
 Fe atgyfododd eilwaith
 O'r bedd i'm cyfiawnhau ;
 Ar orsedd ei drugaredd
 Mae'n dadlau yn y ne'
 Ei fywyd a'i farwolaeth
 Anfeidrol yn fy lle.

M.R.

168

Brawd erbyn Dydd o Gledi.

76. 76. D.

- 1 **H**OSANNA, Haleliwia,
 Fe anwyd Brawd i ni ;
 Fe dalodd ein holl ddyled
 Ar fynydd Calfari ;
 Hosanna, Haleliwia,
 Brawd ffyddlon diwahân ;
 Brawd erbyn dydd o gledi,
 Brawd yw mewn dŵr a thân.
- 2 Brawd annwyl sy'n ein cofio
 Mewn oriau cyfyng caeth ;
 Brawd llawn o gydymdeimlad—
 Ni chlywyd am ei fath ;
 Brawd cadarn yn y frwydyr,
 Fe geidw'i frodyr gwan ;
 Yn dirion dan ei adain
 Fe ddaw â'r llesg i'r lan.

D.W.

169

Rhyddid a Maddeuant trwy Grist.

76. 76. D.

- 1 **O** ! AM gael ffydd i edrych,
 Gyda'r angylion fry,
 I drefn yr iechydwriaeth,
 Dirgelwech ynddi sy :
 Dwy natur mewn un Person
 Yn anwahanol mwy,
 Mewn purdeb heb gymysgu,
 Yn eu perffeithrwydd hwy.
- 2 O ! f'enaïd, gwêl addasrwydd
 Y Person rhyfedd hwn ;
 Dy fywyd mentra arno,
 Ac arno rho dy bwn :
 Mae'n ddyn i gydymdeimlo
 Â'th holl wendidau i gyd ;
 Mae'n Dduw i gario'r orsedd
 Ar ddiabol, enawd, a byd.

A.G.

170

Addasrwydd y Gwardwr.

76. 76. D.

1 **A**GORODD ddrws i'r caethion
 I ddod o'r cystudd mawr ;
 Â'i werthfawr waed fe dalodd
 Eu dyled oll i lawr :
 Nid oes dim damnedigaeth
 I neb o'r duwiol had ;
 Y gwaredigion canant
 Am rinwedd mawr ei waed.

2 Wel dyma Un sy'n maddau
 Pechodau rif y gwlyth ;
 'D oes mesur ar ei gariad,
 Na therfyn iddo byth ;
 Mae'n 'mofyn lle i dosturio,
 Mae'n hoffi trugarhau ;
 Trugaredd i'r amddifaid
 Sydd ynddo i barhau.

3 Teilwng yw'r Oen a laddwyd
 O'r holl ogoniant mawr,
 Trwy ganol nef y nefoedd,
 Ac yma ar y llawr ;
 Pan elo'r holl greadigaeth
 Yn ulw gan y tân,
 Teilyngdod Iesu drosof
 Fydd fy nhragwyddol gân.

M.R.

171

Iechydwrïaeth trwy Grist.

76. 76. D.

1 **D**AETH inni iechydwrïaeth
 Trwy eithaf chwÿs a gwaed ;
 Mae'n codi pechaduriaid
 O'r dyfnder ar eu traed ;
 Nid af i 'mofyn haeddiant,
 Trwy'r nef na'r ddaear lawr,
 Ond haeddiant pen Calfaria—
 Rhinweddau'r aberth mawr.

G. 2.

172

Harddwch Crist.

76. 76. D.

- 1 **P**WY welaf fel f'Anwylyd,
 Yn hyfryd ac yn hardd,
 Fel ffrwythlon bren afalau'n
 Rhagori ar brennau'r ardd ?
 Ces eistedd dan ei gysgod
 Ar lawer cawod flin ;
 A'i ffrwyth oedd fil o weithiau
 I'm genau'n well na gwin.

J.TS.

173

Un Aberth.

76. 76. D.

- 1 **U**N waith am byth oedd ddigon
 I wisgo'r goron ddrain ;
 Un waith am byth oedd ddigon
 I ddiode'r bicell fain :
 Un aberth mawr yn sylwedd
 Yr holl gysgodau i gyd ;
 Un Iesu croeshoeliedig
 Yn feddyg trwy'r holl fyd.

AN. ar.

174

Yr Iesu'n fwy na'i Roddion.

76. 76. D.

- 1 **M**AE'R Iesu'n fwy na'i roddion,
 Mae Ef yn fwy na'i ras ;
 Yn fwy na'i holl weithredoedd,
 O fewn ac o'r tu maes ;
 Pob ffydd a dawn a phurdeb,—
 Mi lefa' amdanynt hwy,—
 Ond arno'i Hun yn wastad
 Edrycha'i'n llawer mwy.

- 2 Gweld w'ynneb fy Anwylyd
 Wna i'm henaid lawenhau,
 Trwy'r cwbl ges i eto,
 Neu fyth gaf ei fwynhau ;

Pan elont hwy yn eisiau,
 Pam byddaf fi yn drist
 Tra caffwyf weled ŵyneb
 Siriolaf Iesu Grist ?

W.—G.D.C.

175

Anfeidrol Gariad Crist.

76. 76. D.

1 **A**NGYLION doent yn gyson,
 Rifedi gwlyth y wawr,
 Rhoent eu coronau euraid
 O flaen y faine i lawr,
 A chanent eu telynau
 Ynghyda'r saint yn un :
 Fyth, fyth ni chanant ddigon
 Am Dduwdod yn y dyn.

2 Ni fuasai gennyf obaith
 Am ddim ond fflamau syth,
 Y pryf nad yw yn marw,
 A'r twllwch dudew byth,
 Oni buasai'r Hwn a hoeliwyd
 Ar fynydd Calfari
 O ryw anfeidrol gariad
 Yn cofio amdanaf fi.

W.

176

Cariad yn disgleirio ar y Groes.

77. 77. 77.

1 **D**ACW gariad nefoedd wen
 Yn disgleirio ar y pren ;
 Dacw daledigaeth lawn
 I ofynion trymion iawn ;
 Iesu gollodd ddwyfol waed,
 Minnau gafodd wir iachâd.

2 Na ddoed gwael wrthrychau'r byd
 I gartrefu yn fy mryd ;

Digon, f'enaïd, digon yw
 Myfyrdodau dwyfol friw :
 Mae mwy pleser yn ei glwy'
 Na'u llawenydd pennaf hwy.

- 3 Iesu gollodd ddwyfol waed,
 Minnau gafodd wir iachâd ;
 Darfu ymfrost mawr y byd,
 Iesu biau'r clod i gyd ;
 Wrth ei draed dymunwn fyw,
 Holl hapusrwydd f'enaïd yw.

w.

177

Craig yr Oesoedd.

77. 77. 77.

- 1 **C**RAIG yr Oesoedd ! cuddia fi,
 Er fy mwyn yr holltwyd Di ;
 Boed i rin y dŵr a'r gwaed,
 Gynt o'th ystlys friw a gaed,
 Fy nglanhau o farwol rym
 Ac euogrwydd pechod llym.
- 2 Ni all gwaith fy nwyllaw i
 Lenwi hawl dy gyfraith Di ;
 Pe bai im sêl yn dân di-lyth,
 A phe llifai 'nagrau byth,
 Iawn ni wnaent i gyd yn un,—
 Ti all achub, Ti dy Hun.
- 3 Dof yn waglaw at dy groes,
 Glynaf wrthi trwy fy oes ;
 Noeth, am wisg dof atat Ti ;
 Llesg, am ras dyrchafaf gri ;
 Brwnt, i'r ffynnon dof â'm clwyf ;
 Golch fi, Geidwad, marw'r wyf.
- 4 Tra fwy'n tynnu f'anadl frau,
 Pan fo'r llygaid hyn yn cau,

Pan fwy'n hedfan uwch y llawr,
 Ac yng ngŵydd dy orsedd fawr,
 Graig a holltwyd erof fi,
 Gad im lechu ynot Ti. TOPLADY, c. O.G.O. diw.

178

Cyflawnder Cariad Crist.

77. 77. 77.

1 **G**WELL na holl drysorau'r llawr

Yw dy gariad, Iesu mawr ;

'D oes dim arall yn y byd

A ddiwalla f'enaïd drud ;

Dyma'r trysor mwya'i fri,

Dyma leinw f'enaïd i.

2 Yn y tywyll anial dir,

Rhydd dy gariad olau clir ;

Rhydd i'm mynwes heddwch llon,

Nefol falm i'm drylliog fron ;

Digon ynddo gaf i fyw,

Ac i farw, digon yw.

3 Boed im wrando, tra fwyf byw,

D'eiriau graslon, Iesu gwiw ;

Eistedd wrth dy draed bob awr,

Plygu i'th ewyllys fawr :

Profi o'th gariad dan fy mron

Wna im fyw a marw'n llon.

J.G.J.

179

Ar ei Ben bo'r Goron.

77. 87. D.

1 **M**AE carcharorion angau
 Yn dianc o'u cadwynau,

A'r ffordd yn olau dros y bryn

O ddyfnder glyn gofidiau.

Cyhoedder y newyddion,

A gorfoledded Seion,

Mae'r Iesu ar ei orsedd wen,

Ac ar ei ben bo'r goron !

- 2 Cynefin iawn â dolur
Fu'r Iesu yn fy natur :
Gogoniant byth i'w enw Ef
Am ddioddef dros bechadur !
Yn addfwyn dan yr hoelion,
Â dwyfol waed ei galon
Fy mhrynu wnaeth Tywysog nen,
Ac ar ei ben bo'r goron !

- 3 Dilynaf yn ei lwybrau,
A chanaf yn fy nagrau :
Mae mwy na digon yn yr Iawn
I faddau'n llawn fy meiau ;
Er dued yw fy nghalon,
Mae'r Iesu'n dal yn ffyddlon :
Eiriolwr yw tu hwnt i'r llen,
Ac ar ei ben bo'r goron !

E.R.

180

Gwardwr Hollalluog.

77. 87. D.

- 1 **A** DDOLIAD, mawl a bendith
A chlod a rown i'r Iesu :
Fe'n unig yw ein noddwr gwiw,
Pan gyfyd llu i'n drygu.
Yn llon y tystiwn iddo,
Cryf ydyw i waredu ;
A chadarn yw addewid Duw
Mai Ef sydd i deyrnasu.
- 2 Waredwr hollalluog,
Rhown iti aberth moliant ;
Ein Ceidwad mawr, Tydi yn awr
A gei yr holl ogoniant.
Â braich dy oruchafiaeth
Y'n dygaist o'n halltudiaeth :
Ti biau'r hawl i'n clod a'n mawl,
O ! Dduw ein iechydwrïaeth.

- 3 Dy fraich a'n dug yn ddiogel
 Drwy ffordd oedd mor nodedig
 Â'r ffordd drwy'r môr a dorraist, Iôr,
 I'th bobol etholedig.
 D'ogoniant mawr a'n cuddiodd,
 Dy law fu yn ein coledd,
 Ac wele ni, 'n ôl mynd drwy'r lli,
 Yn ymdaith mewn gorfoledd.
- 4 Ti, Iesu, a orchfygaist
 Y byd a malais Satan ;
 Trwy ras y nef dyrchafwn lef
 Mewn mawl i Ti, ein tarian.
 Gorchfygwn yn dy nodded,
 Gan dderbyn gras y nefoedd ;
 Ac am dy ddawn dy foli wnawn,
 A'th ganmol yn oes oesoedd.

C. WESLEY, C. W.O.E.

181

Pwy fel Efe !

84. 84. 8884.

- 1 **U**N a gefais imi'n gyfaill ;
 Pwy fel Efe !
 Hwn a gâr yn fwy nag eraill ;
 Pwy fel Efe !
 Cyfnewidiol ydyw dynion,
 A siomedig yw cyfeillion ;
 Hwn a bery byth yn ffyddlon ;
 Pwy fel Efe !
- 2 F'enaid, glŷn wrth Grist mewn cyni ;
 Pwy fel Efe !
 Ffyddlon yw ym mhob caledi ;
 Pwy fel Efe !
 Os yw pechod yn dy ddrysu,
 Anghrediniaeth am dy lethu,
 Hwn a ddichon dy waredu ;
 Pwy fel Efe !

- 3 Dy gamweddau a ddilea ;
 Pwy fel Efe !
 Dy elynion oll, fe'u maedda ;
 Pwy fel Efe !
 Cei bob bendith iti'n feddiant,
 Hedd a chariad a'th ddilynant,
 Crist a'th arwain i ogoniant ;
 Pwy fel Efe ! MARIANNE NUNN, *ef.* P.J.

182

Pwyso ar Iesu.

8. 5. 8. 3.

- 1 **P**WYSAF arnat, addfwyn Iesu,
 Pwyso arnat Ti ;
 Mae dy ras di-drai digeulan,
 Fel y lli.
- 2 Pwyso arnat am faddeuant ;
 Pwyso am fy hedd ;
 Y mae gwawr i'r truenusaf
 Yn dy wedd.
- 3 Pwyso arnat am sancteiddrwydd,
 Plygu wrth dy draed ;
 Y mae llwyr lanhad i'r aflan
 Yn dy waed.
- 4 Pwyso arnat am gadernid,
 Nid wyf fi ond gwan ;
 Y mae nerth yn dy ddeheulaw :
 Dal fi i'r lan.
- 5 Pwyso arnat, Arglwydd Iesu,
 Digon wyt i mi ;
 Pwyso'n llwyr am dragwyddoldeb
 Arnat Ti F. R. HAVERGAL, C. W.N.W.

183 *Chwi, eneidiau, pam y crwydrwch ?*
87. 87.

- 1 **C**HWI, eneidiau, pam y crwydrwch
Fel tarfedig braidd o dref ?
Ffôl galonnau, pam y cefnwch
Ar ei ryfedd gariad Ef ?
- 2 A fu cyn dirioned Bugail,
Neb erioed mor fwyn ei fryd
Â'r Gwardwr a fu'n gwaedu
Er mwyn casglu'i braidd ynghyd ?
- 3 Mae'i drugaredd Ef yn llydan,
Mae yn llydan fel y môr ;
Ac mae gras sydd fwy na rhyddid
Yng nghyfiawnder cyfraith Iôr.
- 4 Cans mae cariad Duw'n ehangach
Na doethineb eitha'r byd ;
Ac mae calon yr Anfeidrol
Yn rhyfeddol fwyn o hyd.
- 5 Y mae cyflawn waredigaeth
Yn yr Hwn fu ar y pren ;
Mae gorfoledd i'w holl Eglwys
Yng ngofidiau Crist, ei Phen.
- 6 Drist eneidiau, dowch at Iesu,
Ymneswch heb amau dim ;
Dowch mewn ffydd yn rhin ei gariad,
Profwch o'i anfeidrol rym.
- 7 Pe bai'n cariad yn fwy didwyll,
Digon fyddai'i air i ddyn ;
Byddai'n hoes yn llawn hyfrydwch—
Yn hyfrydwch Duw ei Hun.

184

Crist ar y Môr.

87. 87.

1 **P**WY yw Hwn sy'n rhodio'r tonnau,
 Drwy'r ystorom ar ei hynt ?
 Dyma Lywydd y dyfnderau,
 Dyma Arglwydd mawr y gwynt.

2 Er i oriau'r nos ei gadw
 Ar y mynydd gyda'r Iôr,
 Gŵyr am deulu'r tywydd garw,
 A'i rai annwyl ar y môr.

3 Os yw gwedd ei ymddangosiad
 Yn brawychu'r gwan eu ffydd,
 Mae ei lais fel diliau cariad,
 Mae ei wên fel bore ddydd.

4 Llywodraethwr mawr y moroedd,
 A gostegwr ofnau'r fron,—
 Edrych eto i lawr o'th nefoedd,
 Gwêl yr eiddot ar y don.

W.N.W.

185

Cyflawnder Crist.

87. 87. 47.

1 **I**ESU, nid oes terfyn arnat,
 Mae cyflawnder maith dy ras
 Yn fwy helaeth, yn fwy dwfwn,
 Ganwaith nag yw 'mhechod cas :
 Fyth yn annwyl
 Meibion dynion mwy a'th gâr.

2 Mae angylion yn cael bywyd
 Yn dy ddwyfol nefol hedd,
 Ac yn sugno'u holl bleserau
 Oddi wrth olwg ar dy wedd ;
 Byd o heddwch
 Yw cael aros yn dy wŷydd.

- 3 Ti faddeuaist fil o feiau
 I'r pechadur gwaetha'i ryw ;
 Arglwydd, maddau eto i minnau—
 Ar faddeuant 'r wyf yn byw :
 D'unig haeddiant
 Yw 'ngorfoledd i a'm grym.

W.

186

Rhinweddau Enw Iesu.

87. 87. 47.

- 1 NID oes pleser, nid oes tegan,
 Nid oes enw mewn un man,
 Er ei fri a'i holl ogoniant,
 Fyth a lesia i'm henaid gwan,
 Ond fy Iesu :
 Ef ei Hunan yw fy Nuw.
- 2 Mae deng myrddiwn o rinweddau
 Dwyfol yn ei enw pur ;
 Yn ei wedd mae tegwch rador
 Nag a welodd môr na thir,
 A'i gyffelyb
 Chwaith ni welodd nef y nef.
- 3 Mae E'n maddau beiau mawrion,
 Mae E'n caru yn ddi-drai,
 A lle caro, mae ei gariad
 Yn dragwyddol yn parhau :
 Nid oes terfyn
 Ar ei 'mynedd, ar ei ras.
- 4 Ynddo mae afonydd mawrion
 O ffyddlondeb ac o hedd ;
 Er fy mwyn dioddefodd angau,
 A gorweddodd yn y bedd,
 Fel y gallwn
 Fynd i mewn i'r ddinas bur.

W.

187

Tegwch a Chadernid Iesu.

87. 87. 47.

- 1 **G**WYN a gwridog yw fy Arglwydd,
 Gwyn a gwridog yw ei wedd ;
 Brenin y brenhinoedd ydyw
 Yma a thu draw i'r bedd ;
 Mae dy degwch
 Wedi f'ennill ar dy ôl.
- 2 Can' ffarwél i bopeth arall,
 'R wyt Ti'n ddigon mawr dy Hun ;
 Derfydd nefoedd, derfydd daear,
 Derfydd tegwch wŷneb dyn :
 Hwn a'th gaffo,
 Caiff y cwawl oll yn un.
- 3 Mae dy wedd yn drech na byddin
 O elynion mawr eu grym ;
 Nid oes yn y nef a'r ddaear
 Saif o flaen dy wŷneb ddim :
 Gair o'th enau
 A wna'r dywyll nos yn ddydd.

w.

188

Iesu'n Ddigon.

87. 87. 47.

- 1 **I**ESU, Iesu, 'r wyt Ti'n ddigon,
 'R wyt Ti'n llawer mwy na'r byd ;
 Mwy trysorau sy'n dy enw
 Na thrysorau'r India i gyd :
 Oll yn gyfan
 Ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw.
- 2 Y mae gwedd dy wŷneb grasol
 Yn rhagori llawer iawn
 Ar bob peth a welodd llygad
 Ar hyd wŷneb daear lawn :
 Rhosyn Saron,
 Ti yw tegwch nef y nef.

w.

189

Cydymdeimlad Crist.

87. 87. 47.

- 1 IESU, gwyddost fy nghystuddiau,
 'R wyt yn rhifo pob yr un ;
 Pob rhyw wradwydd, pob rhyw groesau,
 Dioddefaist hwynt dy Hun ;
 Dal fi i fyny
 Man bo 'meichiau'n fwyaf trwm.
- 2 Er dy fod Di heddiw'n eistedd
 Yng ngogoniant nef y nef,
 Mewn goleuni cyn ddisgleiried
 Na ellir nesu ato ef,
 'R wyt yn edrych
 Ar d'anwylaf yn y byd. w.

190

Rhinwedd Gwaed Crist.

87. 87. 47.

- 1 MAE fy meiau fel mynyddoedd,
 Amlach hefyd yw eu rhi'
 Nag yw gwllith y bore wawrddydd,
 Nag yw sêr y nefoedd fry :
 Gwaed fy Arglwydd
 Sydd yn abl i olchi 'mai.
- 2 Golchi'r ddu gydwylbod aflan
 Lawer gwynnach eira mân ;
 Gwneud y brwnt, gan' waith ddifwynodd
 Yn y domen, fel y gwllân :
 Pwy all fesur
 Lled a dyfnder maith ei ras ?
- 3 Ei riddfannau ar y croesbren
 Oedd yn pwyso beiau'r byd ;
 Poenau pechod oedd ofnadwy,
 Poenau f'Arglwydd oedd fwy drud ;
 'N awr mae cariad
 Yn concwerio dwyfol lid. w.

191

Cariad yn Cario'r Dydd.

87. 87. 47.

1 **D**ACW gariad, dacw bechod,
 Heddiw ill dau ar ben y bryn ;
 Hwn sydd gryf, hwnacw'n gadarn,
 Pwy enilla'r ymgyrch hyn ?
 Cariad, cariad
 Wela'i'n perffaith gario'r dydd.

2 Dringa' i fyny i'r Olewydd,
 I gael gweled maint fy mai ;
 Nid oes arall, is yr ŵybren,
 Fan i'w weled fel y mae ;
 Annwyl f'enaid
 Yno'n chwýsu dafnau gwaed.

3 Pechod greodd ynddo'r poenau,
 Pechod roddodd arno'r pwn,
 Pechod barodd iddo ochain ;
 F'unig haeddiant i oedd hwn :
 O ! na welwn
 Fore fyth na phechwn mwy.

w.

192

Tragwyddoldeb i ryfeddu Crist a'i Ras.

87. 87. 47.

1 **H**YN yw 'mhleser, hyn yw f'ymffrost,
 Hyn yw 'nghysur yn y byd—
 'Mod i'n caru'r addfwyn Iesu ;
 Dyna 'meddiant oll i gyd :
 Mwy yw 'nhrysor
 Nag a fedd y byd o'i fron.

2 Ac ni allaf fyth fynegi
 Ped anturiwn, tra fawn byw,
 Pa mor hyfryd, pa mor felys,
 Pa mor gryf, ei gariad yw :
 Fflam ddiderfyn
 Ddaeth o ganol nef i lawr.

3 Yn y bywyd byth a bery,
 Caf fi ddwfnw chwilio i maes
 Faith ddyfnderoedd cariad dwyfol,
 A changhennau nefol ras ;
 Ehengir f'enaid
 I 'nabod datguddiadau'r nef.

4 Derfydd awyr, derfydd daear,
 Ac a grewyd is y ne',
 Derfydd haul a sêr a lleuad,
 Daw tywyllwch yn eu lle ;
 Fyth ni dderfydd
 Canu iechydwriaeth gras.

W.

193

"Gorffennwyd."

87. 87. 47.

1 **C**LYWCH leferydd gras a chariad,
 O Galfaria'n seinio sydd ;
 Wele'r cedyrn greigiau'n hollti,
 Haul yn twllu ganol dydd :
 "Fe orffennwyd !"
 Dwys ddolefa'r Meichiau mawr.

2 O ! 'r trysorau anchwiliadwy
 A gynwysir yn y gair ;
 Môr diderfyn o fendithion,
 I dylodion ynddo a gair :
 "Fe orffennwyd !"
 Ni bydd eisiau aberth mwy.

3 Atgyweirier pob rhyw delyn
 Drwy y ddaear faith a'r nef
 Er cyd-daro'r anthem newydd
 Heddiw a gyhoeddodd Ef :
 "Fe orffennwyd !"
 Dyma gân na dderfydd byth.

JON. EVANS, C. E. E.

194

Y Graig.

87. 87. 47.

- 1 **G**WELAF graig a'm deil mewn stormydd
 O gawodydd dŵr a thân ;
 Yn ŵyneb uffern a'i rhuthriadau,
 Holl breswylwyr hon a gân :
 Cadarn sylfaen
 A osodwyd gan y Tad.

J.H.

195

Crist oll yn Hawddgar.

87. 87. 47.

- 1 **W**ELE'N sefyll rhwng y myrtwydd
 Wrthrych teilwng o'm holl fryd :
 Er mai o ran yr wy'n adnabod
 Ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd :
 Henffych fore
 Y caf ei weled fel y mae.

- 2 Rhosyn Saron yw ei enw,
 Gwyn a gwridog, teg o bryd ;
 Ar ddeng mil y mae'n rhagori
 O wrthrychau penna'r byd :
 Ffrind pechadur,
 Dyma'r llywydd ar y môr.

- 3 Beth sydd imi mwy a wnelwyf
 Ag eilunod gwael y llawr ?
 Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
 I'w gystadlu â'm Iesu mawr :
 O ! am aros
 Yn ei gariad ddyddiau f'oes.

A.G.

196

Genedigaeth y Ceidwad.

87. 87. 47.

- 1 **P**ERAIDD ganodd sêr y bore
 Ar enedigaeth Brenin nef ;
 Doethion a bugeiliaid hwythau
 Teithient i'w addoli Ef :
 Gwerthfawr drysor !
 Yn y preseb Iesu a gad.

- 2 Dyma Geidwad i'r colledig,
 Meddyg i'r gwywedig rai ;
 Dyma Un sy'n caru maddau
 I bechaduriaid mawr eu bai :
 Diolch iddo
 Byth am gofio llwch y llawr.

M.R.

197

Mawredd Crist.

87. 87. 67.

- 1 **M**AWR oedd Crist yn nhragwyddoldeb,
 Mawr yn gwisgo natur dyn ;
 Mawr yn marw ar Galfaria,
 Mawr yn maeddu angau'i hun ;
 Hynod fawr yw yn awr,
 Brenin nef a daear lawr.

T.I.L.

- 2 Mawr oedd Iesu yn yr arfaeth,
 Mawr yn y cyfamod hedd ;
 Mawr ym Methlem a Chalfaria,
 Mawr yn dod i'r lan o'r bedd :
 Mawr iawn fydd Ef ryw ddydd
 Pan ddatguddir pethau cudd.

AN.

- 3 Mawr yw Iesu yn ei Berson ;
 Mawr fel Duw, a mawr fel dyn ;
 Mawr ei degwch a'i hawddgarwch,
 Gwyn a gwridog, teg ei lun :
 Mawr yw Ef yn y nef
 Ar ei orsedd gadarn gref.

T.I.L.

198

Wele, cawsom y Meseia.

87. 87. 67.

- 1 **W**ELE, cawsom y Meseia,
 Cyfaill gwerthfawroca' 'rioed ;
 Darfu i Moses a'r proffwydi
 Ddweud amdano cyn ei ddod :
 Iesu yw, gwir Fab Duw,
 Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

- 2 Dyma Gyfaill haeddai'i garu,
 A'i glodfori'n fwy nag un :
 Prynu'n bywyd, talu'n dyled,
 A'n glanhau â'i waed ei Hun :
 Frodyr, dewch, llawenhewch,
 Diolchwch iddo, byth na thewch !

D.J.

199

Crist yn Sylfaen.

87. 87. 67.

- 1 **N**'AD im adeiladu'n ysgafn
 Ar un sylfaen is y ne' ;
 N'ad im gymryd craig i orffwys
 Tu yma i angau yn dy le :
 Ti, fy Nuw, tra fwyf byw,
 Gaiff fod fy ngorffwysfa wiw.
- 2 Dyma'r maen sydd yn y gongol,
 Dyma'r garreg werthfawr bur,
 Gloddiwyd allan yn y brynau,
 Bryniau tragwyddoldeb dir ;
 Nid oes le, is y ne',
 I adeiladu ond Efe.
- 3 Minnau'r gwaela' o bechaduriaid,
 Yn y diwedd rhof fy nhroed
 Ar y graig sydd yn y moroedd,
 Craig gadarnaf fu erioed ;
 Ceidw hon, rhag pob ton,
 Ofnau i ffwrdd o dan fy mron.

W.

200

Y Cyfaill Gorau.

87. 87. 77.

- 1 **Y** MAE Un, uwchlaw pawb eraill
 Drwy'r greadigaeth fawr i gyd,
 Sydd yn haeddu'i alw'n Gyfaill,
 Ac a bery'r un o hyd :
 Brawd a anwyd inni yw
 Erbyn cledi o bob rhyw.

2 Ni all meithder ffordd, nac amser,
 Oeri dim o'i gariad Ef,
 Mae ei fynwes byth yn dyner,
 A'i gymdeithas byth yn gref ;
 Ni all dyfroedd angau llym
 Ddiffodd ei angerddol rym.

3 Pan fo pawb yn cefnu arnom
 Yn y dyffryn tywyll du ;
 Pan fo pob daearol undeb
 Yn ymddatod o bob tu ;
 Saif E'n ffyddlon y pryd hyn,
 Ac fe'n dwg yn iach trwy'r glyn.

4 A phan ymddangoso eilwaith,
 Yng ngogoniant pur ei Dad,
 Gyda'i holl angylion sanctaidd,
 Mewn anrhydedd a mawrhad,
 Fe geir gweld mai'r un fydd Ef,
 Er mynd heibio'r byd a'r nef.

NEWTON, *ef.* E.E.

201

Trysorau'r Groes.

87. 87. D.

- 1 IESU ei Hunan yw fy mywyd—
 Iesu'n marw ar y groes,
 Y trysorau mwyaf feddaf
 Yw ei chwerw angau loes ;
 Gwacter annherfynol ydyw
 Meddu daear, da, na dyn ;
 Colled ennill popeth arall,
 Oni enillir Di dy Hun.
- 2 Dyma ddyfnder o drysorau,
 Dyma ryw anfeidrol rodd,
 Dyma wrthrych ges o'r diwedd
 Ag sy'n hollol wrth fy modd ;

Nid oes syched arnaf mwyach
 Am drysorau gwag y byd ;
 Popeth gwerthfawr a drysorwyd
 Yn fy Mhrynwr mawr ynghyd.

- 3 Mi orffwysa' f'enaïd bellach
 Ar yr annherfynol stôr,
 Ac mi ganaf yn y dymestl
 Ar y graig sydd yn y môr ;
 Dyna'r man na feiddia Satan,
 Uffern ddofon fawr, na'r bedd,
 Er eu dyfais faith, a'u rhwad,
 Fyth derfysgu dim o'm hedd.

w.

202

Iesu, llawnder mawr y Nefoedd.

87. 87. D.

- 1 I IESU, llawnder mawr y nefoedd,
 Gwranddo lef un eiddil gwan,
 Sydd yn gorwedd wrth dy orsedd,
 Ac yn codi'i lef i'r lan ;
 Mae 'ngelynyion heb rifedi
 Yn fy nghuro o bob tu,
 Ac nid oes a all fy achub
 Is y nefoedd ond Tydi.
- 2 Yn dy haeddiant 'r wyf yn gyfiawn,
 Yn d'oleuni gwela'i'n glir,
 Yn dy wisgoedd dwyfol disglair,
 Bydda'i'n ogoneddus bur ;
 Yn dy iechydwrïaeth gyflawn,
 Er mor egwan wyf yn awr,
 Ceir fy ngweled, ryw ddiwrnod,
 Yn disgleirio fel y wawr.
- 3 Dwed y gair, fy addfwyn Iesu,
 Yna f'enaïd lawenha—

Gair o addewid caf fy mhuro
 O bob pechod, o bob pla ;
 Gwrendy f'enaïd, mewn distawrwydd,
 Ar dy adlais distaw main,
 Ac fe neidia o orfoledd
 Pryd y clyw dy netol sain.

- 4 Mae dy lais yn rhoi distawrwydd
 Ar holl ddwndwr gwag y byd,
 Yn gostegu pob rhyw derfysg
 Fago nwydau croes ynghyd ;
 Y mae'r gwynt yn troi i'r deau,
 Ac mae'r hin yn dawel iawn
 Pan fo Duw'n cyhoeddi heddwch,
 Er mor arw fu'r prynhawn.

w.

203

Iesu, Ffynnon Bywyd.

87. 87. D.

- 1 **I**ESU, Ti yw ffynnon bywyd,
 Bywyd dedwydd i barhau ;
 Pob rhyw gysur is y nefoedd,
 Ynot Ti dy Hun y mae :
 Ni all croes, na gwae, na chystudd,
 Wneuthur niwed iddynt hwy
 Gafodd nerth i wneud eu noddfa
 Yn dy ddwyfol farwol glwy'.
- 2 Dring, fy enaid, i'th orffwysfa,
 Uwch y gwynt tymhestlog oer,
 'Maes o sŵn rhuadau'r llewod,
 'Maes o gyrraedd tonnau'r môr ;
 Mi gaf yno, dan bob blinder,
 Hyfryd dreulio 'nyddiau i maes,
 Heb gael briw, na chlais, nac archoll,
 Gan neb rhyw elynion cas.

w.

204 *Gras a Dedwyddwch yng Nghrist.*

87. 87. D.

- 1 **N**ID fy nef yw ar y ddaear,
 Pe gorau man dan gwmpas haul :
 Fy nef yw tawel bresenoldeb
 Wyneb siriol Adda'r Ail ;
 Gwena arnaf, Arglwydd grasol,
 Gwaeddaf innau, Digon yw ;
 Yna 'nghanol cyfyngderau
 Byth yn llawen byddaf byw.
- 2 Môr sydd ynot o fendithion
 Heb waelodion iddo'n bod ;
 Y mae'n llanw 'mlaen bob munud,
 Nid oes diwedd ar dy glod ;
 D'enw beunydd sy'n helaethu—
 Beunydd yn ymdaenu i maes ;
 Bydd telynau'n canu iddo
 Fel rhifedi gwellt y maes.
- 3 Yno boed fy mwyd a'm diod,
 Dan ganghennau gwych y pren
 Sydd â'i wreiddyn ar y ddaear,
 Ei frigau yn y nefoedd wen ;
 Dyn â'r Duwdod ynddo'n trigo,
 Ffrwythau arno'n tyfu'n llawn ;
 Cysgod dano i'r fyddloniaid
 O foreddydd hyd brynhawn.

w.

205 *Geiriau'r Iesu.*

87. 87. D.

- 1 **O** ! LLEFARA, addfwyn Iesu :
 Mae dy eiriau fel y gwin,
 Oll yn dwyn i mewn dangnefedd
 Ag sydd o anfeidrol rin ;
 Mae holl leisiau'r grëadigaeth,
 Holl ddeniadau cnawd a byd,
 Wrth dy lais hyfrytaf tawel,
 Yn distewi a mynd yn fud.

- 2 Ni all holl hyfrydwch natur,
 A'i melynstra penna' i maes,
 Fyth gymharu â lleferydd
 Hyfryd pur maddeuol ras :
 Gad im glywed sŵn dy eiriau,
 Awdurdodol eiriau'r nef,
 Oddi mewn yn creu hyfrydwch
 Nad oes mo'i gyffelyb ef.
- 3 Dwed dy fod yn eiddo imi,
 Mewn llythrennau eglur clar ;
 Tor amheuaeth sych, digysur,
 Tywyll, dyrys, cyn bo hir ;
 'R wy'n hiraethu am gael clywed
 Un o eiriau pur y ne',
 Nes bod ofon du a thristwch
 Yn tragwyddol golli eu lle.

W.

206

Gair Crist, ei Bresenoldeb, a'i Enw.

87. 87. D.

- 1 **G**OLAU a nerthol yw ei eiriau,
 Melys fel y diliau mêl,
 Cadarn fel y bryniau pwysig ;
 Angau Iesu yw eu sêl ;
 Y rhain a nertha 'nhraed i gerdded
 Dyrys anial ffordd ymlaen ;
 Y rhain a gynnal f'enaid egwan
 Yn y dŵr ac yn y tân.
- 2 Gwedd dy ŵyneb sy'n rhagori
 Ar drysorau'r India draw ;
 Mae awelon pur dy gariad
 Yn dwyn gwobor yn eu llaw ;
 Perffaith bleser heb ddim diwedd,
 Perffaith gysur heb ddim trai,
 Yn y stormydd mawr cynddeiriog,
 Yw yn unig dy fwynhau.

- 3 Tyred gyda mi trwy'r fyddin,
 Gyda mi yn erbyn llu ;
 Yn dy enw mi goncweriaf
 Bawb sy'n sathru d'enw cu ;
 D'enw Di a faeddodd angau,
 Faeddodd uffern fawr ei grym,
 Bellach ni all cnawd a phechod
 Wrthwynebu d'enw ddim.

W.

207

Pabell y Cyfarfod.

87. 87. D.

- 1 DYMA babell y cyfarfod,
 Dyma gymod yn y gwaed,
 Dyma noddfa i lofruddion,
 Dyma i gleifion Feddyg rhad ;
 Dyma fan yn ymyl Duwdod
 I bechadur wneud ei nyth,
 A chyfiawnder pur y nefoedd
 Yn siriol wenu arno byth.
- 2 Ffordd a drefnwyd cyn bod amser
 I gael dihangfa o ddrygau'r ddraig ;
 Mewn addewid gynt yn Eden,
 Fe gyhoeddwyd Had y wraig ;
 Ffordd i gyfiawnhau'r annuwiol,
 Ffordd i godi'r meirw'n fyw ;
 Ffordd gyfreithlon i droseddwyr
 I hedd a ffafor gyda Duw.

A.G.

208

Brawd erbyn Caledi.

87. 87. D.

- 1 DYMA frawd a anwyd inni
 Erbyn cledi a phob clwy' ;
 Ffyddlon ydyw, llawn tosturi,
 Haeddai gael ei foli'n fwy :
 Rhyddhawr caethion, Meddyg cleifion,
 Ffordd i Seion union yw ;
 Ffynnon loyw, Bywyd meirw,
 Arch i gadw dyn yw Duw.

AN.

209

Digon yn yr Iesu.

87. 87. D.

- 1 **P** ECHADUR aflan yw fy enw,
 O ba rai y penna'n fyw ;
 Rhyfeddaf byth, fe drefnwyd pabell
 Im gael yn dawel gwrdd â Duw :
 Yno mae, yn llond ei gyfraith,
 I'r troseddwr yn rhoi gwledd ;
 Duw a dyn yn gweiddi, Digon,
 Yn yr Iesu, 'r aberth hedd.
- 2 Anturiaf ato yn hyderus,
 Teyrnwialen aur sydd yn ei law ;
 Estyniad hon sydd at bechadur,
 Ni wrthodir neb a ddaw ;
 Af ymlaen dan weiddi, Pechais ;
 Af, a chŵympaf wrth ei draed,
 Am faddeuant, am fy ngolchi,
 Am fy nghannu yn y gwaed.

A.G.

210

Duw yn y Cnawd.

87. 87. D.

- 1 **R** HYFEDD, rhyfedd gan angylion,
 Rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd,
 Gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth,
 A Rheolwr popeth sydd,
 Yn y preseb mewn cadachau,
 A heb le i roi'i ben i lawr,
 Eto disglair lu'r gogoniant
 Yn ei addoli'n Arglwydd mawr.
- 2 Diolch byth, a channil diolch,
 Diolch tra fo ynof chwŷth,
 Am fod gwrthrych i'w addoli,
 A thestun cân i bara byth,
 Yn fy natur wedi ei dentio
 Fel y gwaela' o ddynol-ryw,
 Yno'n ddyn, yn wan, yn ddinerth,
 Yn anfeidrol fywiol Dduw.

- 3 Pan fo Sinai i gyd yn mygu,
 A sŵn yr utgorn ucha'i radd,
 Caf fynd i wledda dros y terfyn,
 Yng Nghrist y Gair, heb gael fy lladd ;
 Mae ynddo'n trigo bob cyflawnder,
 Llond gwagle colledigaeth dyn ;
 Ar yr adwy rhwng y ddwyblaidd
 Gwnaeth gymod trwy'i offrymu'i Hun. A.G.

211

Craig yr Oesoedd.

87. 87. D.

- 1 **A** RGLWYDD Iesu, arwain f'enaidd
 At y Graig sydd uwch na mi,
 Craig safadwy mewn tymhestloedd,
 Craig a ddeil yng ngrym y lli ;
 Llechu wnaif yng Nghraig yr Oesoedd,
 Deued dilyw, deued tân,
 A phan chwalo'r grëadigaeth,
 Craig yr Oesoedd fydd fy nghân.
- 2 Pan fo creigiau'r byd yn rhwygo
 Yn rhyferthwy'r farn a ddaw,
 Stormydd creulon arna'i'n curo—
 Cedyrn fyrdd o'm cylch mewn braw,
 Craig yr Oesoedd ddeil pryd hynny,
 Yn y dyfroedd, yn y tân :
 Draw ar gefnfor tragwyddoldeb
 Craig yr Oesoedd fydd fy nghân. S.J.G.

212

" Y pethau ni welir sydd dragwyddol."

87. 87. D.

- 1 **O** ! FY Iesu bendigedig,
 Unig gwmni f'enaidd gwan,
 Ym mhob adfyd a thrallodion
 Dal fy ysbryd llesg i'r lan ;
 A thra'm teflir yma ac acw
 Ar anwadal donnau'r byd,
 Cymorth rho i ddal fy ngafael
 Ynot Ti, sy'r un o hyd.

- 2 Rhof fy nhroed y fan a fynnwyl
 Ar sigledig bethau'r byd,
 Ysgwyd mae y tir o danaf,
 Darnau'n cŵympto i lawr o hyd ;
 Ond os caf fy nhroed i sengi,
 Yn y dymestl fawr a'm chwŷth,
 Ar dragwyddol Graig yr Oesoedd,
 Dyna fan na sigla byth.

E.T.

213

Cariad fel y Moroedd.

87. 87. D.

- 1 **D**YMA gariad fel y moroedd,
 Tosturiaethau fel y lli :
 Twysog Bywyd pur yn marw—
 Marw i brynu'n bywyd ni.
 Pwy all beidio â chofio amdano ?
 Pwy all beidio â thraethu'i glod ?
 Dyma gariad nad â'n angof
 Tra fo nefoedd wen yn bod.

W.B.

214

Enw Iesu.

87. 87. D.

- 1 **E**NW Iesu sydd yn werthfawr,
 Ynddo mae rhyw drysor im ;
 Enw Iesu yw fy mywyd,
 Yn ei enw mae fy ngrym :
 Yn ei enw mi anturiaf
 Trwy bob rhwystrau maith ymlaen ;
 Yn ei enw mae fy noddfa,
 Am ei enw bydd fy nghân.

A.N.

215

Rhyfeddodau'r Iawn.

87. 87. D.

- 1 **M**AE rhyw fyrdd o ryfeddodau,
 Iesu, yn dy farwol glwy' :
 Trwy dy loes, dy gur, a'th angau,
 Caed trysorau fwy na mwy ;

Ni all ceriwb byth, na seraff,
Lawn fynegi gwerth yr Iawn
A roed drosom gan Gyfryngwr
Ar Galfaria un prynhawn.

- 2 Pwy all fesur maint ei gariad,
A rhinweddau maith ei ras ?
Nid angylion, er eu doniau,
Na holl seintiau daear las :
Môr di-drai, heb waelod iddo,
Sydd yn chŵyddo byth i'r lan ;
Nofia miloedd ynddo'n hyfryd
Draw i'r bywyd yn y man.

DL.J.

216

Eden a Chalfaria.

886. 886.

- 1 YN Eden, cofiaf hynny byth,
Bendithion gollais rif y gwllith ;
Syrthiodd fy nghoron wiw.
Ond buddugoliaeth Calfari
Enillodd hon yn ôl i mi ;
Mi ganaf tra fwyf byw.

- 2 Ffydd, dacw'r fan, a dacw'r pren,
Yr hoeliwyd arno Dwysog nen,
Yn wirion yn fy lle :
Y ddraig a 'sigwyd gan yr Un,
Cans clwyfwyd dau, concwerodd un,
A Iesu oedd Efe.

W.

217

Ar Fythgofiadwy Fryn.

888. 6.

- 1 O ! IESU mawr, pwy ond Tydi
Allasai farw drosom ni,
A'n dwyn o warth i fythol fri ?—
Pwy all anghofio hyn ?

2 Doed myrdd ar fyrdd o bob rhyw ddawn
 I gydfawrhau d'anfeidrol Iawn—
 Y gwaith gyflawnaist un prynhawn
 Ar fythgofiadwy fryn.

3 Nid yw y grëadigaeth faith,
 Na'th holl arwyddion gwyrthiol chwaith,
 Yn gytbwys â'th achubol waith—
 Yn marw i ni gael byw.

4 Rhyfeddod heb heneiddio mwy
 Fydd hanes mawr dy farwol glwy' ;
 Ni threiddia tragwyddoldeb trwy
 Ddyfnderau cariad Duw.

W.A.

218

Oll fel yr wyf.

888. 6.

1 **O**LL fel yr wyf, heb ddadl i'w dwyn
 Ond iti farw er fy mwyn,
 A'th fod yn galw arna'i'n fwyn,
 'R wy'n dyfod, addfwyn Oen.

2 Oll fel yr wyf, dan hyrddiau llu
 O frwydrau ac amheuon du,
 Ymladdau, ofnau, ar bob tu,
 'R wy'n dyfod, addfwyn Oen.

3 Oll fel yr wyf, tlawd, dall a gwael,
 Iechyd a golwg im i'w cael,
 Ac i'm diwallu o'th olud hael,
 'R wy'n dyfod, addfwyn Oen.

4 Oll fel yr wyf, Ti ni'm nacái—
 Croesewi fi, maddeui 'mai ;
 Gan gredu yn dy air y gwnai,
 'R wy'n dyfod, addfwyn Oen.

5 Oll fel yr wyf (dy gariad fu'n
Symud y rhwystrau bob yr un)
I fod yn eiddot Ti dy Hun,
'R wy'n dyfod, addfwyn Oen.

6 Oll fel yr wyf, tra fwy'n y byd,
Ac yna fry, i brofi "hyd,
Lled, dyfnder, uchder" cariad drud,
'R wy'n dyfod, addfwyn Oen.

C. ELLIOTT, C. J.M.-J.

219

Cariad Crist.

888. 6. D.

1 **Y**MHLITH plant dynion, ni cheir un
Yn ffyddlon fyth fel Iesu'i Hun,
Nid yw ei gariad, megis dyn,
Yn gŵybro yma a thraw ;
Ond rhad anfeidrol yw ei ras,
I bechaduriaid cyndyn cas ;
A garodd Ef, fe'u dwg i maes
O'u pechod ac o'u braw.

2 Wel dyma'r cariad sydd yn awr
Yn curo pob cariadau i lawr,
Yn llyncu enwau gwael y llawr
Oll yn ei enw'i hun :
O ! fflam angerddol gadarn gref
O dân enynnwyd yn y nef ;
Tragwyddol gariad ydyw ef
Wnaeth Dduw a minnau'n un.

W.

220

Caru a chanmol Iesu.

88. 88.

1 **O** ! NA allwn garu'r Iesu
Yn fwy ffyddlon, a'i wasnaethu ;
Dweud yn dda mewn gair amdano,
Rhoi fy hun yn gwbl iddo.

Cas. M.D. 1.

221

Tywysog Bywyd.

88. 88.

- 1 **O**! NA chawn i olwg hyfryd
 Ar ei wedd, Dywysog bywyd ;
 Tegwch byd, a'i holl bleserau,
 Yn ei wŷydd a lwyr ddiplannai.
- 2 Melys odiaeth yw ei heddwch,
 Anghymharol ei brydferthwch ;
 Ynddo'n rhyfedd cydlewyrcha
 Dwyfol fawredd a mwyneidd-dra.
- 3 Uchelderau mawr ei Dduwdod,
 A dyfnderoedd ei ufudd-dod,
 Sy'n creu synnu fyth ar synnu
 Yn nhrigolion gwlad goleuni.

D.C.

222

Mawredd Cariad Crist.

888. 888.

- 1 **N**I all angylion nef y nef
 Fynegi maint ei gariad Ef,
 Mae angau'r groes yn drech na'u dawn :
 Bydd canu uwch am Galfari
 Na dim a glybu angylion fry,
 Pan ddelo Salem bur yn llawn.
- 2 Am iddo farw ar y bryn,
 Cadd f'enaïd bach ei brynu'n llyn,
 A'i dynnu o'i gadwynau'n rhydd :
 Wel, bellach, dan ei haeddiant Ef,
 Fel cysgod rhyw gedrwydden gref,
 Gorffwysaf mwy yng ngwres y dydd.

W.

223

Gorsedd Gras ar Galfaria.

888. 888.

- 1 **N**A foed im feddwl, ddydd na nos,
 Ond cariad perffaith angau'r groes ;
 Hwn alwaf mwy yn orsedd gras :

Ar Galfari mae mainc y nef,
Yn agos at ei groesbren Ef ;
Oddi yno rhoddir hedd i maes.

- 2 Boed oesoedd meithion, fwy na mwy,
Heb rif, heb ddarfod arnynt hwy,
I ganu am ei ddifawr boen :
Na thawed tafod o un rhyw,
Na dim o dan y nef sy'n byw,
Â sôn am goncwest addfwyn Oen.

w.

224

Hawddgarwch Crist.

888. 888.

- 1 **N**I welodd llygad dyn erioed,
Ni chlywodd clust o dan y rhod
Am neb cyffelyb iddo Ef :
O ! Rosyn Saron hardd ei liw :
Pwy ddyd i maes rinweddau 'Nuw ?
Efe yw bywyd nef y nef.
- 2 Fe ddaw diwrnod—doed pan ddêl,
A'r llygaid yma'u hun a'i gwêl,
Pan ymddangoso'i fawredd Ef,
Mewn rhwysg a harddwch, parch a bri,
Ymhlith cwmpeini aneirif ri'
Fydd yn rhyfeddod nef y nef.
- 3 O ! f'enaïd, edrych arno'n awr,
Yn llanw'r nef, yn llanw'r llawr,
Yn holl ogoniant dŵr a thir ;
Nid oes, ni fu erioed, ni ddaw,
O'r dwyrain i'r gorllewin draw,
Gyffelyb i'm Hanwylyd pur.
- 4 Mi garaf fy Anwylyd mwy,
Ddiodefodd tros of farwol glwy',
Agorodd ffynnon loyw fyw ;

I olchi'r holl archollion wnaed
 Gan bechod cas, o'm pen i'm traed,
 Y dyfroedd dardd dan groes fy Nuw. W.

225

Iawn a Maddeuant.

888. 888.

- 1 **G**WNAED concwest ar Galfaria fryn,
 Amdani canodd myrdd cyn hyn :
 Fe faeddwyd uffern faith i gyd ;
 Fe brynwyd gwael golledig ddyn,
 Fe'i dygwyd ef â Duw yn un,
 Â gwaed Iachawdwr mawr y byd.
- 2 Wel dyma'r Cyfaill gorau gad ;
 Mae'n ganmil gwell na mam na thad ;
 Ym mhob caledi ffyddlon yw :
 Mae'n medru maddau a chuddio bai,
 Ac o'i wir fodd yn trugarhau
 Wrth bechaduriaid gwael eu rhyw.
- 3 Ei haeddiant mawr anfeidrol Ef,
 A lwyr fodlonodd nef y nef,
 A geidw f'enaid yn ddi-grŷn ;
 Yng ngwres y dydd a'r stormydd mawr,
 Efe a'm daliodd hyd yn awr :
 Gogoniant byth i Geidwad dyn ! M.R.

226

Meddyliau Trugaredd a Gras.

88. 88. D.

- 1 **D**ATGUDDIWYD dirgelion i maes,
 Dirgelion cuddiedig i'r byd,
 Meddyliau trugaredd a gras
 I'r pennaf bechadur i gyd,
 A gloed mewn addewid sydd gref,
 Na welir fyth fythoedd ei hail,
 O ddyfnder y ddaear i'r nef,
 Mor gywir, mor sicir ei sail.

2 Y gallu a'r anrhydedd a'r clod,
 Y moliant a'r parch yn gytûn,
 O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod
 Yn gyfan i'm Harglwydd ei Hun ;
 Aed sŵn dy farwolaeth i maes,
 O'r dwyrain luosog i'r de ;
 Helaethed terfynau dy ras
 Mor bell ag y cyrraedd y ne'.

3 Aed sain Haleliwia i'r lan,
 Trwy'r awyr anfeidrol ei maint ;
 Cymysged caniadau rhai gwan
 Â thyrfa luosog o saint :
 Ni gawsom gan' cymaint â'r byd,
 Can' cymaint drachefen â hyn,
 Can' cymaint â'r nefoedd i gyd,
 Brynhawngwaith ar Galfari fryn.

w.

227

Prynwyr Byw.

88. 88. D.

1 **M**I wn fod fy Mhrynwyr yn fyw,
 A'm prynodd â thaliad mor ddrud ;
 Fe saif ar y ddaear, gwir yw,
 Yn niwedd holl oesoedd y byd :
 Er ised, er gwaeled fy ngwedd,
 Teyrnasu mae 'Mhrynwyr a'm Brawd ;
 Ac er fy malurio'n y bedd,
 Ca'i weled Ef allan o'm cnawd.

2 Wel, arno bo 'ngolwg bob dydd,
 A'i daliad anfeidrol o werth ;
 Gwir Awdwr, Perffeithydd ein ffydd,
 Fe'm cynnal ar lwybrau blin serth :
 Fy enaid, ymestyn ymlaen,
 Na orffwys nes cyrraedd y tir,
 Y Ganaan dragwyddol ei chân,
 Y Sabbath hyfrydol yn wir.

T.J.

228

Cariad angerddol.

88. 88. D.

- 1 **P**A feddwl, pa 'madrodd, pa ddawn,
 Pa dafod all osod i maes,
 Mor felys, mor helaeth, mor llawn,
 Mor gryf yw ei gariad a'i ras ?
 Afonydd sy'n rhedeg mor gryf,
 Na ddichon i bechod na bai
 Wrthsefyll yn erbyn eu llif,
 A'u llanw ardderchog di-drai.

- 2 Fel fflamau angerddol o dân
 Yw cariad f'Anwylyd o hyd ;
 Fe losgodd bob rhwystrau o'i flaen,
 Fe yfodd yr afon i gyd :
 Ymaflodd mewn dyn ar y llawr,
 Fe'i dygodd â'r Duwdod yn un ;
 Y pellter oedd rhyngddynt oedd fawr,
 Fe'i llanwodd â'i haeddiant ei Hun.

J.W.

229

Rhyfeddodau Cariad Crist.

88. 88. D.

- 1 **O** ! GARIAD, O ! gariad mor rhad,
 O ! foroedd o gariad mor fawr :
 Mab unig-anedig y Tad
 Ddisgynnodd o'r nefoedd i'r llawr ;
 Cymerodd ei wneuthur yn gnawd,—
 Dynoliaeth â Duwdod yn un ;
 Bu farw ar groesbren dan wawd
 Yn lle ei elynion ei Hun.

D.JS.

230

Gwaredigaeth trwy Grist.

98. 98. D.

- 1 **O** ! AGOR fy llygaid i weled
 Dirgelwch dy arfaeth a'th air ;
 Mae'n well i mi gyfraith dy enau
 Na miloedd o arian ac aur :

- Y ddaear â'n dân, a'i thrysorau,
Ond geiriau fy Nuw fydd yr un ;
Y bywyd tragwyddol yw 'nabod
Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.
- 2 Rhyfeddod a bery'n ddiddarfod
Yw'r ffordd a gymerodd Efe
I gadw pechadur colledig,
Trwy farw ei Hun yn ei le :
Fe safodd fy Mrenin ei Hunan,
Gorchfygodd hiliogaeth y ddraig ;
Ein Llywydd galluog ni ydyw :
O ! caned preswylwyr y graig.
- 3 Daeth blwyddyn y caethion i ganu,
Doed meibion y gaethglud ynghyd,
A seiniwn drwy'r nefoedd a'r ddaear
Ogoniant i Brynwr y byd :
Mae Brenin y nef yn y fyddin,
Gwae Satan a'i filwyr yn awr ;
Trugaredd a hedd sy'n teyrnasu :
Mae undeb rhwng nefoedd a llawr.

M.R.

231

" *Mab y Dyn.*"

10. 4. 10. 4. 10. 10.

- 1 **O** ! FAB y Dyn, Eneiniog Duw, fy Mrawd
A'm Ceidwad cry ;
Ymlaen y cerddaist dan y groes a'r gwawd,
Heb neb o'th du.
Cans llosgi wnaeth dy gariad pur bob cam,
Ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam.
- 2 Cyrhaeddaist ddiben dy anturiaeth ddrud,
Trwy boenau mawr ;
A gwelais Di dan faich gofidiau'r byd
Yn gŵyro i lawr ;
Ac yn dy ochain dwys a'th ddrylliog lef
Yn galw'r afradloniaid tua thref.

- 3 Rho imi'r weledigaeth fawr a'm try
 O'm crwydro ffôl :
 I'th ddilyn hyd y llwybrau dyrys du,
 Heb syllu'n ôl.
 A moes dy law i mi'r eiddilaf un,
 Ac arwain fi i mewn i'th fyd dy Hun.
- 4 Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi,
 Tydi yw 'ngrym :
 Pa les ymdrech, f'Arglwydd, hebot Ti,
 A minnau'n ddim ?
 O ! rymus Un, na wybu lwfwrhau,
 Dy nerth a'm ceidw innau heb lesgáu. G.R.

232

Prynedigaeth trwy Waed Crist.

10. 10. 10. 10.

- 1 **M**AE haeddiant mawr rhinweddol waed fy
 Nuw
 Yn llawer mwy na'r pechod gwaetha'i ryw :
 Ceir maddau myrdd o'r beiau mwyaf gaed,
 A'r euog brwnt a gennir yn y gwaed.
- 2 O'm pen i'm traed, anhraethol aflan wyf ;
 Nid oes lanhad ond yn ei farwol glwyf ;
 Y ffynnon hon agorwyd ar y bryn,
 Er dued wyf, a'm gylch yn hyfryd wyn. J.E.

233

Y Bugail Da.

10. 10. 10. 10.

- 1 **Y** BUGAIL mwyn o'r nef a ddaeth i lawr,
 I geisio'i braidd trwy'r erchyll anial mawr ;
 Ei fywyd roes yn aberth yn eu lle,
 A'u crwydrad hwy ddialwyd arno Fe.
- 2 O'm crwydrad o Baradwys daeth i'm hôl,
 Yn dirion iawn fe'm dygodd yn ei gôl ;
 'D oes neb a wŷr ond Ef, y Bugail mawr,
 Ba faint fy nghrwydro o hynny hyd yn awr.

- 3 **Â**'i hyfryd lais fe'm harwain yn y blaen ;
 Cydymaith ydyw yn y dŵr a'r tân ;
 Rhag pob rhyw ddrwg, yn nyffryn angau du,
 Pwy arall fydd yn nodded i myfi ?
- 4 Pan af i dref, i'r hyfryd gorlan fry,
 Ni chrwydraf mwy oddi wrth fy Mugail cu ;
 Wrth gofio'r daith, a'i holl fyddlondeb Ef,
 Mi seinia'i glod i entrych nef y nef.

D.C.

234

Digon yn yr Iesu.

10. 10. 10. 10.

- 1 **'D** OES eisiau'n bod, nac ofn, na chlais, na
 chlwy',
 Ar f'enaid tlawd, heb fod gan Iesu fwy ;
 Anfeidrol fwy o werth sydd yn ei waed ;
 Os trengi wnaf, mi drengaf wrth ei draed.
- 2 O ! Iesu gwiw, gwyn fyd a brofo o'th ddawn,
 A'th gariad pur, yn felys nerthol iawn ;
 I hwn mae'n ddigon tra fo ynddo chwŷth ;
 Nid oes i'w gael, na'i geisio, ragor byth.
- 3 Fy Iesu hardd, hyfrydwch nefol lu,
 Mor bêr i'r glust yw sain dy enw cu !
 I'r genau mae fel mêl yn felys bur,
 Fel nefol win i'r galon dan ei chur.
- 4 Amdanat, Iesu, 'n fynych mae fy nghwyn ;
 Pa bryd y caf dy lon ymweliad mwyn ?
 Pa bryd y caf fi lawenhau'n dy wedd ?
 Pa bryd y caf fy llenwi oll â'th hedd ?

ST. BERNARD, *ef.* T.J.

235

Yr Atgyfodiad.

10. 10. 11. 11.

- 1 **F**E dorrodd y wawr : sancteiddier y dydd,
 Fe ddrylliwyd yr iau : daeth y Cadarn yn
 rhydd,

Fe gododd y Ceidwad, boed moliant i Dduw,
Fe goncrwyd marwolaeth, mae'r Iesu yn fyw.

- 2 Cyhoedder y gair, atseinier y sôn,
A thrawer y Salm soniarus ei thôn,
Dywedwch wrth Seion alarus a gwyw
Am sychu ei dagrau, mae'r Iesu yn fyw.

W.N.W.

236

Yr un o hyd.

11. 10. 11. 10.

- 1 **M**AE mwynder cnawd a byd yn myned heibio,
Diflanna oes fel breuddwyd gwael ei lun ;
Ond er pob peth sy'n newid ac yn cilio,
Tydi, O ! Grist, y sydd o hyd yr un.
- 2 Cymdeithion mwyn, o un i un, ânt ymaith,
A'n gado ninnau yn yr anial fyd ;
Ond ynot Ti y cawn ar hyd yr ymdaith
Gydymaith dwyfol fydd yr un o hyd.
- 3 Os cyfnewidiol ydyw nwyd a theimlad,
Os gwamal ein meddyliau gwibiog ni,
Tangnefedd fydd i'r neb a wŷr dy gariad,
Oblegid digyfnewid ydwyt Ti.
- 4 Ar ben y daith pan fo pererin unig
Wrth borth y byd a ddaw, heb gwmni dyn,
Diogel fydd, a'i ran yn fendigedig ;
Tydi, O ! Grist, y sydd o hyd yr un.

J.O.W.

237

Engyl yr Iesu.

11. 10. 11. 10. 9. 11.

- 1 **C**LYW, f'enaïd, clyw ! mae nefol gân yn tonni
Hyd ddaear werdd, a glannau llaith y lli :
Bendigaid gân sy'n gwneud i'r enaid lonni
Am newydd oes heb bechod ynddi hi.
Engyl yr Iesu, engyl y wawr,
Canant eu croeso i deulu'r nos yn awr.

- 2 Awn, awn ymlaen ; ein galw mae yr engyl,
 “ Dos, enaid blin, mae'r Iesu'n dwedyd ‘ Dos ’ ” ;
 A thua'n cartre' nefol, mae'r Efengyl,
 Â pheraidd sain, yn arwain yn y nos.
 Engyl yr Iesu, &c.
- 3 Draw, draw ymhell, galwadau'r Iesu seiniant,
 Fel clychau hwyrol dros y ddaer a'r lli,
 A miloedd, dan eu beichiau'n llesg, glustfeiniant—
 O ! Fugail mwyn, dwg hwynt i'th gorlan Di.
 Engyl yr Iesu, &c.
- 4 Cenwch ymlaen, angylion, wrth ein gŵylio,
 Cenwch in geinciau o'r caniadau fry ;
 Nes torri dydd y gân ar nos yr ŵylo,
 Nes chwalu o gariad Duw bob cwmwl du.
 Engyl yr Iesu, &c. FABER, C. E.K.E.

238

Canu am Gariad Crist.

11. 11. 11. 11.

- 1 **N**I ganwn am gariad Creawdwr yn ddyn,
 Enynnodd cyn oesoedd o fewn iddo'i Hun ;
 Ni chwilia ceriwbiaid, seraffiaid, na saint,
 Ehangder, na dyfnder, nac uchder ei faint.
- 2 Rhyfeddod angylion yng nghanol y nef,
 Rhyfeddod galluoedd a thronau yw ef ;
 Diffygia'r ffurfafen a'i sêr o bob rhyw
 Cyn blinwyf fi ganu am gariad fy Nuw.
- 3 Fy enaid, gwêl gariad yn fyw ar y pren,
 Ac uffern yn methu darostwng ei ben ;
 Er marw fy Iesu, er hoelio fy Nuw,
 Parhaodd ei gariad trwy angau yn fyw.
- 4 O ! ryfedd ddoethineb—rhyfeddod ei hun !—
 A ffeindiai'r fath foddion i brynu'r fath un ;
 Fy Iesu yn marw—fy Iesu oedd Dduw,
 Yn marw ar groesbren i minnau i gael byw. w.

239

Calfaria a'i Fendithion.

11. 11. 11. 11.

1 YR afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr
Yw gwraidd fy ngorfoledd a'm cysur yn
awr ;

Calfaria roes haeddiant, Calfaria roes hedd,
Calfaria sy'n cadw agoriad y bedd.

2 Mae angau ei hunan, ei ofnau a'i loes,
Mewn cadwyn gadarnaf yn rhwym wrth dy groes ;
Allweddau hen uffern ddychrynlyd i gyd
Sy'n hongian wrth ystlys Iachawdwr y byd.

3 Nid oedd a ostegai bob terfysg a loes,
Cydwylbod a'i dychryn, ond angau dy groes ;
Can' miloedd oedd ynof o ofnau'n gytún
Nes clywed bod Crëwr y ddaear yn ddyn.

4 Wel, bellach, boed imi roi ffárwel i'r byd,
Ffarwél i'w drysorau a'i bleser ynghyd ;
Un gorchwyl sydd gennyf fyth mwyach i gyd,
Sef caru a chanu i Iachawdwr y byd. w.

240

Rhinwedd Marwolaeth yr Oen.

11. 11. 11. 11.

1 O ! GARIAD, O ! gariad anfeidrol ei faint—
Fod llwch mor annheilwng yn cael y fath
faint ;

Cael heddwch cydwylbod, a'i chlirio trwy'r gwaed,
A chorff y farwolaeth, sef pechod, dan draed.

2 Ni allai'r holl foroedd byth olchi fy mriw,
Na gwaed y creaduriaid er amled eu rhyw ;
Ond gwaed y Meseia a'i gwella'n ddi-boen :
Rhyfeddol yw rhinwedd marwolaeth yr Oen.

3 Cydganed y ddaear a'r nefoedd ynghyd
Ogoniant tragwyddol i Brynwr y byd ;
Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân.
Am achub anhydyn bentewyn o'r tân

- 4 Mae'r Jiwbil dragwyddol yn awr wrth y drws,
 Fe gododd yr heulwen, ni gawsom y tlws ;
 Daw gogledd a dwyrain, gorllewin a de,
 Yn lluoedd i foli Tywysog y ne'.

M.R.

241

Dyrchafu'r Iachawdwr.

11. 11. 11. 11.

- 1 **C**YDUNED trigolion y ddaear i gyd
 Mewn sain o glodfodd i Brynwr y byd :
 Mor dirion ei gariad at holl ddynol-ryw !
 Troseddwyr a eilw i ddychwelyd a byw.
- 2 I gadw'r colledig, o'r nefoedd y daeth—
 Rhoi bywyd i'r marw, a rhyddid i'r caeth ;
 Am hyn gorfoleddwn, mae inni iachâd
 A bywyd tragwyddol trwy haeddiant ei waed.
- 3 Prysured y dyddiau yn fuan i ben,
 Pan foler yr Iesu gan bawb is y nen ;
 Doed pobloedd y ddaear yn gyson i gyd
 I ganmol a charu Iachawdwr y byd.

AN.

242

Nesâ at fy Enaid.

11. 11. 11. 11.

- 1 **N**ESÂ at fy enaid, Waredwr y tlawd ;
 Datguddia dy Hunan, dy fod imi'n Frawd :
 Prydferthwch fy mywyd a'i nerth ydwyt Ti,
 A phrofi o'th gariad sy'n nefoedd i mi.
- 2 Ti ddaethost yn agos at un oedd ymhell,
 Er achub ei fywyd i wynfyd sydd well ;
 Arhosaist yn ffyddlon drwy oerni a gwres ;
 Bydd eto yn f'ymyl, a thyred yn nes.
- 3 Rho im dy arweiniad i derfyn fy oes,
 Mewn hedd a dedwyddwch, dan gystudd a chroes :
 Ar finion Iorddonen, yn nyfnder ei lli,
 A phawb wedi cefnu, nesâ ataf fi.

R.H.W.

YR YSBRYD GLÂN A'I WAITH.

243

Deisyfiad am yr Ysbryd Glân.

M. C.

- 1 **O** ! ANFON Di yr Ysbryd Glân,
Yn enw Iesu mawr,
A'i weithrediadau megis tân ;
O ! deued Ef i lawr.
- 2 Yn ôl d'addewid fawr ei gwerth,
Tywallter oddi fry
Yr Ysbryd Sanctaidd gyda nerth
I weithio arnom ni.
- 3 O'th wir ewyllys deued Ef
I argyhoeddi'r byd,
Ac arwain etifeddion nef
Trwy'r anial maith i gyd.
- 4 Yn ôl d'addewid, Iesu mawr,
Yr awron, anfon Di
Y gwir Ddiddanydd yma i lawr
I aros gyda ni.

J.H.

244

Arweiniad yr Ysbryd.

M. C.

- 1 **O** ! TYRED, Ysbryd sanctaidd pur,
Nertha 'mlinedig draed ;
A rho i mi olwg olau glir
Ar hyfryd dir fy ngwlad.
- 2 Gad imi ado'r anial maith,
Gwlad galar, a gwlad gwae ;
A myned rhagof tua'r tir
Sy â'i bleser yn parhau.
- 3 'R wyf fel y gwyliwr ar y mur,
Yn disgwyl, bob yr awr,
Am weld yn gwawrio Jiwbil fwyn
Fy muddugoliaeth fawr ;

- 4 Pleserau'r ddaear wedi ffoi,
 Pob chwantau i gyd yn un,
 Heb un difyrrwch is y rhod
 Ond Iesu mawr ei Hun.

w.

245

Tyrd, Ysbryd Glân.

M. S.

- 1 TYRD, Ysbryd Glân, i'n clonau ni,
 A dod d'oleuni nefol ;
 Tydi wyt Ysbryd Crist ; dy ddawn
 Sy fawr iawn a rhagorol.
- 2 Llawenydd, bywyd, cariad pur,
 Ydyw dy eglur ddoniau ;
 Dod eli i'n llygaid, fel i'th saint,
 Ac ennaint i'n hŵynebau.
- 3 Gwasgara Di'n gelynyon trwch,
 A heddwch dyro inni ;
 Os Twysog inni fydd Duw Nêr,
 Pob peth fydd er daioni.
- 4 Dysg in adnabod y Duw Dad,
 Y gwir Fab Rhad a Thithau,
 Yn un tragwyddol Dduw i fod,
 Yn hynod Dri Pheronau ;
- 5 Fel y molianner, ym mhob oes,
 Y Duw a roes drugaredd,
 Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân ;
 Da datgan ei anrhydedd.

O'r Lladin, LL.G.G.

246

Tyrd, Ysbryd Glân.

M. S.

- 1 TYRD, Ysbryd Glân, tragwyddol Dduw,
 Yr unrhyw â'r Tad nefol,
 Yr unrhyw hefyd â'r Mab Rhad ;
 Duw cariad tangnefeddol.

- 2 Llewyrcha i'n clonnau ni â'th ras,
Fel y bo gas in bechu,
Ac inni, mewn sancteiddrwydd rhydd,
Bob dydd dy wasanaethu.
- 3 Tydi addewaist ddysgu, Iôn,
Dy weision i lefaru,
Fel ym mhob man y caffo'n rhwydd
Yr Arglwydd ei foliannu.
- 4 O ! Ysbryd Glân, i'n clonnau ni,
Y gwir oleuni danfon ;
A hefyd sêl, tra fôm ni byw,
I garu Duw yn ffyddlon.
- 5 Dod fesur mawr o'th ras yn rhwydd,
O ! Arglwydd Dduw Goruchaf :
Diddanwch inni felly bydd
Yn y brawd-ddydd diweddaf.
- O'r Lladin, LL.G.G.*

247

Deffro, Fraich yr Arglwydd.

M. S.

- 1 O ! DEFFRO, deffro, gwisg dy nerth,
O ! brydferth fraich yr Arglwydd ;
Fel yn y dyddiau gynt a fu,
Amlyga d'alluogrwydd.
- 2 I ennyn ynom nefol dân,
Duw, anfon dy Lân Ysbryd ;
Aed gyda'th eiriau sanctaidd Di
Nerth, a goleuni hefyd.
- 3 O ! Arglwydd, dyro inni'n glau
Y tywalltiadau nerthol
O weithrediadau'r Ysbryd Glân,
A'u grym fel tân angerddol.

248

Disgwyl wrth Dduw.

M. S.

- 1 O! ARGLWYDD Dduw, 'r Hwn biau'r gwaith,
Arddel dy faith wirionedd,
Fel byddo i bechod o bob rhyw
Gael marwol friw o'r diwedd. *Cas. M.D.*
- 2 Dy weinidogion gwisg â nerth,
Yn brydferth o'r uchelder ;
A doed dy Ysbryd Sanctaidd Di
I argyhoeddi llawer. *J.H.*

249

Gweddi am Lanhad.

M. S.

- 1 O! GOLCH fi beunydd, golch fi'n lân,
Golch fi yn gyfan, Arglwydd ;
Ddwylaw a chalon, ben a thraed,
Golch fi â'th waed yn ebrwydd.
- 2 Bedyddia fi â'r Ysbryd Glân,
Fel tân pwërus nerthol ;
Caiff ysbryd barn a llosgfa fod
Ar bechod yn wastadol.
- 3 Gwasgara weddill pechod cas,
Selia fi â'th ras yn drigfan,
Yn berffaith hardd, yn demel wiw,
Adeilad Duw ei Hunan. *W.*

250

Gweddi am Oleuni'r Ysbryd.

M. H.

- 1 TYRD, Ysbryd Sanctaidd, rho dy wawr,
Datguddia ddyfnion bethau Duw ;
Eglura inni'r enw mawr,
A gwna'n heneidiau meirw'n fyw.
- 2 Gad inni weld, yn d'olau Di,
Fod Iesu'n Arglwydd ac yn Dduw ;
A than d'eneiniad rho i ni
Ei 'nabod Ef yn Geidwad gwiw.

- 3 O'i weled yn d'oleuni clir
 Cawn brofi rhin ei farwol loes,
 A thystio â llawenydd gwir
 Mai'n rhan yw'r Hwn fu ar y groes.
- 4 Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, tyrd yn awr,
 A gweithia ynom nerthol ffydd ;
 Ac yn dy hyfryd nefol wawr
 Ein tywyll nos â'n olau ddydd.

C. WESLEY, C.

251

O ! Anadl, tyred.

M. H.

- 1 **B**YWYD y meirw, tyrd i'n plith,
 A thrwy dy Ysbryd arnom chwÿth ;
 Anadla'n rymus ar y glyn,
 Fel y bo byw yr esgyrn hyn.
- 2 Dy Ysbryd sanctaidd, oddi fry,
 Ddisgynno'n helaeth arnom ni ;
 Gwnaed ein calonnau ni bob un
 Yn demlau sanctaidd iddo'i Hun.

J.H.

252

Gweddi am Sancteiddiad.

65. 65. 66. 65.

- 1 **O** ! TYRED i'n iacháu,
 Garedig Ysbryd ;
 Tydi sy'n esmwytháu
 Blinderau bywyd :
 Er dyfned yw y loes,
 Er trymed yw y groes,
 Dwg ni bob dydd o'n hoes
 Yn nes i'r gwynfyd.
- 2 O ! tyred i fywhau
 Y rhai drylliedig ;
 Tydi sy'n cadarnhau
 Y gorsen ysig :

Pan fyddo'r storom gref
 Yn llanw'r byd a'r nef,
 Dy air a'th hyfryd lef
 Wna'r gwynt yn ddiddig.

- 3 O! tyred i'n glanhau
 O bob anwiredd,
 Rhag cael y drws ynghau,
 Pan ddêl y diwedd :
 O! gwasgar ofnau'r bedd,
 A dwg ni ar dy wedd
 I breswylfeydd dy hedd,
 Uwchlaw pob llygredd.

H.E.L.

253

Calon bur yn Deml i'r Ysbryd.

66. 66. 88.

- 1 NI thrig awelon nef
 Mewn dyfnder pydew cas ;
 Ni thrig cysuron neb
 Mewn ysbryd heb dy ras :
 Pur yw dy swydd, pur fydd dy le,
 Fy Nuw, o fewn i'r ddaer a'r ne'.
- 2 O! Arglwydd, tyrd i lawr,
 Gwna drigfan it dy Hun,
 Gwna deml sancteiddiol fawr
 O galon aflan dyn ;
 A thrig yn hon, fel Seion gynt,
 Er pob rhyw dywyll stormus wynt.
- 3 Tra fyddwyf yn y byd,
 Rho 'ngolwg ar y wlad,
 Yr etifeddiaeth fry,
 Pleserau tŷ fy Nhad,
 A'r gwleddoedd maith sydd yn parhau,
 Lle nid oes gofid, poen na gwae.

W.

254

Erfyniadau am yr Ysbryd.

76. 76. D.

- 1 O ! YSBRYD sancteiddiolaf,
 Anadla arna' i lawr
 O'r cariad anchwiliadwy
 Sy 'nghalon Iesu mawr ;
 Trwy haeddiant Oen Calfaria,
 Ac yn ei glwyfau rhad,
 'R wy'n disgwyl pob rhyw ronyn
 O burdeb gan fy Nhad.

W.—G.D.C.

- 2 Tyrd, Ysbryd Glân sancteiddiol,
 Anadla'r nefol ddawn :
 Gwna heddiw gynnwrf grasol
 Mewn esgryn sychion iawn :
 Dy nerthoedd rho i gydfyned
 Â geiriau pur y nef ;
 Dy air yn nerthol rheded,
 Mewn goruchafiaeth gref.

T.J.

255

Awelon Mynydd Seion.

76. 76. D.

- 1 O ! ARGLWYDD, dyro awel,
 A honno'n awel gref,
 I godi f'ysbryd egwan
 O'r ddaear hyd y nef :
 Yr awel sy'n gwasgaru
 Y tew gymylau mawr ;
 Mae f'enaïd am ei theimlo :
 O'r nefoedd doed i lawr.

- 2 Awelon mynydd Seion
 Sy'n ennyn nefol dân,
 Awelon mynydd Seion
 A nertha 'nghanre 'mlaen ;
 Dan awel mynydd Seion
 Mi genais beth cyn hyn ;
 Mi ganaf ronyn eto
 Nes cyrraedd Seion fryn.

D.W.

256

Doniau'r Ysbryd.

76. 76. D.

- 1 **O** ! DDUW, rho im dy Ysbryd,
 Dy Ysbryd ddaw â gwres ;
 Dy Ysbryd ddaw â'm henaid
 I'r nefoedd wen yn nes ;
 Dy Ysbryd sy'n goleuo,
 Dy Ysbryd sy'n bywhau,
 Dy Ysbryd sydd yn puro,
 Sancteiddio a dyfrhau.
- 2 Dy Ysbryd sy'n datguddio
 Yr heirdd drysorau drud,
 Nas cenfydd llygad natur—
 Cuddiedig iawn i'r byd ;
 Dy Ysbryd sydd yn ennyn
 Cynhesol nefol dân ;
 Dy Ysbryd pur yn unig
 Sydd yn melysu 'nghân.

D.W.

257

Ysbryd pob Gras.

77. 77. 77.

- 1 **Y** SBRYD graslon, rho i mi
 Fod yn raslon fel Tydi :
 Dysg im siarad yn dy iaith,
 Boed dy ddelw ar fy ngwaith :
 Gwna i holl addfwynder f'oes
 Ddweud wrth eraill werth y groes.
- 2 Ysbryd geirwir, rho i mi
 Fod yn eirwir fel Tydi :
 Trwy'r doethineb oddi fry
 Gwna fi'n dirion ac yn gry' ;
 Gwna fi'n frawd i'r gwan a'r trist,
 Er mwyn dangos Iesu Grist.
- 3 Ysbryd grymus, rho i mi
 Fod yn rymus fel Tydi :

Dysg im goncro lle mae dyn
 Yn rhy egwan wrtho'i hun ;
 Yn dy obaith dwg fi 'mlaen
 Trwy beryglon llif a tân.

- 4 Ysbryd sanctaidd, rho i mi
 Fod yn sanctaidd fel Tydi :
 Ynof pob rhyw ras cryfha,
 Dysg im fyw i bethau da ;
 Ac i'r Duw a'th roddodd Di,
 Ysbryd perffaith, canaf fi.

LYNCH, C. H.E.L.

258

Y Diddanydd Arall.

86. 84.

- 1 **D**DIDDANYDD anfonedig nef,
 Fendigaidd Ysbryd Glân !
 Hiraethwn am yr awel gref,
 A'r tafod tân.

- 2 Erglyw ein herfyniadau prudd
 Am brofi o'th rad yn llawn ;
 Gwêl a oes ynom bechod cudd
 Ar ffordd dy ddawn.

- 3 Cyfranna i'n heneidiau trist
 Orfoledd meibion Duw ;
 A dangos inni olud Crist
 Yn fodd i fyw.

- 4 Am wanwyn Duw dros anial gwyw
 Dynolryw deffro'n llef ;
 A dwg yn fuan iawn i'n clyw
 Y sŵn o'r nef.

- 5 Rho'r hyder anorchfygol gynt
 Ddilynai'r tafod tân ;
 Chwŷth dros y byd fel nerthol wynt,
 O ! Ysbryd Glân.

J.J.E.

259

Gweddi am Sancteiddrwydd.

87. 87. 47.

1 O ! SANCTEIDDIA f'enaïd, Arglwydd,
 Ym mhob nwyd, ac ym mhob dawn ;
 Rho egwýddor bur y nefoedd
 Yn fy ysbryd llesg yn llawn ;
 N'ad im grwydro,
 Draw nac yma fyth o'm lle.

2 Ti dy Hunan all fy nghadw,
 Rhag im wÿro ar y dde,
 Rhedeg eilwaith ar yr aswy,
 Methu cadw llwybrau'r ne' :
 O ! tosturia :
 Mewn anialwch 'r wyf yn byw.

3 Planna'r egwyddorion hynny
 Yn fy enaid bob yr un,
 Ag sydd megis peraroglau
 Yn dy natur Di dy Hun :
 Blodau hyfryd
 Fo'n disgleirio daer a nef.

4 Fel na chaffo'r pechod atgas,
 Mwg a tharth y pydew mawr,
 Fyth fy nallu ar y llwybyr,
 Chwaith na'm taflu fyth i lawr :
 Gwna i mi gerdded
 Union ffordd wrth olau dydd.

w.

260

Gwaith yr Ysbryd Glân ar y Galon.

87. 87. 47.

1 NERTHOEDD y tragwyddol Ysbryd,
 Yn haeddiannau'r dwyfol Iawn,
 A wna'r fynwes ddiffaith galed
 I ffrwythloni'n hyfryd Iawn
 O rasmusau,
 Pêr blanhigion nefol wlad.

- 2 Creigiau tanllyd Salem waedlyd,
 A fu'n bloeddio ag un llef,
 Am Dywysog mawr y bywyd,
 "Ymaith! O! croeshoelie'r Ef!"
 Gwnaeth i'r rheini
 Wylo edifeirwch pur.
- 3 Os disgynni, addfwyn Ysbryd,
 I ryw fynwes ddu fel hyn,
 A'i haddurno â phur ddelw'r
 Hwn fu farw ar y bryn,
 Mawl a seinia
 Trwy'r holl nefoedd fawr am hyn. D.C.

261

Arweiniad yr Ysbryd.

87. 87. 47.

- 1 **M**AE dy Ysbryd Di yn fywyd,
 Mae dy Ysbryd Di yn dân;
 Ef sy'n dwyn yr holl fforddoliau
 Cywir, sanctaidd, pur, ymlaen;
 Cyfarwyddwr
 Pererinion, arwain fi. W.

262

Ysbryd y Gwirionedd.

87. 87. 47.

- 1 **Y**SBRYD y Gwirionedd, tyred
 Yn dy nerthol ddwyfol ddawn;
 Mwyda'r ddaear sech a chaled,
 A bywha yr egin grawn:
 Rho i Seion
 Eto wanwyn siriol iawn.
- 2 Agor gyndyn ddorau'r galon,
 A chwâl nythle pechod cas;
 Bwrw bob rhyw ysbryd aflan
 Sy'n llochesu ynddi i maes:
 Gwna hi'n gartref
 I feddyliau prydfferth gras.

- 3 Tywys Seion i'r gwirionedd,
 At oludoedd meddwl Duw ;
 Dyro'r manna, gad in yfed
 O ffynhonnau'r dyfroedd byw :
 Dawn yr Ysbryd—
 Bywyd a thangnefedd yw.

J.HS.

263

Y Sulgwyn.

87. 87. 47.

- 1 **B**ETH yw'r cwmwl gwyn sy'n esgyn
 O'r Olewydd tua'r nef ?
 Cerbyd Brenin y Gogoniant,
 Sydd yn ymdaith tua thref ;
 Ymddyrchefwch,
 Sanctaidd byrth y Ddinas Wen.
- 2 Beth yw'r disgwyl sy 'Nghaersalem ?
 Beth yw'r nerthol sŵn o'r nef ?
 Atsain croeso'r saith ugeinmil
 I'w Ddyrchafael rhyfedd Ef.
 Diolch iddo,
 Y mae'r Pentecost gerllaw.
- 3 At y lliaws yng Nghaersalem,
 Daeth addewid fawr y Tad,
 Syrth y miloedd yno i foli
 Duw am iechydwrriaeth rad ;
 Sanctaidd Ysbryd,
 Aros mwyach gyda ni.

J.T.J.

264

O! Anadl, tyred.

87. 87. 47.

- 1 **D**ROS fynyddoedd y perlysiau
 Deued awel nefol haf ;
 Ar ei hadain coder f'ysbryd
 Fry i bresenoldeb Naf :
 O! anadla,
 Nefol awel, arnaf fi.

- 2 Arglwydd, dyro nerth i ddisgwyl :
 Edrych i'r mynyddoedd pell
 Y bo llygaid tawel gobaith
 Am arwyddion amser gwell ;
 Ysbryd Sanctaidd,
 O ! anadla dros y byd.

T.J.P.

265

Gair o Enau Duw.

87. 87. 67.

- 1 **G**OLWIG, Arglwydd, ar dy wŷneb
 Sydd yn codi'r marw o'r bedd ;
 Mae agoriad nef ac uffern
 Yna i'w deimlo ar dy wedd ;
 Gair dy ras, pur ei flas,
 'N awr a ddetgly 'nghalon gas.
- 2 Arglwydd, danfon dy leferydd,
 Heddiw, yn ei rwysg a'i rym ;
 Dangos fod dy lais yn gryfach
 Nag all dyn wrthsefyll ddim ;
 Cerdd ymlaen, nefol dân,
 Cymer yma feddiant glân.

W.

266

Deisyf Presenoldeb Duw.

87. 87. 67.

- 1 **D**YRO inni weld o'r newydd
 Mai Ti, Arglwydd, yw ein rhan ;
 Aed dy bresenoldeb hyfryd
 Gyda'th weision i bob man :
 Tyrd i lawr, Arglwydd mawr,
 Rho dy fendith yma'n awr.
- 2 Ymddisgleiria yn y canol,
 Gwêl dy bobol yma 'nghyd,
 Yn hiraethu, addfwyn Iesu,
 Am gael gweld dy wŷneb-pryd :

Golau cry' oddi fry
Chwalo bob rhyw gwmwl du.

- 3 Deued yr awelon hyfryd,
Effaith Ysbryd gras, i lawr ;
Llifed atom afon bywyd,
Sydd yn tarddu o'r orsedd fawr :
Arglwydd da, trugarha,
Y sychedig rai dyfrha.

J.T.

267

Gweddi am y Dystiolaeth.

87. 87. D.

- 1 **A**RGLWYDD grasol, dyro d'Ysbryd,
Dysg im lefain, "Abba, Dad,"
Rho dystiolaeth o'm mabwysiad,
Gad im brofi o'th gariad rhad ;
Dyro wir fodlonrwydd imi
Fod fy enaid yn dy hedd,
Llanw f'ysbryd â thangnefedd
Cyn im fynd i lawr i'r bedd.

- 2 Rho dy hoff gymdeithas imi
Tra fwyf yn yr anial fyd,
Tywys f'enaid tua'r bywyd,
A bydd imi'n noddfa glyd ;
Gad im wledda gyda'th deulu,
Gwledda ar dy gariad rhad ;
Yn y diwedd dwg fi'n dawel
Draw i ddedwydd dŷ fy Nhad.

I.J.

268

Gweddi am yr Ysbryd.

87. 87. D.

- 1 **T**YRED, Ysbryd Glân tragwyddol,
Dwg i'n cof yr angau drud—
Holl haeddiannau'r Iawn anfeidrol
A roes Iesu dros y byd ;

Ti a wŷddost bwys ei boenau,
 Rho i ninnau fywiol ffydd :
 Golwg ar ei ddioddefiadau
 A wna'n rhwymau oll yn rhydd.

C. WESLEY, c.

269

"O! na rwygit y Nefoedd, a disgyn!"

87. 87. D.

1 **D**ISGYN, Iôr, a rhwyga'r nefoedd,
 Tywallt Ysbryd gras i lawr ;
 Disgyn fel y toddo'r brynïau,
 Diosg fraich dy allu mawr ;
 Rhwyga'r llenni, ymddisgleiria
 Ar dy drugareddfa lân ;
 Rho dy lais a'th wenau tirion,
 Achub bentewynion tân.

2 Ti achubaist y rhai gwaethaf,
 Annheilyngaf a fu'n bod ;
 Achub eto, achub yma,
 Achub finnau er dy glod.
 Ti gei'r mawl pan danio'r ddaear,
 A phan syrthio sêr y nen :
 Ti gei'r enw yn dragwyddol,
 Ti gei'r goron ar dy ben.

W.GS.

270

Gweddi am yr Ysbryd.

87. 87. D.

1 **Y**SBRYD byw y deffroadau,
 Disgyn yn dy nerth i lawr,
 Rhwyga'r awyr â'th daranau,
 Crea'r cyffroadau mawr,
 Chwŷth drachefn y gwyntoedd cryfion
 Ddefry'r meirw yn y glyn,
 Dyro anadliadau bywyd
 Yn y lladdedigion hyn.

- 2 Ysbryd yr eneiniad dwyfol,
 Dyro'r tywalltiadau glân,
 Moes y fflam oddi ar yr allor,
 Ennyn ynom sanctaidd dân ;
 Difa lygredd ein calonnau,
 Tyn ein chwantau dan ein traed,
 Dyro inni wisg ddisgleirwen
 Wedi'i channu yn y gwaed.

R.R.M.

271

Gweddi am argyhoeddi.

87. 87. D.

- 1 'R HWN sy'n gyrru'r mellt i hedeg,
 Ac yn rhodio brig y don,
 Anfon saethau argoeddiadau
 I galonnau'r oedfa hon ;
 Agor ddorau hen garcharau,
 Achub bentewynion tân ;
 Cod yr eiddil gwan i fyny,
 Dysg i'r mudan seinio cân.

D.S.

272

Ysbryd yr Addewid.

87. 87. D.

- 1 TYRED, Ysbryd yr addewid,
 O'r uchelder pur i lawr,
 Yn dy ddoniau cadwedigol,
 Er aileni tyrfa fawr ;
 Rhwyga'r nef yn awr a disgyn
 Ar bob oedran heb wahân ;
 Llanw'r byd a'r Eglwys hefyd
 Ag effeithiau'r dwyfol dân.
- 2 Gweithia'n rymus ar eneidiau,
 Galw filoedd fyrdd i'th dŷ ;
 Gwawried bellach ar y ddaear
 Hyfryd ddyddiau Jiwbili ;
 Chwŷthed y deheuwynt nefol
 Nes adfywio pawb i gyd,
 Nes bod rhinwedd a sancteiddrwydd
 Yn teyrnasu dros y byd.

D.S.E.

273

Y Sanctaidd Dywalltiad.

98. 98. D.

- 1 **D**ISGYNNED y sanctaidd dywalltiad,
 A grymus eneiadiad y nef,
 A deled eneidiau esgeulus
 Yn awr yn drallodus eu llef :
 Boed nerthoedd yr Ysbryd yn gweithio,
 A'i alwad yn deffro pob dyn :
 Amlyger trwy'r byd dy ogoniant,
 Er moliant i'th haeddiant dy Hun.

E.J.

YR YSGRYTHYRAU.

274

Nerth trwy'r Gair.

M. C.

- 1 **G**OLEUNI ac anfeidrol rym
 Yw hyfryd eiriau'r nen ;
 Pob sillaf a ddywedodd Ef
 Sydd siŵr o ddod i ben.
- 2 Fe archodd imi dorri'r fraich,
 A thynnu'r llygad de ;
 Caf innau allu, mewn iawn bryd,
 I wneud a archodd E'.
- 3 Mi ymddiriedaf yn ei air,
 Er cymaint yw fy mai ;
 Ac fe derfynwyd dydd ac awr
 Pan gaffwy' 'ngwir ryddhau.
- 4 Mi orfoleddaf draw o bell,
 Wrth feddwl am y dydd
 Pan ddél addewid fawr ei grym
 Â'm henaid gwan yn rhydd.

W.

275 SALM CXIX. 97, 102-3, 105-6, 135-6, 169-170.

M. S.

1 MOR gu, O ! Arglwydd, gennyf fi,
 Dy ddeddf Di, a'th gyfamod ;
 Ac ar y rhain, o ddydd i ddydd,
 Y bydd fy holl fyfyrdod.

2 Ni chiliais rhag dy farnau Di,
 Cans Ti a'm dysgaist ynddynt ;
 Mor beraidd gennyf d'eiriau iach—
 Na'r mêl melysach ydynt.

3 Dy air i'm traed i llusern yw,
 A llewych gwiw i'm llwybrau ;
 Mi dyngais, a chyflawni a wnafl,
 Y cadwaf dy lân ddeddfau.

4 Llewycha d'wneb ar dy was,
 Dysg imi flas dy ddeddfau ;
 Dagrau o'm golwg llifo a wnânt,
 Na chadwant dy gyfreithiau.

5 O'th flaen Di, Arglwydd, doed fy nghri,
 Dysg imi ddeall d'eiriau ;
 Gwared fi'n ôl d'ymadrodd rhad,
 Dêl atad fy ngweddïau.

E. P.

276 *Gair Duw yn Lloches a Tharian.*

M. S.

1 FY lloches glyd, a'm tarian gref,
 Yw'r Arglwydd nef a'i gysgod ;
 Gobeithiaf yn ei air er neb,
 Yn wneb pob rhyw drallod.

2 Dy air sy'n dwyn rhyw newydd da
 A lawenha y galon,
 Fod nerth tragwyddol oddi fry
 I sathru y gelynion ;

- 3 Fod Brawd a Chyfaill wedi'i gael,
I'r tlawd a'r gwael, na chilia ;
Yn nyfnder profedigaeth gre'
Efe a gydymdeimla ;
- 4 Fod modd i'r euog gael rhyddhad,
Fod gwir iachâd i'r clwyfus ;
Trwy nerth ei air, fe rodia'n llon
Y cloffion a'r anafus.
- 5 Gobeithia f'enaïd yn ei air,
Efe a bair orfoledd ;
Pob loes a galar, tristwch, try
Yn ganu yn y diwedd.

R.J.

277

Cysuron y Gair.

M. S.

- 1 **D**Y nerthol air, Iôn, oddi fry,
A bery yn oes oesoedd ;
Tydi sydd wedi cadarnhau
Dy eiriau yn y nefoedd.
- 2 Mor werthfawr yw dy air a'i rin
Mewn cystudd blin a chroesau ;
Fe droir wylofain trist yn gân
Ar lwybyr glân dy ddeddfau.
- 3 Gobeithiaf yn y gair o hyd
Yng nghanol byd o ddychryn ;
Mae'n gysgod rhag y gwynt a'r gwres,
Mae'n lloches rhag y gelyn.

R.J.

278

Goleuni a Hyfrydwch y Gair.

M. S.

- 1 **M**AE yn y gair oleuni glân—
O ! f'enaïd, cân amdano—
I'r euog yn yr anial fyd,
I weld lle clyd i 'mguddio.

2 Dysg imi gerdded mwy bob cam,
 Gan feddwl am d'orchmynion ;
 Boed ynddynt hwy fy serch a'm blys,
 O wir ewyllys calon.

3 Tangnefedd Duw, fel afon gref,
 O orsedd nef yn llifo,
 A fydd i'r sawl a garo'r gwir,
 Gan rodio'n gywir ynddo.

R.J.

279

Geiriau'r Iesu.

65. 65. D.

1 **H**YFRYD eiriau'r Iesu,
 Bywyd ynddynt sydd ;
 Digon byth i'n harwain
 I dragwyddol ddydd.
 Maent o hyd yn newydd,
 Maent yn llawn o'r nef ;
 Sicrach na'r mynyddoedd
 Yw ei eiriau Ef.

2 Newid mae gwybodaeth
 A dysgeidiaeth dyn ;
 Aros mae efengyl
 Iesu byth yr un ;
 Athro ac Arweinydd
 Yw Efe 'mhob oes ;
 A thra pery'r ddaear
 Pery golau'r groes.

3 Wrth in wrando'r Iesu,
 Haws adnabod Duw ;
 Ac wrth gredu ynddo
 Mae'n felysach byw.
 Mae ei wenau tirion
 Yn goleuo'r bedd ;
 Ac yn ei wirionedd
 Mae tragwyddol hedd.

H.E.L.

280

Chwilio'r Gair.

76. 76. D.

- 1 **O** ! ARGLWYDD, dysg im chwilio
 I wirioneddau'r gair,
 Nes dod o hyd i'r Ceidwad
 Fu gynt ar liniau Mair ;
 Mae Ef yn Dduw galluog,
 Mae'n gadarn i iacháu ;
 Er cymaint yw fy llygredd,
 Mae'n ffynnon i'm glanhau.

G. 2.

281

Myfyrdod yn y Gair.

76. 76. D.

- 1 **O** ! ARGLWYDD da, argraffa
 Dy wirioneddau gwiw
 Yn rymus ar fy meddwl,
 I aros tra fwyf byw :
 Mwy parchus boed dy ddeddfau,
 Mwy annwyl nag erioed—
 Yn gysur bônt i'm calon,
 Yn llusern wiw i'm troed.

- 2 Myfyrdod am Gyfryngwr,
 A phethau dwyfol drud,
 Fo'n llanw 'nghalon wamal
 Yn felys iawn o hyd ;
 A bydded praw maddeuant—
 Yr heddwch sydd trwy'r Iawn—
 Yn trigo yn fy mynwes
 O fore hyd brynhawn.

D.CS.

282

Agor inni'r Ysgrythyrau.

87. 87.

- 1 **Y**SBRYD Sanctaidd, dyro'r golau
 Ar dy eiriau Di dy Hun ;
 Agor inni'r Ysgrythyrau,
 Dangos inni Geidwad dyn.

2 O ! sancteiddia'n myfyrdodau
Yn dy wirioneddau byw ;
Crea ynom ddymuniadau
Am drysorau meddwl Duw.

3 Gweld yr Iesu, dyna ddigon
Ar y ffordd i enaid tlawd ;
Dyma gyfaill bery'n ffyddlon,
Ac a lŷn yn well na brawd.

E.R.

283

Arweiniad trwy'r Gair.

87. 87. 67.

1 **M**AE dy air yn abl i'm harwain
Trwy'r anialwch mawr ymlaen ;
Mae e'n golofn olau eglur,
Weithiau o niwl, ac weithiau o dân ;
Mae'n ddi-ble ynddo fe
Fwy na'r ddaear, fwy na'r ne'.

2 'R wyf yn meddwl am yr oriau
Caffwyf funud o'th fwynhau ;
Ac mae atsain pell dy eiriau'n
Peri imi lawenhau :
O ! 'r fath wledd, draw i'r bedd,
Fydd cael edrych ar dy wedd.

3 O ! gad imi'n fuan, Arglwydd,
Glywed geiriau distaw'r ne',
Rhag im redeg, heb im wybod,
Ar ryw law i maes o'm lle ;
Yn dy law, heb ddim braw,
Cerdda'i'n union yma a thraw.

W.

284

Y Beibl.

87. 87. D.

1 **D**YMA Feibil annwyl Iesu,
Dyma rodd deheulaw Duw ;
Dengys hwn y ffordd i farw,
Dengys hwn y ffordd i fyw ;

Dengys hwn y gollod erchyll
 Gafwyd draw yn Eden drist ;
 Dengys hwn y ffordd i'r bywyd,
 Trwy adnabod Iesu Grist.

Cas. T.O.

DARPARIAETH A GALWAD YR EFENGYL.

285

Iechydwrriaeth Rad.

M. B.

- 1 **M**AE'R iechydwrriaeth rad
 Yn ddigon i bob rhai ;
 Agorwyd ffynnon er glanhad
 Pob pechod cas a bai.
- 2 Daw tyrfa rif y gwllith
 Yn iach trwy rin y gwaed :
 Pwy wŷyr na byddaf yn eu plith,
 Yn lân o'm pen i'm traed ?
- 3 Er lleted yw fy mhla,
 Er dyfnded yw fy mriw,
 Y balm o Gilead a'm hiachâ—
 Mae Crist yn Feddyg gwiw.
- 4 Dan bwys euogrwydd du,
 Edrychaf tua'r groes,
 Lle llifodd gwaed fy Mhriod cu :
 Anfeidrol Iawn a roes.

P.J.

286

Iechydwrriaeth o Ras.

M. B.

- 1 **G**RAS, O ! 'r fath beraidd sain !
 I'm clust hyfrydlais yw :
 Gwna hwn i'r neŷ berseinio byth,
 A'r ddaear oll a glyw.

- 2 Gras rhad a drefnodd ffordd
I wared euog fyd ;
A gras a welir ym mhob rhan
O'r ddyfais hon i gyd.
- 3 Gras ddaeth â'm traed yn ôl
I lwybrau'r nefoedd lân ;
Rhydd gymorth newydd im bob awr
I fyned yn y blaen.
- 4 Gras a gorona'r gwaith
Draw mewn anfarwol fyd ;
A chaiff y clod a'r moliant byth
Gan luoedd nef ynghyd.

DODDRIDGE, C. J.H.A. *ar.*

287

Llais yr Efengyl.

M. B.

- 1 MAE llais efengyl fwyn
Yn galw arnaf fi,
I lechu rhag y storom fawr
Yng nghysgod Calfari.
- 2 'R wy'n haeddu gwg y nef,
Ond hedd gyhoedda hi :
Bu'r Iesu farw dros fy mai
Ar groesbren Calfari.
- 3 'R wy'n dod yn sŵn y llais—
Hyfrytaf lais y nef,
I fynydd Duw, at wleddoedd rhad
Ei ras a'i gariad Ef.

J.C.D.

288

Iesu'n Gwahodd.

M. B.

- 1 MI glywaf dyner lais
Yn galw arnaf fi,
I ddod a golchi 'meiau i gyd
Yn afon Calfari.

- 2 Yr Iesu sy'n fy ngwadd
I dderbyn gyda'i saint
Ffydd, gobaith, cariad pur, a hedd,
A phob rhyw nefol fraint.
- 3 Yr Iesu sy'n cryfhau
O'm mewn ei waith trwy ras ;
Mae'n rhoddi nerth i'm henaid gwan
I faeddu 'mhechod cas.
- 4 Gogoniant byth am drefn
Y cymod a'r glanhad ;
Derbyniaf Iesu fel yr wyf,
A chanaf am y gwaed.

L. HARTSOUGH, C. J.RO

289 *Iechydwriaeth a'i Chyflawnder.*

M. C.

- 1 MAE'R iechydwriaeth rad mor fawr,
Mae'n achub, mae'n glanhau
Troseddwyr duaf daear lawr ;
Gwnawn ynddi lawenhau.
- 2 Cael derbyn o'i chyflawnder cun
A wna y trist yn llon ;
Gogoniant Duw, dedwyddwch dyn,
Sydd yn gytûn yn hon.
- 3 Mae Iesu Grist yn drysor mwy
Na holl drysorau'r byd :
Daeth hedd a bywyd inni trwy
Ei ryfedd angau drud.

J.H.

290 *Cyflawnder Gras.*

M. C.

- 1 A WN, bechaduriaid, at y dŵr
A darddodd ar y bryn ;
Ac ni gawn yfed fyth heb drai
O'r afon loyw hyn.

- 2 Mae yma drugareddau rhad,
I'r tlawd a'r llariaidd rai,
A rhyw fendithion maith yn stôr
Sy fythol yn parhau.
- 3 Ni flinwn ganu tra fôm byw
Yr oruchafiaeth hyn
Enillodd Iesu un prynhawn
Ar ben Calfaria fryn.
- 4 Fe welir myrdd, 'mhen gronyn bach,
O'r dwyrain ac o'r de,
Yn cydatseinio'n hyfryd am
Ei ryfedd gariad E'. W.

291

“O! dewch i'r dyfroedd.”

M. S.

- 1 **O**! DEWCH i'r dyfroedd, dyma'r dydd,
Yr Arglwydd sydd yn galw;
Tragwyddol ras yr Arglwydd Iôr
Sydd fel y môr yn llanw.
- 2 Heb werth nac arian, dewch yn awr,
Mae golud mawr trugaredd
Â'i wŷneb ar yr euog rai—
Maddeuant a'i ymgeledd.
- 3 O! dewch a phrynwch win a llaeth,
Wel dyma luniaeth nefol;
Prynwch heb arian a heb werth,
Mae ynddynt nerth tragwyddol.
- 4 Mae'r wledd yn barod, O! bwytewch,
A llawenhewch yn Seion;
Tragwyddol hedd i blant y llwch;
O! profwch ei bendithion. R.J. ar.

292

"Yr Amser Cymeradwy."

M. H.

- 1 **H**WN ydyw'r dydd o ras ein Duw,
Yr amser cymeradwy yw ;
Brysiwn i roi'n calonnau i gyd
I'r Hwn fu farw dros y byd.
- 2 Gwelwch yr aberth mawr a gaed,
Mae gobaith ichwi yn ei waed ;
O ! dowch i mewn heb oedi'n hwy,
I wledda ar haeddiant marwol glwy'.
- 3 Dowch, bechaduriaid, dowch i'r wledd,
Mae'r Iesu'n cynnig ichwi hedd :
Mae croeso i bawb i ddod at Dduw,
Mae'r alwad i holl ddynol-ryw.

C. WESLEY, C. J.HU.

293

O ! ryfedd Ras.

64. 64. 66. 64.

- 1 **D**AETH ffrydiau melys iawn
Yn llawn fel lli
O ffrwyth yr arfaeth fawr
Yn awr i ni ;
Hen iechydwrriaeth glir
Aeth dros y crindir cras ;
Bendithion amod hedd—
O ! ryfedd ras !
- 2 Fe gymerth Iesu pur
Ein natur ni ;
Enillodd Ef i'w saint
Bob braint a bri :
Gadawai'r nef o'i fodd,
Cymerodd agwedd gwas ;
Ffrwyth y cyfamod hedd—
O ! ryfedd ras !

3 Fe gymerth Iesu blaid
 Trueiniaid trist ;
 Ysigodd ben y ddraig ;
 Ein craig yw Crist :
 Cawn ninnau fod yn bur
 Uwch cur a phechod cas,
 Yn berffaith ar ei wedd—
 O ! ryfedd ras !

4 Yn rawnwin, ar y groes,
 Fe droes y drain ;
 Caed balm o archoll ddofn
 Y bicell fain ;
 Dechreuwn fawl cyn hir,
 Na finir ar ei flas,
 Am Iesu'r aberth hedd—
 O ! ryfedd ras !

P.J.

294

Buddugoliaeth trwy Grist.

66. 46. 88. 76.

- 1 **M**AE utgorn Jiwbili
 Am haeddiant Calfari,
 Yn seinio'n llon
 Newyddion gorau i ni ;
 Gwir lawenha, fy enaid prudd,
 Enillodd Iesu mawr y dydd ;
 Daw carcharorion angau
 O'u rhwymau oll yn rhydd.
- 2 Mae tyrfa fawr heb ri',
 Fu ar ein daear ni,
 Dan lawer loes,
 A llid, a chroes, a chri,
 Yn awr mewn bywyd, hyfryd hoen,
 Gerbron gorseddfaine Duw a'r Oen,
 Heb deimlo mwy flinderau,
 Effeithiau llid a phoen.

G. 1.

295

Galwad yr Efengyl.

66. 66. 88.

1 **D**EWCH, hen ac ieuainc, dewch,
At Iesu, mae'n llawn bryd ;
Rhyfedd amynedd Duw
Ddisgwyliodd wrthym cyd :
Aeth yn brynhawn, mae yn hwyrhau ;
Mae drws trugaredd heb ei gau.

2 Dewch, hen wrthgilwyr trist,
At Iesu Grist yn ôl ;
Mae'i freichiau'n awr ar led,
Fe'ch derbyn yn ei gôl :
Mae Duw yn rhoddi eto'n hael
Drugaredd i droseddwy'r gwael.

M.R.

296

Bendithion Iechydwriaeth.

668. D.

- 1 **O** ! IECHYDWRIAETH fawr,
A lifodd im i lawr,
Yn ffrydiau pur grisialaidd byw ;
Maddeuant im a gaed,
A heddwch yn y gwaed,
O gariad rhad ein Tad a'n Duw.
- 2 'D oes unrhyw drysor drud
Fel Ef o fewn y byd ;
Mae'n gwneud fy ysbryd llesg yn llon :
Mwy'n llawen byddaf byw
Yn noddfa bur fy Nuw,
Dan holl gystuddiau'r ddaear hon.
- 3 Mi dreuliaf oriau f'oes
Yn dawel dan y groes,
Ond im gael edrych ar dy wedd :
Perffeithrwydd pleser yw
Y wledd o gariad Duw,
Fy holl ddiddanwch i a'm hedd.

N.W.

297

Trefn i faddau Pechod.

73. 73. 7773. 73.

- 1 CAED trefn i faddau pechod
 Yn yr Iawn :
 Mae iechydwriaeth barod
 Yn yr Iawn :
 Mae'r ddeddf o dan ei choron,
 Cyfiawnder yn dweud, Digon !
 A'r Tad yn gweiddi, Bodlon !
 Yn yr Iawn ;
 A Diolch byth, medd Seion,
 Am yr Iawn.

- 2 Yn awr hen deulu'r gollfarn,
 Llawenhawn ;
 Mae'n cymorth ar Un cadarn,
 Llawenhawn :
 Mae galwad heddiw ato,
 A bythol fywyd ynddo ;
 Ni chollir neb a gredo,
 Llawenhawn ;
 Gan lwyr ymroddi iddo,
 Llawenhawn.

W.WS.

298

Y Drws agored.

76. 76. D.

- 1 O'R nef mi glywais newydd—
 Fe'm cododd ar fy nhraed—
 Fod ffynnon wedi'i hagor
 I'r cleifion gael iachâd :
 Fy enaid, rhed yn ebrwydd,
 A phaid â llwfwrhau ;
 O'th flaen mae drws agored
 Na ddichon neb ei gau.

D.W.

299

Galwad yr Efengyl.

76. 76. D.

- 1 **O** ! ARGLWYDD, galw eto
 Fyrddiynau ar dy ôl,
 A dryllia'r holl gadwynau
 Sy'n dal eneidiau'n ôl ;
 A galw hwynt o'r dwyrain,
 Gorllewin, gogledd, de,
 I'th eglwys yn ddiatal—
 Mae digon eto o le.

D.J.

300

Cyflawnder yr Iechydwrriaeth.

77. 77. 77.

- 1 **H**YFRYD lais efengyl hedd
 Sydd yn galw pawb i'r wledd ;
 Mae gwahoddiad llawn at Grist,
 Oes, i'r tlawd newynog trist :
 Pob cyflawnder ynddo cewch :
 Dewch a chroeso, dlodion dewch.
- 2 Talodd Crist anfeidrol Iawn
 Ar y croesbren un prynhawn ;
 Llifodd ar Galfaria fryn
 Ddŵr a gwaed i'n golchi'n wyn :
 Iechydwrriaeth sydd heb drai :
 Dewch i'r ffynnon, aflan rai.

P.J.

301

Galwad yr Efengyl.

77. 87. D.

- 1 **E**HEDED iechydwrriaeth
 Dros gyrrau'r holl greadigaeth ;
 A doed ynysoedd pell y byd
 I gyd-gael meddyginiaeth :
 Mae'r Brenin ar ei orsedd
 Yn siriol yn ymhŵedd
 Ar bechaduriaid tlodion gwael
 Ddod ato i gael ymgeledd.

M.R.

302

Trwy Waed yr Oen.

84. 84. 8884.

- 1 **C** EIR dihangfa rhag marwolaeth
 Trwy waed yr Oen ;
 Nid oes ffordd o waredigaeth
 Ond gwaed yr Oen ;
 Gwelir miloedd wedi eu golchi
 Draw yn glanio ar dir goleuni,
 Heb frycheuyn, chwaith na chrychni,
 Trwy waed yr Oen.
- 2 Fe agorwyd ffordd gyfreithlon
 Trwy waed yr Oen,
 I ryddhau troseddwy'r caethion,
 Trwy waed yr Oen ;
 Haleliwia byth heb dewi
 Fydd y gân yng ngwlad goleuni,
 Gan y dyrfa ddirifedi,
 Am waed yr Oen.
- 3 Wedi cael eu gynau'n wynion,
 Trwy waed yr Oen,
 Cael yr hedd, y wledd, a'r goron,
 Trwy waed yr Oen,
 Peraidd bynciant Haleliwia
 Am yr Iawn roed ar Galfaria :
 Cofiant byth am eu dihangfa
 Trwy waed yr Oen.

W.C.W

303

"Paham y byddwch feirw?"

87. 87.

- 1 **P**AM, O ! pam, bechadur cyndyn,
 Pam y colli d'enaidd drud ?
 Mae dy Grëwr heddiw'n gofyn
 Pam yr ymgyndynni cyd ?
- 2 Pam yr ail-groeshoeli'r Iesu ?
 Pam na fynni droi, a byw ?
 Darfu iddo drosot waedu ;
 Dychwel, dychwel at dy Dduw.

- 3 Prysus ddarfod mae dy ddyddiau,
Dyfod y mae angau du ;
Er i ti yn ysgafn chwarae,
Dirwyn mae dy oriau di.
- 4 Ym mha le y bydd dy drigfan
Wedi'r êl y byd ar dân ?
O ! fy enaid, meddwl weithian
Am y siwrnai sydd o'th flaen.
- 5 Cyn i Dduw dy roi i fyny,
Cyn it orwedd yn y bedd,
Cyn i angau dy ddychrynu,
Myn adnabod Duw a'i hedd. C. WESLEY, c.

304

Gwahoddiad at Grist.

87. 87. 47.

- 1 **D**EUWCH, bechaduriaid tlodion,
Clwyfus, cleifion, o bob rhyw ;
Crist sy'n barod i'ch gwaredu,
Llaw'n tosturi yw Mab Duw :
Nac amheuwch,
Abl ac ewyllysgar yw.
- 2 Rai anghenus, dewch a chroeso,
I gael rhoddion Duw yn rhad ;
Cewch wir ffydd ac edifeirwch,
A phob gras yn ddinacâd ;
Dewch heb arian,
Prynwch gan yr Iesu'n rhad.
- 3 Dewch, flinderog a thrwmlwythog,
Trwy y cŵymp gadd farwol friw ;
Os arhoswch nes eich gwella,
Byth ni ddeuwch yn eich byw :
Pechaduriaid,
Nid rhai cyfiawn, eilw Duw. HART, c. D.J.

305 “*Sefyll wrth y Drws ac yn curo.*”

87. 87. 47.

- 1 **W**ELE wrth y drws yn curo
 Iesu, tegwch nef a llawr ;
 Clyw ei lais ac agor iddo,
 Paid ag ofni funud awr ;
 Agor iddo,
 Mae ei ruddiau fel y wawr.
- 2 Parod yw i wneud ei gartref
 Yn y galon euog ddu,
 A'i phrydferthu â grasusau—
 Gwerthfawr ddoniau'r nefoedd fry ;
 Agor iddo—
 Anghymharol Iesu cu.

J.H.H.

306 *Iechydwrïaeth Ddigonol.*

87. 87. 47.

- 1 **D**YMA iechydwrïaeth hyfryd
 Wedi'i threfnu gan fy Nuw—
 Ffordd i gadw dyn colledig,
 Balm i wella dynol-ryw :
 Dyma ddigon
 I un euog fel myfi.
- 2 Wele foroedd o fendithion !
 O ! am brofi eu nefol flas ;
 Ni bydd diwedd byth ar lawnder
 Iechydwrïaeth dwyfol ras :
 Dyma ddigon :
 Gorfoledda f'enaïd mwy.

W.J.

307 *Gwahoddiad i'r Wledd.*

87. 87. 67.

- 1 **D**EUWCH, hil syrthiedig Adda,
 Daeth y Jiwbil fawr o heddd ;
 Galw'r ydys bawb o'r enw
 I fwynhau tragwyddol wledd :
 Bwrdd yn llawn, yma gawn,
 O foreddydd hyd brynhawn.

2 Ceisiwch wisgoedd y brïodas,
 Gwisgoedd hyfryd, hardd eu lliw ;
 Nid oes enw teilwng arnynt
 Ond cyfiawnder pur fy Nuw :
 Lliain main ydyw'r rhain
 Sydd yn cuddio pob rhyw staen. W.

308 *Ffynnon lawn o Rinwedd.*

87. 87. D.

1 **G**OLCHWYD Magdalen yn ddisglair,
 A Manasse ddu yn wyn,
 Yn y ffynnon ddaeth o galon
 Iesu ar Galfaria fryn :
 Pwy a wŷr na olchir finnau ?
 Pwy a wŷr na byddaf byw ?
 Ffynnon rasol pen Calfaria,
 Llawn o rinwedd dwyfol yw. W.M. (1760).

309 *Drws Gobaith.*

87. 87. D.

1 **A**OES gobaith am achubiaeth ?
 Oes maddeuant am bob bai ?
 A oes hedd a meddyginiaeth,
 A oes Ceidwad i'r fath rai ?
 "Oes," medd Duw o'r nef yn eglur,
 "Mi ddarperais aberth llawn ;
 Y mae hedd, a gras, a chysur
 Genny'n rhoddion parod iawn." T.J.

310 *Utgorn yr Efengyl.*

87. 87. D.

1 **B**ETH yw'r utgorn glywa'i'n seinio ?
 Brenin Seilo sydd yn gwadd.
 Pwy sy'n cael eu galw ganddo ?
 Pechaduriaid o bob gradd.
 Adref, adref, blant afradlon—
 Gadewch y cibau gweigion ffôl ;
 Clywaf lais y Brenin heddiw
 Yn para i alw ar eich ôl. J.WMS. (1791).

311

Effeithiau'r Oruchaiaeth.

87. 87. D.

- 1 CAPTEN mawr ein hiechydwrïaeth
 Welaf yn y frwydyr hon ;
 Holl elynion ei ddyweddi'n
 Gorfod plygu ger ei fron ;
 Plant afradlon sy'n dod adref,
 A fu 'mhell o dir eu gwlad ;
 Rhai fu'n fudion sy'n clodfori
 Duw am iechydwriaeth rad.

M.R.

312

Yr Iechydwriaeth yng Nghrist.

88. 88. 88.

- 1 OES modd i mi, bechadur gwael,
 Gael rhan yng ngwaed fy Mhrynwr hael ?
 Ai drosod fi dioddefodd loes,
 Pan fu Ef farw ar y groes ?
 Rhyfeddol gariad Tri yn Un
 Oedd agor dôr i gadw dyn.
- 2 Pwy all amgyffred cariad Duw—
 Rhoi'i Fab er mwyn i ddyn gael byw ?
 Ni all y seraff pennaf sy
 Byth ddirnad dyfnder cariad cu.
 Rhyfedd yw haeddiant Calfari :
 Cyrhaeddodd hwn fy enaid i.
- 3 Gadawodd orsedd fawr ei Dad ;
 Mor rhydd, mor fawr ei gariad rhad !
 Fe'i rhoes ei Hun yn aberth drud
 Dros hil syrthiedig Adda i gyd :
 Trugaredd oll—trugaredd rad !
 Caiff myrdd eu bywyd yn ei waed.

C. WESLEY, C.

YR EGLWYS.

1.—Y CYSEGR A CHYMDEITHAS Y SAINT.

313

Emyn Ordeinio.

M. B.

- 1 **O**RUCHAF Iôr y nef,
A Llywydd daear lawr,
Gostwng dy glust a chlyw ein llef
Am fendith yma'n awr.
- 2 Gwêl yma ger dy fron
Genhadon hawddgar hedd ;
Rho fedydd tân yr oedfa hon
I'w dilyn hyd eu bedd.
- 3 Boed weddaidd iawn eu traed
Ar hyd mynyddoedd gwlad,
Wrth draethu rhin y groes a'r gwaed,
A'r iechydwrriaeth rad.
- 4 Rho eglurhad a nerth,
Wrth draethu gwerth yr Iawn,
Ac arwain at y Meddyg da
Dyrfaoedd drwy eu dawn.
- 5 Dal hwy mewn llafur dwys,
Nes tynnu'r gŵys i'r pen ;
Ac iddynt rho, ar derfyn dydd,
Lawenydd nefoedd wen.

J.HUM.

314

Gweddi am lanhad yr Eglwys.

M. C.

- 1 **G**LANHA dy Eglwys, Iesu mawr—
Ei grym yw bod yn lân ;
Sancteiddia'i gweddi yn ei gwaith,
A phura hi'n y tân.

- 2 Na chaffed bwyso ar y byd,
Nac unrhyw fraich o gnawd :
Doed yn gyfoethog, doed yn gryf,
Drwy helpu'r gwan a'r tlawd.
- 3 Na thynned gwychder gwag y llawr
Ei serch oddi ar y gwir ;
Na chuddied addurniadau dyn
Ddwyfoldeb d'eiriau pur.
- 4 Heb nawdd na nerth, ond tarian ffydd
A chledd yr Ysbryd Glân,
Byth boed rhinweddau angau'r groes
O'i chylch yn fur o dân.

H.E.L.

315

Erfyn am Arddeliad Dwyfol.

M. C.

- 1 O ! FRENIN nef a daear lawr,
Mor werthfawr yw dy wedd !
Rho inni braw ar hyn o bryd
O'th nefol hyfryd hedd.
- 2 Goleua Di ein deall gwan
Ym mhob rhyw ran o'th waith :
Datguddia'n awr i'th annwyl blant
Dy fawr ogoniant maith.
- 3 O ! cryned, Arglwydd, ger dy fron,
Dy holl elynion cas ;
A llwydda hefyd yma'n awr
Wirionedd mawr dy ras.
- 4 Anwylaf Dad, O ! arddel Di
Y genadwri hon,
Nes llanw â gwir wybodaeth glau
Holl gyrrau'r ddaear gron.

R.W.

316

Undod yr Eglwys.

M. C.

- 1 **C**YDUNED seintiau daear lawr
 Â thyrfa fawr y nef,
 I ganu clodydd Iesu mawr :
 Un ydynt ynddo Ef.
- 2 Un teulu dedwydd sydd gan Dduw,
 Un Eglwys fyw sy'n bod ;
 Mae rhan o fewn y nefol lys,
 Rhan arall is y rhod.
- 3 Ehedeg i'r anfarwol fydd
 Mae miloedd bob rhyw awr ;
 Mae'n tynfa ninnau, ddydd a nos,
 I'r tragwyddoldeb mawr.
- 4 O ! am gael uno gyda'r llu
 A gyrchodd at y nod,
 Ac ar adenydd cariad cu
 Ehedeg uwch y rhod.

C. WESLEY, c.

317

Gogoniant Seion.

M. C. D.

- 1 **F**E welir Seion fel y wawr,
 Er saled yw ei gwedd,
 Yn dod i'r lan o'r cystudd mawr,
 'N ôl agor pyrth y bedd ;
 Heb glaf na chlwyfus yn eu plith,
 Yn ddisglair fel yr haul,
 Yn y cyfiawnder dwyfol byth
 A wnaed gan Adda'r Ail.

M.R., ar.

318

SALM v. 1, 2, 7, 11, 12.

M. S.

- 1 **A**RGLWYDD, clyw 'ngweddi yn ddi-ball,
 Duw, deall fy myfyrdod ;
 Erglyw fy llais a'm gweddi fin,
 Fy Nuw a'm Brenin hyglod.

- 2 Dof innau tua'th dŷ mewn hedd,
Am dy drugaredd galwaf ;
Trwy ofn a pharch a goglod dwys,
I'th sanctaidd eglwys treiglaf.
- 3 Y rhai a 'mddiried ynot Ti,
Am it gysgodi drostynt—
Cans llawen fydd pob rhai â'th gân—
Cei fawl yn llafar ganddynt.
- 4 Ti, Arglwydd, a anfoni wlith
Dy fendith ar y cyfion ;
A'th gywir serch fel tarian gref,
Rhoi drosto ef yn goron.

E.P.

319

SALM XV. 1, 2, 4, 5.

M. S.

- 1 **D**YWED i mi pa ddyn a drig
I'th lys barchedig, Arglwydd ?
A phwy a erys ac a fydd
Ym mynydd dy sancteiddrwydd ?
- 2 Yr hwn a rodia'n berffaith dda,
Yr hwn a wna gyfiawnder,
A'r hwn a draetha o'i galon wir,
A drig ar dir uchelder.
- 3 Yr hwn sydd isel yn ei fryd,
Yn caru'i gyd-Gristnogion,
Yr hwn sy'n ofni'r Arglwydd Dduw,
Ac sydd yn byw yn ffyddlon.
- 4 Na gwobr na rhodd, yr hwn ni fyn,
Er dal yn erbyn gwirion.
A wnelo hyn ni lithra fyth—
Fe gaiff y ddilyth goron.

E.P.

320

SALM XXIV. 1—5, 9, 10.

M. S.

- 1 **Y**R Arglwydd biau'r ddaear lawr,
 A'i llawnder mawr sy'n eiddo ;
 Yr Arglwydd biau yr holl fyd,
 A'r bobl i gyd sydd ynddo.
- 2 Cans Ef a roes ei sail a'i gwedd
 Yn rhyfedd uwch y moroedd,
 Ac a'i gosododd hi yn lân,
 Yn drigfan uwch llif-ddyfroedd.
- 3 Pwy yw yr hwn a ddring yn hy
 I gysegr fry yr Arglwydd ?
 A phwy a saif â theilwng wedd
 Yng ngorsedd ei sancteiddrwydd ?
- 4 Dyn â llaw lân a meddwl da,
 Ac yn ddiráha'i enaid,
 Diorwag, ac ni roes un tro
 Er twyllo'i gyfneseifiad.
- 5 Fe gaiff hwn gan yr Arglwydd wlith
 Ei raslawn fendith helaeth,
 Ac iddo bydd cyfiawnder gwiw
 Gan Dduw yr iechydwríeath.
- 6 Dyrchefwch, byrth, eich pennau'n glau,
 Ehengwch, ddorau bythol !
 Cans Brenin mawr daw i'ch mewn chwi,
 Brenin o fri gogonol.
- 7 Pwy, meddwch, ydyw'r Brenin hwn,
 A gofiwn ei ogoniant ?
 Iôr lluoedd ydyw, Brenin hedd,
 Gogonedd, a phob ffyniant.

321

SALM XLII. 1, 2, 5.

M. S.

- 1 YR unwedd ag y bref yr hydd
 Am yr afonydd dyfroedd,
 Felly y mae fy hiraeth i
 Amdanat Ti, Duw'r nefoedd.
- 2 Fy enaid i, sychedig yw
 Am fy Nuw byw a'i gariad ;
 Pa bryd y dof fi ger dy fron,
 Fy Nuw a'm cyfion Ynad ?
- 3 Trwm, f'enaid, wyt o'm mewn ; paham
 Y rhoi brudd lam ochenaid ?
 Disgwyl wrth Dduw, a doi gerbron
 Ei ŵyneb tirion cannaid.

E.P.

322

SALM XLIII. 2, 3, 4.

M. S.

- 1 TYDI yw Duw fy nerth i gyd,
 Paham y'm bwryd ymaith ?
 A pham yr af mor drwm â hyn
 Gan bwys y gelyn diffaith ?
- 2 O ! gyr dy olau, moes dy wir,
 Ac felly twysir finnau :
 Arweiniant fi i'th breswylfŷdd,
 I'th fynydd, ac i'th demlau.
- 3 Ac yna'r af at allor Duw,
 Y Duw goruchel hyfryd ;
 Ac ar y delyn canaf fawl
 Fy Nuw, fy hawl a'm gwynfyd.

E.P.

323

SALM LXI. 1—4.

M. S.

- 1 ERGLYW, O ! Dduw, fy llefain i,
 Ac ar fy ngweddi gwrando,
 Rhof lef o eitha'r ddaear gron,
 A'm calon yn llesmeirio.

- 2 Dwg fi i dollgraig uwch na mi,
Ac iddi bydd i'm derbyn ;
Cans craig o obaith, tŵr di-fost,
Im fuost rhag y gelyn.
- 3 O fewn dy babell y bydd byth
Fy nhrigfan dilyth dedwydd ;
A'm holl ymddiried a fyn fod
Yng nghysgod dy adenydd.

E.P.

324

SALM LXV. 1, 2, 4.

M. S.

- 1 **I** TI, O ! Dduw, y gweddai mawl
Yn y sancteiddiawl Seion ;
I Ti y telir, trwy holl Gred,
Bob gwir adduned calon.
- 2 Pawb sydd yn pwysu atat Ti,
A wrendy weddi dostur ;
Ac atat Ti y daw pob cnawd
Er mwyn gollyngdawd llafur.
- 3 Dy etholedig, dedwydd yw,
Caiff nesnes fyw i'th babell ;
Trig i'th gynteddau, ac i'th lys,
A'th sanctaidd weddus gangell.

E.P.

325

SALM LXXXIV. 1—5, 7, 10, 12.

M. S.

- 1 **D**Y babell Di, mor hyfryd yw,
O ! Arglwydd byw y lluoedd ;
Mynych chwenychais weled hon,
Rhag mor dra thirion ydoedd.
- 2 Mae f'enaid i, fy Iôn, mewn blys,
I'th gysegr lys dueddu ;
Fy nghalon i, a'm cnawd sy yn Nuw,
Yn Nuw byw'n gorfoleddu.

- 3 Aderyn to a gafodd dŷ,
A'r wennol fry i'w chywion
Le wrth dy allor Di i'w trin,
Fy Nuw a'm Brenin tirion.
- 4 O! gwyn ei fyd a drig i'th dŷ,
Caiff dy foliannu ddigon ;
Ac ynot sy'n ymgadarnhau,
A'th lwybrau yn ei galon.
- 5 Ânt rhagddynt bawb o nerth i nerth,
Nes cael yn brydferth ddyfod
At Dduw i 'mddangos ger ei fron,
Yn Seion, ei breswylfod.
- 6 Gwell yw na mil un dydd i'th dŷ.
Am hynny mwy dewisol
Im fod ar riniog y drws tau,
Na phlasau yr annuwiol.
- 7 O! Arglwydd Dduw y lluoedd mawr,
Anfon i lawr dy gymod ;
Dedwydd yw'r dyn a rodde'i gred
A'i holl ymddiried ynod.

E.P.

326

SALM XCII. 1, 12, 13.

M. S.

- 1 **M**OLIANNU'R Arglwydd, da iawn yw,
A chyfarch Duw yn bennaf,
A da yw canu i'th enw fawl,
A'th ganmawl, y Goruchaf.
- 2 Y cyfiawn a flodeua i'r nen
Fel y balmwydden union ;
Yn iraidd yn cynyddu y bydd,
Fel cedrwydd yn Libanon.

- 3 Y rhai a blannwyd yn nhŷ Dduw,
Yn goedwydd byw y tyfant,
Ac yng nghynteddau ein Duw ni,
Y rheini a flodeuant.

E.P.

327

SALM CII. 13, 14, 16, 22.

M. S.

- 1 **O**! CYFOD bellach, trugarha,
O! Dduw, bydd dda wrth Seion ;
Mae'n amser wrthi drugarhau,
Wel dyma'r nodau'n union.
- 2 Cans hoff iawn gan dy weision Di
Ei meini a'i magwyrâu ;
Maent yn tosturio wrth ei llwch,
Ei thristwch a'i thrallodau.
- 3 Pan adeilader Seion wych,
Â hon yn ddrych i'r gwledydd :
Pan weler gwaith yr Arglwydd ne'
Y molir E'n dragywydd.
- 4 Hyn fydd pan gasglo pawb ynghyd,
Yn unfryd i'w foliannu ;
A'r holl deyrnasoedd dônt yng ngŵydd
Yr Arglwydd, i'w wasnaethu.

E.P.

328

SALM CXXXVIII. 1, 2, 3.

M. S.

- 1 **R**HOF fawrglod iti, fy Nuw Iôn,
O ddyfnder calon canaf ;
Ac yng ngŵydd holl angylion nef,
Â'm hoslef y'th foliannaf.
- 2 Ymgrymaf tua'th sanctaidd dŷ,
Dan ganu o'th drugaredd,
A'th enw mawr uwchlaw pob peth,
A'th air, di-feth wirionedd.

- 3 Y dydd y gelwais arnat Ti,
Gwrandewaist fi yn fuan ;
Ac yno nerthaist, â chref blaid,
Fy enaid i oedd egwan.

E.P.

329

Tegwch Seion.

M. S.

- 1 **M**AE Eglwys Dduw fel dinas wych,
Yn deg i edrych arni :
Ei sail sydd berl odidog werth,
A'i mur o brydferth feini.
- 2 Llawenydd yr holl ddaear hon
Yw mynydd Seion sanctaidd ;
Preswylfa annwyl Brenin nef
Yw Salem efengylaidd.
- 3 Gwyn fyd y dinasyddion sydd
Yn rhodio'n rhydd ar hyd-ddi ;
Y nefol fraint i minnau rho,
O ! Dduw, i drigo ynddi.

B.F.

330

Undeb Cristionogol.

M. H.

- 1 **D**UW, tyrd â'th saint o dan y ne',
O eitha'r dwyrain bell i'r de,
I fod yn dlawd, i fod yn un,
Yn ddedwydd ynot Ti dy Hun.
- 2 Un llais, un sŵn, un enw pur,
O'r gogledd fo i'r dwyrain dir,
O fôr i fôr, o gyleh y byd,
Sef enw Iesu oll i gyd.
- 3 Na foed gan un pererin mwy
Ganiadau ond am farwol glwy' ;
A phan deyrnaso'i Ysbryd Ef,
Y ddaear dywyll dry yn nef.

- 4 O! tyrd ar frys, Iachawdwr mawr,
Disgynned d'Ysbryd yma i lawr ;
Gwna i'r torfeydd a brynodd gwaed
Gydgurdded tua'r hyfryd wlad.

w.

331

Cymdeithas y Saint.

2. 88. 888.

- 1 **B**RAINT, braint
Yw cael cymdeithas gyda'r saint,
Na welodd neb erioed ei maint ;
Ni ddaw un haint byth iddynt hwy ;
Y mae'r gymdeithas yma'n gref,
Ond yn y nef hi fydd yn fwy.

J.R.S.

- 2 Daeth trwy
Ein Iesu glân a'i farwol glwy',
Fendithion fyrdd—daw eto fwy :
Mae ynddo faith ddiderfyn stôr ;
Ni gawsom rai defnynnau i lawr ;
Beth am yr awr cawn fynd i'r môr ?

- 3 Gwledd, gwledd
O fywyd a thragwyddol hedd
Sydd yn y byd tu draw i'r bedd ;
Mor hardd fydd gwedd y dyrfa i gyd
Sy'n byw ar haeddiant gwaed yr Oen,
O sŵn y boen sy yn y byd !

G. I.

332

Mynydd Seion.

65. 65.

- 1 **E**SGYN gyda'r lluoedd
Fry i fynydd Duw,
Tynnu tua'r nefoedd—
Bywyd f'enaid yw.
- 2 Yfwn o ffynhonnau
Gloywon ddyfroedd byw,
Wrth fynd dros y bryniau
Tua mynydd Duw.

3 Dringwn fel ein tadau
 Dros y creigiau serth ;
 Canwn megis hwythau—
 “ Awn o nerth i nerth.”

4 Pan fwyf ar ddiffygio—
 Gweld y ffordd yn faith,
 Duw sydd wedi addo
 Cymorth ar y daith.

5 Wedi'r holl dreialon,
 Wedi cario'r dydd,
 Cwrdd ar fynydd Seion—
 O ! mor felys fydd.

W.H.W.

333

Rhagom, Filwyr Iesu.

65. 65. T.

1 RHAGOM, filwyr Iesu !
 Awn i'r gad yn hy !
 Gwelwn groes ein Prynwr—
 Hon yw'n cymorth cry' ;
 Crist, frenhinol Arglwydd,
 Yw'n Harweinydd mad ;
 Chwifio mae ei faner,
 Geilw ni i'r gad.

Rhagom, filwyr Iesu !
 Awn i'r gad yn hy !
 Gwelwn groes ein Prynwr—
 Hon yw'n cymorth cry'.

2 Fel rhyw fyddin arfog
 Symud, Eglwys Dduw !
 Frodyr, lle y troediwn,
 Llwybr y seintiau yw ;
 Nid fym ni'n rhanedig,
 Ond un corff di-goll,—
 Un mewn fydd a gobaith,
 Un mewn cariad oll.

Rhagom, filwyr Iesu !
 Awn i'r gad yn hy !
 Gwelwn groes ein Prynwr—
 Hon yw'n cymorth cry'.

- 3 Dowch gan hynny, bobloedd—
 Dyma'r dedwydd lu ;
 Y fuddugol anthem
 Seiniwch gyda ni :
 Moliant ac anrhydedd
 Byth i'r Iesu glân ;
 Dynion ac angylion
 Unant yn y gân !

Rhagom, filwyr Iesu !
 Awn i'r gad yn hy !
 Gwelwn groes ein Prynwr—
 Hon yw'n cymorth cry'.

S. BARING-GOULD, C. L.E.

334

Yr Ardd, a'i Pheraroglau.

66. 66. 88.

- 1 **M**I bellach goda' i maes,
 Ar fore glas y wawr,
 I weld y blodau hardd
 Sy 'ngardd fy Iesu mawr :
 Amrywiol ryw rasmusau pur,
 A ffrwythau'r paradwysaidd dir.
- 2 O ! ddigyffelyb flas,
 O ! amrywioldeb lliw,
 Hyfryta' 'rioed a gad
 Ar erddi gwlad fy Nuw :
 Gilëad â'i haroglau pur
 Bereiddiodd awel Canaan dir.
- 3 Mae'r pomgranadau pur,
 Mae'r peraroglau rhad,
 Yn magu hiraeth cryf
 Am hyfryd dŷ fy Nhad :

O! Salem bur, O! Seion wiw,
Fy nghartref i a chartre 'Nuw.

w.

335

Hiraeth am Dŷ Dduw.

66. 66. 88.

- 1 **A**RGLWYDD y bydoedd fry,
Mor deg a hawddgar yw
Trigfan dy gariad cu,
Daeacol deml fy Nuw :
Boed tynfa f'enaïd tua'th dŷ,
Fy Nuw, i weld dy ŵyneb cu.
- 2 Hoff gan aderyn to
Gael yno i'w gywion le ;
A'r wennol, ar ei thro,
Hiraetha am ei thre' ;
Mae hiraeth f'enaïd i'r un faint
Am gael preswyllo 'mhlith y saint.
- 3 Cael treulio sanctaidd ddydd
Lle byddo Duw a'i saint,
Llawenydd gwell a rydd
Na mil mewn bydol fraint :
Gwell yw cael cadw'r drws o hyd
Lle dêl fy Nuw na phlasau'r byd.

I. WATTS, C. D.J.

336

Aros yn y Tŷ.

74. 74. D.

- 1 **O**S rhaid goddef ar fy nhaith
Dywydd garw,
Cadw f'ysbryd yn dy waith
Hyd fy marw :
Yn y babell gyda'r arch
Boed fy nyddiau ;
Cadw yn fy enaïd barch
I'th gyfreithiau.

J.H.

337

Gweddi wrth ymadael.

87. 87. 47.

- 1 **D**AN dy fendith, wrth ymadael,
 Y dymunem, Arglwydd, fod ;
 Llanw'n calon ni â'th gariad,
 A'n geneuau ni â'th glod :
 Dy dangnefedd
 Dyro inni yn barhaus.

W.G.

338

Ffyddlondeb Duw i'w Eglwys.

87. 87. D.

- 1 **O** ! NA bai fy mhen yn ddyfroedd,
 Fel yr wylwn yn ddi-lai,
 Am fod Seion, lu banerog,
 Yng ngwreŷ y dydd yn llwfwrhau ;
 O ! datguddia y colofnau
 A wnaed i'w chynnwl yn y nos—
 Addewidion diamodol
 Duw ar gyfrif angau'r groes.
- 2 Mae bod yn fyw yn fawr ryfeddod
 Mewn ffwrneisiau sydd mor boeth ;
 Ond mwy rhyfedd, wedi 'mhrofi
 Y dof i'r canol fel aur coeth :
 Amser cannu, diwrnod nithio,
 Eto'n dawel heb ddim braw ;
 Y Gŵr a fydd i mi'n ymguddfa
 Sydd â'r wyntyll yn ei law.
- 3 **O** ! am ddyfod o'r anialwch
 I fyny fel colofnau mwg.
 Yn uniongyrchol at ei orsedd,
 Nid oes yn ei wedd Ef wg :
 Amen diddechrau a diddiwedd,
 Tyst ffyddlon yw, a'i air yn un ;
 Amlygu mae ogoniant Trindod
 Yn achubiaeth euog ddyn.

A.G.

339

Gweddi am bresenoldeb Duw.

87. 87. D.

- 1 **P**AM y caiff bwystfilod rheibus
 Dorri'r egin mân i lawr ?
 Pam caiff blodau peraidd ieuainc
 Fethu gan y sychder mawr ?
 Tyred â'r cawodydd hyfryd
 Sy'n cynyddu'r egin grawn,
 Cawod hyfryd yn y bore,
 Ac un arall y prynhawn.
- 2 Gosod babell yng ngwlad Gosen,
 Tyred, Arglwydd, yno d'Hun ;
 Gostwng o'r uchelder golau,
 Gwna dy drigfan gyda dyn :
 Trig yn Seion, aros yno,
 Lle mae'r llwythau'n dod ynghyd ;
 Byth na 'mad oddi wrth dy bobol
 Nes yn ulw'r elo'r byd.

w.

340

"Gorffwysfaoedd llonydd."

87. 87. D.

- 1 **A**RGLWYDD, gad im dawel orffwys
 Dan gysgodau'r palmwydd clyd,
 Lle yr eistedd pererinion
 Ar eu ffordd i'r nefol fyd ;
 Lle'r adroddant dy ffyddlondeb
 Iddynt yn yr anial cras,
 Nes anghofio'u cyfyngderau
 Wrth foliannu nerth dy ras.
- 2 O ! mor hoff yw cwmni'r brodyr
 Sydd â'u hŵyneb tua'r wlad,
 Heb un tafod yn gwenieithio—
 Heb un fron yn meithrin brad :
 Gwlith y nefoedd ar eu profiad,
 Atsain hyder yn eu hiaith ;
 Teimlant hiraeth am eu cartref,
 Carant sôn am ben eu taith.

- 3 Arglwydd, dal ni nes mynd adref,
 Nid yw'r llwybyr eto'n faith ;
 Gwened heulwen ar ein henaidd,
 Wrth nesáu at ben y daith ;
 Doed y nefol awel dyner
 I'n cyfarfod yn y glyn,
 Nes in deimlo'n traed yn sengi
 Ar uchelder Seion fryn.

W.A.

341

Yr Eglwys i Ddangos Crist.

87. 87. D.

- 1 **A**RGLWYDD Iesu, llanw d' Eglwys
 Â'th Lân Ysbryd Di dy Hun,
 Fel y gwasanaetho'r nefoedd
 Trwy roi'i llaw i achub dyn :
 Dysg i'w llygaid allu canfod,
 Dan drueni dyn, ei fri ;
 Dysg i'w dwylaw estyn iddo
 Win ac olew Calfari.

- 2 Llifed cariad pen Calfaria
 Drwy dy Eglwys ato ef :
 A'th diriondeb Di dy Hunan
 Glywo'r truan yn ei llef :
 Dysg hi i ofni byw yn esmwyth,
 Gan anghofio'r byd, a'i loes ;
 Nertha hi i dosturio wrtho,
 A rhoi'i hysgwydd dan ei groes.

W.P.H.

342

Neithior yr Oen.

888. 6. D.

- 1 **M**I glywais lef, llef tyrfa fawr,
 Fel tyrfau cryfion uwch y llawr,
 Neu ddyfroedd yn dylifo i lawr
 O uchder nef y nef ;
 Cans daeth priodas Mab y Dyn,
 Yr addfwyn Oen, fendigaid Un ;
 " A'i Wraig a'i paratôdd ei hun " :
 Gogoniant iddo Ef.

- 2 O ! Wraig yr Oen, fe'i gwisgwyd hi
 Mewn lliain main o ddwyfol fri,
 Cyfiawnder disglair Calfari,—
 Rhyfeddod nef y nef !
 I'r neithior rhodia fel y wawr
 Yn sŵn yr Haleliwia fawr :
 Gorfoledd unllais nef a llawr,
 Gogoniant iddo Ef.

J.T.J.

343

Dymuno Cymdeithas y Saint.

88. 88. D.

- 1 O ! FUGAIL yr Israel a'u Duw,
 Hyfrydwch fy nghalon i gyd !
 Cael mwy o'th gymdeithas i fyw
 Yw testun fy hiraeth o hyd ;
 Am borfa hyfrytaf dy braidd
 'R wyf heddiw'n ymofyn yn brudd,
 Lle'u porthir, lle'u cedwir mewn hedd
 Rhag poethder a dwyster y dydd.
- 2 O nifer dy braidd gad im fod—
 'D wy'n gofyn na chwennyech dim mwy :
 Cael byw yn y byd er dy glod,
 A'm cydogoneddu â hwy.
 Yn lloches y graig gwnaf fy nyth,
 Nes darfod pob gofid a phoen :
 Caf noddfa yn dawel dros byth
 Yn gynnes ym mynwes yr Oen. C. WESLEY, c.

344

Undod Mawl yr Eglwys.

10. 10. 10. 10.

- 1 MAE Eglwys Dduw trwy'r ddaer a'r nef yn un,
 Y meirw a'r byw a'u cytsain yn gytûn ;
 " Teilwng yw'r Oen," medd seintiau yn y nef ;
 " Teilwng yw'r Oen," yw'n llafar ni a'n llef.

I. WATTS, c. J.T.

345

Lle yn y Tŷ.

10. 10. 10. 10.

- 1 **R**HYFEDDU 'r wyf, a mawr ryfeddod yw,
 Fy ngharu 'rioed, y gwaela' o ddynol-ryw;
 Cael yn dy dŷ, o fewn ei furiau, le,
 Ac enw gwell nag enwir is y ne'. G. 2.

2.—DYDD YR ARGLWYDD.

346

Dydd yr Arglwydd.

M. B.

- 1 **H**WN yw y sanctaidd ddydd :
 Gorffwysodd Duw o'i waith ;
 A ninnau'n awr, dan wenau Duw,
 Orffwyswn ar ein taith.
- 2 Hwn yw'r moliannus ddydd :
 Cydganodd sêr y wawr ;
 Mae heddiw lawnach testun cân,
 Molianned pawb yn awr.
- 3 Hwn yw y dedwydd ddydd :
 Daeth Crist o'i fedd yn fyw ;
 O ! codwn oll i fywyd gwell,
 I ryddid meibion Duw.
- 4 Hwn yw'r brenhinol ddydd :
 Mae Crist i gael ei le ;
 O ! Dduw, rho heddiw weled drws
 Yn agor yn y ne'. H.E.L.

347

Atgyfodiad Crist.

M. C.

- 1 **H**WN ydyw'r dydd y cododd Crist.
 Gan ddryllio pyrth y bedd ;
 O ! cyfod, f'enaid—na fydd drist—
 I edrych ar ei wedd.

- 2 Cyfodi wnaeth i'n cyfiawnhau,
Bodlonodd ddeddf y nef ;
Er maint ein pla, cawn lawenhau—
Mae'n bywyd ynddo Ef.
- 3 Gorchfygodd angau trwy ei nerth,
Ysbeiliodd uffern gref ;
Ac annherfynol ydyw'r gwerth
Gaed yn ei angau Ef.
- 4 Esgynnodd mewn gogoniant llawn
Goruwch y nefoedd fry ;
Ac yno mae, ar sail ei Iawn,
Yn eiriol drosom ni.
- 5 Pob gallu llawn, trwy'r byd a'r nef,
Sydd yn ei law yn awr ;
Ni rwystra gallu uffern gref
Ddibenion Iesu mawr.

R.O.

348

Bendithion Dydd yr Arglwydd.

M. S.

- 1 **C**YDUNWN, bawb, i foli Duw—
Ei ŵyneb heddiw ceisiwn ;
Cydwleddwn gyda'i annwyl blant,
A'i foliant byth datganwn.
- 2 Hwn ydyw'r dydd a wnaeth ein Duw,
Trown ninnau heddiw'n camre,
Awn ger ei fron â llawen fryd,
Gan barchu'r hyfryd fore.
- 3 Sancteiddiodd Duw y seithfed dydd,
Yn hwn cawn fudd ysbrydol :
Gwybodaeth gawn o'i gyfraith lân,
A gwir ddiddanwch nefol.

- 4 Y sawl a ddelo, dedwydd yw,
I demel Dduw'n gyfannedd ;
Mae un dydd yma'n llawer gwell
Na mil ym mhabell gwagedd.
- 5 Cawn yma bob dymunol ddawn,
Cawn Dduw yn llawn trugaredd ;
A'i Ysbryd i'n cryfhau bob pryd,
Yn fwyfwy hyd y diwedd.

B.F., ar. Cas. WES.

349

Hyfrydwch y Sabbath.

M. H.

- 1 **G**WAITH hyfryd iawn a melys yw
Moliannu d'enw Di, O ! Dduw ;
Sôn am dy gariad fore glas,
A'r nos am wirioneddau gras.
- 2 Mor felys yw y Sabbath llon !
Na flined gofal byd mo'm bron ;
O ! na bai 'nghalon i mewn hwyl,
Fel telyn Dafydd ar yr wyl.
- 3 Yn Nuw fy nghalon lawenha,
Bendithio'i air a'i waith a wna ;
Mor hardd yw gwaith dy ras, O ! Dduw,
A'th gyngor, pa mor ddwfn yw !

I. WATTS, c. D.J.

350

Gorffwysfa'r Sabbath.

M. H.

- 1 **Y** SABBATH, gŵyl nefolaidd yw ;
Ar hwn cyfododd Iesu'n fyw :
Clodforwn ninnau Frenin hedd,
Mae wedi perarogli'r bedd.

- 2 O ! f'enaïd, nac anghofia'r dydd
Y daeth y Meichiau mawr yn rhydd ;
Agorwyd inni byrth y nef
Trwy rin ei fuddugoliaeth Ef.
- 3 Mor hyfryd cael un dydd o'r saith
I'w dreulio'n hollol gyda'th waith ;
Gorffwysfa dawel f'enaïd trist,
A gwledd yw cofio angau Crist.
- 4 Y mae gorffwysfa'n ôl i'r saint,
Mewn gwlad o hedd, O ! ryfedd fraint !
Lle cânt fwynhau, heb gur na phoen,
Dragwyddol Sabbath gyda'r Oen.

P.J.

351

Y Sabbath yn ernes o'r Nef.

M. H.

- 1 **B**LINEDIG gan ofidiau'r llawr,
Lluddedig a methodig bron,
O ! mor gysurôl ydyw gwawr,
Hyfrydol wawr y Sabbath llon.
- 2 Rhyw lewyrch trwy'r cymylau du,
Rhyw seibiant bach rhag llid y don,
A golwg ar fynyddoedd eu
Y Ganaan draw, yw'r Sabbath llon.
- 3 Ffoed holl drafferthion daear lawr,
Ei hing a'i gofal, cilient draw ;
Na foed o fewn fy mron yn awr
Ond gofal am y byd a ddaw.
- 4 Caf orffwys heddiw oddi wrth fy nghur,
A gwledda ar ddanteithion nen,
Fel ernes o'r dedwyddwch pur
A gaiff y llu tu draw i'r llen.

T.JS.

3.—YR YSGOL SUL.

352

Ar ddechrau Ysgol.

77. 77.

1 **D**IOLCH iti, Arglwydd mawr,
Am y sêr a golau'r wawr ;
Diolch mwy am olau iach
Ysgol Sul i blentyn bach.

2 Diolch am y Beibil glân,
Am emynau mawl a chân ;
Diolch wnawn â llawen dant
Am y rhai sy'n dysgu'r plant.

3 Danfon lewyrch oddi fry
Heddiw ar ein gwersi ni ;
Dangos inni'r ffordd i fyw
Er dy glod, O ! Arglwydd Dduw.

W.N.W.

353

Mawl am yr Ysgol Sabbothol.

84. 84. 8884.

1 **A**M yr Ysgol rad Sabbothol,
Clod, clod i Dduw !
Ei buddioldeb sydd anhraethol ;
Clod, clod i Dduw !
Ynddi cawn yr addysg orau,
Addysg berffaith Llyfr y llyfrau :
Am gael hwn yn iaith ein mamau,
Clod, clod i Dduw !

R.E.

354

Yr Athro 'n Dysgu.

8. 5. 8. 3.

1 **W**ELE'R Athro mawr yn dysgu
Dyfnion bethau Duw ;
Dwyfol gariad yn llefaru—
F'enaid, clyw !

2 Arglwydd, boed i'th eiriau groeso
Yn fy nghalon i ;
Crea hiraeth mwy am wrando
Arnat Ti.

3 Dyro inni ras i orffwys
Ar dy nerth a'th ddawn ;
Tyfu'n dawl yn dy Eglwys,
Ffrwytho'n llawn.

W.N.W.

4.—BEDYDD.

355

Lle i'r Plant.

77. 77.

- 1 IESU tirion, gwnaethost le
I rai bychain yn dy dŷ ;
Eiddynt hwy yw teyrnas ne',
Ac mae cartref iddynt fry.
- 2 Dysg ni'n iawn i'w dysgu hwy,
Ac i'w cadw wrth dy draed :
Boed eu diogelwch mwy
O dan arwydd pur y gwaed.
- 3 Derbyn Di ein plant, i'w dwyn
Yn dy ffordd dy Hun i'r ne' :
Ti yw Bugail da yr ŵyn,
Yn dy fynwes mae eu lle.

H.E.L.

356

Ŵyn y Bugail Da.

76. 76. D.

- 1 ROWN glod i'r Bugail ffyddlon
Am iddo gofio'r ŵyn ;
Fe'u derbyn hwynt yn dirion,
Bu farw er eu mwyn.

Ni dderfydd ei awdurdod,
 Ei gariad a barha :
 Bydd corlan glyd a chysgod
 I ŵyn y Bugail Da.

- 2 Y plentyn bach a roddwn
 Ym mreichiau'r Ceidwad mawr,
 Trwy fedydd a gyflwynwn
 I'w nodded Ef yn awr.
 O ! cadw, Dduw ein tadau,
 Ein plant ym more'u hoes,
 A dyro ras i ninnau
 I'w tywys at y groes.

W.O.E.

357

Crist yn derbyn Plant.

87. 87.

- 1 **B**UGAIL Israel sydd ofalus
 Am ei dyner annwyl ŵyn ;
 Mae'n eu galw yn groesawus,
 Ac yn eu coffeidio'n fwyn.
- 2 " Gedwch iddynt ddyfod ataf,
 Ac na rwystrwch hwynt," medd Ef ;
 " Etifeddiaeth lân hyfrytaf
 I'r fath rai yw teyrnas nef."
- 3 Dowch, blant bychain, dowch at Iesu !
 Ceisiwch ŵyneb Brenin nef ;
 Hoff yw'ch gweled yn dynesu
 I'ch bendithio ganddo Ef.
- 4 Deuwn, Arglwydd, â'n rhai bychain,
 A chyflwynwn hwynt i Ti ;
 Eiddot mwyach ni ein hunain,
 A'n hiliogaeth gyda ni.

M.D.

358

Ffynnon y Dyfroedd Byw.

87. 87. 47.

1 **H**EDDIW'R ffynnon a agorwyd,
 Ddisglair fel y grisial clir ;
 Y mae'n llanw ac yn llifio
 Dros wastadedd Salem dir :
 Bro a bryniau
 A gaiff brofi rhin y dŵr.

2 Minnau ddof i'r ffynnon loyw
 Darddodd allan ar y bryn,
 Ac mi olchaf f'enaid euog
 Ganwaith yn y dyfroedd hyn ;
 Myrdd o feiau
 Daffa' i lawr i rym y dŵr.

W.

359

Dyfroedd yr Iechydwriaeth.

98. 98. D.

1 **O** ! ARWAIN fy enaid i'r dyfroedd,
 Y dyfroedd sy'n afon mor bur,
 Y dyfroedd a dorrant fy syched,
 Er trymed fy nolur a'm cur :
 Y dyfroedd tragwyddol eu tarddiad,
 Y dyfroedd sy heb waelod na thrai,
 Y dyfroedd a olchant fy enaid,
 Er dued, er amled fy mai.

2 Da iawn i bechadur fod afon
 A ylech yr aflanaf yn wyn ;
 Hi darddodd o'r nefoedd yn gyson,
 Hi ffrydiodd ar Galfari fryn ;
 Hi lifodd i'r anial Cenhedlig,
 Hi olchodd fil miloedd yn lân ;
 Hi ylech ei miliynau'n llwyr gannaidd
 Cyn rhoddi llawr daear ar dân.

T.J.

5.—SWPER YR ARLWYDD.

360

Effeithiolrwydd Angau Crist.

M. B.

- 1 **A**I am fy meiau i
Dioddefodd Iesu mawr,
Pan ddaeth yng ngrym ei gariad Ef
O entrych nef i lawr ?
- 2 Cyflawnai'r gyfraith bur,
Cyfiawnder gafodd Iawn ;
A'r ddyled fawr, er cymaint oedd,
A dalodd Ef yn llawn.
- 3 Dioddefodd angau loes,
Yn ufudd ar y bryn ;
A'i waed a ylch yr Ethiop du
Yn lân fel eira gwyn.
- 4 Bu'n angau i'n hangau ni
Wrth farw ar y pren ;
A thrwy ei waed y dygir llu,
Trwy angau, i'r nefoedd wen.
- 5 Pan grymodd Iesu ei ben,
Wrth farw yn ein lle,
Agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,
I bur drigfannau'r ne'.
- 6 Gorchfygodd uffern ddu,
Gwnaeth ben y sarff yn friw ;
O'r carchar caeth y dygir llu,
Trwy ras, i deulu Duw.

J.E.

361

Y Gân a'r Ffynnon.

M. C.

- 1 **N**I tharddodd ffynnon mewn un wlad
Fel Ffynnon Calfari ;
Ac ni bydd diwedd ar fwynhad
O'i dwyfol rinwedd hi.

- 2 Pechadur aflan heb ei fai
Yn gân i gyd a fydd ;
Y gân a'r ffynnon yn ddi-drai,
Parhânt trwy'r bythol ddydd.
- 3 Mae'n hyfryd dechrau ar y gân
Yn wan mewn anial fydd ;
Bydd holl delynuau'r nef ar dân
Gan rym anfarwol fryd.

E.P.H.

362

Wrth y Groes.

M. C.

- 1 **E**R cuddio'r nen gan niwloedd du
Pechodau blin fy oes,
Mi godaf drem i Galfari,
Mae'n olau wrth y groes.
- 2 Pan ruo môr cydwybod flin
Mi gofiaf am ei loes ;
Yng nghanol pob rhyw arw hin,
Mae'n dawel wrth y groes.
- 3 Yn dlawd a llwm mewn estron wlad
Un cysur im nid oes ;
Mae gwleddoedd breision tŷ fy Nhad
A'u llawnder wrth y groes.
- 4 Fy enaid trist ar drengi sydd,
Ond credaf, er fy loes,
Na fethodd neb o gywir ffydd
Gael bywyd wrth y groes.
- 5 Pan dwllo'r haul, pan losgo'r byd,
Pan ddarffo'r olaf oes,
Fe gân y saint mewn noddfa glyd
I'r Gŵr fu ar y groes.

M.H.

363

Gobaith trwy'r Gwaed.

M. C.

1 **W**EL dyma'r eiddil, dyma'r gwan,
Yn griddfan wrth dy draed,
Tu hwnt i obaith am gael byw
Ond trwy dy ddwyfol waed.

2 Rhifedi 'meiau sydd dros ben
Pob haeddiant oll o ddyn ;
Ac nid oes genny'n noddfa im,
Ond haeddiant Duw ei Hun.

3 Mor anobeithiol yw fy mriw,
'D a' i mofyn meddyg mwy,
Ond ato'i Hunan ar y pren
Ddiodefodd farwol glwy'.

4 Am iddo yno grymu'i ben,
A marw ar y groes,
Mwy na rhifedi beiau'r byd
Yw haeddiant dwyfol loes.

w.

364

Cof am yr Aberth.

M. C.

1 **M**EWN cof o'th aberth wele ni,
O ! Iesu, 'n cyd-nesáu ;
Un teulu ydym ynot Ti,
I'th garu a'th fwynhau.

2 Dy gariad Di dy Hun yw'r wledd—
Ni welwyd cariad mwy ;
Ffynhonnau o dragwyddol hedd
A dardd o'th farwol glwy.

3 Er mwyn y gras a ddaeth i ni
O'th ddwyfol aberth drud,
Gwna'n cariad fel dy gariad Di,
I gynnwys yr holl fyd.

- 4 Gwna dy holl deulu ar y llawr,
Fel teulu'r nef, yn un ;
A selia ninnau yma'n awr
Yn eiddot Ti dy Hun.

H.E.L.

365

Clodforedd am y Gwaed.

M. S.

- 1 **M**AE'R gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio ;
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
I ddweud yn iawn amdano.
- 2 Prif destun holl ganiadau'r nef
Yw " Iddo Ef," a'i haeddiant ;
A dyna sain telynau glân
Ar uchaf gân gogoniant.
- 3 Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen,
A'i boen wrth achub enaid,
Yn seinio'n uwch ar dannau'r nef
Na hyfryd lef seraffiaid.
- 4 'Mhen oesoedd rif y tywod mân
Ni bydd y gân ond dechrau ;
Rhyw newydd wyrth o'i angau drud
A ddaw o hyd i'r golau.
- 5 Ni thraethir maint anfeidrol werth
Ei aberth yn dragywydd :
Er treulio myrdd o oesoedd glân,
Ni bydd y gân ond newydd.

R.W.

366

Edrych ar y Groes.

M. H.

- 1 **W**RTH edrych, Iesu, ar dy groes,
A meddwl dyfnder d'angau loes,
Pryd hyn 'r wyf yn dibrisio'r byd,
A'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

- 2 N'ad im ymddiried tra fwyf byw,
Ond yn dy angau Di, fy Nuw ;
Dy boenau Di a'th farwol glwy'
Gaiff fod yn ymfrost imi mwy.
- 3 Dyma lle'r ydoedd ar brynhawn
Rasusau yn disgleirio'n llawn :
Mil o rinweddau yn gytûn
Yn prynu'r gwrthgiledig ddyn.
- 4 Poen a llawenydd dan y loes,
Tristwch a chariad ar y groes ;
P'le bu rhinweddau fel y rhain
Erioed o'r blaen dan goron ddrain ?
- 5 Myfi aberthaf er dy glod
Bob eilun sydd o dan y rhod ;
Ac wrth fyfyrion ar dy waed,
Fe gŵymp pob delw dan fy nhraed.

I. WATTS, *ef.* W.

367

Rhin y Gwaed.

2. 88. 888.

- 1 **O!** TYN
Y gorchudd yn y mynydd hyn ;
Llewyrched haul cyfiawnder gwyn
O ben y bryn bu'r addfwyn Oen
Yn dioddef dan yr hoelion dur,
O gariad pur i mi mewn poen.
- 2 P'le, p'le
Y gwnaf fy noddfa dan y ne',
Ond yn ei archoll ddwyfol E' ?
Y bicell gre' aeth dan ei fron
Agorodd ffynnon i'm glanhau ;
'R wy'n llawenhau fod lle yn hon.
- 3 Oes, oes,
Mae rhin a grym yng ngwaed y groes
I lwy'r lanhau holl feiau f'oes ;

Ei ddwyfol loes a'i ddyfal lef,
Mewn gweddi drosof at y Tad,
Yw fy rhyddhad, a'm hawl i'r nef.

4 Golch fi

Oddi wrth fy meiau aml eu rhi',
Yn afon waedlyd Calfari,
Sydd heddiw'n lli o haeddiant llawn ;
Dim trai ni welir arni mwy ;
Hi bery'n hwy na bore a nawn.

H.J.

368

Rhinweddau Gras Crist.

2. 88. 888.

1 GRAS, gras,
Yn genllif grymus ddaeth i maes,
Grisialaidd afon loyw las,
Rhinweddol flas i'r euog rai ;
Lle i bechaduriaid yma gad,
I'w cannu'n rhad oddi wrth bob bai.

2 I'r lan,

Os bydd in ddod o'r anial fan,
Bydd hyfryd seinio yn y man ;
Pawb yn ei ran yn moli'r Oen,
Mewn melys anthem, newydd iaith,
Ar ben y daith, heb friw na phoen.

3 Gwych sain

Fydd eto am y goron ddrain,
Yr hoelion llym, a'r bicell fain ;
Wrth gofio'r rhain caiff uffern glwy' ;
Cadwynau tynion aeth yn rhydd ;
Fe gad y dydd : Hosanna mwy !

J.R.

369

Ffynnon Calfaria.

558. D.

1 AR groesbren, brynhawn,
Cyfiawnder gadd Iawn,
A'r gyfraith anrhydedd 'r un dydd ;

Trwy rinwedd y gwaed
 Bodlonwyd y Tad ;
 Mae merch yr Amoriad yn rhydd.

2 Ar fryn Calfari
 Agorwyd i ni
 Ryw ffynnon ryfeddol cyn hyn ;
 Hi hollol lanha
 Aflendid a phla,
 Hi ganna yr Ethiop yn wyn.

3 Y gwan a gryfha,
 Er cymaint ei bla,
 I sefyll wrth Seina'n ddi-grŷn ;
 Mae'n symud â'i hedd
 Fraw angau a'r bedd,
 A'u hofnau, heb adael yr un.

D.C.

370 "*Ffynnon i Bechod ac Aflendid.*"

74. 74. D.

1 **C**ANED nef a daear lawr,
 Fe gad ffynnon,
 I olchi pechaduriaid mawr
 Yn glaer wynion ;
 Yn y ffynnon gyda hwy
 Minnau 'molcha' :
 Ac mi ganaf fyth tra fwy'
 Haleliwia !

2 Dyma'r dŵr, a dyma'r gwaed,
 Redodd allan ;
 Ac o'i ystlys sanctaidd gaed
 I olchi'r aflan ;
 Hon yw'r ffynnon sy'n glanhau
 Yr aflana' :
 Yn dragywydd mae'n parhau :
 Haleliwia.

E.P.A.

371

Effeithiau Marwolaeth y Groes.

76. 76. D.

1 P WY ddyry im falm o Gilead,
 Maddeuant pur a hedd,
 Nes gwneud i'm hysbryd edrych
 Yn eon ar y bedd,
 A dianc ar wasgfaeon
 Euogrwydd creulon cry' ?
 'D oes neb ond Ef a hoeliwyd
 Ar fynydd Calfari.

2 Yr hoelion geirwon caled,
 Gynt a'i trywanodd E',
 Sy'n awr yn dal y nefoedd
 Gwmpasog yn ei lle :
 Mae gobraith meibion dynion
 Yn llifo i maes ynghyd
 Oddi wrth yr awr trywanwyd
 Creawdwr mawr y byd.

3 Pe unwaith y darfyddai
 Awdurdod Calfari,
 Darfyddai pob cysuron
 Ar unwaith gennyf fi ;
 O bawb, yn sicir, byddwn
 Y truenusaf ddyn ;
 Fe'm llyncai'r bedd dychrynlyd
 Yn fuan iddo'i hun.

W.

372

Rhyfeddodau Angau'r Groes.

76. 76. D.

1 M I welaf yn ei fywyd
 Y ffordd i'r nefoedd fry ;
 Ac yn ei angau'r taliad
 A roddwyd tros of fi ;
 Yn ei esgyniad gwelaf
 Drigfannau pur y nef,
 A'r wledd dragwyddol berffaith
 Gaf yno gydag Ef.

2 'N ôl edrych ar ôl edrych,
 O gwmpas imi mae
 Rhyw fyrdd o ryfeddodau
 Newyddion yn parhau ;
 Pan fwy'n rhyfeddu unpeth,
 Peth arall ddaw i'm bryd ;
 O ! iechydwrïaeth rasol,
 Rhyfeddol wyt i gyd.

3 Bendithion ar fendithion,
 Trysorau angau loes,
 Grawnsypiau mawrion aeddfed
 Yn hongian ar y groes,
 Sydd yn cwmpasu f'enaïd,
 Rhinweddau mawr eu grym ;
 A minnau yn eu canol
 Heb allu dwedyd dim.

w.

373

Cof am y Cyfiawn Iesu.

76. 76. D.

- 1 **C**OF am y cyfiawn Iesu,
 Y Person mwyaf hardd,
 A'r noswaith drom anesmwyth
 Bu'n chwýsu yn yr ardd ;
 A'i chwýs yn ddafnau cochion
 Yn syrthio ar y llawr :
 Bydd canu am ei gariad
 I dragwyddoldeb mawr.
- 2 Cof am y llu o filwyr
 Â'u gwayw-ffyn yn dod
 I ddal yr Oen diniwed
 Na wnaethai gam erioed :
 Gwrandewch y geiriau ddwedodd,
 (Pwy allsai ond Efe ?)
 " Gadewch i'r rhain fynd ymaith,
 Cymerwch Fi'n eu lle."

- 3 Cof am yr ŵyneb siriol,
 Y poerwyd arno'n wir ;
 Cof am y cefen gwerthfawr,
 Lle'r arddwyd cŵysau hir ;
 O ! annwyl Arglwydd Iesu,
 Boed grym dy gariad pur
 Yn torri 'nghalon galed
 Wrth gofio am dy gur.

W.L.

374

Angau'r Groes.

76. 76. D.

- 1 O ! ENW ardderchocaf
 Yw enw marwol glwy' ;
 Caniadau archangylion
 Fydd y fath enw mwy :
 Bydd yr anfeidrol ddyfais
 O brynedigaeth dyn,
 Gan raddau filoedd yno
 Yn cael ei chanu'n un.
- 2 Fe ddaeth i wella'r archoll
 Trwy gymryd clwyf ei Hun—
 Etifedd nef yn marw
 I wella marwol ddyn :
 Yn sugno i maes y gwenwyn
 A roes y sarff i ni,
 Ac wrth y gwenwyn hwnnw
 Yn marw ar Galfari.
- 3 Bechadur ! gwêl E'n sefyll
 Yn llonydd ar y groes ;
 Clyw'r griddfan sy'n ei enaid
 Dan ddyfnder angau loes ;
 O ! gwrando ar ei riddfan :
 Mae pob ochenaidd ddrud
 Yn ddigon mawr o haeddiant
 Ei hun i brynu byd.

W.—TH.

375 *Dioddefaint Crist a'i Atgyfodiad.*

76. 76. D.

1 **G**WÊL ar y croesbren acw
 Gyfiawnder mawr y ne',
 Doethineb, a thrugaredd,
 Yn gorwedd mewn un lle,
 A chariad anfesurool,
 Yn awr i gyd yn un,
 Fel afon fawr lifeiriol
 Yn rhedeg at y dyn.

2 Cynefin iawn â dolur,
 A Gŵr gofidus fu,
 Er dwyn tangnefedd rhyfedd,
 Ac iechyd llawn i ni ;
 Fe ddygodd ein doluriau,
 A'n clwyfau bob yr un,
 Trwy rym tragwyddol gariad,
 O fewn ei gorff ei Hun.

3 Ac yna atgyfododd
 Yn ogoneddus iawn ;
 Daeth bore teg a hyfryd,
 'N ôl stormus ddu brynhawn :
 Fe dorrodd rym yr angau,
 Agorodd ddrysau'r bedd ;
 Palmantodd ffordd o'r ddaear
 Yn awr i ganol hedd.

W.—TH.

376 *Iechydwriaeth Gadarn.*

76. 76. D.

1 **O** ! IECHYDWRIAETH gadarn,
 O ! Iechydwriaeth glir ;
 'Fu dyfais o'i chyffelyb
 Erioed ar fôr na thir :
 Mae yma ryw ddirgelion,
 Rhy ddyrys ynt i ddyn,
 Ac nid oes all eu dadrys
 Ond Duwdod mawr ei Hun.

- 2 'D oes unpeth ennyn gariad
 Yn fflam angerddol gref,
 Addewid neu orchymyn,
 Fel ei ddioddefaint Ef ;
 Pan roes ei fywyd drosom,
 Beth all Ef ballu mwy ?
 Mae myrdd o drugareddau
 Difesur yn ei glwy'.
- 3 O ! ras di-drai, diderfyn,
 Tragwyddol ei barhad !
 Yng nghlwyfau'r Oen fu farw
 Yn unig mae iachâd ;
 Iachâd oddi wrth euogrwydd,
 Iachâd o ofnau'r bedd ;
 A chariad wedi'i wreiddio
 Ar sail tragwyddol hedd.

W.—TH.

377

Arnat, Iesu, boed fy Meddwl.

87. 87. 47.

- 1 **A**RNAT, Iesu, boed fy meddwl,
 Am dy gariad boed fy nghân ;
 Dyged sŵn dy ddioddefiadau
 Fy serchiadau oll yn lân :
 Mae dy gariad
 Uwch a glywodd neb erioed.
- 2 O ! na chawn ddifyrru 'nyddiau
 Llwythog, dan dy ddwyfol groes,
 A phob meddwl wedi'i glymu
 Wrth dy Berson ddydd a nos :
 Byw bob munud
 Mewn tangnefedd pur a hedd.
- 3 Mae rhyw hiraeth ar fy nghalon
 Am ddihengi o dwrf y byd,
 A gweld dyddiau colla'i 'ngolwg
 Ar bob tegan ynddo 'nghyd :
 Cael ymborthi
 Fyth ar sylwedd pur y nef.

W.

378

Crist yn Trigo yn y Galon.

87. 87. 47.

- 1 **O** ! NA bai cystuddiau f'Arglwydd
 Yn fy nghalon yn cael lle—
 Pob rhyw loes, a phob rhyw ddolur,
 Pob rhyw fflangell gafodd E' ;
 Fel bai i'm pechod
 Ildio'r dydd a mynd i maes.
- 2 Ti dy Hunan yno'n Frenin,
 Ti dy Hunan yno'n Dduw,
 D'eiriau d'Hunan yno'n uchaf—
 D'eiriau gwerthfawroca'u rhyw :
 Ti wnei felly
 Bydew du yn demel lân.
- 3 Yno gwna dy drigfan hyfryd—
 Trigfan croeshoeliedig Oen,
 Ac na chilia i maes oddi yno
 Tra fo anadl yn fy firoen,
 Rhag i'm pechod
 Ffiaidd geisio dod yn ôl.
- 4 **O** ! sgrifenna'n eglur, eglur,
 Mewn llythrennau llawn i gyd,
 Bob rhyw sillaf bach o'th gyfraith
 Ar fy mynwes yma 'nghyd,
 Nac anghofiwyf
 Fyth dy eiriau mawr eu pris.

W.

379

Cymdeithas â Dioddefiadau Crist.

87. 87. 47.

- 1 **O** ! NA byddai oriau 'mywyd
 Yn ymborthi ar oriau'i boen,
 Fel y gallwyf fi gydredeg
 Â chystuddiau'r addfwyn Oen :
 Fe gâi 'mhechod
 Felly'n fuan golli'r dydd.

2 Felly cawn gan f'enaïd ddilyn
 Ei ofidiau hyfryd Ef,
 Fel mae golau'r dydd yn cadw
 Cwmni disglair haul y nef :
 'Châi 'ngorddiwes
 Gwmwl du na thywyll nos.

3 Fel bo i'r dorf ddi-rif o feïau
 Wybod hyn yn ddinacâd—
 Ym mha glwyf, ac ym mha ofid,
 Ym mha archoll, mae f'iachâd ;
 Fel y gallwyf,
 Heb hir oedi, fod yn lân.

W.

380

Crist yn dwyn ein Beichiau.

87. 87. D.

1 **F**E roed arno bwys euogrwydd,
 Pwys na allsai'i ddal mo ddyn,
 Cosb pechodau myrdd o ddynion,
 Heb un pechod ynddo'i Hun ;
 Do, fe'i gwisgwyd â chystuddiau,
 Ffrwyth fy meïau, fawr a mân ;
 Fel y caffwn, wael bechadur
 Aflan euog, fod yn lân.

2 Ac yn nyfnder grym ei boenau,
 Dan ergydion angau loes,
 Fe weddiodd am faddeuant—
 Maddau imi ar y groes ;
 Fe gofleidiodd f'enaïd aflan
 Rhwng y ddaear fawr a'r nen ;
 Do, fe'm carodd ac fe'm cofiodd
 Dan yr hoelion ar y pren.

3 O ! anfeïdrol berffaith gariad—
 Cariad na all dawn na gras
 Dynion, na'r angylion pennaf,
 Fyth yn llwyr ei ddodi i maes ;

Cariad fydd yn sylfaen gadarn
 I bob anthem yn y nef ;
 Seintiau ac angyllion draphlith
 Canant am ei gariad Ef.

W.

381

Iesu dan yr Hoelion.

87. 87. D.

- 1 **O** ! FY enaid, cod dy olwg,
 Gwêl yn amlwg ben y bryn,
 Lle bu Iesu, 'r Cyfaill ffyddlon,
 Dan yr hoelion dur cyn hyn :
 Talodd yno swm dy ddyled
 Â gwerthfawr waed ei galon friw ;
 Yr Oen dïeuog yno'n marw,
 A minnau'r euog yn cael byw.

D.W.

382

Meddyginiaeth y Groes.

87. 87. D.

- 1 **D**EUED pechaduriaid truain
 Yn finteioedd mawr ynghyd,
 Doed ynysoedd pell y moroedd
 I gael gweld dy wÿneb-pryd ;
 Cloffion, deillion, gwywedigion,
 O bob enwau, o bob gradd,
 I Galfaria un prynhawngwaith
 I weld yr Oen sydd wedi ei ladd.
- 2 Dacw'r nefoedd fawr ei hunan
 'N awr yn dioddef angau loes ;
 Dacw Obaith yr holl ddaear
 Heddiw'n hongian ar y groes ;
 Dacw Noddfa pechaduriaid,
 Dacw'r Meddyg, dacw'r fan
 Y caf wella'r holl archollion
 Dyfnion sydd ar f'enaid gwan.

- 3 Dacw'r unig feddyginiaeth
 Gadarn i druenus ddyn ;
 Mae pob gobaith wedi darfod
 'Maes ohono Ef ei Hun :
 Trwm a llwythog yw fy meichiau,
 Poen euogrwydd sydd yn fawr ;
 Nid oes fan ond pen Calfaria
 Gallaf roi fy mhen i lawr.

W.

383

Golwg ar Iesu.

87. 87. D.

- 1 **M**I edrychaf ar i fyny,
 Deued twllwch, deued nos ;
 Os daw heddwch im o unlle,
 Daw o haeddiant gwaed y groes ;
 Dyna'r man y gwnaf fy nhrigfan,
 Dyna'r man gobeithiaf mwy :
 Nid oes iechyd fyth i'm henaid.
 Ond mewn dwyfol farwol glwy'.
- 2 Gobaith f'enaid yw ei haeddiant,
 Gobaith f'enaid yw ei rym ;
 Tlawd a llesg, a gwan ac ynfyd
 Ydwyf fi, heb feddu dim :
 Trwodd draw yr wyf yn edrych,
 Dros y bryniau mawrion pell,
 Ac yn disgwyl fy ngorffwysfa
 O gyfiawnder llawer gwell.

W.

384

Dyfnnderoedd Iechydwrïaeth.

87. 87. D.

- 1 **M**ELYS cofio y cyfamod
 Draw a wnaed gan Dri yn Un ;
 Tragwyddol syllu ar y Person
 A gymerodd natur dyn :
 Wrth gyflawni yr amodau,
 Trist hyd angau'i enaid oedd :
 Dyma gân y saith ugeinmil
 Tu draw i'r llen â llawen floedd.

2 Fy enaid trist, wrth gofio'r taliad,
 Yn llamu o lawenydd sydd ;
 Gweld y ddeddf yn anrhydeddus,
 A'i throseddwy'r mawr yn rhydd ;
 Rhoi Awdwr bywyd i farwolaeth,
 A chladdu'r Atgyfodiad mawr ;
 Dwyn i mewn dragwyddol heddwch
 Rhwng nef y nef a daear lawr.

3 Efe yw'r Iawn fu rhwng y lladron,
 Efe ddiodefodd angau loes ;
 Nerthodd freichiau'i ddienyddwyr,
 I'w hoelio yno ar y groes,
 Wrth dalu dyled pechaduriaid,
 Ac anrhydeddu deddf ei Dad ;
 Cyfiawnder, mae'n disgleirio'n danbaid
 Wrth faddau'n nhrefn y cymod rhad.

4 Fy enaid, gwêl y fan gorweddodd
 Pen brenhinoedd, Awdwr hedd ;
 Y grëadigaeth ynddo'n symud,
 Yntau'n farw yn y bedd ;
 Cân a bywyd colledigion,
 Rhyfeddod mawr angylion nef :
 Gweld Duw mewn cnawd, a'i gydaddoli
 Mae'r côr dan weiddi, " Iddo Ef."

A.G.

385

Cariad at Grist.

87. 87. D.

1 'R WY'N teimlo f'enaid 'n awr yn caru
 Yr Oen ogwyddodd droso'i 'i ben ;
 Dywedodd Iesu mawr " Gorffennwyd "
 Wrth dalu 'nyled ar y pren :
 'R wy'n caru hardd lythrennau enw
 Yr Hwn fu farw yn fy lle :
 'D oes gyfaill yn y byd 'r wyf ynddo,
 A bery'n ffyddlon fel Efe.

M.R.

386

Aros wrth y Groes.

886. 886.

- 1 **C**ALFARIA fryn ! mae f'enaïd prudd
 Yn teimlo'i rwymau'n mynd yn rhydd,
 Wrth gofio'i chwerw loes :
 Nid oes a'm lleinw'n berffaith lawn,
 Ond cael mwynhau o felys iawn
 Fendithion angau'r groes.

- 2 O ! na chawn bellach dreulio f'oes
 Mewn myfyr sanctaidd wrth y groes,
 Ar ben Calfaria fryn.
 Ym mhen rhyw oesoedd maith di-ri',
 Fy nghân fydd angau Calfari,
 A'r rhyfedd goncwest hyn.

J.P.

387

" Ffynnon i Bechod ac Aflendid."

88. 88. D.

- 1 **C**AED ffynnon o ddŵr ac o waed,
 I olchi rhai duon eu lliw ;
 Ei ffrydiau a redodd yn rhad
 I'r ardal lle'r oeddwn yn byw :
 Er cymaint o rwystrau gadd hon,
 Grym arfaeth a'i gyrrodd ymlaen,
 I olchi tŷ Ddafydd o'r bron,
 Jeriwsalem hefyd ddaw'n lân.

Cas. M.D. 1.

388

Cofio'r Dioddef.

88. 88. D.

- 1 **W**RTH gofio'i riddfannau'n yr ardd,
 A'i chwŷs fel defnynnau o waed,
 Aredig ar gefn oedd mor hardd,
 A'i daro â chleddyf ei Dad,
 A'i arwain i Galfari fryn,
 A'i hoelio ar groesbren o'i fodd ;
 Pa dafod all dewi am hyn ?
 Pa galon mor galed na thodd ?

T.L.

389

Golwg o ben Nebo.

88. 88. D.

- 1 **A**DENYDD colomen pe cawn,
 Ehedwn a chrwydrwn ymhell ;
 I gopa bryn Nebo mi awn,
 I olwg ardaloedd sydd well :
 A'm llygaid tu arall i'r dŵr,
 Mi dreuliwn fy nyddiau i ben,
 Mewn hiraeth am weled y Gŵr
 Fu farw dan hoelion ar bren.

T.W.

- 2 'R wy'n tynnu tuag ochor y dŵr,
 Bron gadael yr anial yn lân ;
 Mi glywais am gonwest y Gŵr
 A rydiodd yr afon o'm blaen ;
 Fe dreiglodd y maen oedd dan sêl,
 Fe gododd y Cadarn i'r lan ;
 Mi a'i caraf Ef, deued a ddêl.
 Mae gobaith i'r truan a'r gwan.

T.W. ar.

390

Y Cyfamod Disigl.

98. 98. D.

- 1 **Y**GŴR a fu gynt o dan hoelion,
 Dros ddyn pechadurus fel fi,
 A yfodd y cwpan i'r gwaelod,
 Ei Hunan ar ben Calfari ;
 Ffynhonnell y cariad tragwyddol,
 Hen gartref meddyliau o hedd ;
 Dwg finnau i'r unrhyw gyfamod,
 Na thorrir gan angau, na'r bedd.

H.D.H.

391

Teml yr Arglwydd yn y Nef.

10. 10. 10. 10.

- 1 **A**GORWYD teml yr Arglwydd yn y nef,
 A gwelwyd arch ei lân gyfamod Ef ;
 Holl ryfeddodau Person Crist a'i waith
 A welir yno i dragwyddoldeb maith

- 2 Cyfiawnder Duw sydd yno'n ddisglair iawn,
A'r gyfraith bur bob iod ohoni'n llawn ;
Ond i bechadur, melys yw y sain
Fod trugareddfa hefyd rhwng y rhain.
- 3 Mae'r Archoffeiriad yn taenellu'r gwaed,
Mewn gwisgoedd sanctaidd, llaesion, hyd ei draed,
O fewn y llen, sancteiddiaf lys y nef,
Ac enwau'r llwythau ar ei ddwyfron Ef.
- 4 Priodoliaethau'r nefoedd yn gytûn
Sydd yno'n gwenu ar golledig ddyn ;
Mae hedd yn awr o'r nef i'r llawr yn lli,
A noddfa gref o fewn y nef i ni.
- 5 Crist ydyw'r Arch a'r Drugareddfa rad ;
Yn enw Hwn anturiwn at y Tad ;
Fe wrendy gwyn pechadur heb ei ladd,
Fe gymer blaid yr enaid isel radd.

JS.H.

392

Gweddi am Gymdeithas â Duw.

11. 11. 11. 11.

- 1 **O** ! TYRED, f'Anwylyd, fy Arglwydd yn ddyn,
Preswylia mewn temel a godaist dy Hun :
Dy lais sy mor beraidd, mor hyfryd dy wedd,
Dy olwg sy'n concro marwolaeth a'r bedd.
- 2 Boed imi'n hyfrydwch, o fore hyd nos,
Gael canu am gariad a choncwest ei groes—
Gogoniant ei Berson, rhinweddau pob gras,
Trwy boenau ofnadwy yn ennill y maes.
- 3 Gad imi gael heddwch, y perl sy'n fwy drud
Na meddiant holl India'r Gorllewin i gyd ;
Mae gradd o dangnefedd fy Iesu mor fawr,
Fe bwysa ei hunan y nefoedd a'r llawr.

W.

393

Ymorffwys ar Aberth y Groes.

11. 11. 11. 11.

- 1 **F**Y enaid, ymorffwys ar aberth y groes,
 'D oes arall a'th gyfyd o ddyfnder dy loes :
 Offrymodd ei Hunan yn ddifai i Dduw,
 Yn haeddiant yr aberth mi gredaf caf fyw.
- 2 Mae munud o edrych ar aberth y groes
 Yn tawel ddistewi môr tonnog fy oes ;
 Mae llewyrch ei wŷneb yn dwyn y fath hedd,
 Nes diffodd euogrwydd a dychryn y bedd. W.E.

6.—*EMYNAU CENHADOL.*

Penodau cyfaddas i'w darllen mewn Cyfarfodydd Cenhadol :—
 Salm ii., xix., lxxii., c., cxv., cxxii. Esaia ii., xi., xxxv., xl.,
 xlii., xliv., xlix., lii., liii., lv. lx., lxi., lxii., lxv. Jeremia x.,
 xxxi. Ezeziel xxxvii. Daniel ii. Mica iv. Matthew xx.
 Actau ii., x. Rhufeiniaid x. Datguddiad xx., xxi.

394

Y Genhadaeth.

M. C.

- 1 **C**ENHADON hedd cânt ddwyn ar frys
 Efengyl gras ein Duw
 I bob rhyw fan ym mhellter byd
 Lle trigo dynol-ryw.
- 2 Mynegant am y cymod gwiw
 A ddaeth trwy bwrcas drud,
 A'r ffynnon hyfryd sy'n glanhau
 Aflendid mwya'r byd.
- 3 Fe lonna'r gwyllt farbariad gwael,
 Fe lama'r Ethiop du,
 Wrth glywed am anfeidrol Iawn
 A gaed ar Galfari.

D.C.

395

Codiad Haul o'r Uchelder.

M. C.

- 1 **L** LEWYRCHED pur oleuni'r nef
 Dros wŷneb daear faith ;
 Ac aed efengyl gadarn gref
 Hyd at bob llwyth ac iaith.
- 2 Doed deau, gogledd, dwyrain faith,
 Gorllewin o un fryd,
 I edrych ar brydferthwch gwaith
 Iachawdwr mawr y byd.

Cas. J.R.J.

396

Llwyddiant yr Efengyl.

M. C. D.

- 1 **A** ED sŵn efengyl bur ar led
 Trwy barthau'r byd o'r bron ;
 Boed llwyddiant drwy deyrnaoedd Cred
 Lle mae pregethiad hon ;
 Fel delo miloedd eto i maes
 O'r twllwch cas i fyw,
 Trwy'r India draw ac Asia fras,
 I ganmol gras ein Duw.
- 2 Aed sain yr utgorn arian mawr
 Ymlaen trwy'r anial dir ;
 A doed y werin gyda'r wawr
 I 'mofyn am y gwir :
 Helaetha le dy babellyd,
 Estyn gortynnau i maes ;
 O oes i oes, tra pery'r byd,
 Bydd canmol golud gras.
- 3 Aed mawl a gweddi'r saint i'r lan
 Fel pêr aberthau byw ;
 A boed serchiadau Seion wan
 Ar dân yn moli Duw :
 Mewn gemwaith aur bydd hon cyn hir,
 Heb dristwch, cur, na phoen,
 Yn canu am gonwest fawr a gaed
 Trwy werthfawr waed yr Oen.

Cas. M.J.

397

Mynydd Tŷ'r Arglwydd.

M. S.

- 1 **G**ORUWCH yr holl fynyddoedd sy
Bydd mynydd tŷ Jehofa
Yn ddyrchafedig yn ddi-au,
Goruwch y bryniau ucha'.
- 2 Pob cenedl a phob llwyth ac iaith
A brysur ymdaith ato,
Yn fyrdd, yn fyrdd, â llawen floedd,
Fel dyfroedd yn dylifo.

J.H.

398

Llwyddiant ar y Gwaith.

M. H.

- 1 **O** ! ARGLWYDD Dduw, bywha dy waith
Dros holl derfynau'r ddaear faith ;
Dros dir a môr disgleiria i maes
Yn nerth dy anorchfygol ras.

B.F.

399

Gweddi am lwyddiant yr Efengyl.

M. H.

- 1 **P**AN glywo'r Indiaid draw am loes
Creawdwr nefoedd ar y groes,
Rhinweddau hyfryd marwol glwy'
Fydd sylwedd eu caniadau hwy.
- 2 O ! na foed ardal cyn bo hir,
O'r dwyrain draw i'r deau dir,
Na byddo'r iechydwriaeth ddrud
Yn llanw cyrrau'r rhain i gyd.
- 3 Boed Iesu â'i annherfynol stôr
Yn llanw'r tir, yn llanw'r môr,
Ei ddoniau maith, a'i gariad drud,
Yn sylfaen cysur pawb o'r byd.

- 4 Dewch, addewidion, dewch yn awr,
 Dihidlwch eich trysorau i lawr ;
 Myrddiynau ar fyrddiynau sydd
 Yn disgwyl am eich bore ddydd.

W.

400

Bywha dy Waith.

M. H.

- 1 **B**YWHA dy waith, O ! Arglwydd mawr,
 Dros holl derfynau'r ddaear lawr,
 Drwy roi tywalltiad nerthol iawn
 O'r Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn.

- 2 Bywha dy waith o fewn ein tir,
 Arddeliad mawr fo ar y gwir ;
 Mewn nerth y bo'r Efengyl lawn,
 Er iechydwriaeth llawer iawn.

- 3 Bywha dy waith o fewn dy dŷ,
 A gwna dy weision oll yn hy :
 Gwisg hwynt â nerth yr Ysbryd Glân,
 A'th air o'u mewn fo megis tân.

- 4 Bywha dy waith, O ! Arglwydd mawr,
 Yn ein calonnau ninnau'n awr,
 Er difa pob rhyw bechod cas
 A chynnydd i bob nefol ras.

J.RTS.

401

Yr Iechydwriaeth fawr yng Nghrist.

M. H.

- 1 **Y**R iechydwriaeth fawr yng Nghrist,
 Sŵn melys hyfryd yw i'm clust ;
 Balm cryf i'm clwyfau o bob rhyw,
 A chordial im rhag ofnau yw.

- 2 Aed sŵn yr iechydwriaeth fawr
 O amgylch ogyrch daear lawr ;
 A boed i'r nef a'i lluoedd lion
 Gyfodi eu llef i seinio hon.

I. WATTS, C. D.J.

402

Y Byd i Grist.

M. H.

- 1 **O** ! NA ddôl dydd yr India i ben
 I weld yr Hwn fu ar y pren ;
 A ninnau'n un, yn un â hwy
 Yn canu am ei farwol glwy'.
- 2 Boed Prydain Fawr yn fflam o dân
 O gariad at ei Phrynwr glân ;
 A holl ynysoedd pella'r byd
 Yn boddi mewn caniadau i gyd.
- 3 Amen ! Amen ! Boed môr a thir
 Mewn perffaith hedd, mewn cariad pur,
 Heb ganddynt bleser o un rhyw,
 Ond caru'n Iesu mawr a'n Duw.

W.

403

Teyrnasiad yr Iesu.

M. H.

- 1 **Y**R Iesu a deyrnasa'n grwn
 O godiad haul hyd fachlud hwn ;
 Ei deyrnas â o fôr i fôr,
 Tra fyddo llewyrch haul a lloer.
- 2 Lle y teyrnaso, bendith fydd ;
 Y caeth a naid o'i rwymau'n rhydd,
 Y blin gaiff fythol esmwythâd,
 A'r holl rai clwyfus iechyd rhad.
- 3 Rhoed pob creadur, yn ddi-lyth,
 Neilltuol barch i'r Brenin byth :
 Angylion, molwch Ef uwchben,
 A'r ddaear, dweded byth, Amen !

I. WATTS, C. D.J.

404

Llwyddiant yr Efengyl.

M. H.

- 1 **L** LWYDD, llwydd i bur efengyl gras !
 O ! profed pawb ei rhin a'i blas :
 Cyhoedder llawn faddeuant rhad,
 A modd i'r brwnt gael llwyr lanhad.
- 2 Ymdaened sôn o gylch y byd
 Am angau'r groes a'r aberth drud ;
 Cyfoded gwawr o Galfari,
 A doed yr hyfryd Jiwbili.
- 3 Bydd pêr Hosanna trwy bob gwlad
 I Dduw am iechydwrïaeth rad ;
 Moliannu'r Oen fydd tôn pob iaith ;
 Clodforir Ef trwy'r ddaear faith.

P.J.

405

"Cofiaf dy Wyrthiau gynt."

M. H.

- 1 **F** RY yn dy nefoedd clyw ein cri,
 Pob gras a dawn sydd ynot Ti ;
 Nac oeda'n hwy dy deyrnas fawr,
 O ! Dduw ein Iôr, pâr lwydd yn awr.
- 2 Nid aeth o'n cof dy wyrthiau gynt,
 Y sanctaidd dân a'r bywiol wynt ;
 Gwyn fyd na ddeuent eto i lawr—
 O ! Dduw ein Iôr, pâr lwydd yn awr.
- 3 Gwêl a oes ynom bechod cudd,
 A maddau ein hychydig ffydd ;
 Mwy yw dy ras na'n beiau mawr :
 O ! Dduw ein Iôr, pâr lwydd yn awr.

- 4 Gad inni weld dy wedd a byw,
 Gad wybod mai Tydi sy Dduw ;
 Gwisg wisgoedd dy ogoniant mawr,
 O ! Dduw ein Iôr, pâr lwydd yn awr.

E.W.

406

Llwyddiant yr Efengyl.

2. 88. 888.

- 1 **A**^{ED}, aed
 Y newydd am y dwyfol waed,
 Nes golchi myrdd o'r dua' a gaed,
 O'u pen i'w traed, yn hardd a gwyn ;
 Fel byddo'r nef a'r ddaear las
 Yn datsain gras Calfaria fryn.

- 2 Mawr, mawr
 Yw grym llewyrchiad nefol wawr ;
 Try'r nos yn ddydd ar blant y llawr :
 Mae'r golau'n awr yn nerthol wir,
 Ond rhagddo'r â hyd hanner dydd ;
 Pur olau fydd mewn nefol dir.

T.J.

407

Lledaeniad yr Efengyl.

66. 66. 88.

- 1 **A**^{ED} grym efengyl Crist
 Yn nerthol trwy bob gwlad ;
 Sain felys i bob clust
 Fo iechydwrriaeth rad :
 O ! cyfod, Haul Cyfiawnder mawr,
 Disgleiria'n lân dros ddaear lawr.

- 2 Disgleiried dwyfol ras
 Dros holl derfynau'r byd ;
 Diflanned pechod cas
 Trwy gyrrau hwn i gyd :
 Cyduned pob creadur byw
 Ar nefol dôn i foli Duw.

W.L.

408

Dyddiau hyfryd i ddyfod.

74. 74. D.

- 1 **Y** MAE'R dyddiau'n dod i ben—
 Dyddiau hyfryd,
 Y dyrchefir Brenin nen
 Dros yr hollfyd ;
 Fe â dwyfol angau drud
 Pen Calfaria
 Trwy ardaloedd pella'r byd :
 Haleliwia.
- 2 Fe bregethir Iesu a'i ras,
 Mewn awdurdod,
 Yn yr India eang fras
 Yn ddiddarfod ;
 Fe â sŵn yr utgorn clir
 Hyd yr eitha',
 I'r gorllewin anial dir :
 Haleliwia.

W.

409

Llwydd i Efengyl Gras.

74. 74. D.

- 1 **Y** MAE heddiw nefol wawr
 Yn llewyrchu,
 Ac yn chwalu'r twllwch mawr
 Fel y fagddu :
 Ernes yw o fore llawn
 O'r uchelder :
 Ymddisgleiria'n hyfryd iawn
 Haul Cyfiawnder.
- 2 Rhaid i'r Iesu'n helaeth gael,
 Y mae'n haeddu,
 Gweld o ffrwyth ei lafur hael,
 A'i ddiwallu ;
 Miloedd myrdd o estron lu
 Dônt yn fuan
 I gael profi'i gariad cu
 At rai aflan.

T.Y. I.

410

O Fryniau rhew'r Gogledd-dir.

76. 76. D.

- 1 **O** FRYNIAU rhew'r Gogledd-dir,
 O draeth yr India fawr ;
 Lle treigla ffrydiau'r Affrig
 Eu tywod aur i lawr ;
 O lannau hen afonydd,
 O barthau'r palmwydd ir,
 Ein galw maent i'w gwared
 O'u caeth gyfeiliorn hir.
- 2 A allwn ni, a freiniwyd
 A'r golau oddi fry,
 Warafun llusern bywyd
 I rai mewn hirnos ddu ?
 Cyhoedder " Iechydwrriaeth,"
 Bêr sain, dros ddaear lawr,
 Nes dysgu o'i chyrrau eithaf
 Enw'r Meseia mawr.
- 3 Ewch, wyntoedd, ewch â'i hanes,
 Chwi ddyfroedd, cludwch hwn,
 Nes llifo o'i ogoniant,
 Fel môr, drwy'r byd yn grwn ;
 A'r Oen, dros fyd a brynodd
 Drwy ddiodef marwol glwy',
 Yn Geidwad ac yn Frenin
 Mewn bri deyrnasa mwy. HEBER, *c. diw.* J.M-J.

411

Gogoniant y Dyddiau Diweddaf.

77. 77.

- 1 **W**ELE'R dydd yn gwawrio draw,
 Amser hyfryd sydd gerllaw ;
 Daw'r cenhedloedd yn gytûn
 I ddyrchafu Mab y Dyn.
- 2 Gwelir teyrnas Iesu mawr
 Yn ben moliant ar y llawr ;
 Gwelir tŷ ein Harglwydd cu
 Goruwch y mynyddoedd fry.

- 3 Gwelir pobloedd lawer iawn
Yn dylifo ato'n llawn ;
Cyfraith Iesu gadwant hwy,
Ac ni ddysgant ryfel mwy.
- 4 Fe geir gweled Babel fawr
Wedi syrthio oll i lawr,
A'r teyrnasoedd mawr eu bri
Oll yn eiddo'n Harglwydd ni.
- 5 Yna clywir yn y nef,
Fawl i'r Oen ag uchel lef :
" Aeth teyrnasoedd mawr eu bri
Oll yn eiddo'n Harglwydd ni ! "

J.T., ar. T.J.

412

Nefol Jiwbil.

87. 87. 47.

- 1 **D**ROS y brynau tywyll niwlog,
Yn dawel, f'enaid, edrych draw,
Ar addewidion sydd i esgor
Ar ryw ddyddiau braf gerllaw :
Nefol Jiwbil,
Gad im weld y bore wawr.
- 2 Doed yr Indiaid, doed Barbariaid,
Doed y Negro du yn llu
I ryfeddu'r ddwyfol goncwest
Unwaith gaed ar Galfari :
Sŵn y frwydyr
Dreiddio i eithaf conglau'r byd.
- 3 Ar ardaloedd maith o dwllwch
Twnnu a wnelo'r heulwen lân,
Ac ymlidied i'r gorllewin
Y nos o'r dwyrain draw o'i blaen :
Iechydwriaeth,
Ti yn unig gario'r dydd.

- 4 Gwawria, gwawria, hyfryd fore,
 Ar ddiderfyn fagddu fawr,
 Nes bod bloedd yr euraid utgorn
 Yn atseinio'r nen a'r llawr,
 Holl derfynau
 Tir Emmaniwel i gyd.

W., c. J.WS.

413

"Deled dy Deyrnas."

87. 87. 47.

- 1 **D**UW, teyrnasa ar y ddaear,
 O'r gorllewin bell i'r de ;
 Cymer feddiant o'r ardaloedd
 Pellaf, twllaf, is y ne' ;
 Haul cyfiawnder,
 Llanw'r ddaear fawr â'th ras.
- 2 Doed yr India fawr gyfoethog,
 Heddiw dan dywyllwch sydd,
 I gael gweld efengyl hyfryd
 Yn dwyn drosodd olau'r dydd :
 Nes bod heddwch
 Yn teyrnasu o fôr i fôr.
- 3 Taened gweinidogion bywyd
 Iechydwrïaeth Iesu ar led ;
 Cluded moroedd addewidion
 Drosodd draw i'r rhai di-gred :
 Aed efengyl
 Ar adenydd dwyfol wynt.
- 4 Doed preswylwyr yr anialwch,
 Doed trigolion bro a bryn,
 Doed y rhai sydd ar y cefnfor
 I garu'r iechydwrïaeth hyn ;
 Nes bod atsain
 Moliant yn amgylchu'r byd.

W.

414

Llwyddiant y Newyddion Da.

87. 87. 47.

- 1 **A**ED newyddion iechydwrïaeth
 Ar adenydd dwyfol wawr,
 I ororau eang helaeth,
 I eithafoedd daear lawr ;
 Brysied bore
 Jiwbil ddydd efengyl gras.
- 2 Llifed ffrwd y dyfroedd bywiol
 Ddaeth dan riniog teml yr Iôn,
 Afon bur o'r orsedd rasol,
 Glân orseddfainc Duw a'r Oen ;
 Ei rhinweddau
 Sy'n dwyn bywyd yn lle gwae.
- 3 Aed effeithiol addewidion
 Dwyfol hyd eithafoedd byd ;
 Aent i gasglu prynedigion
 Iesu ato Ef i gyd ;
 Ffrwyth ei lafur,
 I'w ddiwallu byth, Amen !

T.J.

415

Ffrwyth Marwolaeth Crist.

87. 87. 47.

- 1 **A**R y groes dyrchafwyd Iesu,
 Fel y sarff ar drostan hir ;
 Ac fe dynn aneirif luoedd
 Ato'i Hun o fôr a thir ;
 Byth ni cholli'r
 Neb a gredo ynddo Ef.
- 2 Fe gaiff Iesu fyrdd o ddeiliaid
 O bob cenedl is y nef ;
 At ei draed yn ufudd deuant,
 Hwyl a'i gwasanaethant Ef ;

Bydd eu nifer
Megis gwllith y bore wawr.

P.J.

416

Brenhiniaeth Crist.

87. 87. 47.

- 1 **H**OLL deyrnasoedd byd yn gyfan
Sydd yn eiddo'n Harglwydd ni ;
Ei lywodraeth sydd yn eang,
Mae ei enw uwch pob bri ;
Boed yn amlwg
Ei ogoniant Ef a'i ras.

- 2 Iesu, estyn dy deyrnwialen
Dros derfynau eitha'r byd ;
Cod dy faner at y bobloedd,
Atat tyn y rhain i gyd ;
Gan bob llygad
Gweler iechydwrriaeth Duw.

P.J.

417

Llwyddiant y Genadwri.

87. 87. 47.

- 1 **A**RGLWYDD, arddel dy genhadon
Sy'n cyhoeddi gwaed y groes,
Fel y byddo helaeth gasglu
Gwerthfawr ffrwythau angau loes ;
Nef a daear
A fo'n cyd-ddyrchafu clod.
- 2 Enw'r Iesu elo'n glodfawr
Hyd ynysoedd pella'r byd,
Fel y delo myrdd i'w garu,
Gorffwys ar ei angau drud ;
Rhoed myrddiynau
Heirdd goronau ar ei ben.

AN.

418

"A hi yn dyddhau."

87. 87. 47.

1 **W**EDI oesoedd maith o dwllwch,
 Mae'r argoelion yn amlhau
 Fod cysgodau'r nos yn cilio,
 A'r boreddydd yn nesáu ;
 Haul Cyfiawnder,
 Aed dy lewyrch dros y byd.

2 Mae rhyw gynnwrf yn y gwledydd
 Gyda thaeniad golau dydd,
 Sŵn carcharau yn ymagor—
 Caethion fyrdd yn dod yn rhydd :
 Haul Cyfiawnder,
 Aed dy lewyrch dros y byd.

3 Nid oes aros, nid oes orffwys
 Mwyach, i genhadau'r nef,
 Nes cael holl dylwythau'r ddaear
 I'w oleuni hyfryd Ef :
 Haul Cyfiawnder,
 Aed dy lewyrch dros y byd.

T.R.

419

Llwyddiant yr Efengyl.

87. 87. 67.

1 **T**YRED, Iesu, i'r ardaloedd,
 Lle teyrnasa tywyll nos ;
 Na foed rhan o'r byd heb wybod
 Am dy chwerw angau loes ;
 Pam bydd poen addfwyn Oen
 Amdano'n eitha'r byd heb sôn ?

2 Aed i'r dwyrain a'r gorllewin,
 Aed i'r gogledd, aed i'r de,
 Roddi hoelion dur cadarnaf
 Yn ei draed a'i ddwylaw E' :
 Doed ynghyd eitha'r byd
 I weld tegwch d'wlyneb-pryd.

- 3 Doed Paganiaid yn eu twllwch,
 Doed y Negro dua'u lliw,
 Doed addolwyr yr eilunod
 I weld tegwch Iesu'n Dduw ;
 Deued llu heb ddim rhi'
 Fyth i ganu am Galfari.

w.

420

Gorfoledd Nef a Daear.

87. 87. D.

- 1 **M**I debygaf clywaf heddiw
 Sŵn caniadau draw o bell,
 Torf yn moli am waredigaeth,
 Ac am ryddid llawer gwell ;
 Gynau gwynion yw eu gwisgoedd
 Palmwydd hyfryd yn eu llaw,
 A hwy ânt gyd â gogoniant
 'Mewn i'r bywyd maes o law.
- 2 Minnau bellach orfoleddaf
 Fod y Jiwbil fawr yn dod,
 Y cyflawnir pob rhyw sillaf
 A lefarodd Iesu erioed ;
 De a gogledd yn fyrddiynau
 Ddaw o eithaf tywyll fyd,
 Gyda dawns ac utgyrn arian,
 'Mewn i Salem bur ynghyd.

w.

421

Gwaredigaeth trwy Grist.

87. 87. D.

- 1 **M**EWN anialwch 'r wyf yn trigo,
 Temtasiynau ar bob llaw,
 Heddiw, tanllyd saethau yma,
 Fory, tanllyd saethau draw ;
 Minnau'n gorfod aros yno,
 Yn y canol, rhwng y tân ;
 Tyrd, fy Nuw, a gwél f'amgylchiad,
 Yn dy allu tyrd ymlaen.

- 2 Marchog, Iesu, yn llwyddiannus,
 Gwisg dy gleddau 'ngwasg dy glun ;
 Ni all daear dy wrthnebu,
 Chwaith nac uffern fawr ei hun :
 Mae dy enw mor ardderchog,
 Pob rhyw elyn gilia draw ;
 Mae dy arswyd trwy'r greadigaeth ;
 Tyrd am hynny maes o law.
- 3 Tyn fy enaid o'i gaethiwed,
 Gwawried bellach fore ddydd,
 Rhwyga'n chwilfriw ddorau Babel,
 Tyn y barrau heyrn yn rhydd ;
 Gwthied caethion yn finteioedd
 Allan, megys tonnau llif,
 Torf a thorf, dan orfoleddu,
 Heb na diwedd fyth na rhif.

W.

422

Y Byd yn eiddo Crist.

886. 886.

- 1 'R WY'N gweld o bell y dydd yn dod,—
 Bydd pob cyfandir is y rhod
 Yn eiddo Iesu mawr ;
 A holl ynysoedd maith y môr
 Yn cyd-ddyrchafu mawl yr Iôr,
 Dros wneub daear lawr.
- 2 Mae teg oleuni blaen y wawr
 O wlad i wlad yn dweud yn awr
 Fod bore ddydd gerllaw ;
 Mae pen y bryniau'n llawenhau,
 Wrth weld yr haul yn agosáu,
 A'r nos yn cilio draw.

W.H.W.

423

Y Llef Ddistaw Fain.

886. 886.

- 1 O'R nef fe ddaeth llef ddistaw fain,
 Hyfrytaf a phereiddiaf sain,
 Trwy barthau'r ddaear gron ;

- Ac er distawed yw y llef,
Caiff pawb ei chlywed is y nef ;
Mae Duw ei Hun yn hon.
- 2 Llef radlawn yw, a melys iawn ;
Cyhoeddiad o faddeuant llawn
I'r euog gwael ei wedd ;
Gwahoddiad i'r anghenus rai
At bob cyflawnder heb ddim trai ;
Hon yw efengyl hedd.
- 3 Mae'n meddalhau'r afrywiog fron ;
Ewyllys dyn a ennill hon,
Heb orthrech, cur, na thrais ;
Hon yw'r newyddion gorau 'rioed :
I Dduw a'r Oen gogoniant boed
Byth am yr hyfryd lais.
- 4 Aed sain efengyl cyn bo hir
I'r dwyrain a'r gorllewin dir,
Y gogledd oer, a'r de ;
O ! profed pawb effeithiau hon,
Y byd fo'n plygu ger ei bron,
A llwydded ym mhob lle.

P.J.

424

Dros Iesu Grist.

888. 4.

- 1 **C**OFIA'R cenhadon, dirion Dad,
Sydd heddiw 'mhell o dir eu gwlad,
Yn dweud am ffordd y cymod rhad
Dros Iesu Grist.
- 2 Rho yn eu genau newydd gân,
Llanwer hwynt oll â'r Ysbryd Glân,
Rho iddynt nerth i fod ar dân
Dros Iesu Grist.
- 3 Na foed un enaid is y nef
Heb wybod am ei gariad Ef ;
O ! doed y ddaear yn un llef
At Iesu Grist.

W.N.W.

425

O ! tyred Di, Emmaniwel.

88. 88. 88.

- 1 **O** ! TYRED Di, Emmaniwel,
A datod rwy mau Isrâel
Sydd yma'n alltud unig trist,
Hyd ddydd datguddiad Iesu Grist ;
O ! cân, O ! cân : Emmaniwel
Ddaw atat ti, O ! Isrâel.
- 2 O ! tyrd, Flaguryn Jesse'n awr,
A dryllia allu'r gelyn mawr ;
Rho fuddugoliaeth trwy dy wedd
Ar uffern ddofn, ac ofn y bedd :
O ! cân, O ! cân, &c.
- 3 O ! tyred, Olau'r Seren Ddydd,
Diddana ein calonnau prudd :
O ! gwasgar ddu gymylau braw,
A chysgod angau gilia draw :
O ! cân, O ! cân, &c.
- 4 O ! tyrd, Fab Dafydd, agor Di,
Yn llydain byrth y nef i ni :
Palmanta'r ffordd sy'n arwain fry,
A chau holl lwybrau pechod hy :
O ! cân, O ! cân, &c. *O'r Lladin, c. J.V.L.*

426

Goruchafiaeth yr Efengyl.

98. 98. D.

- 1 **D**AW miloedd ar ddarfod amdanynt
O hen wlad Assyria cyn hir,
Preswylwyr yr Aifft ac Ethiopia,
At Grist y Gwardedwr yn wir ;
Cyflawnir y proffwydoliaethau,
Daw'r holl addewidion i ben,
Fe dynnir myrddiynau at Iesu
Ddyrchafwyd rhwng daear a nen.

- 2 Yr holl freniniaethau a dreulir,
 A'r ddelw falurir i lawr ;
 Y garreg a leinw'r holl wledydd,
 Ei chynnydd fel mynydd fydd mawr :
 Ceir gweled cenhedloedd y ddaear
 Yn dyfod o bedwar cwr byd ;
 Ymfyn y ffordd tua Seion
 Y bydd ei drigolion i gyd.

P.J.

427

Helaethiad y Deyrnas.

98. 98. D.

- 1 **H**ELAETHA derfynau dy deyrnas,
 A galw dy bobol ynghyd ;
 Datguddia dy haeddiant anfeidrol
 I'th eiddo, Iachawdwr y byd.
 Cŵymp anghrist, a rhwyga ei deyrnas,
 O ! brysied a deued yr awr ;
 Disgynned Jeriwsalem newydd
 I lonni trigolion y llawr.
- 2 Eheda, efengyl, dros ŵyneb
 Y ddaear a'r moroedd i gyd,
 A galw dy etholedigion
 O gyrrau eithafoedd y byd.
 O ! brysia'r cyfarfod heb lygredd,
 Na rhyfel, na chystudd, na phoen,
 Dydd Jiwbil yr etholedigion,
 A chydetifeddion â'r Oen.

M.R.

428

O ! heda, Efengyl Dragwyddol.

98. 98. D.

- 1 **O** ! HEDA, efengyl dragwyddol,
 Ar gyflym adenydd y wawr,
 Nes cilio o'r noson gaddugol,
 A'r fagddu orchuddia y llawr ;

Cyfoded gogoniant yr Arglwydd
 Ar Seion, preswylfa Duw Iôr,
 Nes llenwi y ddaer â sancteiddrwydd,
 A " throi lluosowgrwydd y môr."

- 2 Pwy ydyw'r rhai hyn a ehedant
 I demel Jeriwsalem wiw ?
 Fel gwyn golomennod dychwelant
 I harddu ffenestri fy Nuw ;
 Cenedloedd o Aifft eu caethiwed
 Sy'n dyfod i weled y wawr ;
 Brenhinoedd offrymant eu teyrnged
 Wrth orsedd Emmaniwel mawr.
- 3 Ym mynydd yr Arglwydd y gwelir
 Dylifiad y bobloedd o bell,
 A sŵn eu Hosanna a glywir
 Yn esgyn i'r Ganaan sydd well ;
 Fel llef dyfroedd lawer yn torri
 Bydd moliant Emmaniwel mawr ;
 Y ddaear yn esgyn i fyny,
 A'r nefoedd yn disgyn i lawr.

J.T.J.

429

Bywha dy Waith.

10. 10. 10. 10.

- 1 **M**AE Seion wan yn griddfan dan y groes,
 Yn disgwyl gwawr, ar lawr dan lawer loes ;
 Bywha dy waith, ni phery 'nhaith yn hir ;
 'R wy'n ofni'r bedd cyn gweld dy wedd yn wir.

D.JO.

430

Eheda, Efengyl.

11. 11. 12. 11. 12. 12.

- 1 **E**HEDA, eheda, efengyl dragwyddol,
 Ar adain y wawr, yn gyflym, yn nerthol :
 Cyhoedda trwy'r hollfyd fod cymod â'r nefoedd,
 Darostwng yn rasol gyndynrwydd y bobloedd ;
 O ! dwed am yr Iawn, sy'n clirio'r euoca',
 A'r ffynnon wna'r Ethiop yn wyn fel yr eira.

- 2 Gwna'r gwylltiaid yn araf, a'r creulon yn dirion—
 Â chymod y nef gwna heddwch rhwng dynion ;
 Cyhoedda faddeuant i'r euog, a thywys
 Y crwydraid cyfeiliorn yn ôl i baradwys ;
 O ! dwed am yr Iawn, sy'n clirio'r euoca',
 A'r fyfnonn wna'r Ethiop yn wyn fel yr eira.

D.C.

Y BYWYD CRISTIONOGOL.

431

Y Cyfamod Disigl.

M. B.

- 1 **O** ! ARGLWYDD, clyw fy llef,
 'R wy'n addef wrth dy draed
 Im fynych wrthod Iesu cu.,
 Dirmygu gwerth ei waed
- 2 Ond gobaith f'enaïd gwan,
 Wrth nesu dan fy mhwn,
 Yw haeddiant mawr yr aberth drud :
 Fy mywyd sydd yn hwn.
- 3 A thrwy ei angau drud
 Gall pawb o'r byd gael byw :
 Am hyn anturiaf at ei draed—
 Fy annwyl Geidwad yw.
- 4 Ni wrthyd neb a ddaw,
 Ei air sydd yn ddi-lyth :
 Er symud o'r mynyddoedd draw,
 Saif ei gyfamod byth.

C. WESLEY, C.

432

Gorchwyl Bywyd.

M. B.

- 1 **F**Y ngorchwyl yn y byd
 Yw gogoneddu Duw,
 A gwylio dros fy enaid drud
 Yn ddiwyd tra fwyf byw.

- 2 Fe'm galwyd gan fy Nuw
I wasanaethu f'oes ;
Boed im ymroi i'r gwaith, a byw
I'r Gŵr fu ar y groes.
- 3 Rho nerth, O ! Dduw, bob dydd
I rodio ger dy fron,
I ddyfal ddilyn llwybrau'r ffydd
Wrth deithio'r ddaear hon.
- 4 Rhof arnat Ti fy mhwys
Rhag imi ŵyro o'm lle ;
Dysg im weddio a gwylio'n ddwys
Nes gorffwys yn y ne'. C. WESLEY, c. W.O.E.

433

Rhodio gyda Duw.

M. B.

- 1 YN wastad gyda Thi
Dymunwn fod, fy Nuw,
Yn rhodio gyda Thi 'mhob man,
Ac yn dy gwmni'n byw.
- 2 Y bore gyda Thi,
Pan ddychwel gofal byd :
Gad imi ddechrau gwaith pob dydd
Yng ngolau d'ŵyneb-pryd.
- 3 Dymunwn yn y dorf
Fod gyda Thi'n barhaus ;
Yn sŵn y ddaear, rhof fy mryd
Ar wrando'r hyfryd lais.
- 4 A phan dywylla'r nos,
Fy Arglwydd, gad i mi
Mewn heddwch gau amrantau blin
O dan dy adain Di.

- 5 Yn wastad gyda Thi,
Ac ynot ym mhob man :
Wrth fyw, wrth farw, gyda Thi :
Bydd imi byth yn rhan.

J. D. BURNS, C. H.E.L.

434

Megis y rhodiodd Ef.

M. B.

- 1 **D**ILYNAF Iesu mawr ;
Wrth ddilyn ôl ei droed,
Er gwanned wyf, ni fethaf byth—
Ni fethodd neb erioed.
- 2 Er rhuo'r storom gref,
Nid ofnaf ymchwydd hon :
Mae'r Iesu'n dysgu perchen ffydd
I rodio ar y don.
- 3 Ei allu dwyfol roed
I nerthu f'enaïd trist ;
Caf sathru Satan dan fy nhroed
Wrth ddilyn Iesu Grist.

J.C.D.

435

Pwyso ar Ffyddlondeb Duw.

M. B. D.

- 1 **'R**WY'N ofni f'nerth yn ddim
Pan elwy' i rym y don :
Mae terfysg yma cyn ei ddod,
A syndod dan fy mron :
Mae ofnau o bob rhyw,
Oll fel y dilyw 'nghyd,
Yn bygwth y ca'i 'nhorri i lawr,
Pan ddêl eu hawr ryw bryd.
- 2 A minnau sydd am ffoi,
Neu ynteu droi yn ôl,
Yn methu credu saif i'r lan
Un truan, gwan, a ffôl ;

Ac eto'r wyf o hyd
 Yn symud peth ymlaen :
 Nid fi yw'r cyntaf eiddil ŵr
 Goncwerodd ddŵr a thân.

- 3 'R wyf yn terfynu 'nghred,
 'N ôl pwyso oll ynghyd,
 Mai cyfnewidiol ydyw dyn,
 Ond Duw sy'r un o hyd ;
 Ar ei ffyddlondeb Ef,
 Sy'n noddfa gref i'r gwan,
 Mi gredaf dof, 'mhen gronyn bach,
 O'r tonnau'n iach i'r lan.

- 4 Cyfiawnder marwol glwyf,
 A haeddiant dwyfol loes,
 Y pris, y gwerth, yr aberth drud,
 A dalwyd ar y groes,
 A gliria 'meiau'n llwyr,
 A'm gylch yn hyfryd lân ;
 Ac nid oes arall dan y nef
 A'm nertha i fynd ymlaen.

w.

436 "Bydd Drugarog wrthyf, Bechadur."

M. B. D.

- 1 'R WY'N gorwedd dan fy mhwn,
 Yn isel wrth dy draed,
 Yn adde' 'mod yn waelach dyn
 Nag eto un a gaed ;
 Rhyw ddyfnder sy'n fy nghlwy'
 Mwy nag a ddeall dyn,
 Ac nid oes yn f'adnabod i
 Neb ond Tydi dy Hun.
- 2 O ! boed maddeuant rhad,
 Yn hyfryd waed yr Oen,

Yn destun moliant ym mhob man
 I mi sydd dan fy mhoen ;
 Yr anthem faith ei hyd
 Fo i gyd am Galfari ;
 A'r iechydwrïaeth fawr ei dawn
 Roed un prynhawn i ni.

W.

437

Hyder yn Nuw.

M. B. D.

- 1 **W**EL, f'enaïd, dos ymlaen,
 'D yw'r bryniau sydd gerllaw
 Un gronyn uwch, un gronyn mwy,
 Na hwy a gwrddaist draw :
 Dy anghrediniaeth gaeth,
 A'th ofnau maith eu rhi',
 Sy'n peri it feddwl rhwystrau ddaw
 Yn fwy na rhwystrau fu.
- 2 'R un nerth sydd yn fy Nuw,
 A'r un yw geiriau'r nef,
 'R un gras, a'r un ffyddlondeb sy
 'N cartrefu ynddo Ef :
 Fy ngwendid o bob math,
 A'm llygredigaeth cry',
 Ni threchant, er eu natur gas,
 Hyd fyth mo'r gras sydd fry.
- 3 Mi welaf fyrdd dan sêl,
 Fu'n ofni fel fy hun,
 'N awr wedi dringo'r creigiau serth,
 I gyd trwy nerth yr Un ;
 Yn canu'r ochor draw,
 Heb arnynt fraw na phoen,
 Ganiadau hyfryd Calfari,
 Dioddefaint addfwyn Oen.

W.

438

Cynhaliaeth ar y Daith.

M. B. D.

- 1 **C**HWI, bererinion glân,
 Sy'n mynd tua'r Ganaan wlad,
 Ni thariaf innau ddim yn ôl,
 Dilynaf ôl eich traed ;
 Nes mynd i Salem bur
 Mewn cysur llawn i'm lle :
 O ! Ffrind troseddwy, moes dy law,
 A thyn fi draw i dre'.
- 2 Mi ges arwyddion gwir
 O gariad pur fy Nuw ;
 Ei ras a'i dawel hyfryd hedd ;
 I'm henaid, rhyfedd yw ;
 Ymhell o'r babell hon
 Mae 'nghalon gydag E' ;
 O ! Ffrind troseddwy, moes dy law,
 A thyn fi draw i dre'.
- 3 Mae'r manna wedi'i gael
 Mewn dyrys anial dir ;
 Ymborthi caf, ond mynd ymlaen,
 Ar ffrwythau'r Ganaan bur ;
 Mae yno sypiau grawn
 Yn llawn o fewn i'r lle ;
 O ! Ffrind troseddwy, moes dy law,
 A thyn fi draw i dre'.

W.

439

Pererindod y Cristion.

M. B. D.

- 1 **F**Y ngweddi, dos i'r nef,
 Yn union at fy Nuw,
 A dywed wrtho Ef yn daer,
 " Atolwg, Arglwydd, clyw !
 Gwna'n ôl d'addewid wych
 I'm dwyn i'th nefoedd wen ;
 Yn Salem fry partô fy lle
 Mewn llys o fewn i'r llen."

- 2 Pererin llesg a llaith,
Dechreuais daith oedd bell,
Trwy lu o elynion mawr eu brad,
Gan geisio gwlad sydd well ;
Am ffoi mae f'enaid tlawd
At f'annwyl Frawd a'm Pen ;
Yn Salem fry partô fy lle
Mewn llys o fewn i'r llen.
- 3 Yng nglyn wylofain trist,
Lle bu fy Nghrist, 'r wy'n byw ;
Ac wrth ryfela â'm gelyn caeth
Fy nghalon aeth yn friw ;
Iachâ bob clwyf a brath
Â dail y bywiol bren ;
Yn Salem fry partô fy lle
Mewn llys o fewn i'r llen.
- 4 Mae 'mrodyr uwch y nen
Yn canu ar ben eu taith ;
A minnau oedais lawer awr
Ar siwrnai fawr a maith ;
Ond bellach tyn fi'n ddwys,
Ar Grist dod bwys fy mhen ;
Yn Salem fry partô fy lle
Mewn llys o fewn i'r llen.

W.

440

Awyddfryd y Cristion.

M. B. D.

- 1 **M**AE arnaf eisiau sêl
I'm cymell at dy waith,
Ac nid rhag ofn y gosb a ddêl,
Nac am y wobor chwaith ;
Ond gwir ddymuniad llawn
Dyrchafu cyfiawn glod
Am iti wrthyf drugarhau,
Ac edrych arna'i 'rioed.

D.J.

441

Dilyn y Praidd.

M. B. D.

- 1 **P**ERERIN wy'n y byd,
 Ac alltud ar fy hynt,
 Sy'n ceisio dilyn ôl y praidd—
 Y tadau sanctaidd gynt ;
 I 'mofyn gwlad sy well,
 Er 'mod i 'mhell yn ôl,
 Trwy gymorth gras, ymlaen mi af,
 Dilynaf innau'u hôl.
- 2 Os rhaid ymdrechu dro,
 Milwrio a chario'r groes,
 A mynd dan wawd a gwg y byd,
 Dros ennyd fer fy oes ;
 Caf goron gyda'r saint,
 Tragwyddol ffraint sy'n ôl ;
 Trwy gymorth gras, ymlaen mi af,
 Dilynaf innau'u hôl.

D.J.

442

SALM LI. 1, 2, 7, 8.

M. B. C.

- 1 **T**RUGAREDD dod i mi,
 Duw, o'th ddaioni tyner ;
 Tyn ymaith fy anwiredd mau,
 O'th drugareddau lawer.
- 2 A golch fi yn llwyr ddwys
 Oddi wrth fawr bwys fy meiau ;
 Fy Arglwydd, gwna'n bur lân fyfi,
 Rhag brynti fy nghamweddau.
- 3 Ag isop golch fi'n lân,
 Ni byddaf affan mwyach ;
 Ond byddaf wedi'r golchi hyn
 Fel eira gwyn, neu wynnach.

- 4 Pâr imi weled heddd,
Gorfoledd a llawenydd,
I adnewyddu f'esgyrn i,
A ddrylliaist Ti â cherydd. E.P.

443

SALM LI. 10, 12, 15, 17, 18.

M. B. C.

- 1 **D**UW, crea galon bur,
Dod imi gysur beunydd ;
I fyw yn well tra fwy'n y byd,
Dod ynof ysbryd newydd.
- 2 Gorfoledd dwg i mi
Drwy rod-di im dy iechyd ;
A chynnal â'th ysbrydol ddawn
Fi i fyw'n uniawn hefyd.
- 3 Duw, agor y min mau,
Â'm genau mi a ganaf,
O ! Arglwydd, gerdd o'th fawl a'th nerth,
Wel dyna'r aberth pennaf.
- 4 Aberthau Duw i gyd
Yw ysbryd pur drylliedig ;
Ac ni ddiystyri, O ! Dduw Iôn,
Y galon gystuddiedig.
- 5 Bydd dda wrth Seion fryn,
O ! Arglwydd, hyn a fynni ;
Ac wrth Gaersalem, dy dref-tad,
A gwna adeilad arni. E.P.

444

Un peth a ddeisyfais i.

M. B. C.

- 1 **U**N fendith dyro im,
Ni cheisiaf ddim ond hynny ;
Cael gras i'th garu di tra fwy',
Cael mwy o ras i'th garu.

- 2 Ond im dy garu'n iawn,
Caf waith a dawn sancteiddiach ;
A'th ganlyn wnafl bob dydd yn well,
Ac nid o hirbell mwyach.
- 3 A phan ddêl dyddiau dwys,
Caf orffwys ar dy ddwyfron ;
Ac yno brofi gwin dy hedd,
A gwledd dy addewidion.
- 4 Dy garu, digon yw,
Wrth fyw i'th wasanaethu ;
Ac yn oes oesoedd ger dy fron
Fy nigon fydd dy garu.

E.W.

445

Gras, y Trysor Gorau.

M. C.

- 1 **M**AE pob pleserau is y rhod
Yn darfod maes o law ;
'R wyf innau'n brysio yn ddi-oed
I'r byd sy'r ochor draw.
- 2 Pe bawn yn meddu aur Periw
A pherlau'r India bell,
Gwreichionen fach o ras fy Nuw
Sydd drysor canmil gwell.
- 3 Gwell gennyf na phleserau'r byd
Un funud o fwynhau
Gwedd Iesu hardd, a rydd o hyd
Wir fywyd i barhau.
- 4 Dymunwn roi ffarwél yn lân
I holl deganau'r llawr,
A 'mroi trwy ras i fynd ymlaen
Ar ôl fy Mhrynwr mawr.

W.L.

446

Y Pur o Galon.

M. C.

- 1 **R**HO imi galon lân, O ! Dad,
I foli d'enw Di ;
Calon yn teimlo rhin y gwaed
Dywalltwyd dros of fi.
- 2 Calon fo wedi'i meddu'n glau
Gan Iesu iddo'i Hun,
Calon fo'n demel i barhau
I'r bythol Dri yn Un.
- 3 Calon ar ddelw'r Hwn a'i gwnaeth—
Yn llawn o'i gariad Ef,
Yr hon yn Nuw all lawenhau
Yn un â theulu'r nef.
- 4 Mwy ni fodlona 'nghalon i
Nes imi weld dy wedd,
Ymgadw yn dy gariad Di,
A gorffwys yn dy hedd.

C. WESLEY, c.

447

O Ddydd i Ddydd.

M. C.

- 1 **A**R yrfa bywyd yn y byd,
A'i throeon enbyd hi—
O ddydd i ddydd addawodd Ef
Oleuni'r nef i ni.
- 2 Fy enaid, dring o riw i riw,
Heb ofni briw na haint ;
Yn ôl dy ddydd y bydd dy nerth
Ar lwybrau serth y saint.
- 3 Y bywyd uchel wêl ei waith
Ar hyd ei daith bob dydd ;
A'r sawl yn Nuw a ymgryfha
A gaiff orffwysfa'r ffydd.

- 4 O ddydd i ddydd ei hedd a ddaw,
Fel gwllith ar ddistaw ddôl :
A da y gŵyr ei galon ef
Fod gorau'r nef yn ôl.
- 5 Wel, gorfoledded teulu'r ffydd
Yn llafar iawn eu llef,
Cyhoedded pawb o ddydd i ddydd
Ei iechydwrïaeth Ef.

J.T.J.

448

Cri yr Edifeiriol.

M. C.

- 1 O ! DDUW, 'r wy'n disgwyl wrth dy ddôr,
Garcharor gwael ei wedd ;
O ! gwasgar Di fy ofnau llym,
A dyro im dy hedd.
- 2 Fy Nuw, a roddes hedd i ddyn,
Dy Hun datguddia i mi ;
A than dy adain, Arglwydd da,
Boed noddfa f'enaïd i.
- 3 Yr heddwch sydd uwch deall dyn
I adyn euog dod ;
A llanw fi, fy Mhrynwr rhad,
Â'th gariad is y rhod.
- 4 O ! adfer f'enaïd trwy dy ras,
Rho flas maddeuant gwiw,
A llwyr gymhwysa fi, O ! Dad,
I'r nefol wlad i fyw.

C. WESLEY, C.

449

"O'r dyfnder y llefaïs arnat."

M. C.

- 1 O DDYFNDER llygredigaeth du
'R wyf yn cyfodi llef ;
Drugarog Arglwydd, clyw fy nghri
A'm gweddi yn y nef.

- 2 Os creffi ar anwiredd, Iôn,
Pwy ger dy fron a sai' ?
Ond mae trugaredd gyda thi
I mi, er maint fy mai.
- 3 Fel gwyliwr am y bore wawr
'Rwy'n disgwyl 'n awr, fy Nuw ;
O ! dyro imi cyn fy medd
Gael gweld dy wedd, a byw.
- 4 Y mae maddeuant gyda Thi
Ar gyfri' marwol glwy',
Fel y bwy'n d'ofni yn ddi-lyth,
Heb byth dy ddigio mwy. C. WESLEY, c.

450

Melyster Cariad at Grist.

M. C.

- 1 O ! DEFFRO'N fore, f'enaïd gwan,
Ar doriad cynta'r dydd,
A llwyr gysegra ddyddiau d'oes
I'r gwrthrych gorau sydd.
- 2 Caf yfed yma gariad pur,
Na phrofodd cnawd mo'i ryw,
Ac ymddifyrru uwch y byd,
Ar bur bleserau 'Nuw.
- 3 Uwch cyrraedd pob serchiadau gwael
Yw'r cariad pur ei flas
Ag sydd yn llifo'n loyw ffrwd
O iechydwriaeth gras.
- 4 Yma dymunwn dreulio f'oes,
O fore hyd brynhawn ;
Lle cawn i wŷlo cariad pur
Yn ddagrau melys iawn.

451

Cyflawnder Gras.

M. C.

- 1 **M**AE 'ngolwg acw tua'r wlad
 Lle mae fy heddwch llawn :
 O ! am gael teimlo'i gwleddoedd pur
 O fore hyd brynhawn.
- 2 'D oes dim difyrrwch yma i'w gael
 A leinw f'enaid cu ;
 Ond mi ymborthaf ar y wledd
 Sydd gan angylion fry.
- 3 Mi yfaf ddŵr y ffynnon glir
 O dan y faine sy'n dod ;
 Ac y mae rhinwedd ynddo'n llawn,
 A adfer nerth i'm troed.
- 4 'Ddiffygiaf ddim, er cyd fy nhaith,
 Tra pery gras y nef ;
 Ac er cyn lleied yw fy ngrym,
 Mae digon ynddo Ef.
- 5 Mae'r iechydwriaeth fel y môr,
 Yn chŵyddo fyth i'r lan ;
 Mae yma ddigon, digon byth,
 I'r truan ac i'r gwan.

w.

452

Testament ein Tad.

M. C.

- 1 **M**AE'N henwau'n sgrifenedig fry
 Yn llyfr y bywyd mawr ;
 Ni ddichon Satan a'i holl lu
 Oddi yno'u tynnu i lawr.
- 2 Er tloted ydym ni yn awr,
 Er gwaelled yw ein gwedd,
 Mae inni etifeddiaeth fawr
 Yr ochor draw i'r bedd.

- 3 Plant ydym eto dan ein hoed
Yn disgwyl am y stad ;
Mae'r etifeddiaeth inni'n dod
Wrth destament ein Tad.
- 4 Am hynny, blant, na fyddwn drist,
Yn hytrach llawenhawn :
Cydetifeddion fym â Christ,
Rhan o'i ogoniant cawn.

D.J.

453

Grym Crefydd.

M. C.

- 1 N'AD im fodloni ar ryw rith
O grefydd, heb ei grym ;
Ond gwir adnabod Iesu Grist
Yn fywyd annwyl im.
- 2 Dy gariad cryf rho'n f'ysbryd gwan
I ganlyn ar dy ôl ;
Na chaffwyf drigfa mewn un man
Ond yn dy gynnes gôl.
- 3 Goleuni'r nef fo'n gymorth im,
I'm tywys yn y blaen ;
Rhag imi droi oddi ar y ffordd,
Bydd imi'n golofn dân.

D.M.

454

Na wrthod fi.

M. C.

- 1 A T Un a wrendy weddi'r gwan
'R wyf yn dyrchafu 'nghri ;
Ym mhob cyfyngder, ing, a phoen,
O ! Dduw, na wrthod fi.
- 2 Er mor annheilwng o fwynhau
Dy bresenoldeb Di,
A haeddu 'mwrw o ger dy fron,
O ! Dduw, na wrthod fi.

- 3 Pan fo 'nghydnabod is y nen
Yn cefnu arna'i'n rhi',
A châr a chyfaill yn pellhau,
O ! Dduw, na wrthod fi.
- 4 Er bod yn euog o dristáu
Dy Ysbryd Sanctaidd Di,
A themtio dy amynedd mawr,
O ! Dduw, na wrthod fi.
- 5 Er mwyn dy grog a'th angau drud
Ar fynydd Calfari,
A'th ddwys eiriolaeth yn y nef,
O ! Dduw, na wrthod fi.
- 6 Pan fwy'n wnebu ymchwydd cryf
Iorddonen ddofn ei lli,
A theithio'n unig drwy y glyn,
O ! Dduw, na wrthod fi.
- 7 A'r pryd y deui yr ail waith,
Mewn mawredd, parch, a bri,
I farnu'r byw a'r marw 'nghyd,
O ! Dduw, na wrthod fi.

E.E.

455

Ofn digio Duw.

M. C.

- 1 O ! ARGLWYDD, moes im dduwiol ofn
Rhag pechu i'th erbyn mwy ;
A phan ddél temtasiynau, rho
Dy nerth i'w concro hwy.
- 2 N'ad imi mwyach, tra fwyf byw,
Lân Ysbryd Duw dristáu ;
Ond bydded fy nghydwylbod i
Yn dyner i barhau.

- 3 Os troi i'r dde neu'r aswy wnafl,
 O ! argyhoedda'n llym,
 A boed im wŷlo dagrau dwys,
 Heb fod gorffwysfa im.
- 4 Y trosedd lleiaf, pared boen
 I'm henaid, O ! fy Nuw ;
 A thro fi eilwaith at y gwaed
 A lwyr iachâ fy mriw.

C. WESLEY, c.

456

O ! Iesu, cymer Fi.

M. C.

- 1 **O** ! BOED i'r Hwn mae iddo'r hawl
 Ein meddu oll yn oll ;
 Pob tafod rhodded iddo fawl,
 Pob calon gân ddi-goll.
- 2 Dy eiddo fŷm, O ! Iesu da,
 Gan iti'n prynu'n ddrud ;
 A byw a marw it a wna
 Y Cristion yn y byd.
- 3 Yr eiddot derbyn, Iesu gwiw,
 Rho inni weld dy wedd ;
 Boed inni er d'ogoniant fyw,
 A marw yn dy hedd.
- 4 Enaid a chorff eu rhoi a wnawn
 Yn gyflawn iti byth ;
 Cymer ohonom feddiant llawn
 I oesoedd rif y gwllith.

C. WESLEY, c.

457

Disgwyl wrth yr Addewid.

M. C.

- 1 **R** WY'N disgwyl wrth d'addewid bur,
 O'r bore hyd y nawn ;
 Ac os caf brofi'r gloyw ddŵr,
 Mi fyddaf ddedwydd iawn.

- 2 Gad imi brofi'r heddwch llawn,
Y dŵr rhinweddol gwiw
Ag sydd yn tarddu'n loyw ffrwd
O orsedd bur fy Nuw.
- 3 Rho imi yfed cariad rhad
Mewn dyrys anial dir ;
A phrofi rhinwedd dwyfol ddawn,
Cysuron gloyw clir.
- 4 Mi deithia'n ddifyr yn y blaen,
Dros greigiau serth i'r lan ;
A dof i olwg Seion bur
Yn gynnar yn y man.

w.

458

Y Serchiadau ar Grist.

M. C.

- 1 O ! CYMER fy serchiadau'n glau,
Fy Iesu, bob yr un ;
A gwna hwy yn eisteddfa bur,
Sancteiddiaf it dy Hun.
- 2 Gwna i bob meddwl, a phob chwant,
Dynnu i fyny fry,
Na wthio holl derfysgoedd byd
Fi 'maes o'th gariad cu.
- 3 Ni wnaed yr enaid hwn erioed
I garu llwch y llawr,
Ond i gael meddu'r fraint a roed
Ynghadw i'm Harglwydd mawr.

w.

459

Cyflawnder Trugaredd.

M. C.

- 1 GWELL dy drugaredd Di a'th hedd
Na'r byd, na'r bywyd chwaith ;
Ac ni all angel gyfri' eu gwerth
I dragwyddoldeb maith.

- 2 Ac mae pob peth yn eiddo im
 Heb eisiau, a heb drai ;
 Ac nid oes diffyg ddaw i'r lle
 Y ceffir dy fwynhau.
- 3 Mae pob dymuniad, a phob chwant,
 Fyth yno'n eithaf llawn ;
 A thystio'r wyf nad oes ond Duw
 A'm gwna yn ddedwydd iawn.
- 4 Doed y tymhestloedd penna' ddêl,
 Digonol gallu'r ne' ;
 A rhued moroedd dros y tir,
 Anfeidrol yw Efe.
- 5 Mi waeddaf yn y storom fawr,
 Dan donnau fwy na rhi' ;
 Ac esgyn wna fy nrylliog lef
 I entrych nefoedd fry.

w.

460

Dedwyddwch yng Nghrist.

M. C.

- 1 'R WY'N chwennych gweld ei degwch Ef,
 Sy uwch popeth is y rhod,
 Na welodd lluoedd nefoedd fawr
 Gyffelyb iddo 'rioed.
- 2 Efe yw ffynnon fawr pob dawn,
 Gwraidd holl ogoniant dyn ;
 A rhyw drysorau fel y môr
 A guddiwyd ynddo'i Hun.
- 3 'R wyf yn hiraethu am gael praw
 O'r maith bleserau sy
 Yn cael eu hyfed, heb ddim trai,
 Gan yr angylion fry.

- 4 Fe'm ganwyd i lawenydd uwch
Nag sy 'mhleserau'r llawr,
I gariad dwyfol, gwleddoedd pur
Angylion nefoedd fawr.
- 5 O ! pam na chaf fi ddechrau'n awr
Fy nefoedd yn y byd,
A threulio 'mywyd mewn mwynhad
O'th gariad gwerthfawr drud ?

w.

461

Cariad at Grist.

M. C.

- 1 'R WY'N edrych, dros y bryniau pell,
Amdanat bob yr awr ;
Tyrd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau,
A'm haul bron mynd i lawr.
- 2 Tyn fy serchiadau'n gryno iawn
Oddi wrth wrthrychau gau,
At yr un gwrthrych ag sydd fyth
Yn ffyddlon yn parhau.
- 3 'D oes gyflwr dan yr awyr las
'R wyf ynddo'n chwennych byw ;
Ond fy hyfrydwch fyth gaiff fod
O fewn cynteddau 'Nuw.

w.

462

Ymbil am Gynhaliaeth.

M. C.

- 1 Y BAICH sydd arnaf ddydd a nos,
Ac wrthyf sydd ynglŷn,
Sydd ysgafn, er ei bwysau ef,
I'th ysgwydd gref dy Hun.
- 2 O ! cymer Di fy maich a'm poen,
A'm hofnau maith i gyd ;
A rho i mi heddwch yn dy glwy',
Sydd lawer mwy na'r byd.

- 3 Fe gŵymp fy ofnau i gyd o flaen
 Dy gariad glân a'th hedd,
 Holl ddychryniadau angau hy,
 Ac uffern ddu a'r bedd.
- 4 Mae praw o'th gariad dwyfol gwir
 Fel diliau pur eu blas,
 Fe ddeil dan demtasiynau i'r lan
 Fy enaid gwan i maes.

W.

463

Serch ar Iesu.

M. C.

- 1 **N**I throf fy ŵyneb byth yn ôl
 I 'mofyn pleser gau ;
 Ond mi a gerddaf tua'r wlad
 Sy â'i phleser yn parhau.
- 2 Mae holl deganau'r ddaear hon,
 Fu gynt yn fawr eu grym,
 Yng ngŵydd fy Iesu'n gwywo i gyd,
 Ac yn diflannu'n ddim.
- 3 Y mae aroglau pur ei ras
 Fel peraroglau'r nef ;
 Ac nid oes cymar is yr haul
 Yn unlle iddo Ef.
- 4 Fe dorwyd rhyngof fi a'm chwant,
 Daeth ar fy mhleser drai ;
 Ond fy hapusrwydd perffaith yw
 Dy garu a'th fwynhau.
- 5 Fe gerdda 'nhraed yn hwylus iawn,
 Dof cyn prynhawn i'r lan ;
 Os caf fi fwyta'r gwleddoedd hyn,
 Caf ganu yn y man.

W.

464

" *Duw drosom.* "

M. C.

1 O ! TYRED, Arglwydd, saf wrth raid,
 Yn awr o blaid y gwan ;
 Mi soddaf mewn dyfnderoedd du
 Oni ddeli Di fi i'r lan.

2 Mae nerth dy ras yn llawer mwy
 Na'm beiau oll o'r bron ;
 Dy hyfryd wên sy'n abl i ladd
 Euogrwydd dan fy mron.

3 Mae ynot foroedd pur di-lyth,
 Heb ddiffyg byth, na thrai,
 O gariad anghymharol cu,
 Fyth fythoedd i barhau.

4 O ! tywallt hwn i'm henaidd gwan
 Sy'n fynych dan ei boen,
 Yn methu credu i'r goncwest rad
 Yng ngwerthfawr waed yr Oen.

W.

465

Gweddi yn yr Anialwch.

M. C.

1 PERERIN wyf mewn anial dir,
 Yn crwydro yma a thraw ;
 Ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
 Fod tŷ fy Nhad gerllaw.

2 Ac mi debygaf clywaf sŵn
 Nefolaidd rai o'm blaen,
 Wedi gorchfygu a mynd trwy
 Dymhestloedd dŵr a thân.

3 Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,
 Bydd imi'n niwl a thân ;
 Ni cherdda'i'n gywir hanner cam
 Oni byddi Di o'm blaen.

- 4 Mi wŷraf weithiau ar y dde,
 Ac ar yr aswy law ;
 Am hynny, arwain, gam a cham,
 Fi i'r Baradwys draw.
- 5 Mae hiraeth arnaf am y wlad
 Lle mae torfeydd di-ri'
 Yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes
 Am angau Calfari.

w.

466

Ymdrech a Gweddi'r Cristion.

M. C.

- 1 'R WY'N morio tua chartref Nêr,
 Rhwng tonnau maith 'r wy'n byw ;
 Yn ddyn heb neges dan y sêr
 Ond 'mofyn am ei Dduw.
- 2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro'n ôl,
 A minnau 'd wyf ond gwan ,
 O ! cymer, Iesu, fi yn dy gôl,
 Yn fuan dwg fi i'r lan.
- 3 A phan fo'n curo f'enaid gwan
 Elynion rif y sêr,
 Dyrchafa f'ysbryd llesg i'r lan
 I fynwes bur fy Nêr.
- 4 Na bo gwrthwynebiadau'r byd,
 Na chroesau o un rhyw,
 Yn f'oeri, nac yn sugno 'mryd
 Un awr oddi wrth fy Nuw.

w.

467

Fy Nhad sydd wrth y Llyw.

M. C.

- 1 A R fôr tymhestlog teithio'r wyf
 I fyd sydd well i fyw,
 Gan wenu ar ei stormydd oll—
 Fy Nhad sydd wrth y llyw.

- 2 Drwy leoedd geirwon, enbyd iawn,
A rhwystrau o bob rhyw,
Y'm dygwyd eisoes ar fy nhaith—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 3 Er cael fy nhaflu o don i don,
Nes ofni bron cael byw,
Dihangol ydwyf hyd yn hyn—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 4 Ac os oes stormydd mwy yn ôl,
Ynghadw gan fy Nuw,
Wynebaf arnynt oll yn hy—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 5 A phan fo'u hymchwydd yn cryfhau,
Fy angor, sicir yw ;
Dof yn ddiogel trwyddynt oll—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 6 I mewn i'r porthladd tawel clyd,
O sŵn y storm a'i chlyw,
Y caf fynediad llon ryw ddydd—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

E.E.

468

Gorchestion Ffydd.

M. C.

- 1 **T**RWY ffydd eheda gweddi'r gwael,
Ac yntau gyda hi ;
Tyr ei gadwynau'n chwilfriw mân
Yng ngolwg Calfari.
- 2 O'r dyfnder esgyn gweddi'r ffydd,
O eigion moroedd mawr ;
Ac o gyfamod Duw a'i wedd,
Mae'n tynnu hedd i lawr.

- 3 Trwy ffydd mae'n cadw 'nghanol tân,
Er nerth ei anian ef ;
Yng nghanol llewod, byw mae ffydd,
Â'i golwg tua'r nef.
- 4 Saif ffydd, trwy iechydwrïaeth Iôr,
Er gweled môr yn cau ;
A ffydd, â'i gwialen, gair y llw,
A rwyga hwnnw'n ddau.
- 5 Ped âi'r mynyddoedd oll i'r môr,
Yr Arglwydd Iôr yw rhan
Pob perchen ffydd, ac ato rhed
Am nodded ym mhob man.
- 6 I'r lan, o'r dyfnder du a'r don,
Daw etifeddion ffydd,
A'u cân yn un, er chwerw loes,
Am angau'r groes ryw ddydd.

R.J.

469

Yr Afael Sicraf Fry.

M. C.

- 1 **D**YWEDWYD ganwaith na chawn fyw
Gan anghrediniaeth hy ;
Ond ymddiriedaf yn fy Nuw :
Mae'r afael sicraf fry.
- 2 Cyfamod Duw a'i arfaeth gref
Yn gadarn sydd o'm tu ;
Anghyfnewidiol ydyw Ef :
Mae'r afael sicraf fry.
- 3 Er beiau mawrion, rif y dail,
A grym euogrwydd du,
Lawn ac eiriolaeth Crist yw'r sail :
Mae'r afael sicraf fry.

- 4 Rhagluniaeth fawr y nef o'm plaid,
Ei holl olwynion try ;
Agorai'r môr, pe byddai raid :
Mae'r afael sicraf fry.
- 5 Caf floeddio concwest yn y man,
Pob gelyn draw a ffy ;
Cans er nad ydwyf fi ond gwan,
Mae'r afael sicraf fry.

P.J.

470

Disgwyl wrth yr Arglwydd.

M. C.

- 1 **M**AE addewidion melys wledd,
Yn gyflawn ac yn rhad,
Yn dy gyfamod pur o hedd,
Tragwyddol ei barhad.
- 2 'R wyf innau yn dymuno dod
I'r wledd ddanteithiol fras ;
Ac felly mi gaf seinio clod
Am ryfedd rym dy ras.
- 3 O ! rhwyma fi wrth byst dy byrth,
I aros tra fwyf byw,
I edrych ar dy wedd a'th wyrth,
A'th foli Di, fy Nuw.
- 4 Tydi fo 'nghymorth parod iawn,
I'm cynnal ar fy nhaith ;
A Thi dy Hun fo 'nhrysor llawn
I dragwyddoldeb maith.

T.J.

471

Llais yr Iesu.

M. C. D.

- 1 **M**I glywais lais yr Iesu'n dweud,
"Tyrd ataf Fi yn awr,
Flinderog un, cei ar fy mron
Roi pwys dy ben i lawr."

- Mi ddeuthum at yr Iesu cu,
Yn llwythog, dan fy nghlwyf ;
Gorffwysfa gefais ynddo Ef,
A dedwydd, dedwydd wyf.
- 2 Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,
" Mae gennyf Fi'n ddi-drai
Y dyfroedd byw ; sychedig un,
O'u hyfed byw a gai."
At Iesu deuthum ; yfais i
O'r afon fywiol gref ;
Fe dorrwyd syched f'enaidd oll,
A byw wyf ynddo Ef.
- 3 Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,
" Goleuni'r byd wyf Fi ;
Tro arnaf d'olwg, tyr y wawr,
A dydd a fydd i ti."
At Iesu edrychais ; ces fy Haul
A'm Seren ynddo Ef ;
Ac yn ei olau rhodio wnaif
Nes cyrraedd draw i dref.

H. BONAR, C.

472

SALM I. 1, 2, 3.

M. S.

- 1 **Y** SAWL ni rodia, dedwydd yw,
Yn ôl drwg ystryw gyngor ;
Ni saif ar ffordd troseddwy'r ffôl,
Nid eiste'n stôl y gwatwor.
- 2 Ond ei holl serch ef fydd yn rhwydd
Ar ddeddf yr Arglwydd uchod :
Ac ar ei ddeddf rhydd, ddydd a nos,
Yn ddiddos ei fyfyrdod.
- 3 Ef fydd fel pren plan ar lan dôl,
Dwg ffrwyth amserol arno ;
Ni chrina'i ddalen, a'i holl waith
A lwydda'n berffaith iddo.

E.P.

473

SALM XXIII.

M. S.

- 1 **Y**R Arglwydd yw fy Mugail clau,
Ni ad byth eisiau arnaf ;
Gorwedd a gaf mewn porfa fras,
Ar lan dwfr gloywlas araf.
- 2 Fe goledd f'enaid, ac a'm dwg
'R hyd llwybrau diddrwg, cyfion ;
Er mwyn ei enw mawr di-llys,
Fe'm tywys ar yr union.
- 3 Pe rhodiwn, mi nid ofnwn hyn,
Yn nyffryn cysgod angau ;
Wyt gyda mi, â'th nerth a'th ffon ;
On'd tirion ydyw'r arfau ?
- 4 Gosodaist Di fy mwrdd yn fras,
Lle'r oedd fy nghas yn gweled ;
Olew i'm pen, a chwpan llawn,
Daionus iawn fu'r weithred.
- 5 O'th nawdd y daw y doniau hyn
I'm canlyn byth yn hylwydd ;
A minnau a breswyliaf byth,
A'm nyth yn nhŷ yr Arglwydd.

E.P.

474

SALM XXXVII. 4, 5, 6, 18, 19, 37.

M. S.

- 1 **B**YDD di gysurus yn dy Dduw,
Ti gei bob gwiw ddymuniad ;
Dy ffyrdd cred iddo, yn ddi-llys
Fe rydd d'ewylls atad.
- 2 Cred ynddo Ef, fe'th ddwg i'r lan,
Myn allan dy gyfiawnder ;
Mor olau â'r haul hanner dydd
Fel hynny bydd d'eglurder.

- 3 Fe edwyn Duw ddyddiau a gwaith
 Pob rhai o berffaith helynt ;
 Ac yn dragywydd Duw a wnaeth
 Deg etifeddiaeth iddynt.
- 4 Efe a'u ceidw hwynt i gyd,
 Ni chânt ar ddrygfyd wradwydd ;
 Yn amser newyn hwy a gânt
 O borthiant ddigonolrwydd.
- 5 Ystyria hefyd y gŵr pur,
 Ac edrych dŷ'r cyfiawnedd ;
 Ti a gei weled cyfryw ddyn,
 Mai'i derfyn fydd tangnefedd.

E.P.

475

"Pryn y Gwir."

M. S.

- 1 O ! PRYN y gwir, fy enaid, pryn,
 Na werth ar un amodau ;
 O holl drysorau môr a thir,
 Y gwir yw'r trysor gorau.
- 2 Y gwir fel gwregys, ar bob cam,
 Yn dynn fo am ein lwynau ;
 Y gwir ei hun a geidw'n bron
 Yn llon mewn gorthrymderau.
- 3 Rhy'r gwir im gysur dan y loes
 Pan ddelo f'oes i fyny :
 Daw hwn â'm henaid i'r pryd hyn
 Trwy'r glynn dan orfoleddu.

T.W.

476

Cynnydd mewn Gras.

M. S.

- 1 Y RHAI o dan dy gysgod, Iôn,
 Yn gyson a arhosant,
 Dan lewyrchiadau d'ŵyneb-pryd,
 Y rhain fel ŷd adfywiant.

- 2 Blodeuant, tyfant tua'r nen,
Fel y winwydden ffrwythlon ;
Bydd eu haroglau wrth eu trin
Mor bêr â gwin Libanon.
- 3 Lledant eu gwraidd mewn daear fras
Wrth afon gras y bywyd ;
Eu ceinciau gerdda, a'u tegwech fydd
Fel olew-wy'dd yn hyfryd.

W.E.

477

SALM CXXX.

M. S.

- 1 O'R dyfnder gelwais arnat, Iôn ;
O ! Arglwydd tirion, gostwng
Dy glust, ystyria y llais mau,
Clyw fy ngweddïau teilwng.
- 2 Duw, pwy a saif yn d'wneb Di,
Os creffi ar anwiredd ?
Ond, fel y'th ofner Di yn iawn,
Yr wyt yn llawn trugaredd.
- 3 Disgwyliais f'Arglwydd wrth fy rhaid,
Disgwyliodd f'enaïd arno ;
Rhois fy holl obaith yn ei air,
F'enaïd a gair yn effro.
- 4 Ei drugareddau ânt ar led,
Fe rydd ymwarded inni ;
Fe weryd Isrâel : fel hyn
Fe'i tyn o'i holl ddrygioni.

E.P.

478

Gorffwysfa yng Nghariad Duw.

M. S.

- 1 YM mynwes glyd yr annwyl Oen,
Heb friw na phoen, 'r wy'n llechu ;
Ac oddi mewn ei glwyfau eu
Mae f'enaïd i'n cartrefu.

- 2 Llygad ni wêl, a chlust ni chlyw,
A dyn byw ni ddychymig
Y tawel hedd ry Duw bob dydd
I'r rhai sydd ddewisedig.
- 3 Mi wn, pe cawn dafodau hy
Angylion fry sy'n canu,
Y rhown y rhain i gyd o'r bron
I ganmol graslon Iesu.
- 4 Mi wn y dwg fi i deyrnas ne'
Ar ben fy mhererindod ;
Ac yno byth mewn tawel fan,
Caf eistedd dan ei gysgod.
- 5 Caf fwyta ffrwythau prennau plan
Ar hyd glan afon bywyd,
Tragwyddol Sabbath gyda'r Oen,
Heb friw, na phoen, na gofid.

W.

479

Profiad o Lesgedd.

M. S.

- 1 **D**ARFU fy nerth, 'r wy'n llwfwrhau,
O ! gwêl yn glau f'anghenrhaid ;
Nerth mawr difesur, fel y môr,
A feddi'n stôr i'r gweiniaid.
- 2 Ti'm tynnaist i o ganol tân,
A mi o'r blaen yn ofni ;
Gwna hynny eto'r funud hon,
Mae f'enaïd bron a threngi.
- 3 Mi bwysaf atat eto'n nes ;
Pa les im ddigalonni ?
Mae sôn amdanat ym mhob man
Yn codi'r gwan i fyny.

W.

480

“ Yr ydym ni yn ei garu Ef.”

M. S.

- 1 **T**RWY ras 'r wyf, Arglwydd, ger dy fron
 Yn rhoi fy nghalon iti ;
 Ti'm ceraist i, er maint fy mai—
 Ni allaf lai na'th garu.
- 2 Mi haeddais fod yn awr â'm nyth
 Yn uffern byth yn poeni ;
 'R wyt wrthyf wedi trugarhau—
 Ni allaf lai na'th garu.
- 3 Caf ddyfod i'r gogoniant maith,
 I ben fy nhaith at Iesu ;
 Caf fyned draw i'r man lle mae—
 Ni allaf lai na'i garu.
- 4 I'r Tad, i'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
 Rhof glod ar dân heb dewi ;
 Y Tri yn Un, a'r Un yn Dri,
 Mae f'enaid i'n ei garu.

J.J.

481

Galarnad Pechadur.

M. S.

- 1 **N**A thro dy wŷneb, Arglwydd glân,
 Oddi wrth un truan agwedd,
 Y sydd o flaen dy borth yn awr
 Mewn cystudd mawr yn gorwedd.
- 2 Yr wyf yn gorwedd wrth dy ddôr ;
 Atolwg, agor imi ;
 Er bod fy muchedd yn ddi-rôl,
 'R wy'n edifeiriol, gweli.
- 3 Na alw monof fi gerbron,
 I roddi union gyfrif ;
 Yr wy'n cydnabod, fy Nuw hael,
 Y bywyd gwael oedd gennif.

- 4 Trugaredd, f'Arglwydd, heb ddim mwy,
Yw'r cwbl yr wy'n ei geisio ;
Trugaredd yw fy newis lwydd,
Trugaredd, f'Arglwydd, dyro !

C. R.F.

482

Arweiniad hyd Ben y Daith.

M. S.

- 1 **D**UW, cadw f'enaid bach o hyd
Uwchlaw y byd a'i ddrygau,
Gan lwyr ddibrisio'i boen a'i wae,
Ei drallod a'i gystuddiau.
- 2 Heb gyfeiliorni ar un llaw
Nes mynd tu draw i Iorddonen,
At seintiau flinodd ar y byd,
Sy'n awr i gyd yn llawen,
- 3 Yn gorffwys yn y Ganaan bur—
Preswylfa'r gwir dduwiolion,
Tir yr addewid hyfryd draw,
Gwlad lle ni ddaw gelynion.
- 4 Gorffwysfa dawel deg ddi-stŵr,
Sydd yno i'r gŵr lluddedig ;
Afonydd gloyw pur di-drai
I ddiodi'r rhai sychedig.

W.

483

Byr Ysgafn Gystudd.

M. S.

- 1 **O**S yw'n gofidiau yn y byd
I bara hyd y diwedd :
O fewn y nef fe dderfydd hyn,
Troir tristwch yn orfoledd.
- 2 Po fwyaf gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant ;
Cawn, yn lle'n cystudd byr a'n erwys,
Dragwyddol bwys gogoniant.

- 3 Nid oedwn mwy nes dringo'n llawn
 I'r man y cawn breswyllo—
 I'r lan i ben y tawel fryn
 Mae miloedd yn disgleirio.
- 4 F'enaïd blinedig yn eu plith
 Yn dawel byth gaiff orffwys :
 'N ôl teithio 'ngwres yr haul a'r dydd,
 Mor felys fydd Paradwys.
- 5 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron
 Holl chwerwon ddyfroedd Mara ;
 Pryd hyn y try pob chwerw nant
 Yn win i blant Jehofa.

W.

484

Nerth mewn Cymdeithas â Duw.

M. H.

- 1 **D**AL fi, fy Nuw, dal fi i'r lan,
 'N enwedig dal fi lle'r wy'n wan ;
 Dal fi yn gryf nes mynd i maes
 O'r byd sy'n llawn o bechod cas.
- 2 Gwna fi'n gyfoethog ym mhob dawn ;
 Gwna fi fel halen peraidd iawn ;
 Gwna fi fel seren olau wiw,
 'N disgleirio yn y byd 'r wy'n byw.
- 3 Dysg im, fy Nuw, dysg im pa fodd
 I ddweud a gwneuthur wrth dy fodd ;
 Dysg im ryfela â'r ddraig heb goll,
 A dysg im goncro 'mhechod oll.
- 4 Tra caffwyf rodio'r ddaear hon,
 Rho dy dangnefedd dan fy mron ;
 Ac yn y diwedd, moes dy law
 I'm dwyn i mewn i'r nefoedd draw.

W.

485

Halen y Ddaear.

M. H.

- 1 **G**WNA ni fel halen trwy dy ras,
Yn wyn, yn beraidd iawn ei flas,
Yn foddion yn dy law o hyd
I dynnu'r adflas sy ar y byd.
- 2 Gwna fod d'ogoniant pur, di-lyth,
Yn nod a diben inni byth ;
Dy fywyd hardd, a'th eiriau gwir,
Yn wastad inni'n rheol bur.

W.

486

Yr Anian Dduwiol.

M. H.

- 1 **O** ! IESU mawr, rho d'anian bur
I eiddil gwan mewn anial dir,
I'w nerthu drwy'r holl rwystrau sy
Ar ddyrys daith i'r Ganaan fry.
- 2 Pob gras sydd yn yr Eglwys fawr,
Fry yn y nef, neu ar y llawr,
Caf feddu oll—eu meddu'n un,
Wrth feddu d'anian Di dy Hun.
- 3 Mi lyna'n dawel wrth dy draed,
Mi ganaf am rinweddau'r gwaed,
Mi garia'r groes, mi nofia'r don,
Ond cael dy anian dan fy mron.

D.C.

487

Ymbil y Pererin.

M. H.

- 1 **P**ERERIN wyf mewn anial dir
Sychedig am gysuron gwir ;
Yn crwydro f'amser a llesgáu
O hiraeth gwir am dy fwynhau.
- 2 Haul y Cyfiawnder disglair cu,
Tywynna trwy bob cwmwl du ;
O dan dy esgyll dwyfol mae
Balm o Gilëad sy'n iacháu.

3 Mae gras yn rhyw anfeidrol stôr,
A doniau ynot fel y môr ;
O ! gad i druenusaf ddyn
Gael profi gronyn bach o'i rin.

4 Ac os bydd iti faddau 'mai,
Ac o'm harchollion fy iacháu,
Dy glod, dy ras, a'th enw gwiw
Fydd fy holl bleser tra fwyf byw.

w.

488

“*Chwŷth ar fy Ngarâd.*”

M. H.

1 O ! TYRED, y gogleddwynt clir,
Anadla ar dy lysiau pur ;
Ac oni ddeui mewn iawn bryd,
Fe wywa'r grasau oll i gyd.

2 Tyrd â'r awelon hynny i lawr
Sy'n deffro'r argoeddiadau mawr ;
Tyrd dithau, y deheuwynt clyd,
Sy'n codi'n henaid uwch y byd.

3 Doed pob awelon yn eu lle
I godi f'ysbryd tua thre' ;
Gwnaed pob rhyw foddion, pob rhyw ddawn,
I'th lysiau berarogli'n iawn.

4 Fel byddo pob rhyw nefol ras
Yn taenu sawyr pur i maes ;
A phob tymherau yn eu rhyw
Oll yn croesawu f'annwyl Dduw.

5 O ! tyrd i'th ardd, f'Anwylyd pur,
Mae'r amser hebot yma'n hir ;
Bwyta dy ffrwyth, o nefol rin,
Pereiddiaf blennaist Ti dy Hun.

I. WATTS, ef. w.

489 “*Gosod fi megis Sêl ar dy Galon.*”

M. H.

- 1 **O** ! IESU'R Archoffeiriad mawr,
 Rho f'enw ar dy fraich i lawr ;
 Rho eilwaith, mewn llythrennau clir,
 Ef ar dy ddwyfron sanctaidd bur.
- 2 Fel, pan ddêl arnaf bob rhyw dro,
 Y byddwyf fyth o fewn dy go' ;
 Na byddo arnaf unrhyw faich
 Ond a fo'n pwyso ar dy fraich.
- 3 A gwna fy nghariad innau'n rhydd
 I redeg atat Ti bob dydd ;
 A gwisgo d'enw sanctaidd llon,
 Fel seren ddisglair ar fy mron.

W.

490 “*Cariad sydd Gryf fel Angau.*”

M. H.

- 1 **A** NFEIDROL felys yw dy hedd,
 A chryf dy gariad fel y bedd :
 Lle ceri Di, 'd oes d'wr na tân,
 Nac un rhyw rwystr a saif o'th flaen.
- 2 Rhyw fflam angerddol gadarn gref
 O fewn i'm hysbryd ydyw ef ;
 Gwreichionen yw, mawr iawn ei rhin,
 O'r fflamau sy ynot Ti dy Hun.
- 3 Dy gariad gwerthfawrocaf drud
 Sy'n fwyd, yn ddiod im o hyd ;
 Mae'n gwmni, mae'n llawenydd llawn,
 Mae'n bopeth imi, fore a nawn.

W.

491 “*Na Ofelwch dros Drannoeth.*”

M. H.

- 1 **O** ! ARGLWYDD, dywed im pa lun
 Y gallaf gario 'meichiau f'hun ;
 Mawr ydynt hwy, a minnau'n wan ;
 Pa fodd y coda i'r lleia' i'r lan ?

2 D'ysgwyddau Di ddeil feichiau mawr,
Mae'n hongian arnynt nef a llawr :
Am hyn, fy holl ofidiau i
Gaiff bwyso'n gyfan arnat Ti.

3 Mae'r holl greadigaeth yn dy law,
Ti sy'n ei threfnu yma a thraw ;
I ddatgan dy anfeidrol glod,
Mae pob rhyw drefn ag sydd yn bod.

4 O ! nertha f'enaid gwan ei ffydd
I 'morffwys arnat Ti bob dydd ;
Heb flino 'nghylch rhyw amser draw
Yr hwn ond odid byth ni ddaw.

W.

492

Nefoedd ar y Ddaear.

M. H.

1 NEF yw i'm henaid ym mhob man
Pan brofwyf Iesu mawr yn rhan ;
Ei weled Ef â golwg ffydd
Dry'r dywyll nos yn olau ddydd.

2 Mwynhad o'i ras maddeuol mawr,
Blaen-braw o'r nef yw yma'n awr ;
A darllen f'enw ar ei fron
Sy'n nefoedd ar y ddaear hon.

3 Ac er na welaf ond o ran,
Ac nad yw profiad ffydd ond gwan,
Y defnyn bach yn fôr a fydd,
A'r wawr a ddaw yn berffaith ddydd.

R.W.

493

Llawnder yng Nghrist.

M. H.

1 DYMA gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm, a'r Iesu'n llawn ;
Myfi yn dlawd, heb feddu dim,
Ac Yntau'n rhoddi popeth im.

- 2 Ei ganmol bellach wnafl o hyd,
 Heb dewi mwy tra fwy'n y byd ;
 Dechreuais gân a bery'n hwy
 Nag y ceir diwedd arni mwy.

W.

494

Cysuron y Duwiol.

M. H.

- 1 **D**UWIOLDEB sydd yn elw gwell
 Na holl drysorau'r India bell :
 Hedd a llawenydd ynddi sydd,
 Wna'r dywyll nos yn olau ddydd.
- 2 Pan fo cysuron byd yn ffoi,
 Mae gan dduwioldeb le i droi ;
 Gwledd o hyfrydwch ynddi sydd
 Mewn ffwrn a ffau i berchen ffydd.
- 3 Pan ballo cnawd a'i nerth yn un,
 Pan ballo hyder calon dyn,
 Duwioldeb dry yn wledd pryd hyn,
 Trwy olwg ar Galfaria fryn.
- 4 Nid oes gan angau golyn mwy
 All roddi i dduwioldeb glwy' :
 Mae bywyd hon a'i thrysor gwiw,
 Ynghadw gyda Christ yn Nuw.

R.J.

495

Nerth i ddwyn y Groes.

M. H.

- 1 **O** ! IÔR, Preswylydd mawr y berth—
 Y ffynnon fawr o ras a nerth,
 Rho ynof lef, a chlyw fy nghŵyn—
 Dy iau a'th groes, dysg im eu dwyn.
- 2 Os rhaid im beunydd ddwyn y groes,
 Tra pery gyrfa fer fy oes,
 O ! Arglwydd, dyro help dy fraich,
 I gynnal eiddil dan ei faich.

- 3 Mewn cyfyngderau saf o'm plaid,
Yn gadarn dŵr a nerth wrth raid ;
Yn Dad, yn Frawd, yn Briod bydd,
Hyd angau, a thrwy fythol ddydd. T.J.

496

Arwain fi.

M. H.

- 1 O ! ARWAIN fi i'th nefol ffyrdd,
Yng nghanol temtasiynau fyrdd ;
Yn awr y brofedigaeth ddu,
Dragwyddol Ysbryd, arwain fi.
- 2 Pererin wyf ymhell o'm gwlad,
Â'm golwg ar drigfannau 'Nhad,
Pererin rhwng gelynyon lu :
Dad pererinion, arwain fi.
- 3 Trwy ddyfnion donnau angau af
Dan ganu, os dy gwmni gaf ;
Nes cyrraedd glan y Ganaan gu,
O ! Iôr anfeidrol, arwain fi. W.T.

497

Hiraethu am Sancteiddrwydd.

M. H.

- 1 HIRAETHU'R wyf, Oen addfwyn Duw,
Am noddfa yn dy glwyfau gwiw,
A'm golchi yn dy werthfawr waed,
O'm pechod oll i gael rhyddhad.
- 2 Cymer, O ! Dduw, fy nghalon i,
Fy ysbryd selia oddi fry ;
A phraw o'th gariad, f'Arglwydd mwyn,
Byth ar fy nwyfron gad im ddwyn.
- 3 Ein meddwl gwan helaetha'n awr
I ddirnad maint dy gariad mawr,
A'n bloesg dafodau i draethu i maes
Ddyfnderoedd maith dy ddwyfol ras.

- 4 Dedwydd yw'r rhai sy'n llechu'n glyd
Ym mynwes Prynwr mawr y byd ;
Cânt nerth a bywyd yn ddi-lyth,
A gwynfyd heb ddiweddu byth.

O'r Almaeneg, c. J. WESLEY, c.

498

Y Doniau Da.

M. H.

- 1 **F**Y Nhad o'r nef, O ! gwranddo 'nghri ;
Un o'th eiddilaf blant wyf fi :
O ! clyw fy llef a thrugarha,
A dod i mi y doniau da.
- 2 Nid ceisio'r wyf anrhydedd byd,
Nid gofyn wna' am gyfoeth drud ;—
O ! llwydda f'enaid, trugarha,
A dod i mi y doniau da.
- 3 Fe all mai'r storom fawr ei grym
A ddaw â'r pethau gorau im ;
Fe all mai drygau'r byd a wna
I'm henaid geisio'r doniau da.
- 4 Fy Nhad o'r nef, O ! gwranddo 'nghri,
A dwg fi'n agos atat Ti.
Rho imi galon a barha
O hyd i garu'r doniau da.

J.G.M.H.

499

Cyfaill ar y Daith.

558. D.

- 1 **A**NTURIAF ymlaen,
Trwy ddyfroedd a thân,
Yn dawel yng nghwmni fy Nuw ;
Er gwanned fy ffydd,
Enillaf y dydd—
Mae Ceidwad pechadur yn fyw.

- 2 Mae f'enaïd yn llon,
 A'm pwys ar ei fron ;
 Er maint fy nhrallodion, daw'r dydd
 Caf hedeg yn glau
 Uwch gofid a gwae,
 Yn iach o'm cadwynau yn rhydd.

D.D.

500

Nes atat Ti.

64. 64. 664.

- 1 **N**ES atat Ti, fy Nuw,
 Nes atat Ti !
 Pe na bai onid croes
 A'm codai i,
 Er hynny, canwn i—
 Nes atat Ti, fy Nuw,
 Nes atat Ti !
- 2 Er bod fel crwydryn llesg,
 Heb haul na lloer,
 Na lle i roi fy mhen
 Ond carreg oer,
 Mewn breuddwyd hedwn i
 Yn nes fyth at fy Nuw,
 Nes atat Ti !
- 3 Rho imi weld fy ffordd
 Yn risiau i'r nef,
 Ac engyl ar bob gris
 O'r ysgol gref
 Yn gwahodd f'ysbryd i
 Yn nes fyth at fy Nuw,
 Nes atat Ti !
- 4 Clodforwn, pan ddeffrown,
 Dy enw pur,
 A chodi Bethel wnawn
 O feini 'nghur ;
 Drwy 'ngwae y dringwn i
 Yn nes fyth at fy Nuw,
 Nes atat Ti !

5 Neu os fy ngalw a wnei,
 Ar adain gref,
 Uwchlaw yr haul a'r lloer
 I ganol nef,
 Am byth y canaf fi—
 Nes atat Ti, fy Nuw,
 Nes atat Ti!

SARAH F. ADAMS, *c. diw.*

501

Dy Garu Di.

64. 64. 66. 64.

1 **D**Y garu Di, O! Dduw,
 Dy garu Di,
 Yw 'ngweddi tra fwyf byw,
 Dy garu Di :
 Daearol yw fy mryd,
 Rho imi ras o hyd,
 A nerth tra fwy'n y byd,
 I'th garu Di.

2 Fy olaf weddi wan
 Fo atat Ti,
 Am gael fy nwyn i'r lan,
 I'th gartref Di ;
 Pan fwyf yn gado'r byd,
 O! dal fi'n gryf o hyd,
 I'th garu Di o hyd,
 I'th garu Di.

W.H.W.

502

Yr Awr Dawel.

65. 65.

1 **Y**N y dwys ddistawrwydd,
 Dywed air, fy Nuw ;
 Torred dy leferydd
 Sanctaidd ar fy nghlyw.

- 2 O ! fendigaid Athro,
Tawel yw yr awr ;
Gad im weld dy wŷneb,
Doed dy nerth i lawr.
- 3 Ysbryd, gras, a bywyd,
Yw dy eiriau pur ;
Portha fi â'r bara
Sydd yn fwyd yn wir.
- 4 Dysg fi yng ngwybodaeth
Dy ewyllys lân ;
Nerth dy gariad ynof
Dry dy ddeddfau'n gân.
- 5 Megis gardd ddyfradwy,
O aroglau'n llawn,
Boed fy mywyd, Arglwydd,
Fore a phrynhawn. E. M. GRIMES, C. W.N.W.

503

Y rhai Pur o Galon.

65. 65. D.

- 1 O ! FENDIGAID Geidwad,
Clyw fy egwan gri ;
Dyro ddawn dy gariad
Yn fy enaid i :
Mi gawn dy gymundeb
Nefol heb wahân,
Gwelwn wedd dy wŷneb,
Ond cael calon lân.
- 2 Plygaf i'th ewyllys,
Tawaf dan bob loes ;
Try pob Mara'n felys,
Braint fydd dwyn y groes ;
Molaf dy drugaredd
Yn y peiriau tân :
Digon, yn y diwedd,
Fydd cael calon lân.

3 O ! fendigaid Arglwydd,
 Ar fy nhaith drwy'r byd,
 Gwynned dy sancteiddrwydd
 Ddyddiau f'oes i gyd.
 Angau dry'n dangnefedd,
 Troir y glyn yn gân ;
 Nefoedd wen ddiidiwedd
 Fydd i'r galon lân.

J.O.W.

504

Grym Duwioldeb.

664. 6664.

1 **D**UWIOLDEB yn ei grym
 Sydd werthfawrocach im
 Nag aur Periw ;
 Hi geidw f'enaïd gwan
 Yn ddiogel ym mhob man ;
 O'r diwedd dwg fi i'r lan
 I gôl fy Nuw.

E.JS.

505

Duw'n Drech na'r Gelynyion.

664. 6664.

1 **W**EL, f'enaïd, dos ymlaen,
 Heb ofni dŵr na than,
 Mae gennyt Dduw :
 'D yw'r gelyn mwya'i rym
 I'w nerth anfeidrol ddim ;
 Fe goncra 'mhechod llym—
 Ei elyn yw.

2 Mae gwaed ei groes yn fwy
 Na'u natur danbaid hwy,
 Na'u nifer maith ;
 Fe faddau fawr a mân,
 Fe'm gylch yn hyfryd lân,
 Fe'm dwg i yn y blaen,
 I ben fy nhaith.

- 3 O! Brynwr mawr y byd,
 Tyrd bellach, mae'n iawn bryd,
 Mae yn brynhawn ;
 Gad imi weld dy ras
 Ar frys yn torri i maes
 Dros wŷneb daear las,
 Yn genllif llawn.

W.

506

Cadw'r Llwybr Cul.

664. 6664.

- 1 **G**WNES addunedau fil
 I gadw'r llwybyr cul,
 Ond methu'r wy' ;
 Preswilydd mawr y berth,
 Chwanega eto nerth
 I ddringo'r creigiau serth
 Heb flino mwy.
- 2 Gelynyion lawer mil
 Sy o ddeutu'r llwybyr cul,
 A minnau'n wan ;
 Dal fi â'th nerthol law
 Rhag cŵympto yma a thraw :
 Ym mhob rhyw drallod ddaw
 Bydd ar fy rhan.
- 3 Dan gysgod gwych y pren
 Sy â'i frigau uwch y nen,
 Trig f'enaid byw ;
 Er g'lynyion rif y gwlith,
 A sŵn y stormydd chwith,
 Mi lechaf tano byth,
 Fy noddfa yw.

M.R.

507

"Gwyn ei fyd."

664. 6664.

- 1 **G**WYN fyd y duwiol was
 Sy'n rhodio llwybrau gras

Drwy'r daith i gyd ;
 Yr hwn, mewn sanctaidd fraw,
 Y sydd yn cilio draw
 Rhag llwybrau'r aswy law—
 O ! gwyn ei fyd.

2 Un nad yw swynion fyrdd
 Y pechadurus ffyrdd
 Yn dwyn ei fryd ;
 Ond ddydd a nos sy'n byw
 I wrando cyfraith Duw
 Yn torri ar ei glyw—
 O ! gwyn ei fyd.

3 Pan sango ef yn syn
 Ar dywyll lwybrau'r glyn,
 Caiff deimlo'n glyd :
 Uwch tonnau'r afon gref
 Bydd engyl glân y nef
 Yn ei gyfarfod ef—
 O ! gwyn ei fyd.

4 O ! Arglwydd, rho i mi
 Dy lân oleuni Di,
 A'th gyngor drud ;
 A minnau, os caf hyn,
 A groesaf drwy y glyn,
 A dringaf Seion fryn—
 O ! gwyn fy myd.

B.D.

508

Canu yn y Mellt.

66. 66. 88.

1 **Y** NEFOEDD uwch fy mhen
 A dduodd fel y nos,
 Heb haul na lleuad wen,
 Nac unrhyw seren dlos,
 A llym gyfiawnder oddi fry
 Yn saethu mellt o'r cwmwl du.

- 2 Er nad yw 'nghnawd ond gwellt,
 A'm hesgryn ddim ond clai,
 Mi ganaf yn y mellt,
 Maddeuodd Duw fy mai ;
 Mae Craig yr Oesoedd dan fy nhraed,
 A'r mellt yn diffodd yn y gwaed.

W.JS.

509

Llawenydd yng Ngwaith Duw.

66. 66. 88.

- 1 **N**A foed cydweithwyr Duw
 Byth yn eu gwaith yn drist,
 Wrth ddwyn y meini byw
 I'w doddi'n nhemel Crist :
 Llawenydd sydd, llawenydd fydd
 I bawb sy'n gweithio 'ngolau ffydd.
- 2 Mae gweithwyr gorau'r ne'
 Yn marw yn eu gwaith ;
 Ond eraill ddaw'n eu lle
 Ar hyd yr oesoedd maith ;
 A ffyddlon i'w addewid fry
 Yw'r Hwn a fu'n sylfaenu'r tŷ.
- 3 Mae'r Iesu eto'n fyw,
 A'r gwaith sydd dan ei law :
 Ar gyfer gweithwyr Duw
 Mae bendith oesau ddaw :
 Llawenydd mawr ynghyd a gawn
 Ryw ddydd, wrth weld y tŷ yn llawn.

H.E.L.

510

Cynhaliaeth ac Arweiniad.

66. 66. 88.

- 1 **C**ANED a welodd wawr
 Yn codi o'r twllwch du ;
 Caned a brofodd flas
 Grawnsypiau'r Ganaan fry ;
 Ni ddown, ni ddown, i Seion fryn,
 Er maint yr holl anialwch hyn.

- 2 Na lwfwrhaed ein ffydd ;
 Mae'n ffydd fel colofn dân
 A blannodd Brenin nef
 I'n harwain yn y blaen ;
 Mi wela'r wlad, mi ga'i mwynhau,
 Lle bydd fy heddd heb dranc na thrai. w.

511

Byddin Brenin Nef.

66. 66. 88.

- 1 **M**AE'R Brenin yn y blaen,
 'R fym ninnau oll yn hy ;
 Ni saif na dŵr na tân
 O flaen ein harfog lu ;
 Ni awn, ni awn, dan ganu i'r lan,
 Cawn weld ein concwest yn y man.
- 2 Ni welir un yn llesg
 Ym myddin Brenin nef,
 Cans derbyn maent o hyd
 O'i nerthoedd hyfryd Ef :
 Ni gawn, ni gawn y gloyw win
 O felys ryw, sancteiddiol rin. w.

512

Golwg ar y Dydd.

66. 66. 88.

- 1 **Â** HEIBIO'R dywyll nos,
 Fe ffy cymylau'r nen ;
 Fe ddaw'r addewid wir
 A'i geiriau pur i ben ;
 Ceir gweld, ceir gweld yr hyfryd dir,
 Ar fyr o dro yn olau clir.
- 2 Mae'r oriau maith eu rhif,
 Yn dirwyn yn y blaen :
 Er bod nosweithiau'n faith,
 O'r diwedd darfod wnân' :
 Cymylau'r nen, er maint eu grym,
 O flaen y wawr ni safant ddim.

- 3 'D yw profedigaeth ddim,
 'D yw'r holl gystuddiau ond gwan,
 I guro hwnnw i lawr
 A ddaliech Di i'r lan :
 Mae nerth dy ras yn fwy na'r byd,
 A'r myrdd o ddrygau sy ynddo i gyd.
- 4 Nid atal dylif môr,
 A'i donnau cedyrn cry',
 Rhag mynd i ben ei daith,
 Yr hwn gynhaliech Di ;
 'D yw'r moroedd maith, 'd yw Pharo ddim,
 I'w cyffelybu fyth â'th rym.

w.

513

Bore Braff Gerllaw.

66. 66. 88.

- 1 **M**I wela'r cwmwl du
 Yn awr ymron â ffoi,
 A gwynt y gogledd sy
 Ychydig bach yn troi :
 'N ôl timestl fawr, daw yn y man
 Ryw hyfryd hin ar f'enaid gwan.
- 2 Ni phery ddim yn hir
 Yn ddu dymhestlog nos ;
 Ni threfnwyd oesoedd maith
 I neb i gario'r groes :
 Mae'r hyfryd wawr sy'n codi draw
 Yn dweud bod bore braff gerllaw.
- 3 Mi welaf olau'r haul
 Ar fryniau tŷ fy Nhad,
 Yn dangos imi sail
 Fy iechydwrriaeth rad :
 Fod f'enw fry ar lyfrau'r nef,
 Ac nad oes a'i dilea ef.

- 4 Melys fel diliau mêl,
 A maethlon er iachâd,
 Yw holl geryddon nef,
 A gwialenodiau 'Nhad :
 Pob croes, pob gwae, pob awel gref
 Sydd yn aeddfedu'r saint i'r nef. w.

514

Trysorau Angau'r Groes.

66. 84. D.

- 1 **O** ! F'ENAID, heda i'r lan,
 Dros fryniau ucha'r byd,
 A gwêl dy gyfoeth, gwêl dy ran,
 Anfeidrol ddrud ;
 Trysorau o ddwyfol rin
 Bwrcaswyd imi'n llawn,
 Gan fy Ngwardwr addfwyn cun,
 Ar un prynhawn.
- 2 Ef bellach fydd fy nghân,
 A'm hamddiffynfa glyd,
 Fy nhŵr, fy nghraig, a'm noddfa lân,
 Tra fwy'n y byd ;
 Pan dalodd dwyfol waed,
 Pwy ofyn imi mwy ?
 Cans anfeidroldeb maith a gaed
 Mewn dwyfol glwy'.
- 3 Mae angau'r groes yn fwy
 Na haeddiant yr holl fyd :
 Y mae griddfannau dwyfol glwy'
 Yn gyfoeth drud ;
 Fe gennir myrdd yn wyn,
 Oll fel yr eira mân ;
 Ceir gweld rhai ffaidd ar ôl hyn
 Yn berffaith lân. w.

515

Tywysog Nefoedd yw fy Nhŵr.

66. 84. D.

1 O ! TYRED, addfwyn Oen,
 Iachawdwr dynol-ryw,
 At wael bechadur sydd dan boen
 Ac ofnau'n byw ;
 O ! helpa'r llesg yn awr
 I ddringo o'r llawr yn hy,
 Dros greigiau geirwon serth, i'r lan
 I'r Ganaan fry.

2 O ! dal fi, 'r wyf heb rym,
 Yr ochor hyn na thraw ;
 Os sefyll wnafl, ni safaf ddim
 Ond yn dy law :
 Addewid nefoedd faith
 Yw 'nghymorth perffaith gwir
 Na chyfeiliornaf ar fy nhaith
 I Salem bur.

3 Yn eithaf grym y dŵr,
 A'r tonnau'n curo i lawr,
 Tywysog nefoedd yw fy nhŵr,
 A'm Ceidwad mawr ;
 Fe ddeil fy mhen i'r lan,
 Cans ffrind i'r gwan yw Ef ;
 Fe'm dwg o'm cystudd yn y man
 I deyrnas nef.

W.

516

Fel yr wyf.

73. 73. 7773. 73.

1 MYFI'R pechadur penna',
 Fel yr wyf,
 Wynebaf i Galfaria
 Fel yr wyf ;
 Nid oes o fewn i'r hollfyd
 Ond Hwn i gadw bywyd ;

Yng nghanol môr o adfyd,
 Fel yr wyf,
 Mi ganaf gân f'Anwlyd,
 Fel yr wyf.

Cas. S.R., ar.

- 2 Mae'r Oen fu ar Galfaria
 Wrth fy modd :
 Efengyl a'i thrysorau
 Wrth fy modd :
 Mae llwybrau ei orchmynion.
 A grym ei addewidion,
 A hyfryd wleddoedd Seion
 Wrth fy modd ;
 A chwmni'r pererinion
 Wrth fy modd.

T.Y.III. dyf.

517

Af Ymlaen.
 73. 73. 7773. 73.

- 1 **Y**N ŵyneb gorthrymderau,
 Af ymlaen,
 A duon ragluniaethau,
 Af ymlaen ;
 Er môr a'i donnau mawrion,
 A dyfroedd Mara chwerwon,
 Ynghyda'm holl elynion,
 Af ymlaen ;
 Nes gorffwys fry yn Seion,
 Af ymlaen.

G. 1.

518

Ymgeledd yr Iechydwrriaeth.
 74. 74. D.

- 1 **I**ESU, cymer fi'n dy gôl,
 Rhag diffygio ;
 N'ad fy enaid bach yn ôl,
 Sydd yn crwydro ;

Arwain fi trwy'r anial maith
 Aml ei ddryslle,
 Fel na flinwyf ar fy nhaith
 Nes mynd adre'.

- 2 Rho dy heddwch dan fy mron—
 Ffynnon loyw ;
 Ffrydiau tawel nefol hon
 Fyth a'm ceidw ;
 Os caf ddrachtio'r dyfroedd pur,
 Mi drafaelaf
 Fryniau ucha'r anial dir—
 Ni ddiffygiaf.

- 3 Gwedd dy ŵyneb siriol sy
 Yn gorchfygu
 Y gelynion creulon cry'
 Oedd yn maeddu ;
 Gwedd dy ŵyneb serchog yw
 Fy holl iechyd ;
 Dyna alwaf tra fwyf byw
 Imi'n wynfyd.

w

519

Cyffes yr Edifeiriol.

74. 74. D.

- 1 **M**YND a wnaif, dan godi llef,
 O ! Dad, maddau ;
 Pechu wnes yn erbyn nef,
 O'th flaen Dithau :
 Nid wyf deilwng fab i Ti,
 Dad trugarog ;
 Rho le imi yn dy dŷ
 Fel gwas cyflog.

G. I.

- 2 Blinais, blinais ar y wlad
 Lle mae pechu ;
 Am ddod adre' i dŷ fy Nhad
 'R wy'n hiraethu ;

Bydd dy Hunan, Iesu mawr,
Yn fy nerthu ;
N'ad im roddi f'arfau i lawr
Nes gorchfygu.

G.L.

520

Mawl am Arbediad.

74. 74. D.

1 RHYFEDD na buaswn 'n awr
Yn y fflamau,
Wedi cael fy nhorri i lawr
Am fy meiau ;
Gan fy mod i heddiw'n fyw,
Mi rof deyrnged
O glod a mawl i'm Harglwydd Dduw
Am fy arbed.

2 Rhyfedd yw i Dduw erioed
Edrych arnaf ;
Mawr fy rhwymau i roi clod
I'r Goruchaf ;
Os ca'i 'nwyn i ben fy nhaith
Yn ddihangol,
Moli Iesu fydd fy ngwaith
Yn dragwyddol.

G.L.

521

Cyfranogiad o Rinwedd y Gwaed.

76. 76. D.

1 O ! YSBRYD pur nefolaidd,
Cyn elwy' i lawr i'r bedd,
Trwy ryw athrawiaeth hyfryd,
Gad imi brofi o'th hedd :
Maddeuant, O ! maddeuant,
Maddeuant cyfan rhad,
Yw'r cyntaf peth a geisiaf
Yr awron yn y gwaed.

- 2 Mae ynddo nerth diderfyn,
Doethineb maith yn rhad ;
Deng miliwn o rinweddau,
A rhagor, yn y gwaed :
Mae digon at bob angen
Sydd ar bechadur gwan,
Dan filoedd o amheuon,
I godi'i ben i'r lan.
- 3 O ! cred, O ! cred, cei gymorth
I dynnu'r llygad de ;
O ! cred, O ! cred, cei allu
I dorri'r fraich o'i lle :
Trwy gredu, ti orchfygi
Elynyon rif y gwlyth ;
Cred yn yr Oen yn unig
A'th wna yn hapus byth.

W.—TH.

522

Gweddi am Gymorth.

76. 76. D.

- 1 O ! TYRED, Iôr tragwyddol,
Mae ynot Ti dy Hun
Fwy moroedd o drugaredd
Nag a feddyliodd dyn :
Os deui at bechadur,
A'i godi ef i'r lan,
Ei galon gaiff, a'i dafod,
Dy ganmol yn y man.
- 2 Gwaredu'r saint rhag uffern
A phechod drwg ei ryw,
O safn y bedd ac angau,
A'u dwyn i fynwes Duw ;
Eu harwain dros fynyddoedd,
A thrwy yr anial chwith,
A grea nef y nefoedd
Yn gân heb ddiwedd byth.

W.—TH.

523

Pwyso ar Drugaredd.

76. 76. D.

- 1 **A**TOLWG, Arglwydd, gwrando,
 'R wy'n curo wrth dy ddôr,
 Gan deimlo 'maich yn drymach
 Na thywod mân y môr :
 Er cymaint yw fy llygredd,
 Mwy dy drugaredd Di ;
 O ! crea anian fywiol,
 Anfarwol, ynof fi.

R.W.

524

Ymbil am Faddeuant.

76. 76. D.

- 1 **P**ECHADUR wyf, O ! Arglwydd,
 Sy'n curo wrth dy ddôr ;
 Erioed mae dy drugaredd
 Ddiddiwedd imi'n stôr :
 Er iti faddau beiau
 Rifedi'r tywod mân,
 Gwn fod dy hen drugaredd
 Lawn cymaint ag o'r blaen.
- 2 Dy hen addewid rasol
 A gadwodd rif y gwllith
 O ddynion wedi eu colli
 A gân amdani byth ;
 Er cael eu mynych glwyfo
 Gan bechod is y nen,
 Iacheir eu mawrion glwyfau
 Â dail y bywiol bren.
- 3 Gwasgara'r tew gymylau
 Oddi yma i dŷ fy Nhad ;
 Datguddia imi beunydd
 Yr iechydwrïaeth rad ;
 A dywed air dy Hunan
 Wrth f'enaïd clwyfus trist,
 Dy fod yn maddau 'meiau
 Yn haeddiant Iesu Grist.

M.R.

525

Pechadur a'r Iesu.

76. 76. D.

- 1 O 'TH flaen, O ! Dduw, 'r wy'n dyfod,
 Gan sefyll o hir-bell ;
 Pechadur yw fy enw—
 Ni feddaf enw gwell ;
 Trugaredd wy'n ei cheisio,
 A'i cheisio eto wnafl,
 Trugaredd imi dyro,
 'R wy'n marw onis caf.
- 2 Pechadur wyf, mi welaf,
 O ! Dduw, na allaf ddim ;
 'R wy'n dlawd, 'r wy'n frwnt, 'r wy'n euog,
 O ! bydd drugarog im ;
 'R wy'n addef nad oes gennyf,
 Trwy 'mywyd hyd fy medd,
 O hyd ond gweiddi—" Pechais !
 Nid wyf yn haeddu hedd."
- 3 Mi glywais gynt fod Iesu,
 A'i fod Ef felly'n awr,
 Yn derbyn publicanod
 A phechaduriaid mawr ;
 O ! derbyn, Arglwydd, derbyn
 Fi hefyd gyda hwy,
 A maddau'r holl anwiredd,
 Heb gofio'r camwedd mwy.

T.W.

526

Dedwydd Fuddugoliaeth.

76. 76. D.

- 1 O S gwelir fi, bechadur,
 Ryw ddydd ar ben fy nhaith,
 Rhyfeddol fydd y canu,
 A newydd fydd yr iaith,
 Yn seinio " Buddugoliaeth,"
 Am iechydwrriaeth lawn,
 Heb ofni colli'r frwydyr,
 Na bore na phrynhawn.

Ch. H.S.

- 2 Fe genir ac fe genir
 Yn nhragwyddoldeb maith,
 Os gwelir un pererin
 Mor llesg ar ben ei daith,
 A gurwyd mewn tymhestloedd,
 A olchwyd yn y gwaed,
 A gannwyd, ac a gadwyd
 Trwy'r iechydwriaeth rad.

D.M.

- 3 Os dof fi trwy'r anialwch,
 Rhyfeddaf fyth dy ras,
 A'm henaid i lonyddwch
 'R ôl ganwaith golli'r maes,
 A'r maglau wedi eu torri,
 A'm traed yn gwbwl rydd ;
 Os gwelir fi fel hynny,
 Tragwyddol foli a fydd.

Cas. DE.

527

“ Edrych ar y Pethau ni welir.”

76. 76. D.

- 1 **M**AE cwmwl mawr o dystion
 Yn iach yr ochor draw,
 I'n Harglwydd a fu'n ffyddlon
 Ym myd y poen a'r braw ;
 Yn ôl eu traed dilynwn,
 Trwy dir y blinder maith ;
 Ar air ein Harglwydd pwyswn
 Nes dod i ben y daith.
- 2 Er mynd trwy fflam a dyfroedd,
 Medd gair ein Iesu glân,
 “ Ni'th foddur yn y moroedd,
 Ni'th losgir gan y tân ” :
 Fe rydd lawn waredigaeth
 I'w eiddo cyn bo hir ;
 Cânt seinio “ Iechydwriaeth ”
 O fewn i'r nefol dir.

T.J.

528

Pereiddio Dyfroedd Mara.

76. 76. D.

- 1 **E**R dod o hyd i Mara,
 A'i dyfroedd chwerw'u blas,
 Mae'r Iesu i'w pereiddio,
 Melysa hwynt â'i ras ;
 Lle bynnag y bo 'Mhrynwr,
 Pob storm yn dawel fydd,
 Pob gŵyr a wneir yn uniawn,
 Pob twllwch droir yn ddydd.
- 2 Os cyfyd gwynt tymhestlog,
 Os rhua tonnau'r môr,
 Mae'r Hwn mae 'ngobaith ynddo
 Â'i enw'n gadarn Iôr ;
 Yng nghanol pob rhyferthwy,
 Gall Iesu eto'n awr
 Â gair ostegu'r storom,
 Nes bod tawelwch mawr.
- 3 Beth bynnag wnelo'n gerbyd
 Fyth at ei blant i ddod,
 Ai'r gwynt, ai'r tân, ai'r cwmwl,
 Er lles caiff iddynt fod ;
 Ac er eu holl amheun,
 A'u hofnau o bob rhyw,
 Efe ei Hun sydd ynddo,
 A digon, digon yw.

R.O.

529

Dirmyg Crist.

76. 76. D.

- 1 **D**A yw y groes, y gwradydd,
 Y gwawd, a'r erlid trist,
 Y dirmyg a'r cystuddiau,
 Sydd gyda Iesu Grist ;
 Cans yn ei groes mae coron,
 Ac yn ei wawd mae bri,
 A thrysor yn ei gariad
 Sy fwy na'n daear ni.

W.—G.D.C.

530

Byw fel Efe.

76. 76. D.

- 1 **O** ! NA bawn yn fwy tebyg
 I Iesu Grist yn byw,
 Yn llwyr gysegru 'mywyd,
 I wasanaethu Duw :
 Nid er ei fwyn ei Hunan
 Y daeth i lawr o'r ne',
 Ond rhoi ei Hun yn aberth
 Dros eraill wnaeth Efe.
- 2 **O** ! na bawn yn fwy tebyg
 Mewn gweddi i'r Iesu mad—
 Enciliai Ef i'r mynydd
 I alw ar ei Dad ;
 Yng nghanol dwfn ddistawrwydd,
 Ymhell o sŵn y dref,
 Fe hoffai ddal cymundeb
 Â'i Dad oedd yn y nef.
- 3 **O** ! na bawn fel yr Iesu,
 Yn llawn awyddfryd pur
 I helpu plant gofidiau
 Ac esmwytháu eu cur ;
 O ! na bawn fel yr Iesu,
 Yn maddau pob rhyw fai :
 'R oedd cariad yn ymarllwys
 O'i galon E'n ddi-drai.

EL.R.

531

Gwaedd y Truan.

76. 76. 78. 76.

- 1 **L** LAWN o ofid, llawn o wae,
 A llawn euogrwydd du,
 Byth y byddaf yn parhau
 Heb gael dy gwmni cu :
 Golwg unwaith ar dy wedd
 A'm cwyd i'r lan o'r pydew mawr ;
 O ! fy Nuw, nac oeda'n hwy,
 Rho'r olwg imi'n awr.

- 2 'Mofyn am orffwysfa glyd,
 Heb gwrdd â stormydd mwy :
 Lloches nid oes yn y byd
 At hyn ond yn dy glwy' ;
 Tro fy ngolwg at y fan
 Y llaesa f'ofnau oll a'm braw ;
 Fythol na ddychrynwyf weld
 Y bore-ddydd a ddaw. w.

532

Cwyn yr Edifeiriol.

77. 77.

- 1 **D**YMA'R tlawd a'r llesga' 'rioed,
 Fethodd ddilyn ôl dy droed ;
 Llwybrau pur yw'r eiddot Ti,
 Oll yn sanctaidd, oll yn gu.
- 2 Rhaid fy ngolchi'n hyfryd wyn,
 Cyn y teithiwy'r llwybrau hyn ;
 Golch f'euogrwydd yn dy waed,
 Cudd bob bai, rho im iachâd.
- 3 Danfon imi'r olew gwir,
 Ysbryd y llawenydd pur
 O ! cyhoedda'r tawel hedd,
 Iesu, 'r ochor yma i'r bedd. w.

533

Ymgysegriad.

77. 77.

- 1 **C**YMER, Arglwydd, f'einioes i,
 I'w chysegru oll i Ti ;
 Cymer fy munudau i fod
 Fyth yn llof er dy glod.
- 2 Cymer Di fy nwyllaw'n rhodd,
 Fyth i wneuthur wrth dy fodd ;
 Cymer, Iôr, fy neudroed i,
 Gwna hwy'n weddaidd erot Ti.

- 3 Cymer Di fy llais yn lân,
Am fy Mrenin boed fy nghân ;
Cymer fy ngwefusau i,
Llanw hwynt â'th eiriau Di.
- 4 Cymer f'aur a'r da sydd im,
Mi ni fynnwn atal dim ;
Cymer fy nghyneddffau'n llawn,
I'th wasanaeth tro bob dawn.
- 5 Cymer mwy f'ewyllys i,
Gwna hi'n un â'r eiddot Ti ;
Cymer iti'r galon hon
Yn orseddfainc dan fy mron.
- 6 Cymer fy serchiadau, Iôr,
Wrth dy draed 'r wy'n bwrw eu stôr ;
Cymer, Arglwydd, cymer fi,
Byth, yn unig, oll, i Ti.

F. R. HAVERGAL, C. J.M.-J.

534

Canu am y Gwaed.

77. 77. 77.

- 1 **B**ETH sydd imi yn y byd ?
Gorthrymderau mawr o hyd ;
Gelyn ar ôl gelyn sydd
Yn fy nghlwyfo nos a dydd.
Meddyg archolledig rai,
Tyrd yn fuan i'm iacháu.
- 2 O ! na allwn, tra fawn byw,
Rodio bellach gyda Duw ;
Treulio f'oriau iddo'n llwyr
O foreddydd hyd yr hwyr ;
Canu am ei werthfawr waed
Nes meddiannu'r nefol wlad.

M.R.

535

Yr Ymdrech Ysbrydol.

77. 77. D.

- 1 **Y** MAE'R ymdrech yn parhau,
 Y mae 'ngobaith bron llesgáu ;
 Caled ydyw brwydro cyd
 Â'r ddrwg galon ac â'r byd ;
 Ti, fu gynt ar Galfari,
 Gwrando, gwrando ar fy nghri :
 Hollalluog fraich fy Nuw
 Gadwo eiddil un yn fyw !
- 2 Brodyr imi, fyrdd a mwy,
 Yn yr ymdrech buont hwy ;
 Ond yn wnebb pob rhyw loes,
 Gorchfygasant trwy y groes :
 Minnau hefyd caf wrth raid
 Eu Harweinydd hwy yn blaid ;
 Buddugoliaeth fydd fy nghân
 Gyda saint y nefoedd lân.

J.O.W.

536

Iesu, Cyfaill f'enaïd i.

77. 77. D.

- 1 **I**ESU, Cyfaill f'enaïd i,
 Gad im ffoi i'th fynwes gref,
 Tra fo'r tonnau'n codi'n lli,
 A'r ystorm yn rhwygo'r nef :
 Cudd fi, Geidwad, oni ddaw
 Terfyn y tymhestloedd maith ;
 Dwg fi'n iach i'r hafan draw,
 Derbyn fi ar ben y daith.
- 2 Noddfa arall nid oes un,
 Wrthyt glŷn fy enaïd gwan :
 Paid â'm gadael, bydd dy Hun
 Imi'n gysur ac yn rhan :
 Ti yw Gwrthrych mawr fy ffydd,
 Ti yw 'nghymorth, neb ond Ti ;
 Cudd fy mhen digysgod, cudd
 O dan nawdd dy adain Di.

3 Ti, O ! Grist, yw fy holl raid,
 Mwy na'm rhaid wyt Ti'n ddi-ball :
 Bydd i lesg a gwan yn blaid,
 Gwella glaf, ac arwain ddall :
 Cyfiawn, sanctaidd ydwyt Ti,
 Minnau'n llawn o bechod cas ;
 Llawn o dwyll a bai wyf fi,
 Tithau'n Dduw pob gwir a gras.

4 Llawnder gras sydd ynot Ti,
 Gras i guddio 'mhechod oll :
 Yr iachusol ffrydiau'n lli
 Fo'n fy mhuro yn ddi-goll ;
 Ffynnon bywyd ydwyt Ti,
 Rho dy Hunan imi'n awr,
 Tardd o fewn fy nghalon i,
 Tardd i dragwyddoldeb mawr.

C. WESLEY, C. D.T.E.

537 “*Dywedwch mai Da fydd i'r Cyfiawn.*”

77. 87. D.

1 **Y**R Iôr o'i nefoedd raslawn
 A edwyn ffordd y cyfiawn,
 A dweded dynion ym mhob man
 Mai da fydd rhan yr uniawn :
 Daioni a thrugaredd
 Fydd iddo yn ymgeledd ;
 A chaiff oleuni'r nef drwy'r byd
 I'w dywys hyd y diwedd.

2 Pan ddêl cysgodau'r hwyrddydd
 Ei obaith ef ni ddiffydd ;
 Ac yn ei wedd wrth fynd i lawr
 Bydd golau'r wawr dragywydd.
 Pan ddryllir pyrth y beddau
 Fe ddring i'r uchelderau
 Fel haul i'w daith drwy'r wÿbren faith
 Foregwaith heb gymylau.

J.T.J

538

Disgwyl y Dyfodiad.

8. 33. 6.

- 1 **G**WYDDOST, Iesu, bob gorthrymder
 Ddaw i ran
 F'enaïd gwan
 Draw hyd lwybrau amser.
- 2 Ond drwy'r holl ystormydd geirwon
 Digon yw,
 Iesu gwiw,
 Llwybrau dy gynghorion.
- 3 Gwna fi'n barod at dy alwad,
 Byw mewn ffydd
 Nos a dydd,
 Disgwyl dy ddyfodiad !

W.N.W.

539

Nerth a Chyfarwyddyd.

8. 33. 6.

- 1 **I**ESU, 'Mrenin mawr a'm Priod,
 Bydd wrth raid
 Imi'n blaïd
 I orchfygu pechod.
- 2 Tra fwy'n trigo'n yr anialwch
 Gweld yn wir
 D'wýneb pur
 Yw fy ngwir ddiddanwch.
- 3 Iesu, aethost Ti â'm calon ;
 F'enaïd cu'n
 Llechu sy'n
 Ddifrad rhwng dy ddwyfron.
- 4 Pâr im aros mwy'n dy freichiau :
 Boed fy nyth
 Dedwydd byth
 Yn dy ddilyth glwyfau.

5 Pan fwy'n sengi llwybrau angau,
 Rhag pob braw,
 Rho dy law,
 Dangos im dy glwyfau.

6 Nertha 'munion draed i ddringo
 I fyny o hyd,
 'Maes o'r byd,
 Atat i breswyllo.

w.

540

Gweddi am lwyr Waredigaeth.

8. 33. 6.

1 **D**EFFRO, f'enaïd, deffro'n ufudd ;
 Cod yn awr
 Gyda'r wawr,
 Seinia ganiad newydd.

2 Dan dy adain dawel dyner,
 Ces heb wÿn,
 Hyfryd hun,
 Buddiol fu f'esmwythder.

3 Hyfryd fore, o gaethiwed,
 Wawria draw,
 Maes o law
 Iesu ddaw i'm gwared.

4 Uwch creaduriaid, Iesu, cadw
 F'enaïd llon
 Ar dy fron
 Dirion, nes fy marw.

5 Hiraeth sy ar fy nghalon dyner
 Am weld dydd
 Mynd yn rhydd,
 'Maes o'm poen a'm blinder.

6 Gwyn ei fyd sy heddiw'n canu,
 'Mhlith y llu
 Sanctaidd fry
 Sydd wedi gorchfygu.

w.

541

Gwenau mewn Adfyd.

8. 33. 6.

1 CANAF am yr addewidion—

Ar fy nhaith
Lawer gwaith
Troesant yn fendithion.

2 Ni bu nos erioed cyn ddued

Nad oedd sêr
Siriol Nêr
Yn y nef i'w gweled.

3 Yn yr anial mwyaf dyrys,

Golau glân
Colofn dân
Ar y ffordd ymddengys.

4 I ddyfnderoedd pob caledi

Nefol wawr
Dreiddia i lawr—
Duw sy'n hau goleuni.

W.H.W.

542

Y Pererin.

8. 5. 8. 3.

1 GWÆL bererin wyf yn crwydro

Trwy anialwch maith ;
Ac mewn hiraeth dwys am gyrraedd
Pen y daith.

2 Llym elynion a'm cylchynant,

Gwibiant am fy ngwaed ;
Ac o hyd 'r wy'n ofni cŵympo
Dan eu traed.

3 Llenni'r nos sydd yn ymgasglu,

Duo mae pob awr,
Ac mae'r ŵybren ddig yn tywallt
Storom fawr.

4 A oes lygad all fy nghanfod ?

A oes glust a'm clyw ?

A oes fraich a all fy nghodi

I fyny'n fyw ?

5 Ust ! pa beth yw'r sain a glywaf ?

“Byddaf gyda thi !”

Felys sain ! fe ddaeth â nefoedd

Gyda hi.

6 “Gyda thi !” O ! dyna ddigon,

Yn y dŵr a'r tân,

Nes im gyrraedd i ogoniant

Salem lân.

J.O.W.

543

Wyt ti'n llwythog a blinderog ?

8. 5. 8. 3.

1 **W**YT ti'n llwythog a blinderog ?

Wyt ti'n llesg a chlaf ?

“Ataf tyrd,” medd Un, “a'th ofid

Esmwythâf.”

2 A oes nodau i'w adnabod,

Os f'Arweinydd yw ?

“Mae'n ei draed a'i ddwylo a'i ystlys

Ôl ei friw.”

3 Ar ei ben, os Ef yw 'Mrenin,

A oes goron gain ?

“Ar ei ben yn wir mae coron—

Coron ddrain.”

4 Os ei gael a wnafl, a'i ddilyn,

Beth fydd yma i mi ?

“Mynych alar, mynych lafur,

Mynych gri.”

- 5 Os parhaf i lynu wrtho,
Beth fydd im rhagllaw ?
“ Diwedd galar, diwedd llafur,
Glanio draw ! ”
- 6 Os gofynnaf iddo 'nerbyn,
A warafun Ef ?
“ Na wna byth, nes myned heibio
Ddaer a nef.”
- 7 A oes dilys fendith ganddo
Wedi'r cyni a'r loes ?
“ Sant, apostol, proffwyd, merthyr
Etyb ' Oes ! ’ ” J. M. NEALE, C. J.M.-J.

544

Treiglo'r Maen.

87. 87.

- 1 **O** FNI'R rhwystrau yn fy nghalon,
Mewn amheuan 'r wyf yn byw—
Gweld y bedd a'r meini mawrion,
Ond heb weld angylion Duw.
- 2 Crynu rhag yr anawsterau,
Mynd i gwrdd â maen y bedd—
Methu gweld mewn gorthrynderau
Deg wynebau engyl hedd.
- 3 Os yw'r maen yn drwm i'w dreiglo,
Os fy nerth sy'n wan i'w gwrdd ;
Fe fydd engyl nefoedd yno,
Wedi treiglo'r maen i ffwrdd.
- 4 Arglwydd, cymorth Di fy ngolwg,
Arglwydd, nertha Di fy ffydd,—
Heibio i'r nos, i weld yn amlwg
Wenau'r Iesu gyda'r dydd.

W.H.W.

545

Gobaith y Gogoniant.

87. 87.

- 1 **G**OBATH mawr y mae'r addewid
 Wedi'i osod draw o'm blaen ;
 Hyn a gynnal f'enaid egwan
 Rhag im lwfwrhau yn lân.
- 2 Gobaith, wedi rhyfel caled,
 Y caf fuddugoliaeth lawn ;
 Gobaith bore heb gymylau
 Ar ôl noswaith dywyll iawn.
- 3 Gobaith, ar ôl maith gystuddiau,
 Y caf fod heb boen na chlwy' ;
 Gobaith, yn y ffwrnais danllyd,
 Y'm ceir heb fy sorod mwy.
- 4 Gobaith, yn yr anial garw,
 Y cyrhaeddaf Ganaan wlad ;
 Wedi crwydro 'mhell o gartref,
 Gobaith dod i dŷ fy Nhad.

J.J.S.

546

Ceisio Duw.

87. 87. 47.

- 1 '**C**CHEISIAIS, Arglwydd, ddim ond hynny,
 Dim ond treulio 'nyddiau i maes
 Fyth i'th garu a'th ryfeddu,
 Ac ymborthi ar dy ras :
 Dyna ddigon—
 'Cheisiaf 'nabod dim ond hyn.
- 2 Dal fy llygad, dal heb ŵyro,
 Dal ef ar d'addewid wir ;
 Dal fy nhraed heb gynnig ysgog
 Allan fyth o'th gyfraith bur :
 Boed d'orchmynion
 Imi'n gysur ac yn hedd.

- 3 O ! darfydded imi garu
 Unrhyw bleser is y ne',
 A darfydded im fyfyrion
 Ar un gwrthrych yn dy le :
 Aed fy ysbryd
 Oll o'i fron yn eiddot Ti.

w.

547

Gorffwys wrth yr Orsedd.

87. 87. 47.

- 1 **W** RTH dy orsedd 'r wyf yn gorffwys,
 Llefain arnat fore a nawn,
 Am gael clywed llawn ddistawrwydd
 Ar f'euogrwydd tanllyd iawn,
 A thangnefedd
 Pur o fewn yn cadw'i le.
- 2 'D oes ond gras yn eitha'i allu
 Ddaw â'm henaidd i i'w le ;
 Gras yn unig all fy nghadw
 O fewn muriau'i gariad E' :
 Uwchlaw dyfais
 Dyn a'i allu, mae ei rym.
- 3 Llef ddrylliedig gref y croesbren
 Sydd yn abl i faddau 'mai :
 Llef y croesbren a all hefyd
 Wneuthur im edifarhau :
 Ar Galfaria,
 Fynydd sanctaidd, mae fy ngrym.
- 4 Mi ddisgwyliaf yno'n dawel,
 Ac mi gredaf rywbyrd daw
 Gwardigaeth i garcharor,
 Bur oddi yno maes o law :
 Doed pan ddelo,
 Mi ddisgwyliaf nes ei dod.

w.

548

Ffordd o Waredigaeth.

87. 87. 47.

1 **F**FORDD nid oes o waredigaeth
 Ond a agorwyd ar y pren—
 Llwybyr pechaduriaid euog
 Draw i byrth y nefoedd wen :
 Dyma'r gefnffordd,
 Gwna i mi ei cherdded tra fwyf byw.

2 Nid myfi sydd yn rhyfela,
 'D yw fy ngallu pennaf ddim ;
 Ond mi rois fy holl ryfeloedd
 I'r un godidoca'i rym :
 Yn ei allu,
 Minnau ddof trwy'r anial maith.

w.

549 *Gweddi am Fendithion yr Iechydwriaeth.*

87. 87. 47.

1 **D**ISGYN, Iesu, o'th gynteddoedd,
 Lle mae moroedd mawr o hedd ;
 Gwêl bechadur sydd yn gorwedd
 Ar ymylon oer y bedd ;
 Rho i mi brofi
 Pethau nad adnabu'r byd.

2 Rho oleuni, rho ddoethineb,
 Rho dangnefedd fo'n parhau,
 Rho lawenydd heb ddim diwedd,
 Rho faddeuant am bob bai ;
 Triged d'Ysbryd
 Yn ei demel dan fy mron.

3 Ynot mae fy iechydwriaeth,
 Ynteu'n wir mi lwfwrhawn ;
 Ac mae'r poenau a ddioddefaist
 Ar Galfaria'n berffaith Iawn
 Dros bechodau
 Pechaduriaid dua'u lliw.

- 4 Ac i'r ffynnon a agorwyd
 Yn dy ystlys ar y pren
 Yr wy'n dod, â'm gwisg yn aflan,
 Yno i'w channu'n awr yn wen :
 Mi ddof allan,
 Fel yr eira ar y bryn.

W.

550

Gweddi am lwyr Lanhad.

87. 87. 47.

- 1 CUDD fy meiau rhag y werin,
 Cudd hwy rhag cyfiawnder ne' ;
 Cofia'r gwaed un waith a gollwyd
 Ar y croesbren yn fy lle ;
 Yn y dyfnder
 Cudd y cyfan oll o'm bai.

- 2 Rho gydwybod wedi ei channu'n
 Beraidd yn y dwyfol waed,
 Cnawd a natur wedi darfod,
 Clwyfau wedi cael iachâd ;
 Minnau'n aros
 Yn fy ninas fore a nawn.

- 3 Rho fy nwydau, fel cantorion,
 Oll i chware'u bysedd cun
 Ar y delyn sydd yn seinio
 Enw Iesu mawr ei Hun :
 Neb ond Iesu
 Fo'n ddifyrrwch ddydd a nos.

W.

551

Hiraeth am yr Haf.

87. 87. 47.

- 1 O ! NA rôi'r winwydden hyfryd
 Beth o'i ffrwythau i lawenhau
 Enaid flinodd gan ochneidio,
 Enaid flinodd gan dristáu :
 Deued bellach—
 Deued blodau, deued haf.

- 2 Llais y durtur doed i lonni
 Rhai na chadd ond gaea' 'rioed—
 Minnau hefyd, sydd yn methu
 Cael fy meiau dan fy nhroed :
 Atal, Arglwydd,
 Angau nes cael gweled dydd.

w.

552

Ymgeledd mewn Tir Sychedig.

87. 87. 47.

- 1 **Y** MAE syched ar fy nghalon
 Heddiw am gael gwir fwynhau
 Dyfroedd hyfryd ffynnon Bethlem—
 Dyfroedd gloyw sy'n parhau ;
 Pe cawn hynny,
 'Mlaen mi gerddwn ar fy nhaith.
- 2 Y mae gwres y dydd mor danbaid,
 Grym fy nwydau fel y tân,
 A gwrthrychau gwag o'm cwmpas
 Am fy rhwystro i fynd ymlaen ;
 Rho i mi gysgod,
 Addfwyn Iesu, ganol dydd.
- 3 Dyma'r man dymunwn aros,
 O fewn pabell bur fy Nuw,
 Uwch terfysgoedd ysbryd euog,
 A themtasiwn o bob rhyw,
 Dan awelon
 Peraidd hyfryd tir fy ngwlad.

w.

553

Gorfoledd yn Nuw.

87. 87. 47.

- 1 **W** RTH dy orsedd 'r wyf yn gorwedd,
 Disgwyl am y ddedwydd awr,
 Pan gaf glywed llais gorfoledd,
 Pan gaf weld fy meiau i lawr :
 Ti gai enw
 Y fuddugoliaeth it dy Hun.

- 2 Doed dy heddwech pryd y delo,
 Mi ddisgwyliaf ddydd a nos ;
 Annherfynol ydyw haeddiant—
 Haeddiant pur dy angau loes :
 Tyrd yn fuan,
 Mae dy hedd yn fwy na'r byd.
- 3 Bywyd perffaith yw dy gwmni,
 Diliau mêl yw d'heddwech drud ;
 Gwerthfawrocach yw dy gariad
 Na holl berlau'r India i gyd :
 Gwlad o gyfoeth
 Yw yn unig dy fwynhau.

w.

554 *Hiraeth am Gymdeithas gyson â Christ.*

87. 87. 47.

- 1 **B**OED fy nghalon iti'n demel,
 Boed fy ysbryd iti'n nyth,
 Ac o fewn y drigfan yma
 Aros, Iesu, aros byth :
 Gwledd wastadol
 Fydd dy bresenoldeb im.
- 2 Awr o'th bur gymdeithas felys,
 Awr o weld dy ŵyneb-pryd,
 Sy'n rhagori fil o weithiau
 Ar bleserau gwag y byd :
 Mi ro'r cwawl
 Am gwmpeini pur fy Nuw.
- 3 Dadrys, dadrys fy nghadwynau,
 Gad i'm hysbryd fynd yn rhydd ;
 'R wyf yn blino ar y twllwech,
 Deued, deued golau'r dydd :
 Yn y golau
 Mae fy enaid wrth ei fodd.

- 4 Gwawrddydd, gwawrddydd yw fy mywyd ;
 Gweld y wawrddydd, 'r wyf yn iach :
 Mi arhosaf hyd pan ddelo—
 Daw, hi ddaw 'mhen gronyn bach :
 Tyred, tyred,
 Im gael gweld fy ngwlad fy hun.

W.

555

Nerth y Groes.

87. 87. 47.

- 1 CYMER, Iesu, fi fel 'r ydwyf,
 Fyth ni allaf fod yn well ;
 D' allu Di a'm gwna yn agos,
 F'wyllys i yw mynd ymhell :
 Yn dy glwyfau
 Bydda'i 'n unig fyth yn iach.
- 2 Mi ddiffygiais deithio'r crastir
 Dyrys anial wrthyf f'hun ;
 Ac mi fethais â choncwerio,
 O'm gelynyon lleiaf, un :
 Mae dy enw
 'N abl i beri i'r cryfaf ffoi.
- 3 Gwaed dy groes sy'n codi i fyny
 'R eiddil yn goncwerwr mawr ;
 Gwaed dy groes sydd yn darostwng
 Cewri cedyrn fyrdd i lawr :
 Gad im deimlo
 Awel o Galfaria fryn.

W.

556

Ffydd yn sylu ar Wlad yr Addewid.

87. 87. 47.

- 1 O ! NA ddôï'r amseroedd bellach
 Imi gael mwynhau o hyd
 Bethau leinw fy nymuniad,
 Pethau nadânt yn y byd :
 Ni ddaw'r ddaear
 Fawr a minnau byth yn un.

2 O ! gwasgerwch, dew gymylau,
 I'r addewid rhoddwch le ;
 Nid i'r ddaear hon y'm ganwyd,
 Tragwyddoldeb yw fy lle :
 'N ôl tywyllwch,
 Cwyd o'r diwedd fore wawr.

3 Mae fy enaid yn ehedeg
 Ar adenydd ysgafn ffydd,
 Ac yn syllu trwy'r ehangder
 Uchel maith at bethau fydd :
 'N awr mi welaf
 Wlad o hedd yn agosáu.

W.

557 *Ffydd yn syllu ar Wlad yr Addewid.*
 87. 87. 47.

1 **R**HWNG cymylau duon tywyll,
 Gwelaf draw yr hyfryd wlad ;
 Mae fy ffydd yn llefain allan—
 Dacw o'r diwedd dŷ fy Nhad :
 Digon, digon ;
 Mi anghofia 'ngwae a'm poen.

2 Dyma'r tlawd a gyfoethogwyd,
 A'r carcharor wnaed yn rhydd,
 Ddoe oedd yn y pydew obry,
 Heddiw yma'n canu sydd ;
 Nid oes gennyf
 Ddim ond diolch tra fwyf byw.

W.

558 *Edrych trwy Ffydd ar y Wlad Well.*
 87. 87. 47.

1 **O** ! FY enaid, gorfoledda,
 Er mai tristwch sy yma'n llawn ;
 Edrych dros y bryniau mawrion,
 I'r ardaloedd hyfryd iawn :
 Uwch tymhorol
 Feddiant mae fy nhrysor drud.

- 2 Gwêl tu hwnt i fyrdd o oesoedd,
 Gwêl hapusrwydd maith y nef ;
 Edrych ddengmil eto 'mhellach,
 Digyfnewid byth yw ef ;
 Tragwyddoldeb,
 Hwn sy'n eiddo i mi fy hun.
- 3 Anfeidroldeb maith ei hunan
 Sydd yn awr yn eiddof fi ;
 Yn rhad y cadd ei roddi imi
 Draw ar fynydd Calfari :
 Tyrd yn fuan,
 Hyfryd haf o berffaith hedd.
- 4 Nid oes derfyn ar fy ngobaith,
 Cyrraedd mae ymlaen o hyd ;
 Gyda'r Duwdod mae'n cydreddeg,
 Dyddiau'r ddau sydd un ynghyd :
 Annherfynol
 Ydyw fy llawenydd mwy.

w.

559

Ymbil am Oleuni.

87. 87. 47.

- 1 N'AD i'r gwyntoedd cryf dychrynlyd,
 Gwyntoedd oer y gogledd draw,
 Ddwyn i'm hysbryd gwan trafferthus,
 Ofnau am ryw ddrygau ddaw ;
 Tro'r awelon
 Oera'u rhyw yn nefol hin.
- 2 Gwna i mi weld y byd a'i stormydd
 Yn diflannu cyn bo hir ;
 Doed i'r golwg dros y bryniau
 Ran o'r nefol hyfryd dir ;
 Im gael llonydd
 Gan holl derfysgiadau'r llawr.

- 3 Disgwyl 'r wyf trwy hyd yr hinos,
 Disgwyl am y bore-ddydd ;
 Disgwyl clywed pyrth yn agor,
 A chadwynau'n mynd yn rhydd ;
 Disgwyl golau
 Pur yn nhwllwch tewa'r nos.
- 4 Daw, fe ddaw y wawr wen olau,
 Y bo'r cwmwl du yn ffoi,
 TARTH a niwl yn cyd-ddiflannu
 Ag oedd wedi cydgrynhoi :
 Dyma'r oriau
 Wy'n eu gweled draw trwy ffydd. w.

560

Byw i Ddww.

87. 87. 47.

- 1 N'AD fod gennyf ond d'ogoniant
 Pur, sancteiddiol, yma a thraw,
 Yn union nod o flaen fy amrant,
 Pa beth bynnag wnêl fy llaw :
 Treulio 'mywyd,
 F'unig fywyd, er dy glod.
- 2 O ! distewch, gynddeiriog donnau,
 Tra fwy'n gwrando llais y nef ;
 Sŵn mwy hoff, a sŵn mwy nefol,
 Glywir yn ei eiriau Ef :
 F'enaïd gwrando
 Lais tangnefedd pur a hedd. w.

561

Deisyf ei myned yn Ddydd.

87. 87. 47.

- 1 GWELD dy gariad anorchfygol,
 Gweld dy chwerw angau loes,
 Gweld dy ofal maith diffino
 Di amdanaf drwy fy oes,
 Sydd yn dofi
 Grym fy nwydau cryfa'u rhyw.

- 2 O ! na welwn ddydd yn gwawrio—
 Bore hyfryd tawel iawn,
 Haul yn codi heb un cwmwl,
 Felly'n machlud y prynhawn ;
 Un diwrnod
 Golau eglur boed fy oes ;
- 3 Heb euogrwydd dudew tywyll,
 Na dim nwydau ffaidd croes,
 Nac un pleser sy'n cyfnewid
 Golau ddydd yn dywyll nos :
 Ti a minnau—
 Dyna geisiaf tra fwyf byw.
- 4 Digon, digon fyddai hynny,
 Dim ond gweld dy wŷneb-pryd,
 A chael f'ysbryd llesg i ddringo
 Fry ymhell uwch sŵn y byd,
 I ardaloedd
 Nad oes teimlo beth yw poen.

W.

562

Gweddi am Nerth Gras.

87. 87. 47.

- 1 **M** AITH yw'r nos, a mawr yw'r twllwch
 P'odd y galla'i threulio i maes
 Heb gael, Arglwydd, dy gymdeithas,
 Nerth dy anorchfygol ras ?
 Gormod gofid,
 Gallu hebot yma fyw.
- 2 Mae fy mhechod yn fy erbyn,
 Fel y moroedd mawr eu grym,
 Dilyw cryf heb fesur arno,
 Nid oes a'i gwrthneba ddim ;
 Tad tosturi,
 Rho gyfiawnder im a nerth.

- 3 Os agori im dy fynwes,
 I gael gweld y cariad llawn,
 Lifodd allan fel y moroedd
 Ar Galfaria un prynhawn,
 Ti gei'r cwawl
 Roddaist imi yn fy rhan.

w.

563

Nerth yn yr Anialwch.

87. 87. 47.

- 1 **A**RGLWYDD, arwain trwy'r anialwch
 Fi, bererin gwael ei wedd,
 Nad oes ynof nerth na bywyd,
 Fel yn gorwedd yn y bedd :
 Hollalluog
 Ydyw'r un a'm cwyd i'r lan.
- 2 Colofn dân rho'r nos i'm harwain,
 A rho golofn niwl y dydd ;
 Dal fi pan fwy'n teithio'r manau
 Geirwon yn fy ffordd y sydd ;
 Rho i mi fanna,
 Fel na bwyf yn llwfwrhau.
- 3 Agor y ffynhonnau melys
 Sydd yn tarddu o'r graig i maes ;
 'R hyd yr anial mawr canlyned
 Afon iechydwriaeth gras :
 Rho i mi hynny ;
 Dim i mi ond dy fwynhau.
- 4 Pan fwy'n myned trwy Iorddonen—
 Angau creulon yn ei rym,
 Aethost trwyddi gynt dy Hunan,
 Pam yr ofnaf bellach ddim ?
 Buddugoliaeth !
 Gwna i mi weiddi yn y llif.

- 5 Ymddiriedaf yn dy allu,
 Mawr yw'r gwaith a wnest erioed ;
 Ti gest angau, Ti gest uffern,
 Ti gest Satan dan dy droed :
 Pen Calfaria,
 Nac aed hwnnw byth o'm cof.

w.

564

Anian Nef a dyr trwy Rwystrau.

87. 87. 47.

- 1 **D**YNA pam yr wy'n hiraethu
 Beunydd tua'r nefoedd fry ;
 Oddi yno yr anadlwyd
 Bywyd pur i'm henaid i :
 P'odd gorffwysaf ?
 Rhaid i'm hysbryd fynd i'r lan.

- 2 Anian nef a dyr trwy rwystrau,
 Anian nef a dyr trwy'r tân ;
 Ceidw'i gyrfa trwy'r creadur
 At ei gwreiddyn pur ymlaen ;
 Heibio i degwch,
 At y tegwch gwir ei hun.

w.

565

Gwenau Duw'n dirymu Cystudd.

87. 87. 47.

- 1 **C**HWILIO amdanat, addfwyn Arglwydd,
 Mae fy enaid, yma a thraw ;
 Teimlo 'mod i'n berffaith ddedwydd
 Pryd y byddi Di gerllaw :
 Gwedd dy wŷneb
 Yw fy mywyd yn y byd.
- 2 Heddwch perffaith yw dy gwmni,
 Mae llawenydd ar dy dde ;
 Ond i Ti fod yn bresennol,
 Popeth sydd yn llanw'r lle :
 Ni ddaw tristwch
 Fyth i'th gwmni tra fo nef.

- 3 Yn y ffwrnais danllyd greulon,
 Os Tydi a ddaw ymlaen,
 'D oes ond heddwch a mwyneidd-dra
 A thiriondeb yn y tân :
 Gwên dy gariad
 Wna bob cystudd yn ddi-rym.
- 4 Ti wyf yn ei 'mofyn, Arglwydd,
 Ym mhob tralod bydd gerllaw ;
 Dilyn fi, 'r wy'n ofni yma,
 Dilyn fi, 'r wy'n ofni draw :
 Dan dy adain
 Mi edrycha'n wÿneb llu.

w.

566

Concwest ar Ofn.

87. 87. 47.

- 1 **F**'ENAID egwan, paid ag ofni
 Bod rhyw ddrygau mawr gerllaw ;
 Ofni gwyntoedd oer y gogledd,
 Ofni gwynt y dwyrain draw ;
 Ofni'r cwbul,
 A heb achos ofni'n bod.
- 2 Os daw gwradydd, os daw gofid,
 Trwy ragluniaeth bur fy Nuw,
 Hynny fyth ni ladd fy enaid,
 Cadw 'nghalon wna yn friw :
 Bydd ei fflangell
 Yn y diwedd fel y gwin.
- 3 Newydd mawr a newydd llawen,
 Newydd gwir a newydd rhad
 Sy'n marchogaeth ar y cwmwl
 Golau draw o dÿ fy Nhad :
 Fe faddeuwyd
 Beiau rif y sêr i mi.

w.

567

Tyn Fi.

87. 87. 47.

1 **A**RWAIN fi o dŷ'r caethiwed,
 Dwg fi o'm crwydradau pell,
 Portha f'enaïd yn yr anial
 Â grawnsypiau gwlad sydd well :
 Tyn fi, Iesu,
 Beunydd atat Ti dy Hun.

2 Dena 'nghalon i â'th gariad,
 Tyn fi â'th drugaredd gref,
 Boed fy enaid iti'n eiddo,
 Tithau'n eiddo iddo ef,
 Mewn cyfamod
 Na ddiddymir tra fo'r nef.

3 Gad dy enw ar fy nhafod,
 Pan ei troir gan angau'n fud ;
 Dal dy groes o flaen fy llygad,
 Pan fo'n cau ar bethau'r byd :
 Derbyn f'ysbryd
 I'th lawenydd dwyfol Di.

J.C.D.

568

Croeso wrth yr Orsedd.

87. 87. 47.

1 **P**ORTH y nefoedd sy'n agored
 I groesawu'r truan trist ;
 A goludoedd gras y Brenin
 Sydd yn rhad yn Iesu Grist :
 At ei orsedd
 Af i 'mofyn am ei hedd.

2 Er yn euog, er yn ofnus,
 A lluddedig ar y daith,
 Cefais ganddo fodd i ganu
 Mewn cyfyngder lawer gwaith :
 Wrth ei orsedd
 Ceisiaf eto hedd fy Nuw.

J.P.R.

569

Cysur mewn Trallod.

87. 87. 47.

- 1 **B**ETH yw'r ofn sydd yn fy nghalon
 Am drallodion eto i ddod ?
 'R un yw f'Arglwydd cadarn, ffyddlon,
 Ef a'm cynnal er ei glod :
 Ym mhob stormydd
 Deil i fyny f'enaid gwan.
- 2 Rho dy gwmni, Arglwydd, imi ;
 Rho i mi'n unig dy fwynhau ;
 Yna nid rhaid imi ofni :
 Yn dy ras caf ymgryfhau :
 Haleliwia !
 Canaf yn y dŵr a'r tân.

J.T.

570

Gweddi am Burdeb.

87. 87. 47.

- 1 **T**I, 'r Hwn sydd yn maddau beiau,
 Sydd â'i gariad fel y lli,
 Llified cyfoeth dy feddyliau
 'N afon hedd i'm henaid i ;
 Gad im brofi
 Rhinwedd ffynnon Calfari.
- 2 Meddalha fy nghalon galed,
 Lladd y llygredd, difa'r chwyn,
 Rho i'm henaid lwyr ymward :
 Gwna fi fel yr eira'n wyn ;
 Ti gei'r moliant
 Dros dragwyddol oes am hyn.

J.H.S.

571

Gofal Rhagluniaeth.

87. 87. 47.

- 1 **B**OED fy mywyd oll yn ddiolch,
 Dim ond diolch yw fy lle ;
 Ni wna gwardigaeth ragor
 I greadur is y ne' :

Gallu'r nefoedd
Oedd a'm daliodd i i'r lan.

- 2 Ar y dibyn bûm yn chwarae ;
Pe syrthiasai f'enaïd gwan,
Nid oedd bosibl imi godi
Byth o'r dyfnder hwnnw i'r lan :
Iesu, Iesu,
Ti sy'n trefnu oll dy Hun.
- 3 Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddistaw,
Rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref,
Yn fy rhwymo, heb im wybod,
Wrth golofnau pur y nef :
O ! Ragluniaeth,
Ti sy'n trefnu'r ddaear faith.
- 4 Rhyfedd, Arglwydd, dy ddoethineb,
Rhyfedd, Arglwydd, yw dy rym ;
Nid oes is y nef luosog
A all dy wrthnebu ddim :
Try'r greadigaeth,
Ôl a gwrthol, wrth dy air.
- 5 D' air sy'n gwneud y byw yn farw,
Eilwaith gwneud y marw'n fyw ;
D' air a greodd ac sy'n cynnal
Y greadigaeth o bob rhyw ;
Ti dy Hunan
Ydyw bywyd maith y byd.

w.

572

Dy Ewyllys Di a wneler.

87. 87. 47.

- 1 **D**Y ewyllys Di a wneler !
Ti sy'n gwybod, Arglwydd Iôr,
Beth yw uchder y mynyddoedd,
Pa mor arw fydd y môr :
Bodlon ydwyf
I'w hŵynebu gyda Thi.

- 2 Dy ewyllys Di a wneler !
 Os oes gofid ar fy rhan,
 Ti sy'n gwybod faint o bwysau
 A gynhalio f'ysgwydd wan :
 Bodlon ydwyf
 I'w croesawu oll o'th law.
- 3 Dy ewyllys Di a wneler !
 O Galfaria daw fy hedd ;
 Ond cael Crist i mi'n dangnefedd,
 Croesaw angau, croesaw fedd !
 Bodlon ydwyf
 Gyda'r Iesu ym mhob man.

R.O.H.

573

Gwrandawr Gweddi.

87. 87. 47.

- 1 **T**I, yr Hwn a wrendy weddi,
 Atat Ti y daw pob cnawd ;
 Llef yr isel nis dirmygi,
 Clywi ocheneidiau'r tlawd :
 Dy drugaredd
 Sy'n cofleidio'r ddaear faith.
- 2 Minnau blygaf yn grynedig
 Wrth dy orsedd rasol Di,
 Gyda hyder gostyngedig
 Yn haeddiannau Calfari :
 Dyma sylfaen
 Holl obeithion euog fyd.
- 3 Hysbys wyt o'm holl anghenion
 Cyn eu traethu ger dy fron ;
 Gwyddost gudd feddyliau 'nghalon,
 A chrwydradau mynych hon :
 O ! tosturia,
 Ymgeledda fi â'th ras.

R.M.J.

574 *Pwy a'm dwg i'r Ddinas Gadarn ?*
87. 87. 47.

1 **P**WY a'm dwg i'r Ddinas gadarn,
Lle mae Duw'n arlwyo gwledd,
Lle mae'r awel yn sancteiddrwydd,
Lle mae'r llwybrau oll yn hedd ?
Hyfryd fore,
Y caf rodio'i phalmant aur.

2 Pwy a'm dwg i'r Ddinas gadarn,
Lle mae pawb yn llon eu cân,
Neb yn flin ar fin afonydd
Y breswylfa lonydd lân ?
Gwaith a gorffwys
Bellach wedi mynd yn un.

3 Pwy a'm dwg i'r Ddinas gadarn,
Lle caf nerth i fythol fyw,
Yng nghartrefle'r pererinion—
Hen dreftadaeth teulu Duw ?
O ! na welwn
Dyrau gwych y Ddinas bell.

4 Iesu a'm dwg i'r Ddinas gadarn :
Derfydd crwydro'r anial maith,
Canu wnaif y gainc anorffen
Am fy nwyn i ben fy nhaith ;
Iechydwrriaeth
Ydyw ei magwrydd hi.

J.G.M.H.

575 *Ymddigrifo yn Nuw.*
87. 87. 67.

1 **Y**MNEILLTUWCH, bethau'r ddaear,
Pethau natur, pethau'r byd ;
'R wy'n dymuno peidio â gwrando
Ar eich holl ddeniadau 'nghyd ;
Unig Un, uwch na dyn,
Mae fy enaid wrtho 'nglŷn.

- 2 Doed y dilyw i deyrnasu
 Eto unwaith fel o'r blaen ;
 Deued anhrefn i gymysgu
 Daear, awyr, dŵr a thân ;
 Dedwydd fi yn y lli,
 Tra fo 'Nuw'n teyrnasu fry.
- 3 Colled pob blodeuyn hyfryd
 Ei holl degwch is y rhod ;
 Doed salwineb ar ŵynebau
 Pob creadur sydd yn bod ;
 Tegwch byd fydd ynghyd
 Oll yn ŵyneb Prynwr drud.
- 4 Pe diffoddai'r heulwen ddisglair
 Yn yr awyr denau las,
 A phe treuliai'r sêr y fflamau
 Ynddynt sydd o dân i maes,
 Mi gaf fyw gyda'm Duw
 Mewn disgleirdeb heb ei ryw.

w.

576

Y Pererin yn yr Anialwch.

87. 87. 67.

- 1 **R**HO i mi yfed, 'r wy'n sychedig,
 Ddŵr y ffynnon loyw lawn
 Darddodd allan yn dy ystlys
 Ar Galfaria un prynhawn :
 Gwaed fy Nuw 'n unig yw,
 Ylch fy meiau dua'u rhyw.
- 2 Edrych arnaf mewn tangnefedd—
 Dy dangnefedd hyfryd, mae
 Fel rhyw afon fawr lifeiriol,
 Yn ddiddiwedd yn parhau :
 Môr o hedd yw dy wedd
 Sy'n goleuo'r byd a'r bedd.

- 3 Maddau fel y cyfeiliornais,
 Weithiau i'r dwyrain, weithiau i'r de ;
 Maddau drachwant cas fy nghalon
 I ymado i maes o dre' ;
 Dwg yn ôl f'ysbryd ffôl,
 I'th fwyn dirion dawel gôl.

W.

577

Gweddi am Dangnefedd Duw.

87. 87. 67.

- 1 **T**YRED, Arglwydd, â'r amseroedd
 Y dymunwn eu mwynhau—
 Pur dangnefedd heb dymhestloedd,
 Cariad hyfryd a di-drai :
 Gwledd o hedd tu yma i'r bedd,
 Nid oes ond dy blant a'i medd.
- 2 Rho i mi arwydd cryf diymod,
 Heb amheuaeth ynddo ddim,
 Pa beth bynnag fo fy eisiau,
 Dy fod Di yn Briod im :
 Gweld fy rhan ddeil i'r lan,
 Ym mhob brwydyr, f'enaid gwan.
- 3 Ni all dim o'r storom danbaid,
 Ni all dim o'r gwyntoedd cry',
 Guro i lawr yr enaid egwan
 Welo'i drysor ynot Ti :
 Profi o'th hedd, gweld dy wedd,
 Goncra angau tu yma i'r bedd.
- 4 Af ar hyd fy ffordd yn ddiddig,
 Af ar hyd fy ffordd yn hy,
 Teithio'r anial mewn gorfoledd
 O hyd golwg atat Ti :
 D'eiriau Di, melynys cu,
 Sydd yn ddigon byth i mi.

W.

578

Hiraeth am ben y Daith.

87. 87. 67.

- 1 **A**RGLWYDD, tyred â'r newyddion
 Sydd yn gweithio llawenhau,
 Ac aed heibio'r noswaith dywyll
 O ochneidio a thristáu :
 Imi'n glir weld y tir
 Brynwyd trwy ddioddefaint gwir.
- 2 Gad i'm henaid lanio yno ;
 Y mae'r tonnau'n fawr eu grym,
 Ac ni all fy enaid ofnus
 Ddal eu pwysau anferth ddim :
 D'angau drud, mwy'n y byd,
 Fydd fy nghysur oll i gyd.
- 3 O ! na welwn gopa'r bryniau,
 Lle mae f'Annwyl i yn byw ;
 'R wyf yn caru'r gwynt sy'n hedeg
 Dros fy Nghanaan hyfryd wiw :
 'Fedd y llawr ddim yn awr
 Leinw le fy Arglwydd mawr.

w.

579

Ceisio Dilyn Duw.

87. 87. 67.

- 1 **T**RWY flinderau yr anialwch,
 Drwy elynion fwy na rhi',
 Drwy dymhorau o dywyllwch,
 Ceisiaf, Iôr, dy ddilyn Di :
 Rho dy hedd, rho dy wedd
 I'm hamddiffyn hyd fy medd.
- 2 Tua'r nef yr wyf yn teithio,
 I drigfannau'r bywyd gwyn ;
 Mae dy lwybrau yn goleuo
 Heibio i'r groes i Seion fryn :
 Dod im ffydd, Dad y dydd,
 Nes bod f'enaid gwan yn rhydd.

- 3 Mae fy nghalon yn ddolurus,
 Am fod pechod ynndi'n byw ;
 Mae fy nheimlad yn ofidus :
 Mor annhebyg wyf i Dduw !
 Dynner Nef, clyw fy llef,
 Gwna fi'n debyg iddo Ef.

B.D.

580

Goruchafiaeth trwy ddilyn y Blaenor.

87. 87. 67.

- 1 **Y** MAE hiraeth yn fy nghalon
 Am gael teimlo hyfryd flas
 Concwest nwydau sydd hyd heddiw
 Yn gwrthnebu'r nefol ras ;
 Dyma ddawn hyfryd iawn,
 Wy'n ei 'mofyn fore a nawn.
- 2 'R wyf yn gweled bryniau uchel
 Gwardigaeth werthfawr lawn ;
 O ! na chawn i eu meddiannu
 Cyn machludo haul brynhawn :
 Dyma 'nghri atat Ti ;
 Addfwyn Iesu, gwranddo fi.
- 3 Marchog yn dy freiniol allu,
 Gwisg dy gleddau 'ngwasg dy glun,
 Estyn fraich, a thor elynion,
 Achub wael druenus ddyd :
 Gelyn llym ni saif ddim
 Fyth o flaen d'anfeidrol rym.
- 4 Minnau gerddaf drwy'r byddinoedd
 Os Tydi a gerddi o'm blaen ;
 Mae dy gamre'n torri'r tonnau,
 Mae dy gamre'n diffodd tân :
 Ôl dy droed im a roed
 Yn hyfrydwch mwya' 'rioed.

W.

581

Paham y mae Duw yn pellhau?

87. 87. 67.

1 **B**ETH yw'r achos bod fy Arglwydd
 Hawddgar grasol yn pellhau?
 Yn guddiedig neu yn gyhoedd
 Mae rhyw bechod yn parhau:
 Tyrd yn awr, tor i lawr
 Fy anwiredd, fach a mawr.

2 Chwilia, f'enaid, gyrrau 'nghalon,
 Chwilia'i llwybrau maith o'r bron,
 Chwilia bob ystafell ddirgel
 Sydd o fewn i gonglau hon;
 Myn i maes bob peth cas
 Sydd yn atal nefol ras.

w.

582

Nerth yn Nuw a'i Air.

87. 87. 67.

1 **D**AL fi'n gadarn hyd pan ddelo
 Amser hyfryd o ryddhau,
 A chael, yn lle tentasiynau,
 Yn dragywydd dy fwynhau:
 Dyna'r pryd—gwyn fy myd!—
 Derfydd fy ngofidiau i gyd.

2 Ti gei'r enw a'r anrhydedd
 A'r gogoniant, yn y man,
 Am, o ddyfnder maith trueni,
 Iti wared f'enaid gwan:
 Nid oedd un ond dy Hun
 Allsai wared aflan ddyn.

3 Mi af trwy fyddinoedd cryfion
 Yr estroniaid gwaetha'u rhyw,
 Ond cael gweled bod o'm hochor
 Addewidion gwir fy Nuw;
 Concro wnair, ar ei air,
 Y gelynion gwaetha' a gair.

w.

583

Gweddi am y Dyfroedd Bywiol.

87. 87. 67.

- 1 **A**RGLWYDD, edrych ar bererin
 Sy'n mynd tua'r wlad sydd well,
 Ac yn ofni sŵn llifogydd
 Wrth eu clywed draw o bell ;
 'D wyf ond gwan, dal fi i'r lan,
 Mi orchfygaf yn y man.
- 2 Ar y tyle serth llithredig
 Dal fi'n gadarn yn dy law ;
 N'ad im golli 'ngolwg fymryn
 Ar y bryniau hyfryd draw—
 Sanctaidd wlad tŷ fy Nhad,
 Pwrcas perffaith dwyfol waed.
- 3 Rho i mi ddrachtio'r dyfroedd bywiol
 Sydd yn atal llwfwrhau,
 Ac yn creu ysbrydoedd cedyrn
 Hyd y diwedd o barhau ;
 Nid oes dim o'r fath rym
 Ag yw d'Ysbryd Sanctaidd im.

w.

584

Ofn a Gobaith.

87. 87. D.

- 1 **Y**MAE arnaf fil o ofnau,
 Ofnau mawrion o bob gradd,
 Oll yn gwasgu gyda'i gilydd
 Ar fy ysbryd, bron fy lladd :
 Nid oes allu a goncweria
 Dorf o elynion sydd yn un—
 Concro ofn, y gelyn mwyaf,
 Ond dy allu Di dy Hun.
- 2 Ofni'r wyf na ches faddeuant,
 Ac na chaf faddeuant mwy ;

Ofni'n fynych na ches olwg
 Eto ar dy farwol glwy' ;
 Ofni bod fy meiau'n taro
 Yn erbyn iechedwriaeth rad,
 Ac na chaiff fy enaid egwan
 Fyth ei olchi yn y gwaed.

- 3 Deuwch, yr awelon hyfryd,
 Deuwch dros y bryniau pell,
 Dan eich adain dawel rasol,
 Dygwch y newyddion gwell :
 Dygwch newydd at fy enaid—
 F'enw innau yno a gad,
 Dedwydd enw'n argraffedig
 Yn yr iechedwriaeth rad.

w.

585

Gorfoleddu yn yr Addewidion.

87. 87. D.

- 1 **R**HYW drysorau heb eu mesur,
 Rhyw drysorau heb ddim rhi',
 Rhyw ddyfnderoedd heb ddim gwaelod,
 Sy'n dy addewidion Di ;
 Crynu'r wyf, ac ymafaelyd,
 Glynu'n galed wrth dy air ;
 F'enaid, tra fwyf ar y ddaear,
 Dyna'r unig fan eu cair.

- 2 Os gwaredi fi o'm cyfyngder,
 Ac os sefi ar fy rhan,
 Os gostegi rym y storom,
 Os cynheli fi i'r lan,
 Ti gei 'nhafod, Ti gei 'nghalon,
 Ac a feddwyf yn y byd,
 Ti gei'r clod, a Thi gei'r moliant,
 Ti gei'r enw it i gyd.

w.

586

Llef yr Enaid am Gyfiawnder.

87. 87. D.

- 1 **M**^{AE} oedfaeon yn mynd heibio,
 Dyddiau wedi eu treulio i maes
 Heb ddim cyfri'n awr ohonynt
 Ond rhyw riddfan am dy ras :
 Rhaid i mi gael mwy na hynny—
 Dy gyfiawnder imi'n rhan,
 Onid e, yn wir mi drengaf
 Cyn y delwyf byth i'r lan.
- 2 O ! gyfiawnder pur tragwyddol,
 O ! gyfiawnder maith di-drai—
 Rhaid i'm henaid noeth newynllyd
 Gael yn fuan dy fwynhau :
 Rho dy wisg ddisgleirwen olau,
 Cudd fy noethni hyd y llawr,
 Fel nad ofnwyf mwy ymddangos
 Fyth o flaen dy orsedd fawr.

W.

587

Gweddi am Wyneb Duw.

87. 87. D.

- 1 **M**^{AE} rhyw foroedd o drugaredd,
 Arglwydd, ynot Ti dy Hun ;
 Annherfynol a thragwyddol
 Yw dy gariad at y dyn ;
 Mewn cyfyngder buost ffyddlon,
 Yno rhoist dy nerth i maes :
 Yn y dyfnder mawr 'r wyf innau
 'N awr yn llefain am dy ras.
- 2 Derfydd imi garu ac ofni
 Dim, o'r nefoedd fawr i'r byd,
 Pryd y caffwy'r olwg gyntaf
 Deced yw dy ŵyneb-pryd :
 Gwedd dy ŵyneb sy'n dwyn bywyd,
 Gwedd dy ŵyneb sy'n dwyn hedd,
 Gwedd dy ŵyneb ydyw'r cwbul,
 Yma, a thu draw i'r bedd.

W.

588

Cariad at yr Anweledig.

87. 87. D.

- 1 **A**NWELEDIG ! 'r wy'n dy garu,
 Rhyfedd ydyw nerth dy ras :
 Tynnu f'enaïd i mor hyfryd
 O'i bleserau penna' i maes ;
 Gwnaethost fwy mewn un munudyn
 Nag a wnaethai'r byd o'r bron—
 Ennill it eisteddfa dawel
 Yn y galon garreg hon.
- 2 'Chlywodd clust, ni welodd llygad,
 Ac ni ddaeth i galon dyn
 Mo ddychmygu, chwaethach deall
 Natur d' hanfod Di dy Hun ;
 Eto'r ydwyf yn dy garu'n
 Fwy na dim sydd is y rhod,
 A thu hwnt i ddim a glywais,
 Neu a welais eto 'rioed.
- 3 Uchder nefoedd yw dy drigfan,
 Llawer uwch na meddwl dyn,
 Minnau mewn iselder daear,
 Bechadurus waelaf un ;
 Eto, nes wyt Ti i'm henaïd,
 A'th gyfeillach bur sydd fwy
 A chan' gwell, pan fyddych bellaf,
 Na'u cyfeillach bennaf hwy.

W.

589

Y Nefoedd i foliannu Gras Duw.

87. 87. D.

- 1 **R**WY'N dy garu, addfwyn Iesu—
 Uwch pob geiriau i'w ddodi 'maes
 Yw dy gariad, yw dy heddwch,
 Yw d'anfeidrol ddwyfol ras ;
 Yn nhafodiaith nefoedd olau,
 Mi gaf draethu, 'mhlith y llu,
 Gyda blas sydd uwchlaw deall,
 Hen ddirgelion nefoedd fry.

- 2 Bydd dy degwch fyth yn newydd,
 Fyth o newydd ennyn dân,
 Trwy holl oesoedd tragwyddoldeb,
 Fyth heb flino yn y blaen ;
 Fflam angerddol, heb un terfyn,
 Trwy holl raddau'r nef yn un,
 Hi barha i losgi'n olau
 Tra parhao Duw ei Hun.
- 3 Nid oes ond dy fawredd dwyfol,
 Yn y nef nac ar y llawr,
 Allsai ennyn y fath gariad
 Ag wyf yn ei brofi'n awr ;
 Pwy sefydlai f'ysbryd gwamal,
 Pwy'm gosodai yn fy lle,
 Ond yr Hwn, heb derfyn arno,
 Sy'n berffeithrwydd daer a ne' ?

W.

590

Grym Cariad.

87. 87. D.

- 1 **M**AE fy nghalon am ehedeg
 Unwaith eto i fyny fry,
 I gael profi'r hen gymdeithas
 Gynt fu rhyngof a Thydi ;
 Mi a grwydrais anial garw,
 Heb un gradd o olau'r dydd ;
 Un wreichionen fach o'th gariad
 Wna fy rhwymau oll yn rhydd.
- 2 Pe bai'r holl gystuddiau mwya'n
 Gwasgu ar fy enaid gwan,
 A'r gelynyon oll yn rhwystro'r
 Nefol dân i godi i'r lan,
 Pan ddechreuo nid oes derfyn ;
 Cadarn natur cariad yw,
 Sydd yn distaw fynd â'm henaid
 Ohono'i hun i fynwes Duw.

- 3 Mae fy nghalon yn sgrifennu,
 Ac yn adrodd wrthi'i hun,
 Enw hyfryd a rhinweddol
 Duw yn gwisgo natur dyn :
 Iechydwrïaeth, iechydwrïaeth,
 Iechydwrïaeth werthfawr iawn,
 Ydyw enw fy Ngwardwr
 Gennyf fore a phrynhawn.

w.

591

Duw a Digon.

87. 87. D.

- 1 **O** ! AM nerth i dreulio 'nyddiau
 Yng nghynteddoedd tŷ fy Nhad ;
 Byw yng nghanol y goleuni,
 Twllwch obry dan fy nhraed ;
 Byw heb fachlud haul un amser,
 Byw heb gwmwl, byw heb boen,
 Byw ar gariad anorchfygol
 Pur y croeshoeliedig Oen.
- 2 Dyro olwg ar dy haeddiant,
 Golwg ar dy deyrnas rad,
 Brynwyd imi, ac a seliwyd,
 Seliwyd imi, do, â'th waed ;
 Rho i mi gyrchu tuag ati,
 Peidio byth â llwfwrhau :
 Ar fy nhaith ni cheisiaf gennyt
 Ond yn unig dy fwynhau.
- 3 Gyda Thi mi af drwy'r fyddin,
 Gyda Thi mi af drwy'r tân ;
 'D ofnaf ymchwydd llif Iorddonen
 Ond i Ti fynd yn y blaen :
 Ti yw f'amddiffynfa gadarn,
 Ti yw 'Mrenin, Ti yw 'Nhad ;
 Ti dy Hunan oll yn unig
 Yw fy iechydwrïaeth rad.

w.

592

Ymbil am Ymwared.

87. 87. D.

1 **M**AE addewid nef o'm hochor,
 Fod fy Iesu'n ffrind i'r gwan ;
 O'r pydewau dwg ei Hunan
 Garcharorion llesg i'r lan :
 Tor y bolltau pres yn gandryll,
 Tyn y barrau heyrn yn ôl,
 Gad i'm henaid, o'r dyfnderoedd,
 Hedeg yna fry i'th gôl.

2 Twinned heulwen ar fy enaid,
 Blinaiſ ganwaith ar y nos ;
 Nid yw 'mhleser, na'm teganau,
 Na'm heilunod, ond fy nghroes ;
 Mynwes Iesu yw f'hapusrwydd ;
 O ! na chawn i yno fod :
 Fe rôi cariad dwyfol perffaith
 Fy mhleserau dan fy nhroed.

3 Eto unwaith mi ddyrchafaf
 Un ochenaid tua'r nef,
 Ac a wylaf ddaagrau'n hidil
 Am ei bresenoldeb Ef ;
 Pwy a wŷyr na wrendy clustiau
 'R Hwn a greodd ddaer a nen,
 Ac na ddaw fy nymuniadau
 Trist hiraethlon oll i ben ?

w.

593

Gweddi am Ryddid a Maddeuant.

87. 87. D.

1 **I**ESU, dyro dy gymdeithas
 Nefol yn yr anial fyd,
 Lle mae maglau ar ôl maglau
 Yn fy nrysu 'mron o hyd ;
 Y mae hiraeth yn fy nghalon,
 Ac ochneidiau heb ddim trai,
 Am weld oriau 'ngwardigaeth
 Ddedwydd hyfryd yn nesáu.

2 Ti faddeuaist fil o feiau,
 Beiau cynddeirioca'u rhyw,
 Ac a guddiaist rhag y werin
 Rai fel porffor coch eu lliw :
 Cliria fy nghydwybod euog,
 Canna f'enaid yn y gwaed,
 A rho'r bai ag sy'n fy maeddu,
 Sy'n fy nryllio, dan fy nhraed.

3 O ! na ildia, f'enaid, ronyn,
 Er ei bod yn fyr brynhawn,
 Y mae trugareddau'r nefoedd
 Fel y moroedd mawrion llawn ;
 F'allai try deheuwynt tawel,
 Cyn machludo o'm haul yn lân,
 Ac yn lle rhyw drwm ochneidio,
 Y caf seinio'r hyfryd gân.

w.

594

Hiraeth am Ryddid.

87. 87. D.

1 **D**ROS bechadur buost farw,
 Dros bechadur, ar y pren,
 Y dioddefaist hoelion llymion,
 Nes it orfod crymu pen ;
 Dwed i mi, ai fi oedd hwnnw
 Gofiodd cariad rhad mor fawr—
 Marw dros un bron â suddo
 Yn Gehenna boeth i lawr ?

2 Dwed i mi, a wyt yn maddau
 Cwŷympo ganwaith i'r un bai ?
 Dwed a ddeui byth i galon
 Na all gynnig 'difarhau ?
 Beth yw pwysau'r beiau mwyaf
 A faddeui ?—o ba ri' ?
 Pa un drymaf yw fy mhechod
 Ai griddfannau Calfari ?

- 3 Arglwydd, rhaid i mi gael bywyd ;
 Mae fy meiau yn rhy fawr,
 Fy euogrwydd sy'n cydbwyso
 Â mynyddoedd mwya'r llawr :
 Rhad faddeuant, gwawria bellach,
 Gwna garcharor caeth yn rhydd,
 Fu'n ymdreiglo mewn tywyllwch,
 'N awr i weled golau'r dydd.

w.

595

Golwg ar y Nefoedd.

87. 87. D.

- 1 **D**ACW'R ardal, dacw'r hafan,
 Dacw'r nefol hyfryd wlad,
 Dacw'r llwybyr pur yn amlwg
 'R awron tua thŷ fy Nhad ;
 Y mae hiraeth yn fy nghalon
 Am fod heddiw draw yn nhref,
 Gyda myrdd sy'n canu'r anthem,
 Anthem cariad, "Iddo Ef."
- 2 Mae fy hwyliau heddiw'n chwarae'n
 Llawen yn yr awel bur,
 Ac 'r wy'n clywed sŵn caniadau
 Peraidd paradwysaidd dir ;
 Ffârwel haul a lloer a thrysor,
 Ffârwel ddaear, ffârwel ddyn ;
 Nid oes dim o dan yr ŵybren
 Sydd yn fawr ond Duw ei Hun.

w.

596

Gafael ar y Bywyd.

87. 87. D.

- 1 **D**YRO afael ar y bywyd,
 Bywyd yw fy nghri o hyd ;
 N'ad im gario lamp neu enw,
 Heb yr olew gwerthfawr drud :

Adeilad gref—y graig yn sylfaen,
 Arglwydd, dyro imi'n awr ;
 Llanw f'enaid i â'th gariad
 Tra fwy'n teithio daear lawr.

A.E.

597

Brawd mewn Cyfyngder.

87. 87. D.

- 1 **W**YNEB siriol fy Anwlyd
 Yw fy mywyd yn y byd,
 Ffârwel bellach, bob eilunod,
 Iesu 'Mhriod aeth â'm bryd ;
 Brawd mewn myrdd o gyfyngderau,
 Ffrind mewn môr o ofid yw ;
 Ni chais f'enaid archolledig
 Neb yn feddyg ond fy Nuw.
- 2 Dyddiau blin fy mhererindod
 Sydd ar ddarfod, yn ddi-lai ;
 Ffârwel yfed dyfroedd Mara,
 I ddinas arall 'r wy'n nesáu ;
 Teimlo f'enaid 'r wy'n ymadael
 Â'r creaduriaid ar y llawr ;
 Fy hiraeth beunydd sy am fynd adre'
 I'r dedwydd dragwyddoldeb mawr.

M.R.

598

Ymhyfrydu yng Nghrist a'i Groes.

87. 87. D.

- 1 **N**I ddichon byd â'i holl deganau
 Fodloni fy serchiadau'n awr,
 A enillwyd, a ehangwyd
 Yn nydd nerth fy Arglwydd mawr ;
 Ef, nid llai, a eill eu llenwi,
 Fythol ddiamgyffred Dduw ;
 O ! am syllu ar ei Berson :
 Rhyfeddod pob rhyfeddod yw.

- 2 O ! na chawn i dreulio 'nyddiau
 Yn fywyd o ddyrchafu ei waed ;
 Llechu'n dawel dan ei gysgod,
 Byw a marw wrth ei draed ;
 Cario'r groes, a phara i'w chodi,
 Am mai croes fy Mhriod yw,
 Ymddifyrru yn ei Berson,
 A'i addoli byth yn Dduw.

A.G.

599

Crist yn bob peth.

87. 87. D.

- 1 **A**ROGLI'N beraidd mae fy nardus,
 Wrth wledda ar y cariad rhad ;
 Sêl yn tanio'n erbyn pechod—
 Caru delw sancteiddhad ;
 Torri ymaith law a llygad,
 Ynghydag uchel drem i lawr ;
 Neb yn deilwng o'i ddyrchafu
 Onid Iesu, Frenin mawr !
- 2 O ! am bara i yfed beunydd
 O ffrydiau'r iechydwriaeth fawr,
 Nes fy nghwbwl ddisychedu
 Am ddarfodedig bethau'r llawr ;
 Byw dan ddisgwyl am fy Arglwydd,
 Bod, pan ddêl, yn effro iawn
 I agoryd iddo'n ebrwydd,
 A mwynhau ei ddelw'n llawn.
- 3 Rhyfeddu 'r wyf â mawr ryfeddod
 Pan ddêl i ben y ddedwydd awr
 Caf weld fy meddwl, sy yma'n gwibio
 Ar ôl teganau gwael y llawr,
 Wedi ei dragwyddol setlo
 Ar wrthrych mawr ei Berson Ef,
 A diysgog gydymffurfio
 Â phur a sanctaidd ddeddfau'r nef.

A.G.

600

Yr Arglwydd yw fy Ngoleuni.

87. 87. D.

1 IESU tirion, edrych arnaf
 Mewn iselder, poen a chur ;
 Dyro im dy ddwyfol Ysbryd,
 A'i ddiddanwch sanctaidd pur ;
 Pan wyt Ti yn rhoi dy wŷneb
 Y mae llewyrch yn dy wedd
 Sy'n gwasgaru pob amheuaeth,
 Ac yn trechu ofnau'r bedd.

2 Edrych arnaf mewn tosturi
 Pan fo cysur byd yn ffoi ;
 Yng nghyfyngder profedigaeth
 Atat Ti dy Hun 'r wy'n troi ;
 Pan fo natur wan yn methu,
 Pan fo twllwch o bob tu,
 Pan ddiffoddo lampau'r ddaear,
 Dyro lewyrch oddi fry.

L.E.

601

Gwaith yr Arglwydd.

87. 87. D.

1 YN dy waith y mae fy mywyd,
 Yn dy waith y mae fy hedd,
 Yn dy waith dymunaf aros
 Tra fwy'r ochor hyn i'r bedd ;
 Yn dy waith ar ôl mynd adref,
 Trwy gystuddiau rif y gw lith :
 Moli'r Oen fu ar Galfaria—
 Dyma waith na dderfydd byth.

E.GS.

602

Cyfarwyddyd yn yr Anialwch.

87. 87. D.

1 CYFARWYDDA f'enaid, Arglwydd,
 Pan fwy'n teithio 'mlaen ar hyd
 Llwybrau culion dyrys anodd
 Sydd i'w cerdded yn y byd :

Cnawd ac ysbryd sy'n rhyfela,
 Weithiau cariad, weithiau cas,
 Ton ar don sydd yn gorchuddio
 Egwyddorion nefol ras.

2 Cul yw'r llwybyr imi gerdded,
 Is fy llaw mae dyfnder mawr,
 Ofn sydd arnaf yn fy nghalon
 Rhag i'm troed fyth lithro i lawr :
 Yn dy law y gallaf sefyll,
 Yn dy law y dof i'r lan,
 Yn dy law byth ni ddiffygiaf,
 Er nad ydwyf fi ond gwan.

3 Dysg im gerdded trwy'r afonydd,
 Na'm dychryner gan y llif,
 Na bwy'n ildio gyda'r tonnau,
 Temtasiynau fwy na rhif ;
 Cadw 'ngolwg ar y bryniau
 Uchel heirdd tu draw i'r dŵr ;
 Cadw 'ngafael yn yr afon,
 Ar yr Iesu, 'r blaenaf Wŕ.

w.

603 *Hiraeth am Gymdeithas gyson â Duw.*

87. 87. D.

1 **O** ! DYRCHAFFA f'enaid egwan,
 Y mae bellach yn hwyrhau ;
 Hir yw'r amser i ochneidio,
 Gwna i mi o'r diwedd lawenhau ;
 Moroedd mawr a bryniau lawer,
 Pellter annioddefol sy,
 Ac anialwch maith digymar,
 Rhyngof a'm Hanwlyd cu.

2 **O** ! na bai rhyw ddyfais hyfryd
 Dan yr ŵybren las i gyd,
 Allai gadw f'enaid egwan
 Yn dy gwmni Di o hyd ;

Byth ni phrisiwn, doed a ddelo,
 Beth ddigwyddai is y nen ;
 Ar dy fynwes deg berffeithlan
 Byth y pwyswn i fy mhen.

w.

604 *Duw yn unig Wrthrych Cariad.*

87. 87. D.

- 1 **G**ORCHUDD ar dy bethau mawrion
 Yw teganau gwag y byd ;
 Cadarn fur rhyngof a'th Ysbryd
 Yw 'mhleserau oll i gyd :
 Gad im gloddio, trwy'r parwydydd
 Tewion, trwodd at fy Nuw,
 I gael gweld trysorau gwerthfawr
 Na fedd daear ddim o'u rhyw.
- 2 N'ad im daflu golwg cariad
 Ar un gwrthrych is y rhod,
 Na gwneud gwrthrych fyth i'm gobaith
 O greadur sydd yn bod :
 Cadw 'ngolwg wan i fyny'n
 Symyl atat Ti dy Hun,
 Heibio i barch, a heibio i amarch,
 Heibio i ddaear, heibio i ddyn.
- 3 Wrth fy ystlys bydd i'm harwain,
 Ym mhob drysni rho dy law ;
 Gad im aros yn dy gysgod—
 Cawod yma, cawod draw :
 Atat 'r wyf yn ffoi am noddfa
 Rhag y drygau sydd o'm hôl ;
 Cymer fi, Dywysog bywyd,
 Dwg fi yn dy ddwyfol gôl.

w.

605 *Hiraeth am Waredigaeth.*

87. 87. D.

- 1 **O** ! NA chlywn yr utgorn arian
 Rywbryd yn rhoi bloedd i maes,

Yn cyhoeddi i'm henaid llwythog
 Heddwch a maddeuol ras ;
 O ! na ddeuai nerth i waered,
 Fel llifeiriant mawr ei rym,
 Fel na allai 'mhennaf nwydau
 Bellach ei wrthsefyll ddim.

- 2 Mi rown fydoedd maith, pe meddwn,
 Am gael gweled torri i lawr
 Bethau ag sy'n mynd â'm meddwl
 Fil o weithiau yn yr awr ;
 Trais a gorchest sy ar fy ysbryd,
 Cryf yw 'ngelyn, minnau'n wan ;
 Addfwyn Oen, yn fuan brysia,
 Cod fi o'r pydew hwn i'r lan.

w.

606

Llawn Fuddugoliaeth yn y Diwedd.

87. 87. D.

- 1 **D**RAW mi wela'r nos yn darfod,
 Draw mi welaf olau'r dydd
 Yn disgleirio dros y bryniau,
 Melys ym mhen gronyn fydd ;
 Ffy gelynyon pan ddêl golau,
 Ni all pechod, er ei rym,
 A'i holl wreiddiau yn fy natur,
 Sefyll Haul Cyfiawnder ddim.

- 2 Yn y rhyfel mi arhosaf,
 Yn y rhyfel mae fy lle :
 Boed fy ngenau tua'r ddaear,
 Boed fy llygaid tua'r ne' ;
 Doed y goncwest pryd y delo,
 Mi ddisgwyliaf wrth fy Nuw,
 Nes o'r diwedd weled pechod
 Wedi derbyn marwol friw.

w.

607

Hiraeth am Waredigaeth.

87. 87. D.

- 1 **D**YNA'R dyddiau wy'n eu disgwyl—
 Dyddiau'r addewidion rhad ;
 Dwedwyd cawn fy meiau cryfaf,
 Dua'u lliwiau, dan fy nhraed ;
 Iesu yw ei enw hyfryd,
 Ac fe ddyry wared llawn :
 O ! am weld y bore'n dyfod ;
 Rhyfedd hyd y maith brynhawn !
- 2 Gŵyro yma, gŵyro acw,
 Weithiau gŵyro ar y dde,
 Ganwaith rhagor ar yr aswy
 Oddi wrth lwybrau Brenin ne' ;
 Mae yma reddf o waredigaeth,
 Mae yma reddf o ddod yn rhydd,
 A griddfannau i'r lan yn llanw
 Am yr hyfryd fore ddydd.
- 3 Mi feddyliaf fod y wawrddydd
 Wen ar godi maes o law ;
 Mi debygaf, drwy'r cymylau,
 Gwelaf olau'r ochor draw :
 Deuwch, wyntoedd mwyn y deau,
 Gwthiwch y cymylau o'u lle,
 Im i weld yn ei ogoniant
 Bresenoldeb Brenin ne'.

w.

608

Golwg ar y Wlad.

87. 87. D.

- 1 **D**YN dïeithir ydwyf yma,
 Draw mae 'ngenedigol wlad ;
 Draw dros foroedd mawr tymhestlog,
 Ac o fewn i'r Ganaan rad :
 Stormydd hir o demtasiynau
 A'm curodd i fel hyn mor bell ;
 Tyred, ddehau wynt pereiddiaf,
 Chwŷth fi i'r Baradwys well.

- 2 Ac er gwaethaf grym y tonnau
 Sydd yn curo o bob tu,
 Dof trwy'r stormydd, dof trwy'r gwyntoedd
 Rywbryd i'r Baradwys fry :
 Gair fy Nuw sy'n drech na'r moroedd,
 Gair fy Nuw sy'n drech na'r don ;
 Ac mi anturiaf oll a feddwyf
 Fythol i'r addewid hon.
- 3 'R wyf yn dechrau teimlo eisoes
 Beraroglau'r gwledydd draw,
 Gyda'r awel bur yn hedeg ;
 Diau fod y wlad gerllaw :
 Tyrd, y tir dymunol hyfryd,
 Tyrd, yr ardal sydd heb drai ;
 Dy bleserau o bob rhywiau,
 Gad im bellach eu mwynhau.

W.

609 *Ymbil am Gynhaliath ac Arweiniad.*

87. 87. D.

- 1 **T**YRED, f'enaïd, ar i fyny,
 Allan o'r anialwch maith ;
 Hiraeth sy arnaf am gael gweled
 Gwledydd hyfryd pen fy nhaith ;
 Blinais deithio'r creigiau geirwon,
 Lle'r wy'n wastad yn cael briw,
 Ac fe'm clwyfid i farwolaeth
 On' bai cariad rhad fy Nuw.
- 2 Dal fi i fyny, addfwyn Iesu,
 Arwain f'enaïd yn dy law,
 Nes im gyrraedd dros bob ofnau
 I'r ardaloedd hyfryd draw ;
 Ac os yno byth y deuaf,
 Dyna 'ngwaith o fewn y lle—
 Chware ar y delyn euraïd
 Am rinweddau'i gariad E'.

W.

610

Gras fel Moroedd all fy Achub.

87. 87. D.

- 1 **T**ORRI wnes fy addunedau
 Gant o weithiau maith eu rhi',
 Ac mae'n rhaid wrth ras anfeidrol
 I gadw euog fel myfi ;
 Wrth yr orsedd 'r wyf yn cŵympo,
 Ac nid oes un enw i maes
 Ag a rydd im feddyginiaeth
 Ond yn unig gorsedd gras.
- 2 Gras fel moroedd all fy achub,
 Perffaith gyflawn ym mhob rhan,
 Gras a roddo nerth a bywyd,
 Ac a wnelo'n gryf y gwan ;
 Rhaid wrth iawnder a doethineb,
 A phob grasau, fawr a mân,
 Cyn yr êl fy enaid eiddil,
 Sydd mewn cadwyn, gam ymlaen.
- 3 Minnau rois fy holl ymddiried,
 Iesu, arnat Ti dy Hun ;
 Ac nid oes un enw arall
 A all achub y fath un ;
 Tyn fi 'mlaen i'r ardal hyfryd,
 'Maes o'r anial maith ei hyd ;
 Ti gei'r clod a'r holl ogoniant
 Wedi'r elo'n ulw'r byd.

w.

611

Y Pererin yn yr Anialwch.

87. 87. D.

- 1 **T**YRED, Arglwydd, i'r anialwch
 Yma buost Ti o'r blaen,
 Arwain fi, bererin eiddil,
 Â'th golofnau niwl a than ;
 Dal fy ysbryd sy'n llewygu
 Gan ryw ofnau o bob man ;
 Yn dy allu 'r wyf yn gadarn,
 Hebot Ti nid wyf ond gwan.

- 2 O ! drugaredd pen Calfaria,
 Sydd yn llawer lled na'r byd,
 Yma'n unig mae fy ngobaith
 Yn nydd mawr anfeidrol lid ;
 'R wy'n ymwadu ag oll a feddaf,
 Addef 'r wyf na feddaf ddim ;
 Iesu'i Hunan yw fy haeddiant,
 Iesu'i Hunan yw fy ngrym.

W.

612 *Nerth a Chynhaliaeth yn yr Anial.*

87. 87. D.

- 1 **T**YRED, Iesu, i'r anialwch,
 At bechadur gwael ei lun,
 Ganwaith ddrysodd mewn rhyw rwydau—
 Rhwydau weithiodd ef ei hun ;
 Llosg fieri sydd o'm cwmpas,
 Dod fi i sefyll ar fy nhraed ;
 Moes dy law, ac arwain drosodd
 F'enaid gwan i dir ei wlad.
- 2 Manna nefol sy arna'i eisiau,
 Dŵr rhedegog gloyw byw,
 Sydd yn tarddu o dan riniog
 Temel sanctaidd bur fy Nuw ;
 Golchi'r aflan, cannu'r Ethiop,
 Gwneud yr euog brwnt yn lân ;
 Ti gei'r clod ryw fyrdd o oesoedd
 Wedi i'r ddaear fynd yn dân.
- 3 Ar dy allu 'r wy'n ymddiried ;
 Mi anturiaf, doed a ddêl,
 Dreiddio trwy'r afonydd dyfnion,
 Mae dy eiriau oll dan sêl ;
 Fyth ni fetha a gredo ynot,
 Ni bu un erioed yn ôl ;
 Mi â 'mlaen, a doed a ddelo,
 Graig a thyle, ar dy ôl.

W.

613

Duw yn Unig Noddfa.

87. 87. D.

- 1 **A**TAT, Arglwydd, trof fy wŷneb
 Ti yw f'unig noddfa lawn,
 Pan fo cyfyngderau'n gwasgu—
 Cyfyngderau trymion iawn ;
 Dal fi i fyny 'ngrym y tonnau,
 'D oes ond dychryn ar bob llaw ;
 Rho dy help, Dywysog bywyd,
 I gael glanio'r ochor draw.
- 2 Ti gei 'mywyd, Ti gei f'amser,
 Ti gei 'noniau o bob rhyw ;
 P'odd y beiddiaf gadw mymryn
 O fendithion pur fy Nuw ?
 Ffrydia'r nefoedd wen i waered,
 Tyn garcharor caeth i maes,
 Fe gaiff nef a daear glywed
 Atsain gwaredigol ras.

W.

614

Hyder am Fuddugoliaeth.

87. 87. D.

- 1 **F**'ENAID, gwêl i ben Calfaria,
 Draw'r rhyfeddod mwya' 'rïoed ;
 Creawdwr nefoedd wen yn marw,
 A'r ddraig yn trengi dan ei droed ;
 Mi glywaf lais yn awr, debygwn,
 A egyr byrth y nefoedd fry ;
 F'enaid cân, fe ddarfu ofnau,
 Prynwyd nefoedd wen i mi.
- 2 Tyrd i fyny o'r anialwch,
 Wedi aros yno'n hir ;
 Sypiau grawnwin mawrion aeddfed
 Sŷn dy aros yn y tir ;
 Brysia i ryfel, gwisg dy arfau,
 Cymer galon, mentra 'mlaen ;
 Y ffordd nis colli, mae'n dy arwain
 Gwmwl niwl a cholofn dân.

- 3 Gwnes y dewis gorau wnaethpwyd,
 Dewis Brenin nefoedd wen
 Yn Dad, yn Briod, ac yn Gyfaill,
 Yn Frawd, yn Geidwad, ac yn Ben :
 Cyfoeth mawr di-drai difesur
 Sydd ynghadw imi'n stôr,
 A bendithion, oll pe rhifid,
 Megis tywod mân y môr.

W.

615

Hiraeth am y Wawr.

87. 87. D.

- 1 O ! FY Iesu, 'Mhriod annwyl,
 Cofia eiddil gwael di-lun,
 Sydd yn gŵyrol bob munudyn,
 Sydd yn blino arno'i hun ;
 Tro fy ngolwg at dy haeddiant,
 A'th drugaredd ryfedd rad ;
 Rho dangnefedd yn fy mynwes,
 Rho faddeuant yn dy waed.
- 2 Anfon un pelydryn tirion
 O'th orseddfainc ddisglair fry,
 Nes bod dydd yn siriol wenu
 Ar ôl noswaith dywyll ddu ;
 F'enaidd innau yn cael myned,
 Fel aderyn bach o'r llawr,
 Ar adenydd cariad cynnes
 Fry i'th fynwes, Iesu mawr.

D.CS.

616

Môr yr Iechydwrriaeth.

87. 87. D.

- 1 O ! RHWYGA'R tew gymylau duon
 Sy'n cuddio gwedd dy ŵyneb gwiw ;
 Nid oes bleser a'm diddana
 Ond yn unig Ti, fy Nuw :
 Môr di-drai o bob trugaredd
 Yw'r iechydwrriaeth fawr ei dawn
 A lanwodd ac a lifodd allan
 Ar Galfaria un prynhawn.

- 2 Ffrydiau tawel byw rhedegog,
 O dan riniog tŷ fy Nuw,
 Sydd yn llanw ac yn llifo
 O fendithion o bob rhyw :
 Dyfroedd gloyw fel y grisial,
 I olchi'r euog, nerthu'r gwan,
 Ac a ganna'r Ethiop duaf
 Fel yr eira yn y man.

N.W.

617

Y Groes yn Goron.

87. 87. D.

- 1 **E**R mai cwawl groes i natur
 Yw fy llwybyr yn y byd,
 Ei deithio wnaf, a hynny'n dawel,
 Yng ngwerthfawr wedd dy ŵyneb-pryd ;
 Wrth godi'r groes, ei chyfri'n goron ;
 Mewn gorthrymderau, llawen fyw :
 Ffordd unionaf, er mor ddyrys,
 I ddinas gyfaneddol yw.
- 2 Addurna f'enaïd ar dy ddelw,
 Gwna fi'n ddychryn yn dy law,
 I uffern, llygredd, annuwioldeb,
 Wrth edrych arnaf, i gael braw ;
 O ! am gymdeithasu â'r enw—
 Ennaint tywalltedig yw,
 Yn hallt i'r byd, gan bêr aroglau
 O hawddgar ddoniau Eglwys Dduw.
- 3 Mae fy nghalon am ymadael
 Â phob rhyw eilunod mwy,
 Am fod arni'n argraffedig
 Ddelw gwrthrych llawer mwy,
 Anfeidrol deilwng i'w addoli,
 Ei garu a'i barchu, yn y byd ;
 Bywyd myrdd o safn marwolaeth
 A gafwyd yn ei angau drud.

A.G.

618

Hyder Pererin Cystuddiol.

87. 87. D.

- 1 **D**YFAIS fawr tragwyddol gariad
 Ydyw'r iechydwrriaeth lawn ;
 Cyfamod hedd yw'r sylfaen gadarn,
 Yr hwn ni dderfydd byth mo'i ddawn :
 Dyma'r fan y gorffwys f'enaid,
 Dyma'r fan y byddaf byw,
 Mewn tangnefedd pur, heddychol,
 Ym mhob rhyw stormydd gyda'm Duw.
- 2 Syfled iechyd, syfled bywyd,
 Cnawd a chalon yn gytûn,
 Byth ni syfl cyfamod heddwch,
 Hen gytundeb Tri yn Un :
 Dianwadal yw'r addewid,
 Cadarn byth yw cyngor Duw ;
 Cysur cryf sy i'r neb a greddo
 Yn haeddiant Iesu i gael byw.
- 3 Bûm yn wnebyd pob gorchymyn,
 Bûm yn wnebyd angau glas ;
 Gwelais Iesu ar Galfaria
 Yn gwbwl wedi cario'r maes :
 Mewn cystuddiau 'r wyf yn dawel,
 Y fuddugoliaeth sydd o'm tu,
 Nid oes elyn wna i mi niwed ;
 Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd fry.
- 4 Pethau chwerwon sydd yn felys ;
 Twllwch sydd yn olau clir ;
 Mae 'nghystuddiau imi'n fuddiol,
 Ond darfyddant cyn bo hir :
 Cyfamod hedd bereiddia'r cwbl,
 Cyfamod hedd a'm cwyd i'r lan,
 I gael gweld fy etifeddiaeth,
 A'i meddiannu yn y man.

619

Bodloni i Gystudd.

87. 87. D.

- 1 **G**WELAIS 'chydig o'r ardaloedd
Yr ochor draw i angau a'r bedd ;
Synnodd f'enaid yn yr olwg,
Teimlais annherfynol hedd :
Iesu a brynodd imi'r cwawl,
Gwnaeth â'i waed anfeidrol Iawn ;
Dyma rym fy enaid euog,
Dyma 'nghysur dwyfol llawn.
- 2 Wedi cefnu ar bob rhyw stormydd,
A'r tonnau mawrion oll ynghyd,
Tybiais fy mod yn y porthladd,
Tu draw i holl ofidiau'r byd ;
" O ! fy Nhad," medd f'enaid egwan,
" A gaf fi ddyfod fry i'th gôl,
A chanu'n iach i bob rhyw bechod,
A'm cystuddiau i gyd ar ôl ? "
- 3 " Ust ! fy mhlentyn, taw, distawa,
Gwybydd di mai Fi sy Dduw ;
Ymdawela yn f'ewyllys,
Cred i'm gofal tra fych byw :
Os rhaid ymladd â gelynyon,
Myfi, dy nerth, a fydd o'th blaid ;
Er gwanned wyt, cei rym i sefyll,
A Mi'n gymorth wrth bob rhaid."
- 4 Bodlon ddigon, doed a ddelo,
Ond dy gael i mi yn Dduw :
Rhoist dy Fab i brynu 'mywyd
Trwy ddioddef marwol friw ;
Mi lecha'n dawel yn ei gysgod—
Yng nghysgod haeddiant dwyfol glwy'
Darfyddaf byth ag oll sydd isod,
Ac ymhyfydaf ynot mwv.

620

Hiraeth am y Wawr.

87. 87. D.

- 1 **E**DRYCH 'r wyf, a hynny beunydd,
 A hiraethu am y wawr,
 Pryd y derfydd im â phechod,
 Ac y caf roi 'meichiau i lawr,
 Y caf ddihuno ar dy ddelw,
 Pan gaf weld dy ŵyneb gwiw,
 Pan gaf foli byth heb dewi,
 A bod yn debyg byth i'm Duw.
- 2 Fy natur egwan sydd yn soddi,
 Wrth deimlo praw o'th ddwyfol hedd ;
 Ac yn boddi gan ryfeddod,
 Wrth edrych 'chydig ar dy wedd :
 O ! am gorff, a hwnnw'n rymus,
 I oddef pwys gogoniant Duw ;
 Ac i'w foli byth heb dewi,
 A chydag Ef dragwyddol fyw.

T.C.

621

Iesu'n Unig Nod.

87. 87. D.

- 1 **F**'ENAID gwan, sefydla d'olwg
 Ar yr Iesu'n unig nod ;
 Nid oes arall dâl i'w geisio,
 Nac i bwysu arno'n bod :
 Câr Ef nes anghofio d'ofid,
 Yma ar y ddaear ddu ;
 Câr nes i'th serchiadau hedeg
 Ato i Gaersalem fry.
- 2 Câr yr Hwn a ddichon wared,
 Ac ymddiried iddo Ef ;
 Cred, ac edrych i'r addewid
 Am drysorau rhad y nef :
 Cyfoeth canmil gwell na'r ddaear
 Sy'n ei eiriau glân i gyd :
 Cyfoeth gwell na'r grëadigaeth
 Im yw gwedd ei ŵyneb-pryd.

R.J.

622

“ Y Pethau sydd Uchod.”

87. 87. D.

1 **C**OD fy meddwl uwch gofidiau
 Amser, atat Ti dy Hun ;
 Cadw'n llwyr fy holl serchiadau
 Ar ogoniant Mab y dyn ;
 Gwasgar y cymylau tewion,
 Na wêl ffydd braidd drwyddynt hwy,
 Ac yn llewyrch dy oleuni
 Gad im orfoleddu mwy.

2 Cyfarwydda 'nhraed i gerdded
 Hyd y llwybrau gerddodd Ef ;
 Dal fy ffydd o hyd i syllu
 Ar sylweddau pur y nef ;
 Gwared f'enaïd rhag ymserchu
 Ar deganau estron wlad,
 Ond cryfha fy nymuniadau
 Am drigfannau tŷ fy Nhad.

D.

623

“ Ceraist Wirionedd oddi mewn.”

87. 87. D.

1 **A**M wirionedd boed ein llafur,
 Am wirionedd boed ein llef ;
 Ni saif dim ond y gwirionedd
 O flaen gorsedd bur y nef :
 Y gwir wrth fyw, a'r gwir wrth farw,
 Fydd yn elw mwy na'r byd :
 Arglwydd grasol, o'th drugaredd
 Rho'r gwirionedd inni i gyd.

A

624

“ Goleuni yn yr Hwyr.”

87. 87. D.

1 **D**AL fi'n agos at yr Iesu,
 Er i hyn fod dan y groes ;
 Tra fwy'n byw ym myd y pechu,
 Canlyn dani bura f'oes ;

Os daw gofid a thywyllwch,
 Rho im argyhoeddiad llwyr,—
 Wedi'r nos a'r loes a'r trallod,
 Bydd goleuni yn yr hwyr.

2 Dysg im edrych i'r gorffennol,—
 Hyn a ladd fy ofnau i gyd :
 Dy ddaioni a'th drugaredd
 A'm canlynant drwy y byd ;
 Os daw deigrin, storm a chwmwl,
 Gwena drwyddynt oll yn llwyr ;
 Enfys Duw sy'n para i ddatgan,
 Bydd goleuni yn yr hwyr.

3 Tywys Di fi i'r dyfodol,
 Er na welaf fi ond cam ;
 Cariad Duw fydd eto'n arwain,
 Cariad mwy na chariad mam.
 Mae Calfaria'n profi digon,
 Saint ac engyl byth a'i gŵyr ;
 Er i'r groes fod yn y llwybyr,
 Bydd goleuni yn yr hwyr.

E.H.E.

625

O ! Iesu, derbyn fi.

888. 6.

1 **G**WÊL y pechadur gwaethaf gaed
 Yn meiddio nesu at dy draed,
 Heb ddim o'i du ond rhin dy waed :
 O ! Iesu, derbyn fi.

2 Dôi publicanod, dan eu clwy',
 A phechaduriaid fwy na mwy,
 I'th geisio gynt, derbyniaist hwy :
 O ! Iesu, derbyn fi.

3 Myfi wyf euog, llesg a gwael,
 Yn grwydryn llwm heb ddim i'w gael ;

'R wyt Ti'n gyfoethog ac yn hael :
O ! Iesu, derbyn fi.

- 4 Ni cheisiaf mwy bleserau'r llawr,
Ond rhof fy hun i Ti yn awr,
A phwysaf ar yr Aberth mawr :
O ! Iesu, derbyn fi.

J.H.S.

626

"Ti ydwyf loches i mi."

888. 6. D.

- 1 **E**R cuwch y bryniau uchel fry,
A sŵn tymhestloedd tywyll du,
A'r holl freuddwydiol ofnau sy,
Anturiaf eto 'mlaen :
Mae nerth y nefoedd fry yn fwy
Na myrdd o'u dychryniadau hwy ;
Mae haeddiant dwyfol farwol glwy'
Yn drech na dŵr na thân.

- 2 Fy noddfa gadarn fythol yw
Y gair a ddaeth o enau Duw,
Y ceidw Ef fi fyth yn fyw—
Ffyddlondeb yw ei ras :
Mi welaf olion traed ei saint,
Dan y cystuddiau mwya'u maint,
Yn cadw'u cysur, cadw'u braint,
Yn wŷneb angau glas.

- 3 Os rhaid cyfarfod ar fy nhaith
Â rhyw gystuddiau mawrion maith,
A thrallod ni ddaeth eto chwaith,
Yn gawod ar fy mhen ;
Caf yfed o'r afonydd clir
Sy'n tarddu fry yn Salem dir,
O dan yr orsedd ddwyfol bur—
Cysuron nefoedd wen.

W.

627 *Mwynhad o Dduw yn llenwi'r Enaid.*

888. 6. d.

1 **N**ID oes ond f'Arglwydd mawr ei ddawn
 A leinw f'enaid bach yn llawn ;
 Ni allwn ddal dim mwy pe cawn :
 Mae Ef yn ddigon mawr ;
 A digon, digon, digon yw
 Dy hyfryd bresenoldeb gwiw ;
 Yn angau ceidw hyn fi'n fyw,
 A bodlon wyf yn awr.

2 Anfeidrol berffaith sanctaidd Fod,
 Gwna imi weld na chaed erioed,
 Ac na cheir pleser dan y rhod,
 Yn rhagor na'th fwynhau ;
 Wel dyma'r oriau gofias mwy,
 A'r pleser gefais ynddynt hwy
 Ddymunaf bellach fyth tra fwy',
 Yn unig i barhau.

3 A phe diffoddai'r heulwen fawr,
 Pe syrthiai sêr y nen i lawr,
 A phe diffygai'r fore wawr,
 A thwllwch yn eu lle—
 Cawn drigo mewn sancteiddiol dir,
 Yn llewyrch Haul Cyfiawnder pur,
 Tragwyddol faith ddiwrnod clir
 O fewn i furiau'r ne'.

W.

628 *Buddugoliaeth Milwyr Duw.*

88. 8884.

1 **Y**MLAEN ! ymlaen ! chwi filwyr Duw !
 O'ch blaen mae'r fuddugoliaeth wiw ;
 Cewch ddwyn eich palmwydd yn eich llaw,
 A gwisgo'r hyfryd goron draw,
 A bloeddio concwest ddydd a ddaw,
 Yn nheyrnas nef.

M.P.

- 2 Cawn uno yno â'r dedwydd lu
 Sy'n canu am gariad Iesu cu ;
 Ni ganwn am ei gariad drud,
 Pan ferwo'r môr, pan losgo'r byd ;
 A hyn fydd sain y gân i gyd—
 Ei gariad Ef.

629

Bywyd fy Mywyd i.

88. 88. 88.

- 1 **U**N cais a geisiaf, Arglwydd glân,
 Un sain yn unig sy'n fy nghân ;
 Pechadur wyf, pechadur mawr,
 Yn methu cael fy meiau i lawr ;
 O ! Iesu byw, dy fywyd Di
 Fo'n fywyd yn fy mywyd i.

- 2 Os ydwyf eiddil, gwael a gwan,
 Mi wn am Un a'm ewyd i'r lan ;
 Mi ddof ryw ddydd yn bur, yn lân,
 A sain gorchfygwr yn fy nghân ;
 O ! Iesu byw, dy fywyd Di
 Fo'n fywyd yn fy mywyd i.

630

Heddwch Duw.

888. 888.

- 1 **O** BOB trysorau dan y nef,
 Y pennaf yw ei heddwch Ef,
 Ei fath ni fedd yr India fawr ;
 Nid oes ond hwn a'm ceidw'n hy
 Yn erbyn fy ngelynion cry',
 Na chaffont byth fy mhen i lawr.
- 2 O ! gariad uchaf fu erioed,
 Ai fry, ai ynteu is y rhod,
 Blaen-braw o'r gwleddoedd nefol pur ;
 Ni cheisiaf, tra fwyf dan y nef,
 Ond teimlo'i awel hyfryd ef :
 Digonir fi yn y nefol dir.

- 3 O ! dowch ymlaen yn ddinacâd :
 Mi glywaf sŵn caniadau'r wlad—
 Peth o'r gorfoledd, peth o'r clod :
 Difyrrwch yng nghwmpeini Duw
 Nad oes o dan y sêr yn byw
 A wybu am ei fath erioed.

w.

631

Haeddiant Crist yr Unig Obraith.

888. 888.

- 1 **F**Y ngwrthgiliadau o bob rhyw,
 A'm beiau mwyaf, dua'u lliw,
 It, Iesu, wy'n eu rhoddi'n un ;
 'D oes neb a saif dros gyfryw rai,
 Na neb anturia 'nghyfiawnhau
 O flaen y nef ond Ti dy Hun.
- 2 Pe gwypent hwy'r annuwiol fyd
 Y ganfed ran o'm beiau i gyd,
 Hwy haerent nad oes im iachâd ;
 Ond o'u hardaloedd 'r wyf yn troi,
 A thua'r nefoedd 'r wyf yn ffoi,
 At haeddiant llawn y dwyfol waed.

- 3 Yr ochor draw i'r anial hyn,
 Lle nid oes niwl na ffos na llyn,
 Ond haul yn codi'n fore clir,
 'R wyf yn hiraethu am fod fy lle
 Yn agos i gynteddau'r ne',
 Ar sanctaidd nefol hyfryd dir.

w.

632

Hyder yn ŵyneb Angau.

888. 888.

- 1 **M**AE brodyr imi aeth ymlaen
 Trwy ddyfnach dŵr a phoethach tân ;
 Ac eto gorchfygasant hwy :
 'D yw'r dyfroedd y bŵm trwyddynt ddim,
 Mewn lled a dyfnder, nerth a grym ;
 Paham yr ofnaf innau mwy ?

- 2 Fy enaid, cred byth yn dy Dduw,
 Na fydd anfodlon tra fych byw ;
 Yr ydwyt beunydd yn nesáu
 I wlad mae cariad fel y môr
 Yn uno'r saint â'r nefol gôr—
 Tragwyddol gytsain bur ddi-drai. w.

633

Canlyn y Bugail.

88. 88. D.

- 1 **D**ILYNAF fy Mugail trwy f'oes,
 Er amarch a gwradwydd y byd ;
 A dygaf ei ddirmyg a'i groes,
 Gan dynnu i'r nefoedd o hyd ;
 Mi rodiaf, trwy gymorth ei ras,
 Y llwybyr a gerddodd Efe ;
 Nid rhyfedd os gwawdir y gwas,
 Cans gwawd gafodd Arglwydd y ne'.

- 2 Nid oes arnaf gwilydd o'i groes—
 Ei groes yw fy nghoron o hyd :
 Ei fywyd i'm gwared a roes
 Fy Ngheidwad, a'm prynodd mor ddrud ;
 Dioddefodd waradwydd a phoen,
 A'r felltith ar Galfari fryn ;
 F'anrhydedd yw canlyn yr Oen—
 Yr Oen a ddioddefodd fel hyn !

B.F., ar.

634

Diogelwch y Credadun.

88. 88. D.

- 1 **A**RHOSAF yng nghysgod fy Nuw—
 I mewn yn nirgelwch y nef ;
 Dan adain ei gariad 'r wy'n byw :
 Fe'm gwrendy cyn clywed fy llef.
 Pe curai trallodion yn hy
 I'm herbyn fel tonnau y môr,
 Mi ganaf wrth deimlo mor gry',
 Fy Nghraig a'm cadernid yw'r Iôr.

- 2 Nid ofnaf rhag dychryn y nos,
 Na'r saeth a ehedo y dydd :
 Dïogel bob munud o'm hoës
 A fyddaf yng nghastell fy ffydd ;
 Eiddilaf ryfelwr wyf fi,
 I ymladd â nerthoedd y ddraig ;
 Ond caf fuddugoliaeth a bri,
 A Duw Hollalluog yn graig.

H.L.

635

Arwain Fi.

10. 4. 10. 4. 10. 10.

- 1 **O**LEUNI mwyn, trwy'r gwyll sy'n cau bob tu,
 O ! arwain fi ;
 Pell oddi cartref wyf, a'r nos yn ddu,
 O ! arwain fi ;
 Cadw fy nhraed ; ni cheisiaf weled dim
 O'r tir sy draw ; un cam sy ddigon im.
- 2 Nid oeddwn gynt yn ymbil am i'th wawr
 Fy arwain i ;
 Dethol fy ffordd a fynnwn ; ond yn awr,
 O ! arwain Di.
 Carwn y llachar ddydd ; er ofnau'r hynt
 Bu falch fy mryd ; na chofia'r amser gynt.
- 3 Diau dy allu, a'm bendithiodd cyd,
 A'm harwain i
 Dros waun a rhos, dros graig a chenlli, hyd
 Pan wawrio hi,
 A'r engyl gyda'r wawr yn gwenu fo,
 A gerais er ys talm, a gollais dro.

NEWMAN, C. J.M.-J.

636

Gweddi'r Pererin.

10. 4. 10. 4. 10. 10.

- 1 **A**R hyd yr anial unig yn dy law,
 O ! dirion Dad,
 Gad i mi gerdded, nes gorffwyso draw
 Ar dir fy ngwlad ;

Pan fyddwyf yn sychedig, tywys fi
I'r cysgod, lle mae ffynnon gennyf Ti.

- 2 Pan fyddo'r gwres yn lladd fy nerth yn llwyr,
Heb awel bêr,
O ! cynnal fi, nes dyfod cysgod hwyr
A chwmni'r sêr,
A than ryw deg balmwydden gad i mi
Roi 'mhen i lawr, yn agos atat Ti.

G.P.G.

637

"Tangnefedd Heddychol."

10. 10.

- 1 **H**EDD, perffaith hedd ! mewn byd o bechod
du ?
Mae gwaed yr Oen yn sibrawd hedd i ni.
- 2 Hedd, perffaith hedd ! dan groesau o bob rhyw ?
Tangnefedd sydd o hyd ar fynwes Duw.
- 3 Hedd, perffaith hedd ! a cheraint hoff ymhell ?
Mae gofal Iesu'n ddiogelwch gwell.
- 4 Hedd perffaith hedd ! heb un dyfodol fraw ?
Mae'r Iesu'n eistedd ar yr orsedd draw.
- 5 Hedd, perffaith hedd ! yn wneub angau du ?
Diddymwyd angau gan yr Iesu cu.
- 6 Mae'n ddigon byth, yn wneub byd a bedd,
Fod Iesu'n galw i'w dragwyddol hedd.

BICKERSTETH, ef. E.R.

638

Yr Hen Drugareddau.

10. 10. 10. 10.

- 1 **F**Y Nuw, fy Nuw, fy Mhriod wyt a'm Tad,
Fy ngobaith oll, a'm hiechydwrriaeth rad,
Ti fuost noddfa gadarn i myfi,
Gad imi eto weld dy wneub Di.

- 2 Nac aed o'th gof dy ffyddlon amod drud,
Yn sicir wnaed cyn rhoi sylfeini'r byd ;
Ti roist im yno drysor maith di-drai ;
Gad imi heddiw gael dy wir fwynhau.
- 3 O ! cofia'r hedd rai prydiau roist i lawr
I'm henaid trist mewn cyfyngderau mawr ;
O ! edrych eto, mae fy enaid gwan
Gan syched mawr ar drengi yn y fan.
- 4 Nid rhaid it ond dywedyd gair o hedd,
Fy syched a dry'n dawel nefol wledd ;
Fe dderfydd gofid, derfydd pob rhyw wae,
Fy nhriswch lyncir yn dy wir fwynhau. W.

639

Llef y Pechadur.

10. 10. 10. 10.

- 1 **P** ECHADUR wyf a aeth yn llwyr ar goll,
O'm pen i'm traed yn euog, aflan oll ;
Dan glwyfau dwys, tra dyfnion, trymion trist,
Ond Meddyg rhad i'm bath yw Iesu Grist.
- 2 Efe ei Hun, i roddi im iachâd,
Yw'r un a fedd bob gras a rhinwedd rhad ;
Ac arno Ef, sy'n ffynnon o bob dawn,
Mi godaf lef, hwyr, bore, a phrynhawn.
- 3 O ! Iesu gwiw, golch fi o'm pen i'm traed,
Trwy rinwedd pur dy werthfawr ddwyfol waed ;
Rho heddwch im rhag euog ofnus gur,
A llanw fi â'th anian sanctaidd bur.
- 4 Fy Iesu, mae diferyn bach o'th hedd,
Mewn byd o boen yn beraidd hyfryd wledd :
O ! 'r afon fydd i'w hyfed mewn mwynhad,
Fel melys win, yn nefol dŷ ein Tad ! T.J.

640

Cri enaid crwydredig.

10. 10. 10. 10.

- 1 **P**AHAM yr wyf mor bell oddi wrth fy Nuw ?
 Fy nghalon wag, mor ffôl, mor wamal yw ;
 Yn crwydro oddi wrth y ffrwd o nefol ras,
 A'r dyfroedd byw lle profais hyfryd flas.
- 2 Duw, atal Di rwysg fy meddyliau ffôl,
 Dena fy serch a'm calon ar dy ôl :
 Yn holltau'r graig dod imi noddfa glyd,
 Mewn tawel hedd, nes mynd o'r anial fyd.

I. WATTS, c. J.T.

641

"A'i ddalen ni wywa."

10. 10. 10. 10.

- 1 **G**WNA fi fel pren planedig, O ! fy Nuw,
 Yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw :
 Yn gwreiddio ar led, a'i ddail heb wywo mwy,
 Yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol glwy'. A.C.
- 2 Gad imi fyw, yng nghanol pob rhyw bla,
 Dan gysgod clyd adenydd Iesu da ;
 A'm tegwch gwir fel olewydden wiw
 O blaniad teg daionus Ysbryd Duw.
- 3 Ac yna caf, mewn haf dragwyddol ddydd,
 Y palmwydd teg, a'r goron ddisglair sydd
 Ynghadw gan yr Iesu pur i'w saint
 Mewn dedwydd fyd—O ! nefol hyfryd fraint. A.C.

642

Ymgysegriad.

10. 10. 10. 10.

- 1 **I**TI dymunwn fyw, O ! Iesu da,
 Ar lwybrau esmwyth oes, dan heulwen ha' ;
 Neu os daw'r niwl i guddio'r wÿbren las,
 Na ad i'm hofnau atal gwaith dy ras.
- 2 Yn fwy bob dydd i Ti dymunwn fyw,
 Gan wneud dy waith yn well,—gwaith engyl yw

A gad i mi, wrth ddringo'u hysgol hwy,
Gael beunydd weld o'th degwch lawer mwy.

- 3 Os rhaid ymwadu, dyro ras i mi,
Rhag cadw dim yn ôl oddi wrthyt Ti :
Na chaed nac aur, na chlod, na swyn y byd
Dy atal, Iesu da, i lenwi 'mryd.
- 4 Ni allaf roddi fel y rhoddaist im ;
'R wy'n gweld, yng ngolau'r groes, fy ngorau'n
ddim :
Ond at y groes, er hynny, deuaf fi'
I'm rhoi fy hunan i'th ewylllys Di.
- 5 Fy hunan oll i Ti, O ! Iesu da,
Er dyfod cwmwl du, neu heulwen ha' ;
O fore oes, hyd nes i'r cyfnos ddod,
Rho im y fraint o fyw bob dydd i'th glod.

H.E.L.

643

Yr Arghwydd a Ddarpar.

10. 10. 11. 11.

- 1 **D**UW'N darpar o hyd, at raid dynol-ryw,
Yw'n cysur i gyd, a'n cymorth i fyw :
Pan sycho ffynhonnau cysuron y llawr,
Ei heddwch yn ffrydiau a lifa bob awr.
- 2 Er trymed ein baich, ni gofiwn o hyd
Mor gadarn ei fraich, mor dyner ei fryd ;
Y cof am Galfaria, ac aberth y groes,
Yn hyfryd lonydda fôr tonnog fy oes.
- 3 Mae'r gelyn yn gry'—ond cryfach yw Duw ;
Af ato yn hy, tŵr cadarn im yw :
Pan droir yn adfeilion amcanion pob dyn,
Mi ganaf mor ffyddlon yw'r Cyfaill a lŷn.
- 4 Rheolir pob byd gan air cadarn Iôr,
Diogel o hyd yw daear a môr ;
A minnau nid ofnaf, er lleied fy nerth ;
Mewn adfyd mi gofiaf Breswylydd y berth.

H.C.W.

644

O ! am yr Hedd !

11. 10. 11. 10.

- 1 **R**HO im yr hedd, na wŷyr y byd amdano,
Y nefol hedd a ddaeth trwy ddwyfol loes ;
Pan fyddo'r don ar f'enaïd gwan yn curo,
Mae'n dawel gyda'r Iesu wrth y groes.
- 2 O ! dyro'r hedd, na all y stormydd garwaf
Ei flino byth, na chwerwi ei fwynhad ;
Pan fyddo'r enaid, ar y noson dduaf,
Yn gwneud ei nyth ym mynwes Duw ein Tad.
- 3 Rho brofi'r hedd a wna in weithio'n dawel
Yng ngwaith y nef, dan siomedigaeth flin ;
Heb ofni dim, ond beunydd yn ddiogel
Yn ymyl Duw, er garwed fyddo'r hin.
- 4 O ! am yr hedd sy'n llifo megis afon
Trwy ddinas Duw, dan gangau'r bywiol bren :
Yr hedd sy'n llenwi bywyd yr angylion :
Yr hedd fydd inni'n nefoedd byth. Amen.

H.E.L.

ANGAU A THRAGWYDDOLDEB.

645

Marw a'i Ganlyniadau.

M. B.

- 1 **A**I marw raid i mi,
A rhoi fy nghorff i lawr ?
Oes raid i'm henaïd ofnus ffoi
I dragwyddoldeb mawr ?
- 2 Beth ddaw ohonof fi
'R ôl gadael daear lawr ?
Tragwyddol wae, neu hedd di-lyth,
A fydd fy rhan ryw awr.
- 3 Deffroir fy nghysglyd lwch
Pan seinio utgorn Duw ;
Y byd ar dân, a'r nef yn ffoi
Rhag Barnwr meirw a byw.

- 4 O ! am gael treulio f'oes
 Er clod i'm Harglwydd mawr ;
 A rhodio'n isel gyda Duw,
 Tra fyddwyf ar y llawr.

C. WESLEY, c., *Cas. J.H.*

646

Byth bythoedd gyda Duw.

M. B. D.

- 1 “**B**YTH bythoedd gyda Duw !”
 Amen ; poed felly bo :
 Cael bywyd o farwolaeth yw,
 Heb dranc, na thrai, na thro.
 'R wyf yma'n rhwymau'r corff
 Yn crwydro hebddo Ef ;
 Er hyn bob nos llestu'r wyf
 Daith dydd yn nes i dref.
- 2 O ! uchel dŷ fy Nhad,
 A chartref f'enaïd draw,
 Mor agos weithiau i lygad ffydd
 Fydd d'euraid byrth gerllaw !
 Bydd f'ysbryd yn dyheu
 Am dreiddio i'r ardal gu,
 I etifeddiaeth glaer y saint
 Ym mro Caersalem fry.
- 3 “ Byth bythoedd gyda Duw !”
 Fy Nhad, os Ti a'i myn,
 Cywira im addewid fawr
 Y ffyddlon eiriau hyn.
 Ar fy neheulaw'n borth
 Bydd Di, ac ni lesgâf ;
 Dal fi i'r lan, a safaf byth ;
 Brwydro a threchu a wnaif.
- 4 A phan fo f'olaf ffun
 Yn rhwygo'r llen yn ddwy,
 Trwy angau dof o angau'n rhydd,
 I fyw'n dragywydd mwy.

Ac o'i adnabod Ef,
 Bydd hoff y geiriau gwiw,
 A'm cân o flaen yr orsedd fydd—
 "Byth bythoedd gyda Duw!"

J. MONTGOMERY, C. J.M.-

647

Gorffwys yn y Bedd.

M. C.

- 1 **M**OR ddedwydd yw y rhai, trwy ffydd
 Sy'n mynd o blith y byw ;
 Eu henwau'n perarogli sydd,
 A'u hun, mor dawel yw !
- 2 Ar ôl eu holl flinderau dwys
 Gorffwyso maent mewn hedd,
 Ymhell o sŵn y byd a'i bwys,
 Heb boen yn llwch y bedd.
- 3 Llais un gorthrymydd byth ni ddaw
 I'w deffro i ŵylaw mwy,
 Na phrofedigaeth lem, na chroes—
 Un loes ni theimlant hwy.

E.

648

Tyrfa'r Gwardedigion.

M. C.

- 1 **M**I welaf dyrfa draw o'm blaen
 Yn canu ar ben eu taith,
 Ac wedi gorffen drysu ar hyd
 Yr anial garw maith.
- 2 'N ôl cyfeiliorni ar y dde,
 Ac ar yr aswy law,
 Heb un cyfeiliorn maent yn awr
 Yn canu'n beraidd draw.
- 3 Fe ddarfu eu rhyfel, er ei rym,
 Fe ddarfu eu poen a'u gwae ;
 Ac maent yn yfed heddiw o'r wledd
 Dragwyddol sy'n parhau.

- 4 Pob parch a haeddiant, gras a dawn,
 Pob enw oll o ddyn,
 Sydd yno'n hollol suddo i lawr
 Yn Iesu mawr ei Hun.

w.

649

Y Pererinion ar ben eu Taith.

M. C.

- 1 **M**AE pererinion draw o'm blaen,
 Yn canu'r anthem bur,
 A heddiw'n edrych fel o bell,
 Ar ddrysi'r diffaith dir.

- 2 Maent hwy'n rhyfeddu'r dwyfol ras
 A'u nerthodd ar eu taith ;
 A chanu cariad addfwyn Oen
 Ffyddlonaf yw eu gwaith.

- 3 O ! nertha finnau i edrych draw,
 Heb wÿro o un tu,
 Nes imi gyrraedd disglair byrth
 Caersalem newydd fry.

- 4 Rho'r delyn euraid yn ein llaw,
 Ac yn ein hysbryd dân,
 Ac ym mheryglon anial dir
 Erfyniau pur a chân.

- 5 Ni awn fel hyn yng ngwres y nef,
 Fel un lluosog lu,
 Trwy demtasiynau heb ddim rhif,
 I mewn i'r nefoedd fry.

w.

650

Gorffwys yn y Nef.

M. C.

- 1 **M**AE'N hyfryd meddwl ambell dro,
 Wrth deithio anial le,
 Ar ôl ein holl flinderau dwys,
 Cawn orffwys yn y ne'.

- 2 Ar fin diffygio gan y daith,
A lludded maith y lle,
Mor hoff yw gwybod—wedi hyn
Cawn orffwys yn y ne'.
- 3 'N ôl teimlo archoll llawer saeth,
A phrofedigaeth gref,
A dioddef gwres y dydd, a'i bwys,
Cawn orffwys yn y nef.
- 4 Mae'n gysur meddwl, pan fo'n dod
Len dros ei wyddfod Ef,
Yn cynnal ei dragwyddol bwys,
Cawn orffwys yn y nef.
- 5 Er colli ein cyfeillion hoff
Yn lli Iorddonen gref,
Mae'n felys meddwl—eto 'nghyd
Cawn gwrddyd yn y nef.
- 6 Cymhwyser ni drwy'r Ysbryd Glân
A'i rasol ddoniau Ef,
Nes dyfod fel twysennau llawn,
Yn aeddfed iawn i'r nef.

E.

651

Undeb y Gwardigion.

M. C.

- 1 **M**AE brodyr imi aeth ymlaen
Yn holliach a chytûn ;
Deng mil o filoedd yw eu cân,
Er hyn nid yw ond un.
- 2 Mae pawb o'r brodyr yno'n un,
Heb neb yn tynnu'n groes,
Yn moli'r Duwdod yn y dyn,
A chofio'r angau loes.

3 Ni theimlir yno unrhyw boen,
 Na chwyno gan un clwy' ;
 Ond pawb mewn hwyl yn moli'r Oen
 I dragwyddoldeb mwy.

4 Daw'r holl dduwiolion yno 'nghyd,
 O'r gogledd, de, heb ri',
 A'u holl gadwynau'n chwilfriw mân,
 A'u cân am Galfari.

D.M.

652

Gwlad yr Addewid.

M. C.

1 'R WY'N sefyll ar dymhestlog lan
 Yr hen Iorddonen ddu,
 Gan syllu draw mewn hiraeth dwys
 Ar fryniau'r Ganaan fry.

2 'R wy'n tybio gwelaf eiliw gwan
 O'r glannau bythol wyrdd,
 Lle'r hongia sypiau grawnwin pur
 Ar fywiol brennau fyrdd.

3 Ni theimlir yno chwerw loes,
 A marw mwy ni bydd ;
 Awelon peraidd balmaidd byw
 Yn treiddio'r ardal sydd.

4 O ! ardal hyfryd, lle ni ddaw
 Na gofid byth, nac aeth,
 Lle ffrydia perffaith wynfyd pur
 Fel llif o fêl a llaeth.

5 Ac yno y mwynheir, heb nos,
 Un anfachludol ddydd,
 Heb haul, na lloer—ond Duw ei Hun
 I hon yn haul a fydd.

- 6 Awelon peraidd balmaidd byw
 Yn treiddio trwyddi sydd ;
 Angau na phechod, ing na phoen,
 Mwy ynddi byth ni bydd.

E.E., *ar.*

653 SALM lxxxvi. 12, 13 ; xlix. 15.

M. S.

- 1 **F**Y Arglwydd Dduw, moliannaf Di
 Â'm hegni ac o'm calon ;
 Ac i'th fawr enw byth gan dant
 Y rhof ogoniant cyson.

- 2 Cans mawr yw dy drugaredd Di
 Tuag ataf fi yn barod :
 Gwaredaist f'enaid i o'r bedd,
 Ac o'r gorddyfnedd isod.

- 3 Daw dydd i'r cyfiawn drannoeth teg,
 Daw im ychwaneg estyn ;
 A chaf o'r bedd gyfodi i fyw,
 Deheulaw Duw a'm derbyn.

E.P.

654 SALM xc. 1, 2, 5, 12—14.

M. S.

- 1 **D**UW, buost in yn Arglwydd da,
 Ac yn breswylfa i drigo ;
 O bryd i bryd, fel hyn yr aeth
 Pob rhyw genhedlaeth heibio.

- 2 Er cyn rhoi sail un mynydd mawr,
 Cyn llunio llawr cwmpasfyd,
 Y Duw tragwyddol wyt cyn neb,
 Hyd dragwyddoldeb hefyd.

- 3 Dyn nid yw ond fel hun, neu ail
 I addail, neu lifeiriant,
 Neu megis glas lysieuyn gwan,
 Mor fuan y newidiant.

- 4 Dysg felly in rifo'n dyddiau gwael,
 I'n calon gael doethineb ;
 O ! Dduw, pa hyd ? tyrd, dod yn hawdd
 I'th weision nawdd ac undeb.
- 5 Yn fore iawn diwalla ni
 Â'th fawr ddaioni eisoes,
 Fel y bo inni lawen fyd,
 Yn hyfryd dros ein heinioes. E.P.

655

Yr Atgyfodiad a'r Bywyd.

M. S.

- 1 **M**YFI yw'r Atgyfodiad mawr,
 Myfi yw gwawr y bywyd ;
 Caiff pawb a'm cred, medd f'Arglwydd Dduw,
 Er trengi, fyw mewn eilfyd.
- 2 A'r sawl sy'n byw mewn ufudd gred
 I Mi, caiff drwydded nefol,
 Na allo angau, brenin braw,
 Ddrwg iddaw yn dragwyddol.
- 3 Yn wir, yn wir, medd Gwir ei Hun,
 Pob cyfryw ddyn sy'n gwrando
 Fy ngair, gan gredu'r Tad a'm rhoes,
 Mae didranc einioes ganddo.
- 4 A wnêl ei orau i ufuddhau,
 Trwy ffydd, i'm geiriau hyfryd,
 Ni ddaw i farn, ond trwodd aeth
 O angau caeth i fywyd. EL.W.

656

Y Cristion yn Ddihangol.

M. H.

- 1 **F**E syrth aneirif sêr y nen,
 Tywylla'r bydoedd mawr uwchben,
 Fe sych y môr ;
 Bydd f'Arglwydd Iôr yr un o hyd.

- 2 Bydd Gwraig yr Oen, heb boen na phwn,
Yn canu'n iach y bore hwn
Ar ddehau law
Ei Phriod draw, heb farw byth.
- 3 Ceir gweld y dyrfa ddisglair fawr,
Rifedi gwllith y bore wawr,
Heb friw na phoen,
Yn canu i'r Oen y newydd gân.
- 4 O ! gwyn eu byd y dyrfa fawr,
Yn iach a hedodd uwch y llawr ;
Marwolaeth mwy
Ni chwrdd â hwy sydd fry mewn hedd.

M.I

657

Canu am Rad Ras.

2. 88. 888.

- 1 **B**YDD, bydd
Rhyw ganu peraidd iawn ryw ddydd
Pan ddêl y caethion oll yn rhydd :
Fe droir eu ffydd yn olwg fry ;
Cydunant byth, heb dewi â sôn,
I foli'r Oen fu ar Galfari.
- 2 Rhad ras
Yw'r newydd gân bereiddia'i blas
Fu 'rioed ar wŷneb daear las ;
Hi ddeil ei blas pan losgo'r byd,
A berwi o'r môr, a'i donnau'n dân :
Y nefol gân fydd gras i gyd.

G. 2, a Chas. J.I

658

Dedwyddwch y Trigfannau Nefol.

2. 88. 888.

- 1 **M**AE, mae
Yr amser hyfryd yn nesáu,
Pan gaffo f'enaid ei ryddhau
O'm tŷ o glai, i fynd i'm gwlad ;

Nid yma mae 'ngorffwysfa i ;
Mae honno fry yn nhŷ fy Nhad.

2 Parhau

Mae cariad Duw i'w annwyl rai ;
Hwy gânt yn wastad ei fwynhau,
Heb achwyn trai yr ochor draw :
O ! na bawn gydag Ef yn byw :
Fy Mhriod yw ; pa bryd y daw ?

3 Daw, daw

Fy annwyl Iesu maes o law,
I'm cyrchu drwodd i'r wlad draw,
I'r bywyd distaw pur di-boen ;
Caf ganu'n llawen gyda'r llu
Gân Moses fry, a chân yr Oen.

4 Yr Oen

Aeth dan fy mhenyd i a'm poen,
Ni thawaf byth amdano â sôn ;
Ei gariad tirion fydd fy nghân
Am iddo f'achub i trwy ras
A'm tynnu i maes o'r gynnu dân.

D.J.

659

Ni allodd Angau du.

64. 64. 66. 64.

- 1 **N**I allodd angau du
Ddal Iesu'n gaeth
Ddim hwy na'r trydydd dydd—
Yn rhydd y daeth :
Ni ddelir un o'i blant,
Er mynd i bant y bedd ;
Fe'u gwelir ger ei fron
Yn llon eu gwedd.
- 2 Ei gwmni i ddwyn y groes
Drwy f'oes im fydd,
A'i gwmni yn y glyn
Ar derfyn dydd ;

Ac er fy rhoi'n y llwch
 Mewn twllwch dros ryw hyd,
 Ni'm cleddir o'i wÿydd E'
 Mewn lle'n y byd.

- 3 Er gorwedd yn y bedd,
 Fy annedd fud,
 Daw'r Iesu i'm codi'n llon
 Gerbron ryw bryd :
 A'm llygaid i a'i gwêl—
 Mae'r gair dan sêl yn wir—
 Ar newydd ddedwydd ddydd,
 Boreddydd clir.

W.EL., ar.

660

Glan Iorddonen.

65. 65. 66. 65.

- 1 **A**R lan Iorddonen ddofn
 'R wy'n oedi'n nychlyd,
 Mewn blys mynd trwy, ac ofn
 Ei stormydd enbyd :
 O ! na bai modd i mi
 Osgoi ei hymchwydd hi,
 A hedfan uwch ei lli
 I'r Ganaan hyfryd.
- 2 Wrth gofio grym y dŵr,
 A'i thonnog genlli
 A'r mynych rymus wêr
 A suddodd ynddi,
 Mae braw ar f'enaïd gwan
 Mai boddi fydd fy rhan,
 Cyn cyrraedd tawel lan
 Bro y goleuni.
- 3 Ond pan wy'n gweled draw
 Ar fynydd Seion,
 Yn iach, heb boen na braw,
 Fy hen gyfeillion,

Paham yr ofnaf mwy ?
 Y Duw a'u daliodd hwy
 A'm dyga innau drwy
 Ei dyfroedd dyfnion.

Ef. E.E.

661

Hiraeth am y Nef.

66. 66. 88.

1 CAERSALEM, dinas hedd,
 O! na bawn yno'n byw ;
 O hyd cawn weled gwedd
 A llewyrch ŵyneb Duw :
 Mae weithiau'n dywyll arna'i 'n awr ;
 Fy haul nid â byth yno i lawr.

2 Yn Nuw ymddiried 'r wy'
 Am gymorth oddi fry ;
 Fe'm dygodd eisoes trwy,
 Do, gyfyngderau lu ;
 Hyderus eto wyf trwy ffydd
 Yn nerth fy Nuw caf gario'r dydd.

3 Caf weld f'Anwylyd cu
 Pan elwyf draw i dre',
 Yr Hwn o'i gariad fu
 Yn dioddef yn fy lle ;
 Caf weld yr Iesu—digon yw ;
 Mae'r Oen a laddwyd yno'n fyw.

D.J.

662

Pen y Daith.

66. 66. 88.

1 MAE lluoedd maith ymlaen,
 'N awr o'u carcharau'n rhydd,
 A gorfoleddu maent
 Oll wedi cario'r dydd :
 I'r lan, i'r lan diangasant hwy,
 Yn ôl eu traed y sangwn mwy.

- 2 Cawn weld yr addfwyn Oen,
Fu farw ar y bryn,
Yn medi firwyth ei boen
Yn hyfryd y pryd hyn ;
Bydd myrdd heb rif yn canu 'nghyd
I'r Hwn fu farw dros y byd.

663 *Diogelwch y Saint yng Nghrist.*

66. 84. D.

- 1 **A**M fod fy Iesu'n fyw,
Byw hefyd fydd ei saint ;
Er gorfod dioddef poen a briw,
Mawr yw eu braint :
Bydd melys lanio draw,
'N ôl bod o don i don ;
Ac mi rof ffârwel maes o law
I'r ddaear hon.
- 2 Ac yna gwyn fy myd,
Tu draw i'r byd a'r bedd :
Caf yno fyw dan foli o hyd
Mewn hawddfyd hedd ;
Yng nghwmni'r nefol Oen,
Heb sôn am bechod mwy,
Ond canu am ei ddirfawr boen
Byth gyda hwy.

664 *Heddwch Duw yn concro Angau.*

66. 86. 86. 886.

- 1 **O** ! DDUW, rho im dy hedd,
A golwg ar dy wedd,
A maddau'n awr fy meiau mawr,
Cyn elwy' i lawr i'r bedd :
Ond im gael hyn, nid ofna'i 'r glyn,
Na cholyn angau'n hwy ;
Dof yn dy law i'r ochor draw,
Heb friw na braw, ryw ddydd a ddaw,
Uwchlaw pob loes a chlwy'.

665

Sefyll yn y Farn.

76. 76. D.

1 **T**I, Farnwr byw a meirw,
 Sydd ag allweddau'r bedd,
 Terfynau eitha'r ddaear
 Sy'n disgwyl am dy hedd ;
 'D yw gras i Ti ond gronyn,
 Mae gras ar hyn o bryd
 Ryw filoedd maith o weithiau
 I mi yn well na'r byd.

2 O flaen y fainc rhaid sefyll,
 Ie, sefyll cyn bo hir ;
 Nid oes a'm nertha yno
 Ond dy gyfiawnder pur :
 Myfi anturia'n eon
 Trwy ddyfroedd a thrwy dân,
 Heb olau a heb lewyrch,
 Ond dy gyfiawnder glân.

W.

666

Rhyfeddodau Dydd yr Atgyfodiad.

76. 76. D.

1 **B**YDD myrdd o ryfeddodau
 Ar doriad bore wawr,
 Pan ddelo plant y tonnau
 Yn iach o'r cystudd mawr ;
 Oll yn eu gynau gwynion,
 Ac ar eu newydd wedd,
 Yn debyg idd eu Harglwydd
 Yn dod i'r lan o'r bedd.

Cas. R. a J.W.

667

Dydd o brysur Bwysu.

76. 76. D.

1 **D**AW dydd o brysur bwysu
 Ar grefydd cyn bo hir ;
 Ceir gweld pwy sydd â sylwedd,
 A phwy sydd heb y gwir :

O ! Dduw, rho im adnabod
 Ar f'ysbryd ôl dy law,
 Cans dyna'r nod a'r ddelw
 Arddelir ddydd a ddaw.

J.W.(?) ; *dyf.* J.T., 1787.

668

Ail Ddyfodiad Crist.

76. 76. D.

1 **E**R gwaetha'r maen a'r gwylwyr
 Cyfododd Iesu'n fyw ;
 Daeth yn ei law alluog
 Â phardwn dynol-ryw ;
 Gwnaeth etifeddion uffern
 Yn etifeddion nef ;
 Fy enaid byth na thawed
 Â chanu iddo Ef.

2 Fe'i gwelir ar y cwmwl
 Yn dyfod cyn bo hir,
 A'i ddedwydd waredigion,
 Ffrwyth ei ddioddefaint pur :
 Bydd gogledd, de, a dwyrain,
 Gorllewin faith, yn un,
 Oll yn eu gynau gwynion
 Yn moli Mab y Dyn.

M.R.

669

Sylfaen Safadwy.

76. 76. D.

1 **A**M graig i adeiladu,
 Fy enaid, chwilia'n ddwys ;
 Y sylfaen fawr safadwy
 I roddi arni 'mhwys :
 Bydd melys yn yr afon
 Gael Craig a'm deil i'r lan,
 Pan fyddo pob rhyw stormydd
 Yn curo ar f'enaid gwan.

MAU.D.

670

Llawenydd yn wŷneb Angau.

76. 76. D.

- 1 **Y**MADO wnafl â'r babell
 'R wy'n trigo ynnddi'n awr ;
 Colofnau'r tŷ ddatodir,
 Fe'u cŵmpir oll i lawr ;
 Â pob gwahan-glwyf ymaith ;
 Glân fuddugoliaeth mwy !
 'R wy'n canu wrth gofio'r bore
 Na welir arnaf glwy'.
- 2 Fe dderfydd imi bechu,
 Iacheir yn lân fy nghlwy',
 Ond byth ni dderfydd canu
 Am faddau pechod mwy ;
 Caf gorff yr hen farwolaeth
 I lawr, na chyfyd byth ;
 Teyrnasaf gyda'r Iesu
 Fry, oesoedd rif y gw lith.

M.R.

671

Gweled Iesu yn y Nefoedd.

76. 76. D.

- 1 **B**YDD gweld gogoniant Iesu,
 A chofio'r manau bu,
 Yn ennyn cân o newydd
 Trwy'r holl nefolaidd lu ;
 Ei weld, a chofio Bethlem,
 A'i eni yno'n dlawd—
 Rhyfeddod nef y nefoedd
 Fydd gweled Duw mewn cnawd.
- 2 Ei weld, a chofio'r cwpan
 Yn Gethsemane ardd ;
 Ei gofio'n dod o Edom
 Oll yn ei wisg yn hardd ;
 Ei weld, a'i holl elynion
 Yn droedfaine dan ei draed ;
 Ei weld, a chofio'n golchi
 O'n beiau yn ei waed.

- 3 Ei weld, a chofio'r gofyn
 Yn y fechniaeth fawr,
 Wrth fynd i'r ddeddf yn ddiwedd,
 Rhoi'i fywyd glân i lawr ;
 Pa fodd na bydd yr olwg
 Ar Brynwr euog ddyn
 Yn ennyn cân a syndod
 Trwy'r nefoedd fawr ei hun ?

R.O.

672

Sychu'r Dagrau.

76. 76. D.

- 1 **B**YDD canu yn y nefoedd,
 Pan ddêl y plant ynghyd,
 Y rhai fu oddi cartref
 O dŷ eu Tad cyhyd ;
 Dechreuir y gynghanedd,
 Ac ni bydd wŷlo mwy,
 Ond Duw a sych bob deigrin
 Oddi wrth eu llygaid hwy.

- 2 Mae Iesu yn darparu
 Trigfannau yn y nef,
 I wneuthur croesaw helaeth
 I'w holl ddilynwr Ef.
 Dechreuant fod yn llawen,
 Ac ni bydd gofid mwy,
 Ond Duw a sych bob deigrin
 Oddi wrth eu llygaid hwy.

P.W.

- 3 Pan ddelo'r pererinion
 I gwrddydd yn y nef,
 Rhyw ganu mawr diddiwedd
 A glywir " Iddo Ef " ;
 Pob un â'i dannau'n dynion
 Yn seinio marwol glwy' ;
 A byth ni chlywir diwedd
 Ar eu caniadau hwy.

AN.

673

Gorffwysfa'r Saint.

77. 87. D.

- 1 **Y** PERAIDD dir hyfrydlon,
 Yr ardal euraid dirion,
 Ag oedd ymhell, yn sefyll draw,
 A ddaeth gerllaw yr awron ;
 Er lludded ac er blino,
 Na fydded in ddiffygio ;
 Yr ym yn nesnes, awn ar frys
 I mewn i'r llys yn gryno.
- 2 Cawn orffwys yn ddihangol
 O'n tentasiynau'n hollol,
 Mewn maith dangnefedd pur di-drai
 Sydd yn parhau'n dragwyddol ;
 A hyfryd ymddifyrru
 Yn ein Hanwylyd Iesu ;
 A threulio Sabbath melys gwiw
 Tragwyddol i'w foliannu.

w.

674

Hiraeth am y Nef.

8. 33. 6.

- 1 **P**RYD y caf, O ! Arglwydd Iesu,
 Hyfryd le
 Yn y ne'
 Gennyt i drigiannu ?
- 2 Pryd y caf fi ganu yng Nghanaan,
 Lle nid oes
 Poen na loes ?
 O ! mor deg yw'r drigfan !
- 3 Pryd y caf fi, Arglwydd, ddirnad
 Beth yw bod
 Dan dy nod—
 Gorwedd yn dy gariad ?
- 4 Iesu, agor, Dwysog dwyfol,
 Ddrws y nen
 Led y pen :
 Gwna fi o'r nifer nefol.

DL.R., ar.

675

Yr Hyfryd Wlad.

86. 86. 88.

1 'R WY'N caru enw'r hyfryd wlad,
 Y wlad tu draw i'r bedd ;
 Lle mae digymysg bur fwynhad,
 Lle mae tragwyddol hedd :
 Y nefol wlad, y nefol wlad,
 Lle mae tragwyddol bur fwynhad !

2 'R wy'n caru enw'r hyfryd wlad,
 Lle mae anwyliaid Duw,
 O gylch gorseddfaine wen fy Nhad
 Yn deulu mawr yn byw :
 O ! hyfryd wlad, O ! hyfryd wlad,
 Cartrefle'r saint yn nhŷ fy Nhad.

3 'R wy'n caru enw'r hyfryd wlad,
 Lle mae fy Iesu'n byw ;
 Lle mae fy Nuw, lle mae fy Nhad,—
 Gwlad ogoneddus yw :
 O ! nefol wlad, fy nghartref yw,
 Y wlad lle mae fy Iesu a'm Duw.

4 'R wy'n canu am yr hyfryd wlad
 Wrth fynd yn nerth fy Nuw,
 Yng nghwmni'r pererinion mad,
 I'r nefol wlad i fyw :
 Yr hyfryd wlad ! fy nghartref yw,
 'R wy'n canu wrth fynd yno i fyw.

W.H.W.

676

Galar ar ôl Cyfeillion.

87. 87.

1 MAE 'nghyfeillion adre'n myned
 Draw o'm blaen o un i un,
 Gan fy ngadael yn amddifad,
 Fel pererin wrtho'i hun.

- 2 Wedi bod yn hir gyd-deithio
Yn yr anial dyrys maith,
Gormod iddynt oedd fy ngado
Bron ar derfyn eitha'r daith.
- 3 Wedi dianc uwch gelynion,
Croesau, a gofidiau fyrdd,
Maent hwy'n awr yn gwisgo'r goron,
Ac yn cario'r palmwydd gwyrdd.
- 4 Byddaf yn dychmygu, weithiau,
Fry eu gweld yn Salem lân,
Ac y clywaf, ar rai prydiau,
Atsain odlau pêr eu cân.
- 5 Ond mae'r amser bron a dyfod
Y caf uno gyda hwy,
Yn un peraidd gôr diddarfod,
Uwchlaw ofn ymadael mwy. E.E.

677

Croesi Iorddonen.

87. 87.

- 1 **E**NAID cu, mae dyfroedd oerion
Hen Iorddonen ddofn gerllaw ;
Eto, gwêl, mae'r ddinas sanctaidd
Ar y lan yr ochor draw.
- 2 Yno mae dy hen gyfeillion,
Wedi dianc uwch pob clwy',
Yn dy aros, er cael cyfran
O'u dedwyddyd hyfryd hwy.
- 3 Paid ag ofni, ber yw'r fordaith,
Ac mae'r Archoffeiriad cu
Yn dy aros yn y dyfroedd.
Er dy ddwyn i'r ddinas fry.

- 4 Clyw seraffaidd seiniau'n hedfan
 Draw o frodir Seion fryn ;
 Gwêl ei heuraid byrth yn agor
 Drwy y niwl sy'n toi y glyn.
- 5 Ffârwel fyd, a ffârwel deithio
 Yn yr anial dyrys mwy ;
 Ffârwel gnawd, a ffârwel lygredd,
 Ffârwel boen a phob rhyw glwy'.
- 6 Mae'r tywyllwch yn gwasgaru,
 A'r goleuni yn cryfhau ;
 'N awr 'r wy'n gweld y pur drigfannau ;
 Heda, f'enaïd, i'w mwynhau.

J. EDMESTON, C. E.E.

678

Sŵn y Delyn Aur.

87. 87. 47.

- 1 **'R** WY'N dy garu er nas gwelais ;
 Mae dy gariad fel y tân ;
 Ni all nwydau cryf fy natur
 Sefyll mymryn bach o'th flaen ;
 Fflam angerddol
 Rywbryd ddifa'r sorod yw.
- 2 Pell uwch geiriau, pell uwch deall,
 Pell uwch rheswm gorau'r byd,
 Yw cyrhaeddiad perffaith gariad,
 Pan enynno yn fy mryd :
 Nid oes tebyg
 Gras o fewn y nef ei hun.
- 3 Yno caf fi ddweud yr hanes
 P'odd y dringodd eiddil gwan
 Trwy afonydd, a thros greigiau
 Dyrys anial serth i'r lan :
 Iesu'i Hunan
 Gaiff y clod trwy eitha'r nef.

- 4 Dechrau canu, dechrau canmol
 (Ym mhen mil o filoedd maith)
 Iesu, bydd y pererinion
 Hyfryd draw ar ben eu taith :
 Ni cheir diwedd
 Byth ar sŵn y delyn aur. w.

679

Cydymaith yn y Glyn.

87. 87. 47.

- 1 **D**ERFYDD imi deithio'r ddaear,
 Tragwyddoldeb sydd gerllaw ;
 Ni chaf aros, ni chaf orffwys,
 Nes im fynd i'r ochor draw :
 O ! Iachawdwr,
 Paid â'm gadael yn y glyn.
- 2 Pan fo dyfroedd oer marwolaeth
 Yn fy nghylch yn ymgrynhoi,
 Pwy a ddeil fy mhen i fyny ?
 Pwy a wna i'm hofnau ffoi ?
 Neb ond Iesu :
 Gwenaf yno yn ei law. T.W., ar.

680

Dydd y Farn.

87. 87. 47.

- 1 **W**ELE'N dyfod ar y cwmwl,
 Mawr yw'r enw sy iddo'n awr ;
 Ar ei fraich ac ar ei forddwyd
 Y sgrifennwyd ef i lawr :
 Haleliwia !
 Groeso, groeso, addfwyn Oen.
- 2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,
 O gwmpeini hardd eu gwedd,
 Welaf draw yn codi i fyny
 I'w gyfarfod Ef o'r bedd :
 Darfu galar ;
 Dyma iechydwrriaeth lawn.

- 3 Nid oes yno gofio beiau,
 Dim ond llawn faddeuant rhad ;
 Poenau'r groes, a grym y cariad,
 A rhinweddau maith y gwaed :
 Darfu tristwch ;
 Daeth llawenydd yn ei le.

681

Ei weled fel y mae.

87. 87. 47.

- 1 OS yw tegwch d'wyneb yma
 Yn rhoi myrdd i'th garu'n awr,
 Beth a wna dy degwch hyfryd
 Yna'n nhragwyddoldeb mawr ?
 Nef y nefoedd
 A'th ryfedda fyth heb drai.

- 2 Pa fath uchder fydd i'm cariad,
 Pa fath syndod y pryd hyn,
 Pryd y gwelwyf dy ogoniant
 Perffaith llawn ar Seion fryn ?
 Anfeidroldeb
 O bob tegwch maith yn un.

- 3 Pa feddyliau uwch eu deall
 A gaf ynof fi fy hun,
 Wrth ystyried bod y Duwdod
 Perffaith pur a minnau'n un ?
 Dyma gwllwm
 Nad oes iaith a'i dyd i maes.

- 4 Cwlwm wnaed yn nhragwyddoldeb,
 Sicir, cadarn, mawr ei rym ;
 Ni all myrddiwn o flynyddoedd
 Dorri hwn, na'i ddatod ddim :
 Gwna, fe bery
 Tra parhao Duw mewn bod.

682

Gweled yr Iesu yn y Nef.

87. 87. 47.

- 1 **F**E roed imi ddymuniadau
 Nad oes dim o fewn y byd,
 Yn y dwyrain a'r gorllewin,
 A all hanner llanw 'mryd :
 Tragwyddoldeb,
 Yno llenwir fi yn llawn.
- 2 Mi gaf yno garu a fynnwyl,
 Cariad perffaith pur di-drai,
 Cariad trwy ryw oesoedd mawrion
 Nad â fymryn bach yn llai :
 Môr diderfyn,
 Byth yn berffaith, byth yn llawn.
- 3 Mi gaf yno weld a garwyf,
 Gweld fy Iesu, gweld fy Nuw,
 Gynt fu farw ar y croesbren,
 Heddiw'n ddisglair, heddiw'n fyw :
 Nef y nefoedd
 Sydd yn suddo yn ei hedd.

w.

683

Hapus Dyrfa.

87. 87. 47.

- 1 **G**WÊL uwchlaw cymylau amser,
 O! fy enaid, gwêl y tir,
 Lle mae'r awel fyth yn dyner,
 Lle mae'r wÿbren fyth yn glir :
 Hapus dyrfa
 Sydd yn nofio yn ei hedd.
- 2 Nid oes yno neb yn wÿlo,
 Nid oes yno neb yn brudd,
 Troir yn fêl y wermod yno,
 Yno rhoir y caeth yn rhydd :
 Hapus dyrfa
 Sydd â'u trigfa yno mwy.

- 3 Mae fy nghalon brudd yn llamu
 O orfoledd dan fy mron,
 Yn y gobaith am feddiannu
 'R etifeddiaeth ddwyfol hon :
 Hapus dyrfa
 Sydd â'u hŵyneb tua'r wlad.

W.T.

684

Hyfrydwch yn y Nefoedd.

87. 87. 67.

- 1 **D**ACW'R hyfryd fan caf drigo,
 Gwn caf drigo cyn bo hir,
 Dros y bryniau oer tymhestlog,
 Yn y sanctaidd hyfryd dir :
 Gwela'n awr fore wawr
 Glir, o dragwyddoldeb mawr.
- 2 Ni gawn yno weld a garwn,
 Mewn gogoniant llawer mwy
 Nag ei gwelsom ar y croesbren
 Dan ei farwol ddwyfol glwy' ;
 Lluoedd mawr sydd yn awr
 Yn ei garu uwch y llawr.
- 3 Ni gawn weld a'i carodd yma
 Yn y man yr ochor draw,
 Oll yn gwledda ar ei gariad,
 A'u telynau yn eu llaw :
 Oll yn un, a chytûn,
 Molant Dduwdod yn y dyn.

W.

685

Digon ar gyfer y Farn.

87. 87. D.

- 1 **O** ! FY enaid, chwilia'n fanwl
 Am drysorau canmil gwell
 Nag a fedd y grëadigaeth,
 A'm canlyno i'r wlad bell :
 Am wirionedd yn fy nghalon,
 Ag a'm dalio'r dydd a ddaw,
 Iesu'n Briod digyfnawid,
 Iesu'n noddfa gadarn draw.

D.W.

- 2 Dyma'r dydd o gywir bwyso
 Ar gyflyrau pawb o'r byd :
 Bernir yn y diwrnod hwnnw
 Fyw a meirw oll i gyd ;
 O ! am grefydd yn ei sylwedd,
 Ag a bery hyd y bedd,
 Crefydd ag a'm deil yn angau
 Uwch y tonnau garwa'u gwedd.

AN.

686

Duw yn Ddigon yn Angau.

87. 87. D.

- 1 O ! IACHAWDWR pechaduriaid,
 Sydd â'r gallu yn dy law,
 Rho oleuni, hwylia f'enaid
 Dros y cefnfor garw draw ;
 Gad i'r wawr fod rhag fy wŷneb,
 Rho fy enaid llesg yn rhydd ;
 Nes i'r heulwen ddisglair godi,
 Tywys fi wrth y seren ddydd.
- 2 O ! ynfyrwydd, O ! ffolineb,
 Im erioed oedd rhoi fy mryd
 Ar un tegan, ar un gwrthrych,
 Welais eto yn y byd :
 Y mae'r byd yn myned heibio,
 A'i deganau o bob rhyw ;
 Dan y nef ni thâl ei garu
 Wrthrych arall ond fy Nuw.

W.

687

Crist yn Angau.

87. 87. D.

- 1 COFIA, f'enaid, cyn it dreulio
 D'oriau gwerthfawr yn y byd,
 Cyn ehedeg draw oddi yma,
 P'un a gest ti'r trysor drud ;
 Ym mha ardal bydd fy llety ?
 Fath pryd hynny fydd fy ngwedd ?
 P'un ai llawen, ai cystuddiol
 Fyddaf y tu draw i'r bedd ?

- 2 Iesu hawddgar, 'r wy'n dy ddewis ;
 Nerth i ddilyn ôl dy droed !
 Yna caiff fy enaid hedeg
 I'r hapusrwydd uwch y rhod ;
 Nid rhaid teithio'r ddaear mwyach,
 Ymhlith pryfed gwael y llawr,
 Ond disgleirio 'mhlith myrddiynau
 Gylch yr orsedd fel y wawr.

W.

688

Tragwyddoldeb.

87. 87. D.

- 1 **D**YMA'R byd y mae taranau,
 Mellt, a chenllysg, daear-grŷn ;
 Yn y wlad 'r wy'n myned iddi
 Ni chaf weled yno'r un ;
 Mynych ceir cystuddiau yma,
 Rhagluniaethau chwerwon iawn,
 Ton ar ôl y llall yn rhuo
 O foreddydd hyd brynhawn.
- 2 Disgwyl pethau gwych i ddyfod,
 Croes i hynny maent yn dod ;
 Meddwl 'fory daw gorfoledd,
 'Fory'r tristwch mwya' 'rioed ;
 Meddwl byw, ac eto marw
 Yw'r lleferydd dan fy mron :
 Bob yn ronyn mi rof ffârwel,
 Ffârwel glân i'r ddaear hon.
- 3 Tragwyddoldeb ! mawr yw d'enw,
 Ti mae'n ddiâu yw fy lle ;
 Huriwr un diwrnod ydwyf,
 Fry mae 'nghartref yn y ne' :
 Mae 'niwrnod bron a gorffen,
 Mae fy haul bron mynd i lawr ;
 Mae pob awel yn fy chwythu
 Tua'r tragwyddoldeb mawr.

W.

689

Cynnal wrth farw.

87. 87. D.

- 1 **M**AE 'nghyfeillion wedi myned
 Draw yn lluoedd yn y blaen,
 Rhai fu'n mynd trwy ddyffryn Bacca
 Gyda mi tua Salem lân ;
 Yn y dyffryn tywyll garw,
 Ffydd i'r lan a'u daliodd hwy ;
 Mae'r addewid lawn i minnau :
 Pam yr ofna f'enaid mwy ?

W.

690

Gorfoledd y Credadun yn Angau.

87. 87. D.

- 1 **O** ! ANFEIDROL rym y cariad,
 Anorchfygol ydyw'r gras ;
 Digyfnwid yw'r addewid,
 A bery byth o hyn i maes ;
 Hon yw f'angor ar y cefnfor,
 Na chyfnwid meddwl Duw ;
 Fe addawodd na chawn farw,
 Yng nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw.

- 2 Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau,
 Nid oes neb a ddeil fy mhen
 Ond fy annwyl Briod Iesu,
 A fu farw ar y pren :
 Cyfaill yw yn afon angau,
 Ddeil fy mhen i uwch y don :
 Golwg arno wna i mi ganu
 Yn yr afon ddofon hon.

D.W.

691

Digonolrwydd Llawenydd yn y Nef.

87. 87. D.

- 1 **O** ! MOR hyfryd yw'r meddyliau
 Fod yr amser hynny ar ddod ;
 Y mae'r hiraeth sy'n fy nghalon
 Heb un terfyn iddo'n bod ;

Ni all y greadigaeth eang,
 Na'i gogoniant o un rhyw,
 Lanw 'nghri, na llanw f'enaïd,
 Na dim arall ond fy Nuw.

2 Yno llenwir fy nymuniad,
 Er ei faint, ac er ei gri,
 Fy holl wacter mawr a lenwir
 Gyda'r Duwdod, Un yn Dri ;
 Mi gaf yfed o ffynhonnau
 Gwir ddedwyddwch, a'm dyfrhau
 Â datguddiad pur o fywyd,
 A llawenydd i barhau.

3 Mi gaf glywed cytsain hyfryd
 Digrëedig Dri yn Un,
 Yn cyhoeddi heddwch nefol
 Perffaith, wrthyf fi fy hun :
 Saint, seraffiaid ac angylion,
 Mewn rhyw gytsain benna' 'rioed,
 Gyda mi yn seinio'r anthem
 O anfeidrol ddwyfol glod.

w.

692

Tragwyddol Orffwysfa'r Saint.

87. 87. D.

1 **O** ! DDEDWYDD awr tragwyddol orffwys
 Oddi wrth fy llafur yn fy rhan
 Yng nghanol môr o ryfeddodau,
 Heb weled terfyn byth na glan :
 Mynediad helaeth byth i bara
 O fewn trigfannau Tri yn Un ;
 Dŵr i nofio heb fynd trwyddo,
 Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn.

2 Byw heb wres, na haul yn taro,
 Byw heb allu marw mwy ;
 Pob rhyw alar wedi darfod,
 Dim ond canu am farwol glwy' ;

Nofio'n afon bur y bywyd,
 Diderfyn heddweh sanctaidd Dri,
 Dan dywyniadau digymylau
 Gwerthfawr angau Calfari.

A.G.

693

Y Porthladd Dymunol.

87. 87. D.

1 **M**AE'R dydd yn dod i'r had brenhinol
 I gael mordwyo tua'u gwlad,
 O gaethiwed y priddfeini,
 I deyrnasu gyda'u Tad ;
 Yno'u ffydd a dry yn olwg,
 A'u gobaith eiddil yn fwynhad ;
 Annherfynol fydd yr anthem,
 Dyrchafu'r Oen a'i werthfawr waed.

2 Bererin llesg gan rym y stormydd,
 Cyfod d'olwg, gwêl yn awr
 Yr Oen yn gweini'r swydd gyfryngol,
 Mewn gwisgoedd llaesion hyd y llawr :
 Gwregys euraid o ffyddlondeb ;
 Wrth ei odre clychau'n llawn
 O sŵn maddeuant i bechadur
 Ar gyfrif yr anfeidrol Iawn.

A.G.

694

Byw i Weld yr Anweledig.

87. 87. D.

1 **O**S rhaid ŵynebu'r afon donnog,
 Mae un i dorri grym y dŵr—
 Iesu f'Archoffeiriad ffyddlon,
 A chanddo sicir afael siŵr ;
 Yn ei gôl caf weiddi Conwest
 Ar angau, uffern, byd a bedd !
 Tragwyddol fod heb fodd i bechu,
 Yn ogoneddus ar ei wedd.

- 2 Yn lle cario corff o lygredd,
 Cyd-dreiddio â'r côr yn danllyd fry
 I ddiderfyn ryfeddodau
 Iechydwrïaeth Calfari ;
 Byw i weld yr Anweledig,
 Fu farw ac sy'n awr yn fyw ;
 Tragwyddol anwahanol undeb
 A chymundeb byth â'm Duw.
- 3 Yno caf ddyrchafu'r Enw
 A osododd Duw yn Iawn,
 Heb ddychymyg, llen, na gorchudd,
 A'm henaïd ar ei ddelw'n llawn ;
 Yng nghymdeithas y dirgelwch
 Datguddiedig yn ei glwy',
 Addoli'r Mab i dragwyddoldeb,
 Heb golli 'ngolwg arno mwy.

A.G.

695

Y Dydd Mawr Diweddaf.

87. 87. 887.

- 1 **D**DUW mawr, pa beth a welaf draw ?
 Diwedd a braw yr hollfyd.
 Mi wela'r Barnwr yn nesáu
 Ar glaer gymylau tanllyd.
 Yr utgorn mawr yn seinio sydd,
 A'r beddau'n rhoddi eu meirw'n rhydd,
 I wae, neu ddydd o wynfyd.

AN. C. R.D.

- 2 Dydd gras yw'n awr, dydd yw i ni
 I ffoi rhag llid i ddyfod ;
 Mae eto le, trwy'r Iesu hael,
 I ni â Duw gael cymod :
 Awn ato Fe, cawn eto fyw,
 Boed iddo glod—dydd cymod yw ;
 O ! brysiwn i'w gyfarfod.

- 3 O ! Farnwr cyfiawn, gwrandaw'n cri,
 Sydd mewn trueni'n gorwedd ;
 O'th nerthol ras tosturia Di,
 A dod i ni drugaredd.
 O fewn y noddfa caffer ni,
 Agorwyd gynt ar Galfari,
 Cyn delo dydd dialedd ! T. B. COLLYER, *ef.* AN.

696

Y Nefoedd.

87. 88. 7.

- 1 **A**R ôl gofidiau dyrys daith,
 A gorthymderau filoedd,
 Hyfrydol falm o nefol ryw
 I'r wan flinedig fynwes yw—
 Cawn orffwys yn y nefoedd.
- 2 Mor felys meddwl ambell awr,
 Yng nghanol blin dymhestloedd,
 Os gwyntoedd geirwon geir o hyd
 Wrth hwylio tonnog fôr y byd—
 Mae'n dawel yn y nefoedd.
- 3 Cyfeillion inni heddiw sydd
 O fewn y fro yn lluoedd,
 Heb deimlo yno unrhyw loes
 Na gofid blin na chur na chroes,
 Yn canu yn y nefoedd.
- 4 Er rhodio dyffryn galar prudd,
 Ac wŷlo maith flynyddoedd,
 Ein Duw a sych ein dagrau'n lân,
 Ein galarnadau droir yn gân
 Heb ddarfod, yn y nefoedd.
- 5 Hiraethu mae fy nghalon drist
 Am weld y teg ardaloedd ;
 Fy Nuw, fy Iesu, O ! fy Nhad,
 A gaf fi ddod i'r hyfryd wlad,
 I'th foli yn y nefoedd ?

697

Cartrefle fy Anwilyd.

88. 88.

- 1 'N AWR 'r wy'n gweld yr ardal hyfryd,
 Hen gartrefle fy Anwilyd ;
 Gwlad lle mae pob rhyw gysuron
 Yn llifeirio fel yr afon.
- 2 Daew'r gwledydd hyfryd helaeth,
 A roed imi'n etifeddiaeth ;
 Lle mae cariad pur yn llifo
 Dros ardaloedd gras heb flino.
- 3 Fe ddaw'r dydd y caf fi ganu
 Concwest bai oedd yn fy maeddu ;
 Haleliwia nefol hyfryd,
 Diwedd pechu, diwedd gofid.
- 4 'R wyf yn clywed myrdd o seintiau
 'N awr yn canu eu telynau,
 Ac yn taro un Hosanna,
 Dechrau anthem pen Calfaria.
- 5 Minnau gaf fod yn eu cwmni,
 Cyn pen gronyn yno'n canu,
 Edrych gyda hwy yn wneb
 Disglair Brenin tragwyddoldeb.

w.

698

"Cystudd a Galar a ffy ymaith."

888. 888.

- 1 M I welaf fyrdd yr ochor draw
 O rai a 'maflodd yn ei law,
 Yn canu heddiw'n beraidd iawn ;
 Mae ofnau'n darfod yn y wlad
 Lle mae fy Nuw, lle mae fy Nhad,
 Ac yn eu lle lawenydd llawn.

- 2 O ! hyfryd ddedwydd nefol le,
 O ! gwyn eu byd sydd ynddo fe—
 Y ddinas ddisglair nefol glir ;
 Y man ni bu, y man nid oes
 Na phoen nac ing na gwae na loes,
 Ond heddwch llawn a chariad pur. W.

699 *Gogoniant yr Iesu yn y Nefoedd.*
 88. 88. D.

- 1 **M**AE'R lle sancteiddiolaf yn rhydd,
 Fe rwygodd f'Anwylyd y llen,
 Fe yw Haul y Cyfiawnder y sydd
 Yn goleuo'r holl nefoedd uwchben :
 Mae'r dyrfa'n anfeidrol o faint,
 Ac eto ni welaf mo'r un,
 Angylion, seraffiaid na saint,
 Neb fel fy Anwylyd ei Hun.
- 2 Mae'n eistedd yng nghanol y llu
 Sy â'u nifer fel glaswellt y maes,
 Yn helaeth yn rhoi i bob un
 Ogoniant a harddwch a gras ;
 Fe yw Afon y Bywyd sydd fry,
 A'r Manna cuddiedig a drud ;
 Efe yw hyfrydwch y llu—
 Fy Iesu yw'r nefoedd i gyd. W.

700 *Angau heb ei Golyn.*
 98. 98. D.

- 1 **O** ! ANGAU, pa le mae dy golyn ?
 O ! uffern, ti gollaist y dydd :
 Y Baban a anwyd ym Methlem
 Orchfygodd bob gelyn y sydd ;
 Nid rhaid i blant Seion ddim ofni
 Mynd adref dan ganu tua'u gwlad ;
 Eu ffordd sydd yn rhydd tuag yno,
 A honno gysegrwyd â gwaed. J.EV.

701 *Ffrydiau Gorfoledd y Gwardedigion.*

98. 98. D.

- 1 **M**AE ffrydiau 'ngorfoledd yn tarddu
 O ddisglair orseddfainc y ne' ;
 Ac yno'r esgynnodd fy Iesu,
 Ac yno yr eiriol Efe :
 Y gwaed a fodlonodd gyfiawnder,
 Daenellwyd ar orsedd ein Duw,
 Sydd yno yn beraidd yn erfyn
 I ni, y troseddwy, gael byw.
- 2 Cawn esgyn o'r dyrys anialwch
 I'r beraidd Baradwys i fyw ;
 Ein henaid lluddedig gaiff orffwys
 Yn dawel ar fynwes ein Duw :
 Dihangfa dragwyddol geir yno
 Ar bechod, cystuddiau a phoen,
 A gwledda i oesoedd diderfyn
 Ar gariad anhraethol yr Oen.
- 3 O fryniau Caersalem ceir gweled
 Holl daith yr anialwch i gyd ;
 Pryd hyn y daw troeon yr yrfa
 Yn felys i lanw ein bryd ;
 Cawn edrych ar stormydd ac ofnau,
 Ac angau dychrynlyd, a'r bedd,
 A ninnau'n ddihangol o'u cyrraedd
 Yn nofio mewn cariad a hedd.

D.C.

702 *Hiraeth am Salem.*

98. 98. D.

- 1 **O** ! SALEM, fy annwyl gartrefle,
 Mae d' enw'r pereiddiaf erioed :
 Pryd derfydd fy llafur a'm lludded
 O'th fewn mewn llawenydd a chlod ?
 Pa bryd y caf weled â'm llygaid
 Dy byrth sydd o berlau mor ddrud,
 A'th eurwych heolydd glân disglair,
 A'th furiau sy'n sefyll o hyd ?

2 Caersalem, ti ddinas fy Arglwydd,
 Pa bryd i'th gynteddau caf ddod,
 Lle ni bydd cynlleidfa yn ysgar,
 Na diwedd i'r Sabbath yn bod ?
 Dedwyddwch digymysg sydd yno,
 Ni phrofwyd yn Eden mo'i ryw,
 A llewyrch mwy tanbaid na'r heulwen,
 Sef llewyrch o orsedd fy Nuw.

3 Mae yno gantorion soniarus,
 A'u Ceidwad yw sylwedd eu sain ;
 A'm brodyr sydd yma cânt esgyn
 Yn fuan i ganol y rhain :
 O ! Salem, fy nghartref anwylaf,
 I'th fewn mae fy enaid am ddod ;
 Ac yno fy llafur a dderfydd
 Mewn cân orfoleddus a chlod.

“ F.B.P.,” c. D.CS.

703

Ail Ddyfodiad Crist.

10. 10. 10. 10. 11. 11.

1 GWÊL Grist yn dyfod ar y cwmwl draw,
 A phob awdurdod yn ei nerthol law ;
 Ceriwbiaid fyrdd, yn eu cerbydau tân,
 Yn gyrru'n glau o gylch eu Harglwydd glân ;
 Y ddaear gryn, y beddau ymagorant ;
 Cân utgorn Duw, a'r meirw a gyfodant. B.F.

704

Golwg ar Ogoniant y Nef.

10. 10. 10. 10. 11. 11.

1 TRWY gywir ffydd, O ! esgyn, f'enaid cu ;
 Gwêl dy breswylfod uwch yr wÿbren fry ;
 Ni ddeall dyn ac ni all tafod chwaith
 Byth adrodd maint ei phur ogoniant maith.
 Teyrnasu mae yr Iesu yn fuddugol,
 Angau a'r bedd orchfygwyd yn dragwyddol.

- 2 Un gofid trwm, na chystudd trist, na chur,
Ni ddaw i byrth y lân breswylfa bur ;
Na chlwyf na braw i'r saint i'w blino mwy,
Yr annwyl Oen a sych eu dagrau hwy.
Eu galar maith a'u chwerwon ddwys riddfannau
Yno a dry yn hyfryd bêr ganiadau.
- 3 Mae afon bur yn llifo o'r orsedd wiw ;
A'i bywiol ddisglair ddwfr, rhinweddol yw ;
Ac yno hyfryd Bren y Bywyd sy,
A'i firwythau Ef yn wledd dragwyddol fry.
Teyrnasu mae yr Iesu yn fuddugol,
Angau a'r bedd orchfygwyd yn dragwyddol.

R.

EMYNAU CYMDEITHASOL A CHENEDL-
AETHOL.

705

Achub ein Gwlad.

M. C.

- 1 **E**IN hadfyd gwêl, O ! Arglwydd Dduw ;
Tosturia, nefol Dad ;
Dywysog ein hieuenctid, clyw,
Ac achub Di ein gwlad.
- 2 Rhag colli gras Sabbathau'r nef,
Rhag sathru deddfau'n Tad,
Gwna rymus waith mewn gwlad a thref,
Ac achub Di ein gwlad.
- 3 Rhag cyngor pob annuwiol ddyn,
Rhag elw dilesâd,
Rhag dy fradychu Di dy Hun,
O ! Iesu, cadw'n gwlad.

4 Rhag pob rhyw feddwl cas a'i haint
 Yn d'Eglwys, nefol Dad,
 Perffeithia'r undeb rhwng y saint,
 Ac achub Di ein gwlad.

5 Er mwyn y rhai mewn dagrau fu
 Yn hau y gwerthfawr had,
 Er mwyn dy Fab sy'n eiriol fry
 O ! achub Di ein gwlad.

6 Sancteiddia'n henaidd trwy bob cur,
 Tosturia, nefol Dad ;
 I fywyd glân, i grefydd bur
 O ! achub Di ein gwlad.

H.E.L.

706

Gweddi dros y Byd.

M. C.

1 **T**RAGWYDDOL Hollalluog Iôr,
 Creawdwr nef a llawr ;
 O ! gwranddo ar ein gweddi daer
 Ar ran ein byd yn awr.

2 O'r golud anchwiliadwy sydd
 Yn nhrysorfeydd dy ras,
 Diwalla reidiau teulu dyn
 Dros wnebydd daear las.

3 Yn erbyn pob gormeswr cryf,
 O ! cymer blaidd y gwan ;
 Darostwng ben y balch i lawr,
 A chod y tlawd i'r lan.

4 Bendithia holl dylwythau dyn
 Â rhyddid pur a hedd ;
 A gad i bawb gael byw heb ofn,
 Dan nawdd dy ddwyfol wedd.

- 5 Ymostwng atom yn dy ras,
 O! gwrando ar ein cri :
 Ac mewn trugaredd, Arglwydd Iôr,
 Yn dirion ateb ni.

R.J.D.

707 *Nerth i wneud fy Rhan.*

M. C.

- 1 **R**HO imi nerth i wneud fy rhan
 I gario baich fy mrawd ;
 I weini'n dirion ar y gwan,
 A chynorthwyo'r tlawd.
- 2 Ehanga 'mryd, a gwared fi
 Rhag culni o bob rhyw,
 Rho imi weld pob mab i Ti
 Yn frawd i mi, O! Dduw.
- 3 Gad i mi weld dy wŷneb Di
 Ym mhob cardotyn gwael,
 A dysgu'r wers i wneuthur hyn
 Er mwyn dy gariad hael.

E. A. DINGLEY, C. W.N.W.

708 *SALM CVII. 23—26, 29—32.*

M. S.

- 1 **Y**RHAI a ânt mewn llongau i'r don,
 Â'u taith uwch mawrion ddyfroedd.
 A welant ryfeddodau'r Iôn,
 A hyn mewn eigion moroedd.
- 2 Â'i air cyffrôi dymhestloedd gwynt,
 Y rhain a godynt donnau
 Hyd awyr fry, hyd eigion llawr,
 Ac ofn bob awr rhag angau.
- 3 Gwnaeth E'r ystorm yn dawel deg,
 A'r tonnau'n osteg gwastad ;
 Yn llawen ddistaw doent i'r lan,
 I'r man y bai'u dymuniad.

- 4 Cyffesent hwythau ger ei fron
 Ei fawrion drugareddau,
 Ac i blant dynion fel y gwnaeth
 Yn helaeth ryfeddodau.
- 5 Holl gynulleidfa ei bobl Ef,
 Clod Duw hyd nef dyrchafant,
 Holl eisteddfeydd penaethiaid hen
 Yn llawen a'i moliannant.

E.P.

709

Y Deyrnas Newydd.

M. S. D.

- 1 **M**AE sain yr utgorn arian clir
 Yn cerdded dros y gwledydd ;
 Ceir byd heb bechod cyn bo hir,
 Ceir nef a daear newydd :
 Bydd geiriau'r Oen yn eiriau'r byd,
 Efe fydd yn teyrnasu ;
 Fe ddaw'r cenedloedd o un fryd
 I gyd dan faner Iesu.
- 2 I'r gwan daw cymorth gwell wrth raid,
 A rhyddid llawn i'r caethion ;
 Cawn fyw mewn hedd a Duw o'n plaid—
 Un enaid ac un galon.
 Fe baid y llid, fe dderfydd trais,
 Bydd pawb yn un ym mhobman ;
 Gwrandewir ar yr hyfryd lais
 Lle'r elo'r utgorn arian.
- 3 Bydd cyfoeth byd a meddwl dyn
 Yn eiddo Brenin Seion ;
 Fe roir coronau'r llawr bob un
 I'r Gŵr fu dan yr hoelion :
 Bydd pawb yn canu am y groes,
 Wrth gofio'r loes fu yno :
 O ! tyred bellach, ddedwydd oes
 A theyrnas hardd y Seilo.

H.E.L.

710

Cofia'n Gwlad.

M. H.

- 1 **D**DUW Iôr ein tadau, nefol Dad,
O ! achub a sancteiddia'n gwlad ;
Cysegra'n dyheadau ni
I geisio dy ogoniant Di.
- 2 Ein tŵr a'n tarian ar ein taith,
A'n Twysog fuost oesoedd maith ;
Rhoist yn ein calon ddwyfol dân,
Ac yn ein genau nefol gân.
- 3 O ! atal rwysg ein gwamal fryd,
A gwared ni rhag twyll y byd ;
Â'th ras, ein calon cadarnha,
A dyro braw o'th 'wyllys da.
- 4 O ! Ysbryd Glân, na foed i ni
Oleuni ond d'oleuni Di ;
Ac arwain bobloedd yn gytûn
I ogoneddu Mab y Dyn.
- 5 O ! na chaem weld y rhyfedd ddydd
I ninnau fynd o'n rhwymau'n rhydd,
Ac uno gyda nef a llawr
Ym moliant ei Ddyrchafael mawr.

J.T.J.

711

Canaf yn y Bore.

65. 65.

- 1 **C**ANAF yn y bore,
Am dy ofal cu ;
Drwy yr hirnos dywyll
Gwyliaist tros of fi.
- 2 Diolch iti, Arglwydd,
Nid ateliaist ddim ;
Cysgod, bwyd a dillad,
Ti a'u rhoddaist im.

3 Cadw fi'n ddiogel
 Beunydd ar fy nhaith ;
 Arwain fi mewn chwarae,
 Arwain fi mewn gwaith.

4 Boed fy ngwaith yn onest,
 Rho im galon bur ;
 Nertha fi i ddewis
 Rhwng y gau a'r gwir.

5 Diolch iti, Arglwydd,
 Yw fy llawen gân ;
 Canaf hyd nes cyrraedd
 Bröydd Gwynfa lân.

W.B.D.

712

O! gwawria Ddydd ein Duw.

66. 66. 88.

1 **O** ! GWAWRIA ddydd ein Duw,
 Oleuni pur y nef ;
 Er mwyn dy weld 'r wy'n byw
 Gan godi'n awr fy llef ;
 Oen addfwyn Duw, dy gariad Di
 Ddisgleirio ar fy enaid i.

2 **O** ! gwawria ddydd ein Duw :
 Y nos a bery'n hir ;
 Ochneidiau'n calon clyw,
 Oherwydd drygau'r tir ;
O ! Seren Ddydd, nesâ yn awr,
O ! Haul Cyfiawnder, rho dy wawr.

3 **O** ! gwawria ddydd ein Duw ;
 Gan drais y blina'r byd,
 A chalon dyn sy'n friw
 Yn sŵn y brwydro i gyd ;
O ! torred arnom ddydd o hedd,
 Distawed twrf y gad a'r cledd.

4 O ! gwawria ddydd ein Duw,
 Fel dydd y nef ei hun ;
 Ffydd, gobaith, cariad gwiw,
 Fo'n puro bywyd dyn ;
 Ond wele'r wawr yn torri draw ;
 Mae euraid fore'r dydd gerllaw.

H. BURTON, C. W.O.E.

713

Cysegru Dysg.

76. 76. D.

1 C YFRANNWR pob bendithion,
 Ac Awdwr deall dyn,
 Gwna ni yn wir ddisgyblion
 I'th annwyl Fab dy Hun ;
 Drwy bob gwybodaeth newydd,
 Gwna ni'n fwy doeth i fyw ;
 A gwisg ni oll ag awydd
 Gwasnaethu dynol-ryw.

2 Rho inni ysbryd gweddi,
 Rho inni wefus bur ;
 Rho gymorth mewn caledi
 I lynu wrth y gwir ;
 Yng nghynnydd pob gwybodaeth,
 Glanha, cryfha ein ffydd ;
 Ym mhob rhyw brofedigaeth
 Dysg inni rodio'n rhydd.

3 O ! Iesu, a fu farw
 Yn ieuanc ar y groes,
 Dod arnom ni dy enw
 Yn awr ym more oes ;
 Dy air fo yn ein calon,
 Dy Ysbryd yn ein gwaith ;
 A choron pob gobeithion—
 Dy gwrdd ar ben y daith.

H.E.L.

714

Emyn Gwasanaeth.

76. 76. D.

- 1 **T**I, Arglwydd nef a daear,
 Bywha'n calonnau gwyw,
 Dysg in gyfrinach marw,
 Dysg in gyfrinach byw.
 Rho glust i glywed neges
 Dy fywyd Di dy Hun ;
 Rho lygad wêl ei gyfle
 I wasanaethu dyn.
- 2 Gogoniant gwaith a dioddef,
 A hunanaberth drud,
 Lewyrcho ar ein llwybrau
 Tra fyddom yn y byd.
 Boed hunan balch ein calon
 Yn gwywo'n d'ymyl Di,
 A'n bywyd yn egluro
 Marwolaeth Calfari.

J.G.M.H.

715

Emyn Cymdeithasol.

76. 76. D.

- 1 **O** ! DDUW, ein Craig a'n Noddfa,
 Rho nawdd i'r gwan a'r tlawd,
 Er mwyn dy annwyl Iesu
 A anwyd inni'n Frawd :
 Darostwng bob gormeswr
 Sy'n mathru hawliau dyn.
 Ac achub y trueiniaid
 A grewyd ar dy lun.
- 2 Creawdwr cyrrau'r ddaear,
 Dad holl genhedloedd byd,
 Cymoda Di â'th gariad
 Deyrnasoedd dyn ynghyd ;
 Gwasgara'r rhai rhyfelgar
 Sy'n hoffi trin y cledd,
 A boed i fwyn frawdgarwch
 Gyfannu'r byd mewn hedd.

- 3 O ! Dduw, fy Ngheidwad innau,
 Rho d'Ysbryd imi'n awr,
 Yn ysbryd o wasanaeth
 Yng ngrym dy gariad mawr ;
 Ti feddyg clwyfau dynion,
 Rho imi ddwyn y groes,
 A llwyr gysegru 'mywyd
 I leddfau dynol loes.

D.M.E.

716

Tangnefedd ar y Ddaear.

87. 87. 47.

- 1 **D**UW a Thad yr holl genhedloedd,
 O ! sancteiddier d'enw mawr ;
 Dy ewyllys Di a wneler
 Gan dylwythau daear lawr ;
 Doed dy deyrnas
 Mewn cyfiawnder ac mewn hedd.
- 2 Gwasgar Di y rhai sy'n caru
 Rhyfel a'i erchylltra ef ;
 Rhag ei ddirfawr ddychryniadau
 Dyro waredigaeth gref ;
 Tro'r cleddyfau
 Oll yn sychau er dy glod.
- 3 Mewn trugaredd cofia'r gwledydd,
 O'u blinderau arwain hwy
 Yn d'oleuni Di i rodio
 Fel na ddysgont ryfel mwy ;
 O ! cymoder
 Pawb â'i gilydd wrth y groes.
- 4 Rhodded pobloedd byd ogoniant
 Fyth i'th enw, Arglwydd Iôr ;
 Llified heddwch fel yr afon,
 A chyfiawnder fel y môr ;
 Doed dy deyrnas
 Mewn tangnefedd byth heb drai.

D.T.E.

717

Cofia'n Teuluoedd.

87. 87. 47.

- 1 **A**RGLWYDD Dduw teuluoedd Israel,
 Rho i ninnau'r fendith fawr :
 A goleua'n holl drigfannau
 A goleuni'r nefol wawr :
 O ! llewyrched
 Golau'r nef drwy dir ein gwlad.
- 2 Dyro fwynder ar yr aelwyd,
 Purdeb a fyddlondeb llawn ;
 Adfer yno'r sanctaidd allor
 A fu'n llosgi'n ddisglair iawn :
 Na ddiffodded
 Arni byth mo'r dwyfol dân.
- 3 Aed gweddïau'r saint i fyny,
 Hwyr a bore'n ebyrth byw :
 A'u ffenestri fo'n agored
 Tua Salem, dinas Duw.
 Dan dy fendith
 Cadw'n gwlad o oes i oes.

J.T.J.

718

Gweddi dros ein Gwlad.

87. 87. 67.

- 1 **C**OFIA'N gwlad, Benllywydd tirion,
 Dy gyfiawnder fyddo'i grym :
 Cadw hi rhag llid gelynion—
 Rhag ei beiau'n fwy na dim :
 Rhag pob brad, nefol Dad,
 Taena d'adain dros ein gwlad.
- 2 Yma mae beddrodau'n tadau,
 Yma mae ein plant yn byw ;
 Boed pob aelwyd dan dy wenau,
 A phob teulu'n deulu Duw :
 Rhag pob brad, nefol Dad,
 Cadw Di gartrefi'n gwlad.

- 3 Gwna'n Sabbathau'n ddyddiau'r nefoedd,
 Yng ngoleuni d'eiriau glân ;
 Dyro'r gwlyth i'n cymanfaoedd—
 Gwna ein crefydd fel ein cân :
 Nefol Dad, boed mawrhad
 Ar d'efengyl yn ein gwlad.

H.E.L.

719 *Molwn Di, O ! Dduw ein Tadau.*

87. 87. D.

- 1 **M**OLWN Di, O ! Dduw ein tadau,
 Uchel wyl o foliant yw ;
 Awn i mewn i'th byrth â diolch,
 Ac offrymwn ebyrth byw ;
 Cofiw'n waith dy ddwylaw arnom,
 A'th amddiffyn dros ein gwlad ;
 Tithau, o'th breswylfa sanctaidd,
 Gwêl a derbyn ein mawrhad.

- 2 Ti â chariad Tad a'n ceraist
 Yn yr oesoedd bore draw ;
 O dywyllwch i oleuni
 Y'n tywysaist yn dy law ;
 Cawsom Di ym mhob cenedlaeth
 Fel dy enw'n gadarn Iôr ;
 Cysgod gwell na'r bryniau uchel,
 Ac na chedyrn donnau'r môr.

- 3 Cudd ni eto dan dy adain,
 A bydd inni'n fur o dân,
 Tywys Di ein tywysogion,
 Megis cynt, â'th Ysbryd Glân ;
 Pâr i'n cenedl annwyl rodio
 Yn dy ofn o oes i oes,
 Gyda'i ffydd yng ngair y cymod,
 Gyda'i hymffrost yn y groes.

E.W.

720

Cŵymp Babilon.

87. 87. D.

1 **B**ABEL gŵympa, er ei chryfed,
 Dagon syrth, er maint ei barch ;
 Nid oes elyn ddichon sefyll
 O flaen Iôr a'i gadarn arch :
 Hollalluog yw Duw Israel,
 Arglwydd lluoedd llawr a nen ;
 Caerau Jericho a syrthiant
 Pan ddaw'r seithfed tro i ben.

2 Clywir sŵn ym mrig y morwydd,
 Deulu Seion, ymgryfhewch ;
 Wele'r wawr yn dechrau codi,
 Haleliwia ! llawenhewch ;
 Fe utgenir trwy'r holl ddaear
 Utgorn mawr efengyl hedd,
 " Syrthiodd Babel, syrthiodd Babel,
 Mwy ni welir ond ei bedd."

D.H.

721

O ! Arglwydd grasol, trugarha.

87. 87. 887.

1 **O** ! ARGWLWYDD grasol, trugarha,
 A symud bla y gwledydd ;
 Darostwng falchder calon dyn,
 A nwydau'r blin orthrymydd ;
 A dysg genhedloedd byd o'r bron
 I rodio'n isel ger dy fron ;
 Iôr Union, bydd Arweinydd.

2 Mae'r nos yn ddu, a ninnau 'mhell,
 A throm yw'r fflangell arnom ;
 Crwydrasom i'r anialwch maith,
 A'th gyfraith wrthodasom ;
 O ! Arglwydd, maddau inni cyd
 Gymylu d'enw 'ngŵydd y byd,
 A dod dy Ysbryd ynom.

- 3 Aed golau'r groes a'r nefol ddydd
 Drwy wledydd daear lydan ;
 A phrofer rhin Efengyl wiw
 Yn allu Duw ei Hunan ;
 Doed holl genhedloedd daear las
 I gyd-ddyrchafu baner gras,
 A dymchwel teyrnas Satan.

J.T.J.

722

Y Rhai sydd ar y Môr.

88. 88. 88.

- 1 **T**RAGWYDDOL Dad, anfeidrol Iôr,
 Fu'n cau anesmwyth donnau'r môr,
 Gan erchi i'r dyfnder llydan maith
 Aros yn ei derfynau llaith,
 Clyw ni, ar ran y rhai, ein Iôr,
 Sydd mewn enbydrwydd ar y môr.
- 2 O ! Grist, yr Hwn un waith â'th lef
 Ostegaist rym y storom gref ;
 A gerddaist ar y llidiog don,
 Ac eilwaith hunaist ar ei bron,
 Clyw ni, ar ran y rhai, ein Iôr,
 Sydd mewn enbydrwydd ar y môr.
- 3 Sancteiddiaf Ysbryd, unwaith fu
 Yn symud ar y tryblith du ;
 Fe ffodd y dymestl rhag dy wedd,
 Daeth golau ddydd a hyfryd hedd :
 Clyw ni, ar ran y rhai, ein Iôr,
 Sydd mewn enbydrwydd ar y môr.
- 4 O ! Drindod cariad, cadw'n awr
 Ein brodyr mewn cyfyngder mawr ;
 Rhag craig a thymestl, llid a brad,
 Dy nawdd fo drostynt ym mhob gwlad :
 Ac yna byth i Ti, ein Iôr,
 Bydd llawen fawl ar dir a môr.

W. WHITING, C. O.L.O.

723 *Gweddi dros y Rhai oddi Cartref.*

888. 888.

1 O ! ARGLWYDD, cofia blant ein gwlad
 'N ôl gadael cartref, mam a thad,
 Rhag iddynt droi o lwybrau'r nef ;
 Mewn mannau dyrys tywys hwy
 Rhag iddynt gael gan bechod glwy'—
 O ! gwrando, ar eu rhan, ein llef.

2 Y rhai sy 'mhell mewn estron fro,
 Dwg weddi bore oes i'w co',
 A'r gân am Grist a'i farwol glwy ;
 Er pob gwahanu dan y rhod,
 Gad iddynt hwy a ninnau ddod
 I'r wlad na fydd ymadael mwy.

H.E.L.

724 *“ Ar y Ddaear Tangnefedd.”*

11. 11. 11. 11.

1 EFENGYL tangnefedd, O ! rhed dros y byd ;
 A deled y bobloedd i'th lewyrch i gyd ;
 Na foed neb heb wybod am gariad y groes ;
 A brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.

2 Sancteiddier y ddaear gan ysbryd y ne' ;
 Boed Iesu yn Frenin, a neb ond Efe :
 Y tywysogaethau mewn hedd wrth ei draed,
 A phawb yn ddiögel dan arwydd ei waed.

3 Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn awr ;
 A doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr ;
 Fel na byddo mwyach na dial na phoen,
 Na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen.

E.W.

725 *“ Efe a wna'r Ystorm yn Dawel.”*

12. 12. 12. 10.

1 A RGLWYDD nef a daear, gariad hollalluog,
 Rhyfedd dy ddoethineb, a pherffaith yn dy
 waith :

Cerddaist ar y tonnau trwy y storm gynddeiri
A bu tawelwch—wedi'r ddrycin faith.

- 2 Arglwydd, beth a dalwn am dy faith ffyddlon
Arwain ni â'th gyngor yn ffordd d'ewyllys fav
Dysg i'r holl genhedloedd heddwch a thirionde
Eiddot y deyrnas, Frenin nef a llawr.
- 3 Maddau, dirion Arglwydd, ddirfawr fai y boblo
Maddau rwysg annuwiol ein holl benaethiaid
Tywys hwynt i'th lwybrau, Arglwydd Iôr y
oedd—
Llwybrau hyfrydwch dy gymdeithas Di.
- 4 Maddau, Arglwydd, maddau ; fyth o'th lân fa
euant
Tardd grasusau nefol y saint, o oes i oes.
Maddau, Arglwydd, maddau ; casgler er d'ogoni
Ryfedd gynhaeaf grawnwin pêr y groes. J.

ACHLYSURON NEILLTUOL.

1.—PRIODAS.

726

Emyn Priodas.

M. H.

- 1 **E**IN nefol Dad, wyt ffynnon fyw
Pob doniau pur i ddynol-ryw ;
A lluniaist ein calonnau ni
I'w llenwi hwy â'th gariad Di.
- 2 Bendithia'n awr y ddeuddyn hyn,
Yn rhwymyn eu cyfamod gwyn ;
Boed ar y llw a'u gwnaeth yn un
Sêl dy gyfamod Di dy Hun.

- 3 Dy gariad sanctaidd fyddo mwy
 Yn rym di-lyth i'w cariad hwy ;
 Dïogel fyddant rhag pob brad
 Yn d'ofal Di, y Dwyfol Dad.
- 4 Eu haelwyd cysegredig fydd,
 Dy wên a dry bob nos yn ddydd ;
 Cânt nerth i ddwyn pob baich ynghyd :
 O dan dy fendith, gwyn eu byd.
- 5 O ! nefol Dad, prysura'r pryd
 I achub holl deuluoedd byd ;
 A rhwymo pawb o ddynol-ryw
 Yn un bendigaid deulu Duw.

AN.

727

Emyn Priodas.

76. 76. D.

- 1 **T**I, Ffynnon pob daioni,
 Gwraidd pob cysuron drud,
 Rho fendith ar y ddeuddyn,
 A bydded wyn eu byd ;
 Dy ffrydiau lawenycho
 Eu haelwyd ddyddiau'u hoes ;
 Dy dangnef fyddo'u cysgod,
 A'u grym fo yn dy groes.
- 2 Yn naear deg dy gariad
 Eu gwreiddiau fyddo'n gry' ;
 A'u twf yn dirf a chyson
 O fewn cynteddau'r Tÿ ;
 Boed modrwy y cyfamod
 Wna heddiw'r ddau yn un
 O fewn i rwymyn bythol
 Dy heddwech Di dy Hun.

J.G.M.H.

728

Emyn Priodas

87. 87.

- 1 **M**EWN priodas gynt yng Nghana
 Buost, Iesu mawr, dy Hun ;
 Rho dy bresenoldeb yma
 Lle y rhwymir dau yn un.
- 2 O'th fodlonrwydd daw eysuron
 A dedwyddwch yn y byd ;
 Ac â'th gariad yn y galon
 Y bydd serch yn bur o hyd.
- 3 Dysg hwy'n dyner iawn i feithrin
 Dy rasmusau ar y daith ;
 Yn eu cartref bydd yn Frenin,
 Hwythau'n ffyddlon yn dy waith.
- 4 Aros, Iesu, gyda'r ddeuddyn,
 Dyro iddynt nawdd dy groes ;
 A'th dangnefedd fo'n eu dilyn
 Tra parhao dyddiau'u hoes.

J.M.R.

2.—*CYNHAEAF*.

- Y MAE'R penodau a ganlyn yn gymwys i'w darllen yn y
 Cyfarfodydd :—
- 2 Brenhinoedd iv., vi., vii. Salmau xix., xlvi., xlvii., lxxv.,
 lxxvii., ciii., civ., cv., cvii., cxviii., cxlv., cxlvi., cxlviii.
 Esaia xxxii., xxxv. Galarnad i., ii., iii., iv., v. Ioel ii.,
 iii. Amos iv. Haggai ii. 1 Thessalonïaid v.
- Y MAE'R emynau a ganlyn yn gymwys i'w canu mewn Cyfar-
 fodydd Diolch am y Cynhaeaf: 2, 11, 18, 29, 32, 33, 36,
 39, 41, 42, 44, 59.

729

SALM CXLVIII. 1, 9, 12.

M. B.

- 1 **O** ! CENWCH fawl i Dduw,
 Tra gweddus yw y gwaith,
 Am ei drugaredd ryfedd rad,
 Pob cenedl, llwyth ac iaith.

- 2 Cydfolwch Dduw y nef,
Darpara Ef bob pryd ;
O frwythau'r ddaear rhydd eu rhaid
I holl drigolion byd.
- 3 O ! Seion, canmol di
Y Duw sy'n rhoddi hedd,
A phob cysuron it ynghyd,
Nes mynd trwy'r byd i'r bedd. T.WS.

730

Doniau Rhagluniaeth a Gras.

M. C.

- 1 **T**YDI sy deilwng oll o'm cân,
Fy Nghrëwr mawr a'm Duw ;
Dy ddoniau Di, o'm hamgylch maent
Bob awr yr wyf yn byw.
- 2 Mi glywa'r haul a'r lloer a'r sêr
Yn datgan dwyfol glod ;
Tywynnu'n ddisglair yr wyt Ti
Trwy bopeth sydd yn bod.
- 3 O ! na foed tafod dan y rhod
Yn ddistaw am dy waith ;
Minnau fynegaf hyd fy medd
Dy holl ddaioni maith.
- 4 Diolchaf am dy gariad eu
Yn estyn hyd fy oes ;
Diolchaf fwy am Un a fu
Yn gwaedu ar y groes.
- 5 Diolchaf am gysuron gwiw
Wyf heddiw'n eu mwynhau ;
Diolchaf fwy am ddoniau sy'n
Oes oesoedd i barhau. D.CS.

731

Afon Duw.

M. C.

- 1 **A**M gael cynhaeaf yn ei bryd
 Dyrchafwn foliant byw ;
 Fe gyfoethogwyd meysydd byd
 Gan fendith afon Duw.
- 2 O ffynnon glir haelioni'r nef
 Y tardd yn hardd a byw ;
 Ac am ei fawr ddaioni Ef
 Y dywaid afon Duw.
- 3 O hon yr yf gronynnau'r llawr,
 A'r egin o bob rhyw :
 Nid ydyw gemog wlith y wawr
 Ond dafnau afon Duw.
- 4 Pryd hau a medi a geir o hyd :
 Bendithir dynol-ryw
 Â gwenau'r nef, holl oesoedd byd,
 Drwy dawel afon Duw.

H.C.W.

732

SALM XXXIV. 1, 5—8, 18.

M. S.

- 1 **D**IOLCHAF fi â chalon rwydd
 I'r Arglwydd bob amserau ;
 Ei foliant Ef, a'i wir fawrhad,
 Sy'n wastad yn fy ngenau.
- 2 Y sawl a edrych arno Ef
 Â llewych nef eglurir :
 Ohonynt ni wradwyddir neb,
 A'u hŵyneb ni chwilyddir.
- 3 Wele, y truan a roes lef,
 A Duw o'r nef yn gwrando,
 Ef a'i gwaredodd o'i holl ddrwg,
 A'i waedd oedd amlwg iddo.

4 Angel ein Duw a dry yn gylch
 O amgylch pawb a'i hofnant ;
 Fe'u ceidw hwynt ; a llawer gwell
 Na chastell yw eu gwarant.

5 O ! profwch, gwelwch, ddäed yw
 Yr Arglwydd byw i'r eiddo ;
 A gwyn ei fyd pob dyn a gred
 Roi ei ymddiried ynddo.

6 Ein Duw sydd agos iawn at gur
 Y galon bur, ddrylliedig ;
 A da y ceidw Ef bob pryd
 Yr ysbryd cystuddiedig.

E.P.

733

SALM XXXVI. 5, 6, 10.

M. S.

1 **D**Y fawr drugaredd, f'Arglwydd Iôn,
 Sydd hyd eithafion nefoedd :
 A'th bur wirionedd sydd yn gwau
 Hyd y cymylau dyfroedd.

2 D' uniondeb sydd fel mynydd mawr,
 Dy farn fel llawr yr eigion :
 Dy nerth fyth felly a barha
 I gadw da a dynion.

3 O ! estyn eto i barhau
 Dy drugareddau tirion ,
 Ni a'th adwaenom Di, a'th ddawn
 I'r rhai sydd uniawn galon.

E.P.

734

SALM LXV. 6, 7, 9, 10, 11.

M. S.

1 **D**UW a sicrha bob uchel fryn
 Â'i wregys yn gadernyd ;
 Hwn a ostega'r môr a'r don,
 A rhuad eigion enbyd.

- 2 Dyfrhau y ddaear sech yr wyd—
 A'th afon llanwyd drosti ;
 Darperaist lifddwr hyd ei llawr
 I'w thra mawr gyfoethogi.
- 3 Pob rhych yr wyt yn ei ddyfrhau,
 A'i chŵysau'r wyt i'w gostwng :
 A'i mwydo â chawodau gwlith,
 I'w chnwd rhoi fendith deilwng.
- 4 Coroni'r ydwyt Ti fel hyn
 Y flwyddyn â'th ddaioni :
 Y ffordd yr elych, Duw fy Nêr,
 Diferi fraster arni.

E.P.

735

SALM XCV. 1, 2, 3.

M. S.

- 1 **D**OWCH, canwn fawl i'r Iôn yn rhwydd,
 Efe yw llwydd ein bywyd ;
 Ymlawenychwn yn ei nerth,
 Ef yw ein prydferth iechyd.
- 2 O ! down yn unfryd ger ei fron,
 Â chalon bur, ddiolchgar,
 Brysiwn at Dduw, dan lawenhau,
 A chanwn salmau'n llafar.
- 3 Oherwydd Arglwydd nef a llawr
 Y sy Dduw mawr yn ddiau ;
 Tywysog mawr yw Ef mewn trin,
 A Brenin yr holl dduwiau.

E.P.

736

SALM CIV. 28, 30, 31, 33.

M. S.

- 1 **D**UW, pan agorech Di dy law,
 Oddi yno daw daioni ;
 Pob rhyw anifail, a phob peth,
 A ddaw yn ddifeth inni.

- 2 A phan ollyngech Di dy rad,
Fel rhoddi cread newydd,
Y modd hyn wŷneb yr holl dir
A adnewyddir beunydd.
- 3 Yr Arglwydd gogoneddus fydd
Trwy fawr lawenydd bythoedd ;
Yr Arglwydd yn ddi-au a fedd
Orfoledd yn y nefoedd.
- 4 Canaf i'r Arglwydd yn fy myw,
Canaf i'm Duw tra fyddwyf,
Ymlawenyachaf yn fy Iôn,
Bydd ffyddlon hyn a wnelwyf. E.P.

737 SALM CXLV. 1, 8—10, 15, 16, 21.

M. S.

- 1 **M**I a'th fawrygaf Di, fy Nuw,
Cans Týdi yw fy Llywydd ;
Bendithio d'enw byth a wnafl,
Mi a'i molaf yn dragywydd.
- 2 Sef graslawn yw ein Harglwydd ni,
Ac o dosturi rhyfedd ;
Hwyr ac anniben yw i ddig,
Llawnfrydig i drugaredd.
- 3 Da yw yr Arglwydd i bob dyn,
A'i nodded sy'n dyciannol ;
Ac ar ei holl weithredoedd Ef
Daw nawdd o'r nef yn rasol.
- 4 Dy holl weithredoedd Di i'th lwydd
O ! Arglwydd, a'th glodforant ;
Dy wyrth pan welo dy saint Di,
Y rheini a'th fendithiant.

- 5 Wele, mae llygaid yr holl fyd
Yn disgwyl wrthyd, Arglwydd ;
Tithau a'u porthi hwynt i gyd,
Bawb yn ei bryd, yn ebrwydd.
- 6 A phan agorech Di dy law,
Ohoni daw diwallfaeth ;
D'ewyllys da yw ymborth byw,
A hynny yw eu lluniaeth.
- 7 Fy enaid traethed fendith rwydd,
A mawl yr Arglwydd nefol ;
A phob cnawd rhoed i'w enw—Y Sant—
Ogoniant yn dragwyddol.

E.P.

738

SALM CXLVI. 1, 2, 6, 10.

M. S.

- 1 YR Arglwydd yn teyrnasu a fydd,
Dy Dduw tragwydd, Seion ;
O oes i oes pery dy lwydd :
Molwch yr Arglwydd tirion.
- 2 Yr Hwn a wnaeth nef, daear, môr,
A'r holl ystôr sydd ynddynt ;
Yr Hwn a sai'n ei wir ei Hun,
Pryd na bo un ohonynt.
- 3 Fy enaid, molaf Arglwydd nef,
Mi a'i molaf Ef i'm bywyd ;
Dangosaf glod i'm Harglwydd Dduw
Tra gallwyf fyw na symud.

E.P.

739

Mawl am Ddoniau Tymhorol.

M. S.

- 1 I TI, O ! Dduw, y gweddai parch,
Gwna popeth arch dy orsedd ;
Ti biau'r haul, y glaw a'r gw lith,
A'r fendith fawr ei rhinwedd.

2 Ti sy'n aeddfedu cnwd y maes,
 Tydi o'th ras sy'n trefnu
 Pob dydd o'r tymor oll, a'i rin,
 A hyfryd hin i gasglu.

3 Am haul a lleuad, gwynt a gwres,
 A glaw, yn gynnes canwn ;
 Am borthi pob creadur byw,
 Ti, Arglwydd Dduw, addolwn.

R.J.

740

Cynhaeaf Tymherus.

M. S.

1 **G**OFALA Duw a Thad pob dawn
 Yn dyner iawn amdanom ;
 Mae'n tai yn llawn o'i roddion rhad :
 O ! boed ei gariad ynom.

2 Y cynnar law a'r tyner wlith,
 Diferant fendith unwedd ;
 Y ddaear, rhydd ei ffrwythau da,
 A'r haul, cyfranna'i rinwedd.

3 Am ffrwythau hael y flwyddyn hon
 A'i mawrion drugareddau,
 Moliannwn enw Duw bob dydd
 Gan iawn ddefnyddio'i ddoniau.

B.F.

741

Gofal Rhagluniaeth am Ddyn.

76. 76. D.

1 **P**A le dechreuaf rifo
 Dy drugareddau maith ?
 'R wy'n soddi wrth fyfyrion
 Ar dy ryfeddol waith ;
 Mor hawdd yw rhifo'r tywod,
 Neu'r gwallt sydd ar fy mhen,
 A rhifo holl fendithion
 Tywysog mawr y Nen.

- 2 Achosion wyf bob bore
 O newydd yn eu cael
 I ganu i'th ffyddlondeb,
 A'th drugareddau hael ;
 Cans beunydd 'r wyt yn selio
 Dy addewidion rhad,
 A chwblwylhau'r gwirionedd
 A roddwyd yn dy waed.
- 3 Byth d'enw a gaffo'i foli,
 Byth bythoedd bo dy glod
 Gan' mil o weithiau'n lletach
 Na'r nefoedd faith ei rhod ;
 Boed holl blant Adda ar unwaith,
 Mewn cytsain hyfryd lân,
 I'th enw gogoneddus
 Yn rhoi soniarus gân.

W.—G.D.C.

742

Duw Rhagluniaeth.

77. 87. D.

- 1 **A**NFEIDROL Dduw rhagluniaeth,
 A Thad yr holl greadigaeth,
 Coronaist eto'r flwyddyn hon
 Â'th dirion ddoniau'n helaeth ;
 Ti, Arglwydd pob daioni,
 Beth mwy a dalwn iti
 Na chydymostwng, lwch y llawr,
 Yn awr i'th wir addoli ?
- 2 Cyfoethog yw dy ddoniau,
 A rhad dy drugareddau ;
 I ni a'n plant rhag newyn du,
 Mor gu dy dadol wenau !
 Mae gwên dy wÿneb grasol,
 O fwriad cariad dwyfol,
 I'w weld yn amlwg ar bob llaw,
 Mewn haul a glaw amserol.

- 3 Na foed i'th drugareddau
 Ddiferu ar ein llwybrau,
 A ninnau'n fyddar ac yn fud
 O hyd i'th nef-rasusau ;
 Ein telyn, Iôr, cyweiria,
 I seinio Haleliwia,
 Tragwyddol foli, byth heb boen,
 Yr Oen fu ar Galfaria.

J.DS.

743

Ein Hamserau yn Llaw Duw.

87. 87. 47.

- 1 **Y**N dy law y mae f'amserau,
 Ti sy'n trefnu 'nyddiau i gyd,
 Ti yw Lluniwr y cyfnodau,
 Oesoedd a blynyddoedd byd ;
 Rho dy fendith
 Ar y flwyddyn newydd hon.
- 2 Yn dy law y mae f'amserau,
 Oriau'r bore a'r prynhawn ;
 Ti sy'n rhoddi y tymhorau,
 Amser hau a chasglu'r grawn ;
 Gad im dreulio
 Oriau'r flwyddyn yn dy waith.
- 3 Yn dy law y mae f'amserau,
 Amser gwynfyd, amser croes,
 Amser iechyd digymylau,
 A chysgodion diwedd oes ;
 Gad im mwyach
 Dreulio 'nyddiau yn dy law.

W.N.W.

744

Duw Trugarog.

886. 886.

- 1 **O** ! ARGLWYDD Iôr aneirif yw
 Dy ddoniau rhad i ddynol-ryw,
 Er ein gwrthryfel ni ;
 Gan fraster mae dy lwybrau'n llawn,
 A'th ffyrdd sydd yn fendithiol iawn :
 Trugarog ydwyf Ti.

- 2 Â choron o'th ddaioni'n llon,
 Coronaist Ti y flwyddyn hon
 Ag aeddfed ffrwyth di-ri' ;
 Y maes, y llwyn a'r anial dir,
 A wisgaist â hyfrydweh clir :
 Trugarog ydwyd Ti.
- 3 O ! arwain ni â'th Ysbryd Glân,
 I'th foli â soniarus gân,
 Cans gweddus yw i ni ;
 A boed ein llais o hyd, a'n llef,
 Am gael o fara pur y nef :
 Trugarog ydwyd Ti.

J.P.

745

Daioni Duw.

11. 11. 11. 11.

- 1 **G**O GONIAN T tragwyddol i'th enw, fy Nuw,
 Mae'r byd yn dy gysgod yn bod ac yn byw ;
 Ni flinaist fynd heibio i feiau di-ri',
 I gofio pechadur na chofia Dydi.
- 2 Tydi sydd yn deilwng o'r bri a'r mawrhad,
 Tydi roddodd fywyd a chynnydd i'r had ;
 Tydi yn dy nefoedd aeddfedodd y grawn,
 Tydi roddodd ddyddiau'r cynhaeaf yn llawn.
- 3 Er maint y daioni a roddi mor hael,
 Tu cefn i'th drugaredd mae digon i'w gael ;
 Llawenydd yw cofio er cymaint a roed,
 Fod golud y nefoedd mor fawr ag erioed.

E.R.

3.—YR YSBYTAI.

746

Dros y Cleifion.

M. B.

- 1 **O** ! IESU'R Meddyg da,
 Physygywr mawr y byd,
 O ! cofia deulu'r poen a'r pla,
 A'r cleifion oll i gyd.

- 2 Tydi yn unig wŷr
Holl gystudd plant y llawr,
Y rhai sy'n crefu am yr hwyr,
Yn griddfan am y wawr.
- 3 O ! boed dy lygaid Di
Ar bawb sy'n wael eu gwedd,
A chofia'r rhai sy'n croesi'r lli
I'r wlad tu draw i'r bedd.

W.N.W.

747

Y Meddyg Da.

8. 33. 6.

- 1 **T**I fu gynt yn gwella'r cleifion,
Feddyg Da,
Dan eu pla
Trugarha wrth ddynion.
- 2 Cofia deulu poen, O ! Iesu ;
Ym mhob loes,
Golau'r Groes
Arnynt fo'n tywynnu.
- 3 Llaw a deall dyn perffeithia,
Er iachâd
A rhyddhad.
Nefol Dad, i dyrfa.
- 4 Rho dy nodded, rho dy gwmni,
Nos a dydd,
I'r rhai sydd
Ar y gwan yn gweini.
- 5 Dwg yn nes, drwy ing a phryder,
Deulu poen,
Addfwyn Oen,
At dy fynwes dyner.

H.E.L.

4.—AMSEROEDD A PHRYDIAU.

748

Emyn Hwyrrol.

65. 65.

1 **A**RGLWYDD, mae yn nosi,
 Gwrando ar ein cri ;
 O ! Bererin nefol,
 Aros gyda ni.

2 Lloggi mae'n calonnau
 Gan dy eiriau Di ;
 Mwy wyt Ti na'th eiriau—
 Aros gyda ni.

3 Hawdd, wrth dorri'r bara,
 Yw d'adnabod Di ;
 Ti dy Hun yw'r manna—
 Aros gyda ni.

4 Gwywo mae pleserau,
 A breuddwydion bri :
 Ti yw'r pleser gorau—
 Aros gyda ni.

5 Mae ein hoff gyfeillion
 Wedi croesi'r lli :
 Ti yw'r Cyfaill ffyddlon—
 Aros gyda ni.

6 Pan fo'n diwrnod gweithio
 Wedi dod i ben,
 Dwg ni i orffwys
 Atat Ti. Amen.

H.E.L.

749

Emyn Hwyrrol.

887. 887.

1 **N**EFOL Dad, mae eto'n nosi,
 Gwrando lef ein hwyrrol weddi—
 Nid yw'r nos yn nos i Ti ;

Rhag ein blino gan ein hofnau,
Rhag pob niwed i'n heneidiau,
Yn dy hedd, O ! cadw ni.

- 2 Cyn i'r caddug gau amdanom,
Taena d'adain dyner drosom—
Gyda Thi tawelwch sydd ;
Yn dy gariad mae ymgeledd,
Yn dy fynwes mae tangnefedd,
Wedi holl flinderau'r dydd.

H.E.L.

750

Trig gyda mi.

10. 10. 10. 10.

- 1 **T**RIG gyda mi, fy Nuw, mae'r dydd yn ffoi,
Cysgodau'r hwyr o'm hamgylch sy'n crynhoi;
Diffanna nerth y ddaear hon a'i bri,
Cynhorthwy'r gwan, O ! aros gyda mi.
- 2 Yn brysio at ei derfyn mae fy nydd,
Mwynhad y byd a'i barch yn cilio sydd ;
Yn wyw a gwael try popeth ; ond Tydi,
Y Digyfnwid, aros gyda mi.
- 3 Bydd yma, nid fel Brenin i greu braw,
Ond mewn llawn hedd, â doniau yn dy law,
O ras yn llawn, a chalon at bob cri,
Tyrd, Ffrind troseddwy'r, aros gyda mi.
- 4 Rhaid im gael gweld dy wedd bob awr heb ball :
Beth ond dy ras a faedda rym y fall ?
Pwy'm deil i'r lan, a'm harwain fel Tydi ?
Ym mhob rhyw dywydd aros gyda mi.
- 5 Rho weld dy groes yn llif Iorrdonen gref,
Trwy'r niwl, cyfeiria 'ngolwg tua'r nef ;
Tyr gwawr y nef, cysgodau'r hwyr a ffy,
Wrth fyw, wrth farw, aros gyda mi.

LYTE, C. J.RO.

751

Dechrau Blwyddyn.

10. 10. 10. 10.

- 1 **T**AD tragwyddoldeb, plygaf ger dy fron,
 Ceisiaf dy fendith ddechrau'r flwyddyn hon;
 Trwy blygion tywyll ei dyfodol hi,
 Arweinydd anffaeledig, arwain fi.
- 2 Beth fydd fy rhan ar hyd ei misoedd maith ?
 Nis gwn, fy Nuw ; ni fynnw'n wybod chwaith.
 Ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog ddaw ?
 Bodlon, os caf ymaflyd yn dy law.
- 3 Ffydd, gobaith, cariad—doniau pennaf gras,
 Addurno f'oes wrth deithio'r anial cras ;
 Rho imi beunydd fyw'n d'oleuni Di :
 Ddihenydd sanctaidd, tyred, arwain fi.
- 4 Heneiddia'r grëadigaeth, palla dyn,
 Diflanna oesoedd byd o un i un ;
 Er cilio popeth, un o hyd wyt Ti :
 Y digyfnewid Dduw, O ! arwain fi.

T.J.P.

Y PLANT.

752

Gweddi Plentyn.

M. C.

- 1 **D**OD ar fy mhen dy sanctaidd law,
 O ! dyner Fab y Dyn :
 Mae gennyt fendith i rai bach,
 Fel yn dy oes dy Hun.
- 2 Wrth feddwl am dy gariad gynt,
 O Fethlehem i'r groes,
 Mi garwn innau fod yn dda,
 A byw er mwyn fy oes.

3 Gwna fi yn addfwyn fel Tydi
Wrth bawb o'r isel rai ;
Gwna fi yn hoff o wrando cwyn,
A hoff o faddau bai.

4 Dod imi galon well bob dydd,
A'th ras yn fodd i fyw ;
A boed i eraill trwof fi
Adnabod cariad Duw.

E.W.

753

Bore Oes i Grist.

M. H.

1 **C**YSEGRWN flaenffrwyth dyddiau'n hoes
I garu'r Hwn fu ar y groes ;
Mae mwy o bleser yn ei waith
Na dim a fedd y ddaear faith.

2 Cael bod yn fore dan yr iau
Sydd ganmil gwell na phleser gau ;
Mae ffyrdd doethineb oll i gyd
Yn gysur ac yn hedd o hyd.

3 O ! boed im dreulio yn ddi-goll
O dan iau Crist fy mebyd oll ;
Mae'r Hwn a'm prynodd ar y groes
Yn deilwng o bob awr o'm hoes.

P.J.

754

Baner Cariad.

65. 65.

1 **C**HWIFIWN faner cariad
Yn awelon nef ;
Eiliwn beraidd ganiad
Fythoedd " Iddo Ef."

2 Doed holl blant y gwledydd
Â soniarus lef,
I roi caniad newydd,
Moliant " Iddo Ef."

3 Mawl i'r Hwn fu farw

Lanwo'r ddaer a'r nef :

Uchel aed ei enw—

Teilwng ydyw Ef.

4 Cesglir myrdd o ienctid

Fyth o fewn y nef

I ddisgleirio'n hyfryd

Yn ei goron Ef.

J.T.

755

Deuaf atat, Iesu.

65. 65.

1 **D**EUAF atat, Iesu,
Cyfaill plant wyt Ti ;
Ti sydd yn teilyngu
Mawl un bach fel fi.

2 Deuaf atat, Iesu,
Gyda'r fore wawr ;
Ceisio wnafl dy gwmni
Ar hyd llwybrau'r llawr.

3 Deuaf atat, Iesu,
Gyda hwyr y dydd ;
Drosod pan fwy'n cysgu
Dy amddiffyn fydd.

4 Deuaf atat, Iesu,
Ar bob awr o'm hoes ;
Ti yn unig gedwi
Blentyn rhag pob loes.

A

756

Gwefus Bur.

65. 65. D.

1 **C**HWIFIWN ein baneri
Yn yr awel iach,
Seiniwn glod i'r Iesu
Ar bob gwefus fach ;

Pan fo sŵn anwiredd
 Wedi llenwi'r tir,
 Canwn uwch y llygredd—
 Mynnwn wefus bur.

2 Dywaid cornant fechan
 Lifa tua'r pant :
 Na foed geiriau aflan
 Ar wefusau plant ;
 Dywaid cân aderyn
 Ar y gangen ir :
 Dylai gwefus plentyn
 Fod yn wefus bur.

3 Pan fo'r plant yn chwarae
 Dan y llwyni mân,
 Melys yw eu seiniau
 Ar wefusau glân.
 Pan ddaw'r dydd i lanio
 Draw yng Nghanaan dir,
 Hyfryd cyrraedd yno
 Gyda gwefus bur.

J.J.W.

757

Y Milwr Bychan.

76. 76. D. 7. 6. 8. 6.

1 **'R** WYF innau'n filwr bychan,
 Yn dysgu trin y cledd
 I ymladd dros fy Arglwydd
 Yn ffyddlon hyd fy medd.
 Pererin bychan ydwyf
 Yn cychwyn ar ei daith,—
 O ! arwain, Arglwydd grasol,
 Hyd dragwyddoldeb maith.

Iesu cu, bydd gyda ni,
 Tra fôm yn y rhyfel ;
 Heb un cledd, canu wnawn mewn hedd
 Yn y nefoedd dawel.

- 2 A Christian bychan ydwyf
 Yn credu yn Iesu Grist ;
 Dod ras im, O ! Waredwr,
 Rhag suddo i ofnau trist.
 Mae 'nwylo bach yn weiniaid,
 Ond dyro, Iesu cu,
 Ryw waith, er gwanned ydynt,
 I'w wneuthur drosot Ti.
 Iesu cu, bydd gyda ni, &c.

- 3 A phan fo'r rhyfel drosodd,
 A'm bywyd bach ar ben,
 O ! dwg fi adref, Arglwydd,
 I fro Caersalem wen ;
 Lle nid oes dim ond canu,
 Heb neb yn dwyn y cledd,
 A chware ar aur delynau,
 Mewn cariad pur a hedd.
 Iesu cu, bydd gyda ni, &c.

T.L.F.

758

Annwyl Iesu.

774. 774. 77.

- 1 **S**EREN fechan yn y nos,
 Pwy a wnaeth dy wên mor dlos ?
 Annwyl Iesu.
 Hedydd bach ar fore glân
 Pwy a'th ddysgodd i roi cân ?
 Annwyl Iesu.
 Iesu Grist yn Arglwydd Dduw
 Wnaeth y cyfan—Cariad yw.
- 2 Rosyn bychan yn yr ardd,
 Pwy a wnaeth dy ddail mor hardd ?
 Annwyl Iesu.
 Afon fechan lân dy li,
 Pwy a'th greodd, wyddost ti ?
 Annwyl Iesu.

Iesu Grist yn Arglwydd Dduw.
Wnaeth y cyfan—Cariad yw.

- 3 Blentyn bach, â'th wŷneb llon,
Pwy a'th wnaeth mor ysgafn fron ?

Annwyl Iesu.

Pwy a ddysgodd i ti gân
Well na chŷn yr adar mân ?

Annwyl Iesu.

Iesu Grist yn Arglwydd Dduw
Wnaeth y cyfan—Cariad yw.

AN.

759

Iesu Bendigedig.

777. 6.

- 1 **U**NO wnawn â'r nefol gôr
I'th foliannu, Arglwydd Iôr :
Mawr wyt Ti ar dir a môr,
Iesu Bendigedig.

- 2 Yn y bore gyda'r wawr
Rhown ein gliniau bach i lawr ;
Moli wnawn dy enw mawr,
Iesu Bendigedig.

- 3 Edrych yn dy wŷneb gawn
Yn y bore a'r prynhawn ;
Trwy y dydd dy foli a wnawn,
Iesu Bendigedig.

- 4 Wedi treulio oriau'n rhydd
Yn dy law, mor felys fydd
Moli eto'n hwyr y dydd,
Iesu Bendigedig.

- 5 Clywed wnelo plant y byd
Am dy gariad mawr o hyd :
Teilwng wyt o'r mawl i gyd,
Iesu Bendigedig.

- 6 Y mae hyfryd ddydd yn dod
 Pryd na bydd ond moli'n bod :
 Ni gawn seinio fyth dy glod,
 Iesu Bendigedig.

W.N.

760

Iesu Tirion.

77. 77.

- 1 IESU tirion, gwêl yn awr
 Blentyn bach yn plygu i lawr ;
 Wrth fy ngwendid trugarha,
 Paid â'm gwrthod, Iesu da.
- 2 Carwn fod yn eiddot Ti,
 Iesu grasol, derbyn fi ;
 Gad i blentyn bach gael lle,
 Trwy dy ras, yn nheyrnas ne'.
- 3 Carwn fod fel Ti dy Hun,
 Meddu calon ar dy lun ;
 Addfwyn, tirion iawn wyt Ti,
 Ysbryd cariad rho i mi.
- 4 Dysg im wneuthur heb nacâd,
 'Wyllys Duw, fy nefol Dad,
 N'ad im ddigio Ysbryd Duw,
 Er d'ogoniant gad im fyw.

C. WESLEY, C. W.O.

761

Gweddi Plentyn.

77. 77.

- 1 IESU annwyl, gwrando fi,
 Mae trugaredd gyda Thi ;
 At bwy 'r af i ddweud fy nghwyn—
 Buost farw er fy mwyn.

- 2 Nid wy'n ceisio ger dy fron
 Aur a pherlau'r ddaear hon ;
 Iesu annwyl, gwna fi'n sant,
 Cymer fi yn un o'th blant.
- 3 Clywais ddweud fod plant fel fi
 Yn y nefoedd gyda Thi ;
 Os caf innau yna ddod,
 Canu a wnaf am byth dy glod.

W.A.

762

Y Bugail Mwyn.

77. 77. 77.

- 1 **A**RGLWYDD Iesu, 'r Bugail mwyn,
 Edrych ar dy annwyl wŷyn ;
 Dyro arnom ni dy nod,
 Ac i'th gorlan gad in ddod :
 Buost farw drosom ni ;
 Dwg ni yn dy fynwes gu.
- 2 Arglwydd Iesu, 'r Bugail mwyn,
 Sydd â ni yn cydymddwŷyn ;
 Maddau'n holl bechodau'n rhad,
 Golch ni yn dy werthfawr waed ;
 Yna cawn dy foli fry—
 Canwn anthem Calfari.

T.L.E.

763

Mawl Plentyn.

77. 77. D.

- 1 **A**DDFWYN Iesu, 'r Ceidwad mawr
 Ddaeth o'r nefoedd wen i lawr,
 Derbyn fawl un bach fel fi,
 Am it farw drosom ni.
 Addfwyn Iesu, cofio'r wyf
 Iti ddioddef marwol glwyf,
 Ac it ddweud am blant fel ni,
 Y caent ddyfod atat Ti.

- 2 Addfwyn Iesu, gwêl yn awr
Blentyn wrth dy draed i lawr ;
Er mor fychan ydwyf fi,
Gad im ddyfod atat Ti :
Gad im lechu wrth dy draed,
Golch fi, Iesu, yn dy waed :
Rho i blentyn bychan le,
Gyda Thi yn nheyrnas ne'.

T.L.E.

764

Crefydd Fore.

84. 84. 8884.

- 1 **D**A yw bod wrth draed yr Iesu
Ym more oes ;
Ni chawn neb fel Ef i'n dysgu,
Ym more oes ;
Dan ei groes mae ennill brwydrau,
A gorchfygu tentasiynau—
Achos Crist yw'r achos gorau,
Ar hyd ein hoes.

- 2 Cawn ei air i buro'r galon
Ym more oes ;
A chysegro pob gobeithion
Ym more oes ;
Wedi bod ym mlodau'n dyddiau,
Ni bydd eisiau gado'i lwybrau—
Cawn fynediad i'w drigfannau
Ar ddiwedd oes.

H.E.L.

765

Calon Lân.

87. 87.

- 1 **N**ID wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân ;
Gofyn 'r wyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.
Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos,

'D oes ond calon lân all ganu—
Canu'r dydd a chanu'r nos.

- 2 Pe dymunwn olud bydol,
Chwim adenydd iddo sydd :
Golud calon lân rinweddol
Yn dwyn bythol elw fydd.
Calon lân, &c.
- 3 Hwyr a bore fy nymuniad
Esgyn ar adenydd cân—
Ar i Dduw, er mwyn fy Ngheidwad,
Roddi imi galon lân.
Calon lân, &c.

D.JA.

766

Mae'n fy Ngharu.

87. 87.

- 1 **H**OFF yw'r Iesu o blant bychain,
Llawn o gariad ydyw Ef ;
Mae yn gŵyllo drostynt beunydd,
Ar ei orsedd yn y nef.
Mae'n fy ngharu ; 'r wyf yn gwybod
Mai ei eiddo byth wyf fi ;
Mae'n fy ngharu, diolch iddo,
Prynodd fi ar Galfari.
- 2 Os gofynnwch pam 'r wy'n hapus—
Iesu sy'n ein caru ni,
Ac yn galw'n dirion arnom,
"Dowch blant bychain ataf Fi."
- 3 Gwybod 'r wyf y gwrendy'r Iesu
Weddi plant o orsedd nef :
Deuwch, deuwch oll dan ganu,
Gyda'n gilydd ato Ef.

C. D.TH.

767

Gweled Iesu Grist.

M. C. D. a Chytgan.

- 1 **C**AWN ninnau weled Iesu Grist,
 Fel plant ei wlad ei Hun,
 Mae Ef mor dirion ag erioed,
 Mae ddoe a heddiw'r un.
 Cawn fyw'n oes oesoedd dan ei wên,
 A phwyso ar ei law—
 Y llaw fendithiodd blant y byd,
 Yn lle eu cadw draw.
- Cawn, cawn ei weled,
 Cawn, cawn ei weled,
 Wŷneb yn wŷneb ar ddeheulaw'r Tad :
 Dyna fydd nefoedd
 Plant, yn oes oesoedd,
 Canu ei hosanna yn yr hyfryd wlad.

- 2 Cawn ninnau weled Iesu Grist,
 Fel plant ei wlad a'i oes.
 Ond nid yn Wr gofidus mwy,
 Na Gŵr yn dwyn ei groes ;
 Cawn syllu arno fel y mae,
 Yng ngolau'r orsedd wen—
 Ei wedd yn ddisglair fel yr haul,
 Ac enfys gylch ei ben.

Cawn, cawn ei weled, &c.

CAROLAU.

768

Cytgan Nef a Llwr.

M. C. D.

- 1 **Y**N nhawel wlad Jiwdea dlos,
 Yr oedd bugeiliaid glân
 Yn aros yn y maes liw nos,
 I wŷlio'r defaid mân.

Proffwydol gerddi Seion gu
 Gydganent ar y llawr,
 I ysgafnhau y cyfnos du,
 Gan ddisgwyl toriad gwawr.

- 2 Ar annaid o'r uchelder fry
 Dynesai angel gwyn,
 A safai 'nghanol golau-gylch,
 O flaen eu llygaid syn.
 Dywedai, " Dwyn newyddion da
 Yr wyf, i ddynol-ryw ;
 Fe anwyd i chwi Geidwad rhad,
 Sef Crist yr Arglwydd Dduw.'

- 3 Ac ebrwydd unai nefol lu
 Mewn hyfryd gytgan bêr,
 Nes seinio moliant ar bob tu
 O'r ddaear hyd y sêr.
 " Gogoniant yn y nefoedd fry
 I Dduw'r Goruchaf Un ;
 Tangnefedd ar y ddaear ddu,—
 Ewyllys da i ddyn."

- 4 Rhoed newydd dant yn nhelyn nef
 Pan anwyd Iesu Grist ;
 A thelyn aur o lawen dôn
 Yn llaw pechadur trist.
 Telynau'r nef sy'n canu'n awr,
 " Ewyllys da i ddyn " ;
 A chaned holl delynau'r llawr
 Ogoniant Duw'n gytûn.

E.R.O.

769

Seren y Dwyrain.

11. 10. 11. 10.

- 1 **L** OYWAF o'r sêr sydd yn britho'r ffurfafen,
 Gwasgar ein twllwch, a gwawried y dydd :
 Seren y dwyrain, rhagflaenydd yr heulwen,
 Dwg ni i'r fan lle mae'r Baban ynghudd.

- 2 Gwelwch mor isel ei ben yn y preseb,
Disglair yw oerwlith y nos ar ei grud ;
Moled angylion mewn llety cyn waeled,
Frenin, Creawdwr, a Cheidwad y byd.
- 3 A dalwn ni iddo y gorau o'n trysor,
Llysiau o Edom yn offrwm i'n Duw,
Gemau o'r mynydd a pherlau o'r dyfnfor,
Myrr o'r anialdir, ac aur o Beriw ?
- 4 Ofer y ceisiem ei wên ag anrhegion,
Ofer â golud y ddaear yn hael :
Gwell ganddo gywir addoliad y galon,
Gwell gan yr Iesu yw gweddi y gwael.
- HEBER, c. W.WLS., *diw.* J.T.J.

770

O ! Deued pob Cristion.

12. 8. 12. 8. T.

- 1 **O** ! DEUED pob Cristion i Fethlem yr awron,
I weled mor dirion yw'n Duw ;
O ! ddyfnder rhyfeddod ! fe drefnodd y Duwdod
Dragwyddol gyfamod i fyw !
Daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd
Er symud ein penyd a'n pwn ;
Heb le yn y llety, heb aelwyd, heb wely,
Nadolig fel hynny gadd Hwn !
Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair
wiwlan—
Daeth Duwdod mewn Baban i'r byd ;
Ei ras, O ! derbyniwn ; ei haeddiant cyhoeddwn,
A throsto Ef gweithiwn i gyd.
- 2 Tywysog tangnefedd wna'n daear o'r diwedd
Yn aelwyd gyfannedd i fyw ;
Ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen,
Dan goron bydd diben ein Duw.
Yn frodyr i'n gilydd, drigolion y gwledydd,
Cawn rodio yn hafddydd y nef ;

Ein disgwyl yn Salem, i ganu yr anthem,
 Ddechreuwyd ym Methlem, mae Ef.
 Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair
 wiwlan—
 Daeth Duwdod mewn Baban i'r byd!
 Ei ras, O! derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn,
 A throsto Ef gweithiwn i gyd. AN. ar.

CANIADAU.

1 I. ARWEINIOL (INTRADA).

DYFOD mae yr awr, ac yn awr y mae, pan addolo
 y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwir-
 ionedd.—IOAN iv. 23.

2

DEUWCH, addolwn, ac ymgrymwn: gostyngwn
 ar ein gliniau gerbron yr Arglwydd ein
 Gwneuthurwr.—SALM xc. 6.

3

ARGLWYDD, agor fy ngwefusau, a'm genau a
 fynega dy foliant.

Moliannaf Di, O Arglwydd fy Nuw, â'm holl
 galon: a gogoneddaf dy enw yn dragywydd.—
 SALM li. 15 a lxxxvi. 12.

4

BYDDED ymadroddion fy ngenau, a myfyrdod
 fy nghalon, yn gymeradwy ger dy fron, O
 Arglwydd, fy Nghraig a'm Prynwr. Amen.—
 SALM xix. 14.

1 II. GWEDDI'R ARGLWYDD.

- 1 **E**IN TAD, yr Hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy | enw. ||
Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, | felly : ar y | ddaear | hefyd. ||
- 2 Dyro i ni heddiw ein | bara beu- | nyddiol. ||
A maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn | ninnau | i'n dy- | ledwyr. ||
- 3 Ac nac arwain ni i | brofed- | igaeth, ||
eithr | gwared | ni rhag | drwg. ||
- 4 Canys eiddot Ti yw'r | deyrnas, a'r | nerth, ||
a'r go- | goniant, yn | öes | oesoedd. || Amen.—
MATHEW vi. 9-13.

2

EIN TAD, yr Hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy enw.

Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.

A maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot Ti yw'r deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.—MATHEW vi. 9-13.

1 III. TI DDUW A FOLWN (TE DEUM).

- 1 **T**I, | Dduw, a | folwn, ||
Ti a | gydna- | byddwn yn | Arglwydd. ||
- 2 Yr holl ddaear a'th fawl Di; y | Tad tra- | gwyddol. ||
Arnat Ti y llefa'r holl angylion; y nefoedd a'r | höll | nerthoedd o'u | mewn. ||

- 3 Arnat Ti y llefa cer- | iwbiaid : a ser- | affiaid, ||
â llef- | erydd | di- | baid. ||
- 4 Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd | Dduw Sa-
| baoth. ||
Nefoedd a | daear : sydd yn | llawn : o'th o-
| goniant. ||
- 5 Gogoneddus gôr yr Apostolion a'th | fäwl | Di. ||
Moliannus nifer y Pro- | ffwydi : a'th | fäwl | Di. ||
- 6 Ardderchog lu y Merthyri a'th | fäwl | Di. ||
Yr Eglwys Lân trwy'r | holl : fyd a'th | addef
| Di ; ||
- 7 Y Tad o anfeidrol fawredd ; dy anrhydeddus
wir ac | unig | Fab ; ||
hefyd yr | Ysbryd | Glân ; y Di- | ddanydd. ||
- 8 Ti, Grist, yw | Brenin : y Go- | goniant. ||
Ti yw tra- | gwyddol | Fab y | Tad. ||
- 9 Pan gymeraist arnat war- | edu | dyn ; ||
ni ddiys- | tyraist | fru y | wry. ||
- 10 Pan orchfygaist holl | nêrth | angau ||
yr agoraist Deyrnas | Nef i | bawb a | gred. ||
- 11 Ti sydd yn eistedd ar dde- | heulaw | Duw ||
yng ngo- | gön- | iant y | Tad. ||
- 12 Yr ym ni yn credu mai Tydi a ddaw yn | Farnwr
| arnom. ||
Gan hynny atolygwn i Ti gynorthwyo dy weision,
y rhai a | brynaist : â'th | werthfawr | waed. ||
- 13 Pâr iddynt gael eu cyfrif | gyda'th | saint ||
yn y go- | goniant | trä- | gwyddol. ||
- 14 Arglwydd, cadw dy bobl, a bendithia dy | eti-
| feddiaeth. ||
Llywodraetha hwy, a | dyrcha | hwy yn : dra-
| gywydd. ||
- 15 Beunydd a byth y clod- | forwn Dy- | di ; ||
ac anrhydeddwn dy enw | byth : ac yn | öes
| oesoedd. ||

- 16 Teilynga, Arglwydd, ein cadw y dydd hwn yn
| ddi- | bechod. ||
Arglwydd, trugarha wrthym, | tru- : gar- | ha
:—| wrthym. ||
- 17 Arglwydd, poed dy drugaredd a ddêl arnom,
megis yr ym yn ym- | ddiried | ynot. ||
Arglwydd, ynot yr ymddiriedais ; na'm gwarad-
| wydder yn | drä- | gywydd. ||

2

TI Dduw a folwn, Ti a gydnabyddwn yn Arglwydd.
Yr holl ddaear a'th fawl Di, y Tad tra-
gwyddol.

Arnat Ti y llefa'r holl angylion ; y nefoedd a'r
holl nerthoedd o'u mewn.

Arnat Ti y llefa ceriwbiaid a seraffiaid, â lleferydd
dibaid.

Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Sabaoth.

Nefoedd a daear sydd yn llawn o'th ogoniant.

Gogoneddus gôr yr Apostolion a'th fawl Di.

Moliannus nifer y Proffwydi a'th fawl Di.

Ardderchog lu y Merthyri a'th fawl Di.

Yr Eglwys Lân trwy'r holl fyd a'th addef Di ;

Y Tad o anfeidrol fawredd ;

Dy anrhydeddus wir ac unig Fab ;

Hefyd yr Ysbryd Glân, y Diddanydd.

Ti, Grist, yw Brenin y Gogoniant.

Ti yw tragwyddol Fab y Tad.

Pan gymeraist arnat waredu dyn, ni ddiystyraist
fru y wry.

Pan orchfygaist holl nerth angau, yr agoraist
Deyrnas Nef i bawb a gred.

Ti sydd yn eistedd ar ddeheulaw Duw yng
ngogoniant y Tad.

Yr ym ni yn credu mai Tydi a ddaw yn Farnwr
arnom.

Gan hynny atolygwn i Ti gynorthwyo dy weision,
y rhai a brvnaist â'th werthfawr waed.

Pâr iddynt gael eu cyfrif gyda'th saint yn y gogoniant tragwyddol.

Arglwydd, cadw dy bobl, a bendithia dy etiffediaeth.

Llywodraetha hwy, a dyrcha hwy yn dragywydd.

Beunydd a byth y clodforwn Dydi ;

Ac anrhydeddwn dy enw byth ac yn oes oesoedd.

Teilynga, Arglwydd, ein cadw y dydd hwn yn ddibechod.

Arglwydd, trugarha wrthym, trugarha wrthym.

Arglwydd, poed dy drugaredd a ddêl arnom, megis yr ym yn ymddiried ynot.

Arglwydd, ynot yr ymddiriedais ; na'm gwaradwydder yn dragywydd.

IV. BENDIGEDIG FYDDO ARGLWYDD DDUW. ISRAEL (BENEDICTUS).

- 1 **B**ENDIGEDIG fyddo | Arglwydd Dduw | Is-
rael ; ||
canys Efe a ymwelodd, ac a | wnaeth ym-
| wared i'w | bobl ; ||
- 2 Ac Efe a ddyrchafodd gorn iechyd- | wriaeth i
| ni, ||
yn nhŷ | Dafydd : ei | wasan- | aethwr ; ||
- 3 Megis y llefarodd trwy enau ei | sanctaidd bro-
| ffwydi, ||
y rhai | oedd : o ddech- | reuad y | byd ; ||
- 4 Fel y byddai i ni ym- | wared : rhag ein gel-
| ynon, ||
ac o | lăw | pawb : o'n cas- | eion ; ||
- 5 I gwblhau ei drugaredd â'n tadau, ac i gofio
ei | sanctaidd gyf- | amod ; ||
y llw a dyngodd E- | fe : wrth ein | täd
| Abraham, ||
- 6 Ar rod-di i ni, gwedi ein rhyddhau o law ein
gelynon, ei wasanaethu | Ef : yn ddi- | ofn, ||
mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei
fron Ef, | höll | ddyddiau ein | bywyd. ||

- 7 A thithau, fachgennyn, a elwir yn | broffwyd
: i'r Gor- | uchaf ; ||
cansys ti a ai o flaen ŵyneb yr Arglwydd, i bara-
| toi ei | ffyrdd | Ef ; ||
- 8 I roddi gwybodaeth iechyd- | wriaeth i'w | bobl, ||
trwy fadd- | euant | o'u pech- | odau, ||
- 9 Oherwydd tiriondeb tru- | garedd ein | Duw ; ||
trwy yr hon yr ymwelodd â ni | godiad | haul
: o'r uch- | elder, ||
- 10 I lewyrchu i'r rhai sydd yn eistedd mewn
tywyllwch a | chysgod | angau, ||
i gyfeirio ein | traed i | ffordd tang- | nefedd. ||
—LUC i. 68-79.

I V. CÂN MAIR (MAGNIFICAT).

- 1 Y MAE fy enaid yn mawr- | hau yr | Ar-
glwydd, ||
a'm hysbryd a lawen- | ychodd yn | Nuw : fy
Iach- | awdwr. ||
- 2 Cansys Efe a edrychodd ar waeledd ei | wasanaeth-
| yddes ; ||
oblegid, wele, o hyn allan yr holl genedlaethau
a'm | geilw yn | wynfyd- | edig. ||
- 3 Cansys yr Hwn sydd alluog a | wnaeth i mi
| fawredd ; ||
a | sanctaidd : yw ei | enw | Ef. ||
- 4 A'i drugaredd sydd yn | oës | oesoedd ||
ar y | rhai a'i | hofnant | Ef. ||
- 5 Efe a wnaeth gad- | ernid : â'i | fraich ; ||
Efe a wasgarodd y rhai | beilchion : ym | mwriad
eu | calon. ||
- 6 Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u | heistedd-
| fâu, ||
ac a ddyr- | chafodd y | rhai isel- | radd. ||
- 7 Y rhai newynog a lanwodd Efe â | phethau
| da ; ||

ac Efe a anfonodd ymaith y | rhai go- | ludog
yn | weigion. ||

8 Efe a gynorthwyodd ei was Israel, gan | gofio
: ei dru- | garedd ; ||

fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i
| had, yn | drä- | gywydd. ||—LUC i. 46-55.

2

Y MAE fy enaid yn mawrhau yr Arglwydd, a'm
hysbryd a lawenychodd yn Nuw fy Iachawdwr.

Canys Efe a edrychodd ar waeledd ei wasanaeth-
yddes ; oblegid, wele, o hyn allan yr holl genedl-
aethau a'm geilw yn wynfydedig.

Canys yr Hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd ;
a sanctaidd yw ei enw Ef.

A'i drugaredd sydd yn oes oesoedd ar y rhai a'i
hofnant Ef.

Efe a wnaeth gadernid â'i fraich ; Efe a wasgarodd
y rhai beilchion ym mwriad eu calon.

Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u heisteddfâu,
ac a ddyrchafodd y rhai isel-radd.

Y rhai newynog a lanwodd Efe â phethau da ;
ac Efe a anfonodd ymaith y rhai goludog yn weigion.

Efe a gynorthwyodd ei was Israel, gan gofio ei
drugaredd ; fel y dywedodd wrth ein tadau,
Abraham a'i had, yn dragywydd.—LUC i. 46-55.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd
Glân. Amen.

I VI. CÂN SIMEON (NUNC DIMITTIS).

1 **Y**R awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was
mewn tangnefedd, yn | ôl dy | air ; ||

canys fy llygaid a | welsant dy | iechyd- | wriaeth, ||

2 Yr hon a baratoaist ger bron ŵyneb yr | höll
| bobloedd ; ||

i fod yn oleuni i oleuo'r cenhedloedd, ac yn o-
| goniant : i'th | bobl | Israel. ||—LUC ii. 29-32.

2

YR awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was
mewn tangnefedd, yn ôl dy air: canys fy
llygaid a welsant dy iechydwrïaeth, yr hon a
baratoaist ger bron ŵyneb yr holl bobloedd; i fod
yn oleuni i oleuo'r cenhedloedd, ac yn ogoniant i'th
bobl Israel.—LUC ii. 29–32.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd
Glân. Amen.

1

VII. HWYR WEDDIAU.

O! ARGLWYDD, cadw ni
Dan gysgod d'adain glyd,
A llanw'n henaid ni â'th hedd,
Tra fyddwn yn y byd. Amen.

H.H.H.

2

YN nhywyll orïau'r nos,
O! Arglwydd, cadw ni;
A gad i'n henaid orffwys byth
Yn dy dangnefedd Di. Amen, ac Amen.

J.J.W.

3

TANGNEFEDD Duw, yr hwn sydd uwchlaw
pob deall, a gadwo ein calonau a'n meddyliau
yng Nghrist Iesu. Amen.

4

WRTH droi o'r Tŷ diolchwn am dy wedd,
Dilyn ni adref oll â'th hyfryd hedd. Amen.

W.EV.

¶ Awgrymir hefyd emynau 337, 637, 748, 749, 750, a'u cyffelyb, i'r un pwrpas.

VIII. Y FENDITH APOSTOLAIDD.

GRAS ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fyddo gyda ni oll. Amen.

ANTHEMAU.

1 “*Addolwch yr Arglwydd.*”

ADDOLWCH yr Arglwydd mewn prydfferthwch sancteiddrwydd: ofnwch ger ei fron Ef, yr holl ddaear. Harddwch a gogoniant sydd o'i flaen Ef; nerth a hyfrydwch sydd yn ei gysegr.—
SALM xcvi. 9, 6.

2 “*Sanctaidd yw ein Harglwydd Dduw.*”

SANCTAIDD yw ein Harglwydd Dduw.
Uchder nef ei drigfan yw;
Engyl folant Frenin nef,
Daear chwydda'r anthem gref. c. S.J.R.

3 “*Eiddot Ti, O Arglwydd, yw'r mawredd.*”

EIDDOT Ti, O Arglwydd, yw'r mawredd, a'r gallu, a'r gogoniant, a'r oruchafiaeth, a'r deyrnas: cans y cwbl sydd yn y nefoedd a'r ddaear sydd eiddot Ti; eiddot yw'r deyrnas, O Arglwydd. Tydi a ymddyrchefaist yn ben ar bob peth.—
1 CRON. xxix. 11.

4 “*Ti yw fy Nuw.*”

DYSG i mi wneuthur dy ewyllys Di; canys Ti yw fy Nuw: tywysed dy ysbryd daionus fi i dir uniondeb.

Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffordd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd.

Agos yw yr Arglwydd at y rhai oll a alwant arno, at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd.

Efe a wna ewyllys y rhai a'i hofnant : gwrendy hefyd eu llefain, ac a'u hachub hwynt. Amen.—SALM cxliii. 10 ; cxlv. 17-19.

5 “*Yr Arglwydd yw fy nghraig.*”

YR ARGLWYDD yw fy nghraig, a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd i.

Yn fy nghyfyngdra y gelwais ar yr Arglwydd, ac y gwaeddais ar fy Nuw ; ac Efe a glybu fy llef, ac a'm gwaredodd, am iddo ymhoffi ynof.

Am hynny y moliannaf Di, O Arglwydd, ac y canaf i'th enw yn dragywydd. Amen.—2 SAMUEL xxii. 2, 7, 20, 50, 51.

6 “*Duw sydd berffaith ei ffordd.*”

DUW sydd berffaith ei ffordd : a gair yr Arglwydd sydd wedi ei buro : tarian yw Efe i bawb a ymddiriedant ynddo.

Canys pwy sydd Dduw heblaw yr Arglwydd ? a phwy sydd graig ond ein Duw ni ?—SALM xviii. 30, 31.

7 “*Dyrchafaf Di.*”

DYRCHAFAF Di, fy Nuw, O Frenin ; a bendithiaf dy enw byth ac yn dragywydd.

Beunydd y'th fendithiaf ; a'th enw a folaf byth ac yn dragywydd.

Mawr yw yr Arglwydd, a chanmoladwy iawn ; a'i fawredd sydd anchwiliadwy.—SALM cxlv. 1-3.

8 “*Mawr yw yr Arglwydd.*”

MAWR yw yr Arglwydd, a thra moliannus, yn ninas ein Duw ni, yn ei fynydd sanctaidd.

Tegwch bro, llawenydd yr holl ddaear, yw mynydd Seion, yn ystlysau y gogledd, dinas y Brenin mawr.

Meddyliasom, O Dduw, am dy drugaredd yng nghanol dy deml. Amen.—SALM xlvi. 1, 2, 9.

9 “*Dyrchafaf fy llygaid.*”

DYRCHAFAF fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymorth.

Fy nghymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd, yr Hwn a wnaeth nefoedd a daear. Amen.—SALM cxxi. 1, 2.

10 “*Canaf i'r Arglwydd.*”

CANAF i'r Arglwydd tra fyddwyf fyw: canaf i'm Duw tra fyddwyf.

Bydd melys fy myfyrdod amdano.—SALM civ. 33, 34.

11 “*Wele, mor ddaionus a hyfryd.*”

WELE, mor ddaionus a hyfryd yw trigo o frodyr ynghyd!

Traetha fy ngenau foliant yr Arglwydd: a benthied pob cnawd ei enw sanctaidd Ef byth ac yn dragywydd.—SALM cxxxiii. 1; cxlv. 21.

12 “*Pan lesmeirio fy nghalon.*”

PAN lesmeirio fy nghalon, arwain fi i graig a fyddo uwch na mi.

Paham y'th ddarostyngir, O fy enaid? a phaham yr ymderfysgi ynof? Gobeithia yn Nuw; canys eto y moliannaf Ef, yr Hwn yw iechydwriaeth fy wŷneb, a'm Duw.—SALM lxi. 2; xliii. 5.

13 “*Duw sydd noddfa.*”

DUW sydd noddfa a nerth i ni, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

Am hynny nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr :

Er rhuo a therfysgu o'i ddyfroedd, er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef.

Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhânt ddinas Duw ; cysegr preswylfeydd y Goruchaf.

Duw sydd yn ei chanol ; nid ysgog hi : Duw a'i cynorthwya yn fore iawn. Amen.—SALM xlv. 1-5.

14 “*Duw sydd noddfa.*”

DUW sydd noddfa a nerth i ni, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

Am hynny nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr :

Er rhuo a therfysgu o'i ddyfroedd, er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef. Amen.—SALM xlv. 1-3.

15 “*Graslawn a thrugarog.*”

GRASLAWN a thrugarog yw yr Arglwydd ; hwyrfrydig i ddig, a mawr ei drugaredd.

Daionus yw yr Arglwydd i bawb : a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd.—SALM cxlv. 8, 9.

16 “*Cofia yn awr dy Greawdwr.*”

COFIA yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctid, cyn dyfod y dyddiau blin, a nesáu o'r blynyddoedd yn y rhai y dywedi, Nid oes i mi ddim diddanweh ynddynt.

Canys Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynnag fyddo ai da ai drwg.—PREGETHWYR xii. 1. 14.

17 “*O deuwch i'r dyfroedd.*”

O DEUWCH i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; prynwch win a llaeth heb arian ac heb werth.

Paham y gweriwch arian am yr hyn nid yw fara? a'ch llafur am yr hyn nid yw yn digoni?

Ceisiwch yr Arglwydd, tra galler ei gael Ef; gelwch arno, tra fyddo yn agos.—ESAIA IV. 1, 2, 6.

18 “*Llonna, O Arglwydd, enaid dy was.*”

L LONNA, O Arglwydd, enaid dy was; cans atat Ti y dyrchafaf fy enaid.—SALM LXXXVI. 4.

19 “*Gwynnach na'r eira.*”

G OLCHEM fi yn llwyr-ddwys oddi wrth fy anwiredd, a glanha fi oddi wrth fy mhechod.

Glanha fi ag isop, a mi a lanheir: golch fi, a byddaf wynnach na'r eira.—SALM LI. 2, 7.

20 “*O Dduw, yn ôl dy gariad rhad.*”

O DDUW, yn ôl dy gariad rhad, na chofia ein drygau mwy. Maddau holl feiau'n bywyd, a rho ras i ni rodio'n ôl dy air; i ochelyd drwg, ac i droi at rinwedd, fel y gallom iawn gyfarwyddo'n traed i gadw dy ddeddfau ddyddiau'n hoes.

21 “*Trugarha wrthyf, O Dduw.*”

T RUGARHA wrthyf, O Dduw, yn ôl dy drugarowgrwydd: yn ôl lliaws dy dosturiaethau, dilea fy anwireddau.

Golch fi yn llwyr-ddwys oddi wrth fy anwiredd, a glanha fi oddi wrth fy mhechod.

Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau: a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron.

Cuddia dy wŷneb oddi wrth fy mhechodau, a dilea fy holl anwireddau.

Crea galon lân ynof, O Dduw; ac adnewyddas ysbryd uniawn o'm mewn.

Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron; ac na chymer dy ysbryd sanctaidd oddi wrthyf.

Dyro drachefn i mi orfoledd dy iechydwrriaeth; ac â'th hael ysbryd cynnal fi. Amen.—SALM li. 1-3, 9-12.

22 “*Burw dy faich.*”

BWRW dy faich ar yr Arglwydd, ac Efe a'th gynnal di: ni ad Efe i'r cyfiawn ysgogi byth.—SALM lv. 22.

23 “*Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd?*”

PWY a esgyn i fynydd yr Arglwydd? a phwy a saif yn ei le sanctaidd Ef?

Y glân ei ddwyllaw, a'r pur ei galon; yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo.

Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd, a chyfiawnder gan Dduw ei iechydwrriaeth.—SALM xxiv. 3-5.

24 “*Na thralloder eich calon.*”

NA thralloder eich calon: yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof Innau hefyd.

Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau: a phe amgen, Mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf Fi yn myned i baratoi lle i chwi.

Ac os Myfi a af, ac a baratoaf le i chwi, Mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymeraf chwi ataf fy Hun; fel lle yr wyf Fi, y byddoch chwithau hefyd. Amen.—IOAN xiv. 1-3.

25

“*Deuwch ataf Fi.*”

DEUWCH ataf Fi bawb a'r sy'n flinderog ac yn llwythog, a Mi a esmwythâf arnoch.

Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch gennyf Fi; canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon: a chwi a gewch orffwystra i'ch eneidiau:

Canys fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn.

26

“*O! fy Iesu, 'Mhriod annwyl.*”

O! FY Iesu, 'Mhriod annwyl,
Cofia eiddil gwael di-lun,
Sydd yn gŵyro bob munudyn,
Sydd yn blino arno'i hun;
Tro fy ngolwg at dy haeddiant,
A'th drugaredd ryfedd rad;
Rho dangnefedd yn fy mynwes,
Rho faddeuant yn dy waed.

Anfon un pelydryn tirion

O'th orseddfainc ddisglair fry,

Nes bod dydd yn siriol wenu

Ar ôl noswaith dywyll ddu;

F'enaidd innau yn cael myned,

Fel aderyn bach o'r llawr,

Ar adenydd cariad cynnes

Fry i'th fynwes, Iesu mawr. Amen.

D.CS.

27

“*O! fy Arglwydd, O! fy Mhrynwr.*”

O! FY Arglwydd, O! fy Mhrynwr,

O! fy Ngheidwad, O! fy Nuw;

Ti, fy Iesu, yw fy nghwbwl,

Ar dy haeddiant 'r wyf yn byw;

Ffrwyth dy boen, a gwerth dy aberth,

Rhinwedd iawnol dwyfol waed,

Dyma wraidd fy holl orfoledd,

Dyma'r Graig sydd dan fy nhraed.

D.HO.

28

“Dirmygedig yw.”

DIRMYGEDIG yw, a diystyraf o'r gwŷr; Gŵr gofidus, a chynefin â dolur.

Efe a archollwyd am ein camweddau ni, Efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno Ef, a thrwy ei gleisiau Ef yr iachawyd ni.

Efe a orthrymwyd, Efe a gystuddiwyd.—ESAIAS liii. 3, 5, 7.

29

“O Brynwr mawr y byd.”

O BRYNWR mawr y byd, yr Hwn trwy dy groes a'th angau drud a'n prynaist ni, cymorth ac achub ni. Ymostwng i'n gwrando, O Dduw. Amen.

30

“Hwn ydyw'r dydd.”

HWN ydyw'r dydd y cododd Crist,
Gan ddryllio pyrth y bedd;
O! cyfod, f'enaid—na fydd drist—
I edrych ar ei wedd.

Cyfodi wnaeth i'n cyfiawnhau,
Bodlonodd ddeddf y nef;
Er maint ein pla, cawn lawenhau—
Mae'n bywyd ynddo Ef.

Gorchfygodd angau trwy ei nerth,
Ysbeiliodd uffern gref;
Ac annherfynol ydyw'r gwerth
Gaed yn ei angau Ef.

Esgynnodd mewn gogoniant llawn
Goruwch y nefoedd fry;
Ac yno mae, ar sail ei Iawn,
Yn eiriol drosom ni.

Pob gallu llawn, trwy'r byd a'r nef,
Sydd yn ei law yn awr;
Ni rwystra gallu uffern gref
Ddibenion Iesu mawr. Amen.

31 “*Am fod fy Iesu'n fyw.*”

AM fod fy Iesu'n fyw,
 Byw hefyd fydd ei saint ;
 Er gorfod dioddef poen a briw,
 Mawr yw eu braint :
 Bydd melys lanio draw,
 'N ôl bod o don i don ;
 Ac mi rof ffârwel maes o law
 I'r ddaear hon.

Ac yna gwyn fy myd,
 Tu draw i'r byd a'r bedd :
 Caf yno fyw dan foli o hyd
 Mewn hawddfyd hedd ;
 Yng nghwmni'r nefol Oen,
 Heb sôn am bechod mwy,
 Ond canu am ei ddirfawr boen
 Byth gyda hwy. Amen.

J.T.

32 “*Gwyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd.*”

GWYN ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd, ac
 y cuddiwyd ei bechod.

Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni
 chuddiais : dywedais, cyffesaf yn fy erbyn fy hun
 fy anwireddau i'r Arglwydd ; a Thi a faddeuaist
 anwiredd fy mhechod.—SALM xxxii. 1, 5.

33 “*Tyrd, Ysbryd Glân.*”

1 **T**YRD, Ysbryd Glân, rho d'olau clir
 I'n harwain drwy yr anial dir ;
 Fel gallom ddilyn Hwnnw a roes
 Ei fywyd trosom ar y groes ;
 Yna, 'n ôl gorffen ar ein gwaith,
 Cael gweld ei wedd ar ben y daith.

2 Tyrd, Ysbryd Glân, i gasglu oll
 O'r plant sy'n cyflym fynd ar goll ;
 Oddi wrth eu Tad sy'n crwydro 'mhell,

Arwain hwy'n ôl i fywyd gwell.
Y teulu'n llawn fo'n llon eu cân,
I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

- 3 Tyrd, Ysbryd Glân, nac aros draw,
Tyrd â thangnefedd yn dy law ;
Taena dy ddoniau fel y gwlith,
Nes meithrin heddwch yn ein plith ;
Dysg ni fod holl deyrnasoedd llawr,
Yn ddeiliaid bawb i'r Brenin mawr.

C.J.ED.

34 “*Na ddiffoddwch yr Ysbryd.*”

NA ddiffoddwch yr Ysbryd.
Na ddirmygwch broffwydoliaethau.
Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.
Ymgedwch rhag pob rhith drygioni.
A gwir Dduw y tangnefedd a'ch sancteiddio yn
gwbl oll : a chadwer eich ysbryd oll, a'ch enaid,
a'ch corff, yn ddiargyhoedd yn nyfodiad ein Har-
glwydd Iesu Grist. Amen, ac Amen.—1 THESA-
LONIAID v. 19–23.

35 “*Gwyn eu byd y meirw.*”

GWYN eu byd y meirw sy'n marw yn yr Ar-
glwydd.
Gorffwysant o'u llafur, a'u gwaith a'u canlyn
hwynt.—DATGUDDIAD xiv. 13.

36 “*Pwy yw y rhai hyn ?*”

PWY yw y rhai hyn sydd wedi eu gwisgo mewn
gynau gwynion ? ac o ba le y daethant ?
Y rhai hyn yw y rhai a ddaethant allan o'r cystudd
mawr, ac a olchasant eu gynau, ac a'u canasant
yng ngwaed yr Oen.
Oherwydd hynny y maent ger bron gorseddfaine
Duw, ac yn ei wasanaethu Ef ddydd a nos yn ei
deml : a'r Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaine
a drig yn eu plith hwynt.

Ni fydd arnynt newyn mwyach, ni fydd arnynt syched mwyach ; ac ni ddisgyn arnynt na'r haul, na dim gwres.

Oblegid yr Oen, yr Hwn sydd yng nghanol yr orseddfaine, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynhonnau bywiol o ddyfroedd : a Duw a sych ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt. —DATGUDDIAD viii. 13—17.

37 “ *Y Cyfiawn a drig yn y nef.*”

Y CYFIAWN a drig yn y nef, gyda Duw a'r Oen ; yn rhoddi'r clod i Dduw am ei ras a'i fawr gariad rhad.

Maent wedi cyrraedd pen eu taith ; gyda'r seintiau canant geinciau, nefol odlau o fawl i Dduw, am eu cadw'n fyw.

38 “ *O ! Fythol-ffyddlon Dduw.*”

O ! FYTHOL-FFYDDLON Dduw,
Ffynhonnell pob daioni,
Cynhaliwr pob peth byw,
Ac Arglwydd llawn haelioni ;
Rho iechyd gwiw i'm cnawd,
I'm henaid llwm nid llai ;
Pa beth sydd well na ffawd ?
Cael calon heb un bai.

C. R.W.P.

39 “ *O ! Dduw Gwirionedd Glân.*”

O ! DDUW gwirionedd glân,
Na'th welodd cnawd heb fraw,
Onid ataliodd Crist
Rym dy ofnadwy law ?
O ! ystyr friwiau'r hoelion dur,
Y bicell fain a'r creulon gur,
Ac er ei fwyn dod i ni
Drugaredd o'n mawr gyni.

C. R.W.P.

40

“ *Y nefoedd sy'n datgan.*”

Y NEFOEDD sy'n datgan clod y Goruchaf,
 A'u seiniau'n adrodd ei enw Ef ;
 Fe'i mawl y ddaear, clodfora'r moroedd,
 O ! derbyn, ddyn, eu dwyfol lef ;
 Y sêr dinifer, pwy sydd yn eu cynnal ?
 A'r haul ar rod yr wybren faith ?
 Fe ddaw yn danbaid, gan loywi'r pellterau,
 Fel rhyw bendefig ar ei daith.

c. T.G.J.

41

Jeriusalem.

A SANGODD traed ein Harglwydd gynt
 Anial fynyddoedd Cymru gu ?
 A welwyd sanctaidd Oen ein Duw
 Hyd ddolydd gwyrddlas Cymru Fu ?
 A fu ei wnebb dwyfol Ef
 Gynt yn goleuo'r dywyll fro ?
 A fu Jeriusalem dinas Duw
 Yng ngwlad y mwg a'r pyllau glo ?

Rhowch im fy mwa euraid llog !
 Saethau fy nymuniadau glân !
 Fy mhicell rhowch ! O ! gwmwl, hollt !
 A dygwch im fy ngherbyd tân.
 Ni chwsg fy nghleddyf yn fy llaw,
 Ni ddianc f'enaidd rhag y gad
 Nes codi mur Jeriusalem
